Rhif: WG31640

Llywodraeth Cymru

# CYNLLUN MOROL CENEDLAETHOL CYMRU - DRAFFT

DRAFFT

## Cynnwys

Cyflwyniad ..... 13
Cwmpas ..... 13
Gweledigaeth ac amcanion ..... 16
Cyd-destun polisi cynllunio morol ..... 18
Cyd-destun polisi cynllunio morol Cymru ..... 18
Cyd-destun polisi cynllunio morol y DU ..... 21
Dull ..... 24
Y broses cynllunio morol ..... 26
Integreiddio â phrosesau cynllunio eraill ..... 26
Sut i ddefnyddio’r cynllun hwn ..... 30
Pwy a ddylai ddefnyddio’r cynllun hwn ..... 30
Sut i gymhwyso’r cynllun hwn ..... 32
Cymhwyso’r cynllun hwn a’i bolisïau mewn ffordd gymesur ..... 36
Trosolwg ar bolisïau’r cynllun hwn a sut i’w dehongli ..... 38
Crynodeb o’r polisïau trawsbynciol cyffredinol ..... 38
Crynodeb o bolisïau ar sectorau ..... 43
Sut i ddehongli polisïau’r cynllun ..... 58
**Polisïau trawsbynciol cyffredinol** ..... 60
Polisi cyffredinol – Polisi cynllunio ..... 60
**Polisi cyffredinol – Sicrhau economi forol gynaliadwy** ..... 62
Cyfleoedd ar gyfer twf glas ..... 63
**Polisïau** ..... 65
**Cefnogi gweithgareddau sy’n economaidd gynaliadwy** ..... 65
**Cefnogi cydfodoli** ..... 67
**Polisi cyffredinol – Sicrhau cymdeithas gryf, iach a chyfiawn** ..... 70
**Cymunedau’r arfordir** ..... 70
**Hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg** ..... 75
Trefadaeth ..... 76
**Newid a llifogydd arfordirol** ..... 86
**Y newid yn yr hinsawdd** ..... 94
Polisi cyffredinol – Byw o fewn terfynau amgylcheddol ..... 97
**Statws Amgylcheddol Da a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy** ..... 97
**Diogelu, adfer a gwella ecosystemau morol** ..... 99
**Darparu rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy’n ecolegol gydlynol ac wedi’i reoli’n dda** ..... 101
**Rhywogaethau estron goresgynnol** ..... 106

DRAFT

WG25663 ISBN: 978-1-4734-5357-9

**Sbwriel môr** ... 107
**Cyflwyno ynni, yn cynnwys sŵn tanddwr** ... 108
**Ansawdd aer a dŵr** ... 110
**Polisi cyffredinol – Hyrwyddo llywodraethu da** ... 114
**Effeithiau cronnol** ... 114
**Cydweithio trawsffiniol** ... 115
Polisïau ar sectorau ... 124
Cyflwyniad i'r penodau ar sectorau ... 124
Ardaloedd Adnoddau Strategol ... 124
Ardaloedd Adnoddau Strategol ... 125
Mapiau ... 126
Strwythur y penodau ar sectorau ... 126
Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau ... 127
Canllawiau ar weithredu polisi cefnogi ... 128
Canllawiau ar weithredu polisi diogelu ... 131
Agregau ... 138
Cyflwyniad ... 138
Amcan y sector ... 144
Polisi'r sector agregau a chanllawiau ar weithredu ... 144
Canllawiau ar weithredu ... 144
Polisi cefnogi ... 147
Polisïau diogelu ... 149
Dyframaethu ... 154
Cyflwyniad ... 154
Amcan y Sector ... 160
Polisi'r sector dyframaethu a chanllawiau ar weithredu ... 161
Polisi cefnogi ... 163
Polisïau diogelu ... 165
Amddiffyn ... 171
Cyflwyniad ... 171
Amcan y sector ... 174
Polisi'r sector amddiffyn a chanllawiau ar weithredu ... 174
Polisi diogelu ... 175
Carthu a gwaredu ... 178
Cyflwyniad ... 178
Amcan y Sector ... 183
Polisi'r sector carthu a gwaredu a chanllawiau ar weithredu ... 183

DRAFT

Polisi cefnogi ... 185
Polisïau diogelu ... 186
Ynni – Carbon isel ... 189
Cyflwyniad ... 189
Amcan y sectorau ... 197
Polisi’r sector Ynni – Carbon Isel a chanllawiau ar weithredu ... 198
Polisïau cefnogi ... 201
Polisïau diogelu ... 205
Ynni – Olew a nwy (yn cynnwys dadlwytho a storio nwy a dal a storio carbon deuocsid) ... 213
Cyflwyniad ... 213
Amcan y sector ... 221
Polisi’r sector olew a nwy a chanllawiau ar weithredu ... 221
Polisïau cefnogi ... 223
Polisïau diogelu ... 224
Pysgodfeydd ... 228
Cyflwyniad ... 228
Amcan y Sector ... 236
Polisi’r sector pysgodfeydd a chanllawiau ar weithredu ... 236
Polisi cefnogi ... 238
Polisïau diogelu ... 239
Porthladdoedd a morgludo ... 247
Cyflwyniad ... 247
Amcan y sector ... 258
Polisi’r sector porthladdoedd a morgludo a chanllawiau ar weithredu ... 258
Polisïau cefnogi ... 259
Polisi diogelu ... 263
Ceblau o dan y môr ... 267
Cyflwyniad ... 267
Amcan y ... 272
Polisi’r sector ceblau o dan y môr a chanllawiau ar weithredu ... 272
Polisi cefnogi ... 274
Polisi diogelu ... 276
Trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff ... 279
Cyflwyniad ... 279
Amcan y sector ... 284
Polisi’r sector trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff a chanllawiau ar weithredu ... 284
Polisi diogelu ... 285
Twristiaeth a hamdden ... 290

DRAFT

Cyflwyniad ... 290
Amcan y sector ... 296
Polisi'r sector twristiaeth a hamdden a chanllawiau ar weithredu ... 296
Polisi cefnogi ... 298
Polisi diogelu ... 301
Atodiad 1 – Y dull o ymdrin â chynllunio morol ar gyfer Cymru ... 305
Atodiad 2- Acronymau a Byrfoddau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ... 322
AGG ... 322
Polisi Agregau ... 322
AHNE ... 322
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ... 322
AHS ... 322
Awdurdod Harbwr Statudol ... 322
ALl ... 322
Awdurdod lleol ... 322
AMLU ... 322
Amcan Morol Lefel Uchel ... 322
AMP ... 322
Cynllun Rheoli Asedau ... 322
AQMA Ardal Rheoli Ansawdd Aer ... 322
AQU ... 322
Polisi Dyframaethu ... 322
BAP ... 322
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ... 322
BEIS ... 322
Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ... 322
BMAPA ... 322
Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain ... 322
CAB ... 322
Polisi Ceblau o dan y môr ... 322

DRAFT

CBHC ........ 322
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ........ 322
CCGT ........ 322
Tyrbinau nwy cylch cyfun ........ 322
CCRA Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd ........ 322
CCS ........ 322
Dal a storio carbon ........ 322
CDLl ........ 322
Cynllun Datblygu Lleol ........ 322
CEBR ........ 322
Centre for Economics and Business Research ........ 322
Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu ........ 322
CFP ........ 322
Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ........ 322
CMCC ........ 322
Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ........ 322
CNC ........ 322
Cyfoeth Naturiol Cymru ........ 322
COLREGS Rheoliadau IMO ar Wrthdaro ........ 322
CSO ........ 322
Gorlif Carthffosiaeth Cyfunol ........ 322
D & D ........ 322
Polisi Carthu a gwaredu ........ 322
DEF ........ 322
Polisi Amddiffyn ........ 322
Defra ........ 322
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ........ 322
DfT ........ 322

DRAFT

Yr Adran Drafnidiaeth ... 322
DIO Sefydliad Seilwaith Amddiffyn ... 322
DMMA Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ... 322
DPM Datganiad Polisi Morol ... 322
DWI ... 322
Arolygiaeth Dŵr Yfed ... 322
EA ... 322
Asiantaeth yr Amgylchedd ... 322
ECON ... 322
Polisi Economaidd ... 322
EEA ... 322
Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop ... 322
EEZ ... 322
Parth Economaidd Cyfyngol ... 322
EIA Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ... 322
ELC ... 322
Ynni carbon isel ... 322
ENV ... 322
Polisi'r Amgylchedd ... 322
EPS Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop ... 322
FET ... 323
Future Environmental Technologies ... 323
FHI Arolygiaeth Iechyd Pysgod ... 323
FIS ... 323
Polisi Pysgodfeydd ... 323
FPSO ... 323
Dadlwytho, storio a chynhyrchu arnofiol ... 323
FSA Asiantaeth Safonau Bwyd ... 323



DRAFT

FfDC Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ... 323
GEN ... 323
Polisi trawsbynciol cyffredinol ... 323
GES Statws Amgylcheddol Da ... 323
GDP ... 323
Cynnyrch Domestig Gros ... 323
GVA Gwerth Ychwanegol Gros ... 323
GOV Polisi Llywodraethu ... 323
GRh Gorchymyn Rheoleiddio ... 323
HEO ... 323
Gorchymyn Grymuso Harbwr ... 323
HGV ... 323
Cerbyd nwyddau trwm ... 323
HRO ... 323
Gorchymyn Diwygio Harbwr ... 323
HSE ... 323
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ... 323
HVDC ... 323
Cerrynt uniongyrchol foltedd uchel ... 323
ICZM Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ... 323
IFCA Awdurdod Gwarchod Pysgodfeydd y Glannau ... 323
iMADP ... 323
Polisi dros dro ar garthu agregau morol ... 323
INNS Rhywogaethau estron goresgynnol ... 323
IMO ... 323
Y Sefydliad Morol Rhyngwladol ... 323
IPCC Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd ... 323
IROPI Am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig. ... 323

DRAFT

IUCN .......... 323

Undeb Cadwraeth y Byd .......... 323

JNCC .......... 323

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur .......... 323

KIS-ORCA Kingfisher Information Service - Offshore Renewable & Cable Awareness .......... 323

LCRU .......... 323

Uned Ymchwil Carbon Isel .......... 323

LNG .......... 323

Nwy Naturiol Hylifedig .......... 323

LRF Fforwm Lleol Cymru Gydnerth .......... 323

LWEL .......... 323

Byw o fewn terfynau amgylcheddol .......... 323

LlC .......... 323

Llywodraeth Cymru .......... 323

MAREA Asesiad Amgylcheddol Rhanbarthol Agregau Morol .......... 323

MARPOL .......... 323

Confensiwn Rhyngwladol er Atal Llygredd o Longau .......... 323

MCA .......... 323

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau .......... 323

MCCIP .......... 323

Partneriaeth Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd ar y Môr .......... 323

MCRS .......... 323

Maint cyfeirio cadwraethol lleiaf .......... 323

MCZ Parth Cadwraeth Morol .......... 323

MER .......... 323

Y rheidrwydd economaidd i adfer cymaint â phosibl o adnoddau .......... 323

MHPA .......... 323

Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau .......... 323

DRAFT

MHWS Cymedr penllanw'r gorllanw ...... 323
MLWS Cymedr distyll y gorllanw ...... 323
MMMU ...... 323
Uned Rheoli Mamaliaid Môr ...... 323
MOD Y Weinyddiaeth Amddiffyn ...... 323
MPA Ardal Forol Warchodedig ...... 323
MSC ...... 324
Y Cyngor Stiwardiaeth Forol ...... 324
MSY ...... 324
Cynnyrch cynaliadwy mwyaf ...... 324
NATURA Rhwydwaith o ardaloedd gwarchod natur yn yr UE ...... 324
NCP Cynllun Wrth Gefn Cenedlaethol ...... 324
NE ...... 324
Natural England ...... 324
NRP Polisi Adnoddau naturiol ...... 324
NSIP Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ...... 324
O & G Polisi Olew a Nwy ...... 324
OECD Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ...... 324
OESEA ...... 324
Asesiad Amgylcheddol Strategol y DU ar gyfer Ynni Alltraeth ...... 324
OFWAT ...... 324
Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr ...... 324
OGA ...... 324
Yr Awdurdod Olew a Nwy ...... 324
OPRED ...... 324
Y Rheoleiddiwr Petrolewm Alltraeth ar gyfer yr Amgylchedd a Datgomisiynu ...... 324
ORJIP ...... 324
Cyd-raglen y Diwydiant Ynni Adnewyddadwy Alltraeth ...... 324



DRAFT

OSPAR ..... 324

Confensiwn Oslo-Paris ar warchod yr amgylchedd morol yn rhan Ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd.. 324

PCC ..... 324

Polisi Cynllunio Cymru..... 324

PEXA ..... 324

Ardal ymarfer y Weinyddiaeth Amddiffyn ..... 324

PID ..... 324

Dogfen Cychwyn Prosiect ..... 324

P & S ..... 324

Polisi Porthladdoedd a morgludo ..... 324

RA Ardal Adnoddau ..... 324

RAS Systemau Dyframaethu Ailgylchredeg ..... 324

RAMSAR ..... 324

Fframwaith ar gyfer Gweithredu Cenedlaethol a Chydweithredu Rhyngwladol er mwyn gwarchod a defnyddio gwlyptiroedd ..... 324

RBMP Cynllun rheoli basn afon ..... 324

RIGS Safle Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol ..... 324

RNLI ..... 324

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub ..... 324

RPA ..... 324

Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig ..... 324

RSA ..... 324

Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau ..... 324

SA ..... 324

Arfarniad o gynaliadwyedd ..... 324

SBTL ..... 324

Morlyn Llanw Bae Abertawe ..... 324

SCI ..... 324

Polisi Gwyddoniaeth ..... 324

SD Datblygu cynaliadwy ..... 324

SDP Cynllun Datblygu Strategol ..... 324

SEA ..... 324

Asesiad Amgylcheddol Strategol ..... 324

SEP ..... 324

Partneriaeth Aber Hafren ..... 324

SIC Dosbarthiad Diwydiannol Safonol ..... 324

SMNR Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ..... 324

SMP ..... 324

Cynllun Rheoli Traethlin ..... 324

SO Gorchymyn Pysgodfa Unigol ..... 324

SOC ..... 324

Polisi Cymdeithasol ..... 324

SoDdGA ..... 324

Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ..... 324

SOLAS ..... 324

Y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Diogelwch Bywyd ar y Môr ..... 324

SoNaRR ..... 324

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ..... 324

SRA Ardal Adnoddau Strategol ..... 324

SUDS ..... 324

Cynllun draenio trefol cynaliadwy ..... 324

SWW Polisi Trin a gwaredu dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff ..... 325

TAN Nodyn Cyngor Technegol ..... 325

TCE Ystad y Goron ..... 325

TEN-E ..... 325

Trans-European Network - Energy ..... 325

DRAFT

TSS ..... 325
Cynllun gwahanu trafnidiaeth ..... 325
UAS Systemau awyrennau di-griw ..... 325
UKHO ..... 325
Swyddfa Hydrograffeg y Deyrnas Unedig ..... 325
UKMMAS Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU ..... 325
UNCLOS ..... 325
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr ..... 325
USUV Cerbydau di-griw ar wyneb y dŵr ac o dan ddŵr ..... 325
WelTAG ..... 325
Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru ..... 325
WFD Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ..... 325
WFGA Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ..... 325
WMFAG ..... 325
Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru ..... 325
WORS ..... 325
Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru ..... 325

DRAFT

## Cyflwyniad

1. Mae ardal forol Cymru yn cynnwys adnoddau naturiol amrywiol a gwerthfawr sy'n hanfodol i'n llesiant ni a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, mae ein moroedd yn dod yn fwyfwy gorlawn, gan greu cystadleuaeth am le a'r defnydd o'n hadnoddau naturiol. Rydym wedi ymrwymo i reoli ein hadnoddau naturiol morol yn gynaliadwy fel y byddant yn iach a chydnerth er mwyn i genedlaethau'r dyfodol allu elwa o'r cyfleoedd economaidd a chymdeithasol sylweddol y maent yn eu cynnig.

2. Y Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru hwn (CMCC, y cyfeirir ato fel "y cynllun" drwy gydol y ddogfen hon) yw'r cynllun morol cyntaf i Gymru ac mae'n ddechrau ar broses o lunio cynlluniau morol i gyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Ei ddiben yw llywio datblygu cynaliadwy yn ein hardal forol drwy egluro sut y bydd cynigion ar gyfer ei defnyddio'n cael eu hystyried gan benderfynwyr gan gynnwys, yn benodol, yr awdurdodau sy'n rhoi caniatadau.

3. Mae'r ddogfen hon yn gynllun morol ar gyfer rhanbarth y glannau a rhanbarth môr mawr cynllun morol Cymru ac mae wedi'i pharatoi a'i mabwysiadu i ddibenion adran 51 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (DMMA) 2009 yn unol ag Atodlen 6 i'r Ddeddf a hefyd cydymffurfio â Datganiad Polisi Morol y DU.  Dylai'r cynllun hwn a'r cyngor ategol gael eu defnyddio gan **ymgeiswyr** i lunio ceisiadau am drwyddedau, gan **awdurdodau cyhoeddus** i lywio eu penderfyniadau, a chan **ddefnyddwyr eraill** i ddeall polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r dyfroedd hynny o fewn ardal cynllun morol (Cenedlaethol) Cymru yn gynaliadwy.

4. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu:
   - gweledigaeth ac amcanion y cynllun ar gyfer moroedd Cymru;
   - y cyd-destun i gynllunio morol a'n dull o gynhyrchu'r cynllun hwn;
   - sut y dylid defnyddio'r cynllun hwn;
   - polisïau trawsbynciol cyffredinol y cynllun a chanllawiau ar weithredu'r polisïau;
   - polisïau'r cynllun ar gyfer sectorau penodol a chanllawiau ar weithredu'r polisïau.

## Cwmpas

### Cwmpas daearyddol

5. Mae ardal cynllun morol Cymru yn cwmpasu tua 32,000 $km^2$ o fôr, yn ogystal ag arfordir sy'n 2,120 km o hyd. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys rhanbarth glannau Cymru (o gymedr penllanw'r gorllanw hyd at 12 milltir forol o'r lan) a rhanbarth môr mawr Cymru (y tu hwnt i 12 milltir forol)[1] mewn un ddogfen (Ffigur 1). Os na nodwyd yn wahanol, mae polisïau yn y cynllun hwn yn gymwys i ranbarth y glannau a rhanbarth y môr mawr yng Nghymru.

[1] a.322(2) DMMA

DRAFT

 **ISBN: 978-1-4734-5357-9**

## Cwmpas swyddogaethol

6. Mae'r rheolaeth ar weithgareddau yn nyfroedd Cymru wedi'i rhannu rhwng **swyddogaethau datganoledig** sy'n gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru, a swyddogaethau sydd wedi'u **cadw** gan Lywodraeth y DU. Mae'r cynllun hwn yn gymwys i'r arfer ar swyddogaethau datganoledig a rhai sydd wedi'u cadw[2].

7. Gellir cael newid dros amser yn y cydbwysedd rhwng swyddogaethau datganoledig a rhai a gadwyd. Ar adeg ysgrifennu hyn, mae rhagor o gyfrifoldebau'n cael eu datganoli i Weinidogion Cymru (ee polisi porthladdoedd, gorchmynion ac is-ddeddfau harbwr (ac eithrio porthladdoedd ymddiriedolaeth mawr, nad oes ond un ohonynt yng Nghymru, sef Aberdaugleddau), trwyddedu morol yn rhanbarth y môr mawr, caniatáu prosiectau ynni o hyd at 350MW).

8. Mae darpariaethau yn y cynllun hwn sy'n ymwneud â swyddogaethau datganoledig a rhai a gadwyd. Yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (DMMA) [gweler **Cyd-destun polisi**], mae'r cynllun drafft hwn wedi'i gyhoeddi gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig.

## Hyd ac adolygu


9. Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu cyfnod o 20 mlynedd gan gydnabod ei bod yn bosibl y bydd angen cynllunio ar gyfer rhai gweithgareddau ymhellach na'r cyfnod hwn a bod eraill sy'n debygol o newid yn sylweddol yn ystod oes y cynllun hwn.

10. Mae monitro ac adrodd yn ofyniad statudol (DMMA a.61) ac yn gam pwysig yn y broses cynllunio a fydd yn sicrhau bod y cynllun a'i bolisïau'n cyfrannu'n effeithiol at gyflawni amcanion y cynllun. Byddwn yn adolygu ac yn adrodd bob tair blynedd o leiaf ar effeithiau'r polisïau sydd yn y cynllun ac ar eu heffeithiolrwydd wrth gyrraedd amcanion y cynllun. Mae'r broses cynllunio yn un iterus; yn unol â DMMA, bydd cynlluniau'n cael eu datblygu yn y dyfodol ar sail profiad a dealltwriaeth a gafwyd o brosesau cynllunio blaenorol.

[2] a.60(1) DMMA

DRAFT

**Ffigur 1: Ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC)**



## Gweledigaeth ac amcanion

11. Ein gweledigaeth ar gyfer rhanbarthau cynllunio glannau a môr mawr Cymru yn ystod y cyfnod o 20 mlynedd sydd dan sylw yn y cynllun hwn (cyfnod y cynllun) yw:

> Sicrhau bod moroedd Cymru yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol:
>
> - Drwy ddull sy'n seiliedig ar ecosystem, mae ein moroedd yn iach ac yn gydnerth ac yn cefnogi economi gynaliadwy a ffyniannus.
> - Drwy fynediad i'r amgylchedd morol a mwynhad ohono, mae iechyd a llesiant yn gwella.
> - Drwy Dwf Glas mae mwy o swyddi a chyfoeth yn cael eu creu sy'n helpu cymunedau arfordirol i ddod yn fwy cydnerth, ffyniannus a theg gyda diwylliant bywiog.
> - Drwy ddefnyddio technolegau carbon isel yn gyfrifol, mae ardal forol Cymru yn gwneud cyfraniad cryf at ddiogelu ffynonellau ynni a chyflawni targedau allyriadau newid yn yr hinsawdd.
>
> Mae ein gweledigaeth yn cael ei chyflawni drwy ddull integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cael ei arwain gan gynllun sy'n parchu defnydd a buddiannau sefydledig ond gan sicrhau manteision yn sgil cyfleoedd newydd, gan gydnabod pwysigrwydd cydnerthedd ecosystemau, gwerth bioamrywiaeth a'r rheidrwydd i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

12. Mae'r weledigaeth yn gyson â'r weledigaeth a rennir yn y DU o sicrhau moroedd a chefnforoedd sy'n **lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol** ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i Ddatblygu Cynaliadwy a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 [gweler **Cyd-destun polisi**]. Yn Atodiad 1, eglurir sut mae'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem wedi cael ei gymhwyso wrth ddatblygu'r cynllun hwn.

13. Bydd y weledigaeth yn cael ei chyflawni drwy amcanion y cynllun, sydd wedi'u dangos yn Nhabl 1, sydd wedi'u hategu gan y polisïau trawsbynciol cyffredinol ac amcanion a pholisïau sector-benodol [gweler **Trosolwg ar bolisïau'r cynllun hwn a sut i'w dehongli** a'r penodau ar sectorau penodol].

14. Mae amcanion y cynllun a'r amcanion sector-benodol yn amlinellu'r canlyniadau arfaethedig neu'r newidiadau y mae'r cynllun hwn yn ceisio eu sicrhau er mwyn cyflawni'r weledigaeth. Maent yn cefnogi themâu'r Amcanion Morol Lefel Uchel yn Natganiad Polisi Morol y DU [gweler **Cyd-destun polisi].**

## Tabl 1. Amcanion y cynllun

| AMLU | Amcan | |
|---|---|---|
| Cyffredinol | 1 | Hybu datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru, gan sicrhau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy drwy ystyried effeithiau cronnol yr holl ffyrdd o ddefnyddio'r amgylchedd morol. |
| Sicrhau economi forol gynaliadwy | 2 | Cyfrannu at economi ffyniannus yng Nghymru drwy hybu gweithgareddau economaidd gynhyrchiol a phroffidiol a busnesau cynaliadwy sy'n creu cyflogaeth hirdymor ar yr holl lefelau sgiliau. |
| | 3 | Manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ddatblygu adnoddau ynni adnewyddadwy morol yn gynaliadwy, gan helpu i gyflawni amcanion y DU ar gyfer diogelu ffynonellau ynni a lleihau carbon, gan roi ystyriaeth lawn i fuddiannau rhai eraill a chydnerthedd ecosystemau. |
| | 4 | Darparu lle i gefnogi gweithgarwch economaidd cynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol drwy reoli amlddefnydd, gan hybu cydfodolaeth rhwng gweithgareddau cydweddol, lliniaru gwrthdaro rhwng defnyddwyr a, lle bo modd, drwy leihau'r dadleoli ar weithgareddau presennol. |
| Sicrhau cymdeithas gryf, iach a chyfiawn | 5 | Lleihau tlodi a helpu i ddatblygu cymunedau arfordirol sy'n fywiog, yn decach, yn ddiwylliannol neilltuol, yn gydlynus ac yn gydnerth. |
| | 6 | Hybu mwynhad a stiwardiaeth ar ein harfordir a'n moroedd a'u hadnoddau drwy hyrwyddo mynediad teg a diogel i'r amgylchedd morol, gan ddiogelu a hyrwyddo tirweddau, morweddau ac asedau treftadaeth gwerthfawr |
| | 7 | Gwella dealltwriaeth a galluogi camau i liniaru ac addasu i'r newid yn yr amgylchedd. |
| Byw o fewn terfynau amgylcheddol | 8 | Helpu i gyrraedd a chynnal Statws Amgylcheddol Da (GES). |
| | 9 | Diogelu, cadw, adfer a gwella bioamrywiaeth forol er mwyn atal a gwrthdroi ei dirywiad. |
| | 10 | Cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau morol a'r buddion y maent yn eu rhoi er mwyn cwrdd ag anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **Hyrwyddo llywodraethu da** | 11 | Cefnogi penderfynu cymesur, cyson ac integredig drwy weithredu polisïau blaengar drwy ddull rhagofalus ac ymaddasol o reoli moroedd Cymru sy'n cael ei arwain gan gynllun ac yn seiliedig ar risgiau. |
| | 12 | Cymhwyso egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy at benderfynu drwy ddull sy'n cael ei arwain gan gynllun a gyflawnir yn unol ag egwyddorion dull rheoli ar lefel yr ecosystem. |
| **Gwneud defnydd cyfrifol o dystiolaeth wyddonol** | 13 | Datblygu sylfaen dystiolaeth forol hygyrch a rennir i hybu'r defnydd o dystiolaeth gadarn a darparu mecanwaith i gael gwell dealltwriaeth o nodweddion unigryw Ardal Forol Cymru a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig .. |

## Cyd-destun polisi cynllunio morol

### Cyd-destun polisi cynllunio morol Cymru

14. Bydd y cynllun hwn, sy'n un o set o gynlluniau morol ar gyfer y DU, yn cyfrannu at ddatblygu ardal forol y DU mewn ffordd gynaliadwy ac yn helpu i wireddu'r weledigaeth rydym yn ei rhannu ar gyfer y DU. Mae cynllunio morol i Gymru yn gweithredu o fewn fframwaith y DU ac mae iddo ffocws Cymreig penodol sy'n adlewyrchu chyd-destun deddfwriaethol cyfrifoldebau ac ymrwymiadau datganoledig.


15. Er y bydd cynllunio morol yn ffordd bwysig o gyfrannu at wireddu ein gweledigaeth ar gyfer ein moroedd, nid yw ond yn un rhan o ddarlun ehangach. Mae ystod eang o ofynion perthnasol wedi'i gosod eisoes mewn polisi a rheoliadau. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu o fewn y cyd-destun hwn (Ffigur 2) ac mae'n cyfeirio at y gofynion hyn fel y bo'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys, ymysg eraill:

16. Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor Cymru. Mae'r Ddeddf yn cwmpasu Cymru gyfan gan gynnwys rhanbarth cynllunio morol y glannau ac mae'n gymwys i'r holl bolisi datganoledig yn y cynllun hwn. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus a restrwyd yn cymhwyso egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth gyflawni eu swyddogaethau ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain. Mae'n pennu 7 nod llesiant (**nodau llesiant Cymru**) a 5 ffordd o weithio (Ffigur 2). Yn Atodiad 1, dangosir sut mae'r broses cynllunio morol yn cymhwyso'r ffyrdd hyn o weithio ac yn cyfrannu at gyflawni'r nodau hyn ar draws ardal y cynllun. Wrth wneud hynny, mae'r cynllun hwn:

DRAFT

- Yn edrych i'r **tymor hir** – drwy bennu cyfeiriad dros 20 mlynedd ar gyfer y ffyrdd o ddefnyddio ein moroedd;
- yn cymell gweithredu'n gynnar i **atal problemau** rhag codi neu waethygu;
- yn mabwysiadu **dull integredig** drwy ystyried yr holl ffyrdd o ddefnyddio ein moroedd a'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'i gilydd a hefyd â'n hadnoddau naturiol morol;
- yn cymell ac yn hyrwyddo **cydweithio**;
- wedi' ddatblygu drwy **ymgysylltu** â phartïon sydd â buddiant fel y nodwyd yn y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd.

## Ffigur 2: Cyd-destun polisi cynllunio morol




17. Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol i hyrwyddo **Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy**. Mae'n gymwys i'r holl bolisi datganoledig yn y cynllun hwn.

18. Y diffiniad o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yw "defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu ac, wrth wneud hynny, cwrdd ag anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion". Mae'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Felly mae Rheoli Adnoddau

Naturiol yn Gynaliadwy yn darparu fframwaith i wneud ecosystemau'n fwy cydnerth gan gyfrannu drwy hynny at gyflawni nodau llesiant Cymru.

**Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy**

- rheoli'n ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, lle bo'n briodol, newid camau gweithredu;
- ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu;
- hyrwyddo a chymryd rhan mewn cydweithio a chydweithredu;
- gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan mewn penderfyniadau;
- ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas ag elfennau ansicr;
- ystyried buddion a gwerth hanfodol adnoddau naturiol ac ecosystemau;
- ystyried y canlyniadau tymor byr, canolig a hir i gamau gweithredu;
- cymryd camau i atal difrod sylweddol i ecosystemau;
- ystyried cydnerthedd ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol—
    - (i) amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau;
    - (ii) y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau;
    - (iii) maint ecosystemau;
    - (iv) cyflwr yr ecosystemau (yn cynnwys eu strwythur a'u gweithrediadau)
    - (v) gallu ecosystemau i addasu.

Dr

19. Drwy reoli cynaliadwy, a'r egwyddorion cysylltiedig, mae'r Ddeddf yn rhoi dull yr ecosystem ar sail statudol, gan wneud defnydd o'r arfer gorau ar lefel ryngwladol a'r 12 egwyddor sydd wedi'u cymeradwyo gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol, sy'n cynnwys un ar gyfer sicrhau integredd ecosystemau. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ymdrin ag integredd ecosystemau drwy ganolbwyntio ar gydnerthedd ecosystemau, sy'n ymwneud â gweithredu mewn ffordd gadarnhaol a rhagweithiol a datblygu cydnerthedd yn yr holl ecosystemau i sicrhau na fyddant yn mynd y tu hwnt i'w terfynau cynhenid.

20. Mae'r  Ddeddf yn cyflwyno'r fframwaith ailadroddus a chydgysylltiedig ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy drwy gyhoeddi ac adolygu'r dogfennau canlynol sy'n cwmpasu tir a rhanbarth cynllunio morol y glannau:

- Mae'r **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol** a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn disgrifio sefyllfa adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, a'r graddau y mae Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn cael ei gyflawni.
- Mae'r **Polisi ar Adnoddau Naturiol** a gynhyrchir gan Weinidogion Cymru yn amlinellu eu polisïau cyffredinol a phenodol gan gynnwys y prif flaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.
- Mae **datganiadau ardal** a gynhyrchir gan CNC yn helpu i ddangos sut y gellir cyflawni'r polisi cenedlaethol a'r polisïau cysylltiedig ar lefel leol.
- Mae'r fframwaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ategu'r broses cynllunio morol, gan sicrhau bod y rheolaeth ar adnoddau naturiol yn amgylcheddau'r tir a'r môr yn cael ei hintegreiddio a'i chydgysylltu.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi awdurdodau cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau yng Nghymru o dan Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau fel bod bioamrywiaeth yn cael ei gwneud yn elfen ganolog mewn penderfyniadau.

Mae'r **Rhaglen Lywodraethu**, sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd, yn rhoi eglurhad cyfredol pwysig o flaenoriaethau strategol y Llywodraeth felly mae'n bwysig ei hystyried wrth wneud penderfyniadau.

## Cyd-destun polisi cynllunio morol y DU

21. **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009** (DMMA) sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru a ledled y DU. Mae'n darparu ar gyfer llunio Datganiad Polisi Morol (DPM) ar gyfer y DU, yn pennu mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cynllun morol ar gyfer rhanbarth y glannau a rhanbarth môr mawr Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau morol gael eu llunio os oes DPM yn bodoli, ac yn cynnwys gofynion ar gyfer gweithredu, monitro ac adolygu cynlluniau.

22. Mae **Datganiad Polisi Morol y DU 2011** (DPM) yn darparu'r fframwaith ar gyfer paratoi cynlluniau morol ac yn darparu'r cyd-destun polisi lefel uchel ar gyfer cynllunio morol, gan gynnwys y broses ar gyfer datblygu'r cynllun hwn. Mae'n pennu 5 **Amcan Morol Lefel Uchel** (AMLU) sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn:
    - Sicrhau economi forol gynaliadwy
    - Sicrhau cymdeithas gryf, iach a chyfiawn
    - Byw o fewn terfynau amgylcheddol;
    - Hyrwyddo llywodraethu da;
    - Defnyddio tystiolaeth wyddonol gadarn yn gyfrifol.

23. Mae'r DPM yn cynnwys gofyniad i gymhwyso'r **dull rheoli ar lefel yr ecosystem** at gynllunio morol drwy bennu nifer o egwyddorion i helpu i sicrhau datblygu cynaliadwy. Strategaeth Forol y DU yw'r sail i'r dull hwn o weithredu ar lefel y DU: mae'n galw am ystyried ecosystemau morol a rheoli pwysau dynol, gan gynnwys y rheini sy'n croesi ffiniau gweinyddol. Yng Nghymru, mae'r fframwaith Rheoli

DRAFT

Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ffocws statudol ychwanegol ar gyfer gweithredu dull yr ecosystem drwy'r cynllun hwn. Yn Atodiad 1, eglurir sut mae egwyddorion Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem yn cael eu cymhwyso drwy broses cynllunio morol Cymru.


24. Mae'r DPM hefyd yn cynnwys gofyniad i arfer **rheolaeth integredig ar barthau arfordirol**, gan gydnabod yr angen i gysylltu ar draws tir a môr er mwyn datblygu cynigion a chynlluniau cydategol ar yr arfordir. Nid cynllunio morol yw'r unig fecanwaith ar gyfer arfer rheolaeth integredig ar barthau arfordirol; dylid cymhwyso'r egwyddorion drwy'r holl gyfundrefnau perthnasol ar gyfer cynllunio, rheoli a rheoleiddio. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys polisïau sy'n helpu i sicrhau integreiddio o'r fath, gan gynnwys integreiddio rhwng awdurdodau cynllun morol cyfagos. Mae Atodiad 1 yn dangos sut mae egwyddorion rheolaeth integredig ar barthau arfordirol yn cael eu cymhwyso drwy'r broses ehangach ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru [gweler **Atodiad**].].

25. Mae Llywodraeth y DU yn cynhyrchu **Datganiadau Polisi Cenedlaethol** o dan y **Ddeddf Cynllunio** (2008) sy'n amlinellu polisi Llywodraeth ar gyfer datblygu seilwaith cenedlaethol ar gyfer sectorau penodol. Y Datganiadau Polisi Cenedlaethol sy'n darparu'r fframwaith y mae arolygwyr yn ei ddefnyddio i wneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Gall Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol gwmpasu a bod yn gymwys i ardal y cynllun: os felly, rhaid i benderfyniadau perthnasol gael eu gwneud yn unol â'r rhain a hefyd gan roi sylw i'r cynllun hwn.

26. Ceir synergeddau cryf rhwng y gofynion mewn amrywiaeth fawr o offerynnau deddfwriaethol, mesurau eraill ac ymrwymiadau yr UE/rhyngwladol sy'n berthnasol i gynllunio morol. Bydd camau i gyflawni'r polisïau yn y cynllun hwn yn helpu i weithredu'r offerynnau hyn ar raddfa ehangach. Mae ffigur 3 yn dangos y berthynas rhwng ymrwymiadau rhyngwladol trawsbynciol a pholisi cynllunio ar y tir a'r môr yn y DU.

DRAFT

**Ffigur 3: Cyllunio morol a chyd-destun polisi cynllunio ehangach**



## Dull

27. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu i gydymffurfio â'r DPM a gofynion DMMA.

28. Bydd y broses gyfan ar gyfer cynllunio morol yn hybu'r camau at fabwysiadu llywodraethu morol integredig drwy ddod â phob math o fuddiannau polisi a rhanddeiliaid at ei gilydd mewn perthynas â rheoli ein hamgylchedd morol drwy ddull o weithredu sy'n cael ei arwain gan gynllun. Mae'r cynllun hwn yn hybu rheoli cynaliadwy ar yr amgylchedd morol drwy ddarparu polisi ar gyfer penderfynu. Mae'n gwneud hynny drwy amlinellu polisïau sy'n ymwneud â defnyddio ardal y cynllun yn y dyfodol gyda pholisi sy'n darparu canllawiau gofodol lle bo'n briodol.

29. O'i gymharu ag amgylchedd y tir, mae'r dystiolaeth ar statws yr amgylchedd morol a'r effaith arno o weithgareddau dynol (pwysau) yn gyfyngedig weithiau, a gall fod yn ddrud casglu tystiolaeth o'r fath ac yn anodd o safbwynt technegol. Mae'r cynllun hwn yn darparu cyfarwyddiadau gofodol ynghylch cymhwyso polisïau lle bo'n briodol, ac yn hyrwyddo ffyrdd strategol o gasglu tystiolaeth fel y gellir mireinio cyfarwyddiadau gofodol mewn fersiynau o'r cynllun morol yn y dyfodol. Cafodd ei baratoi gan fanteisio ar y dystiolaeth orau oedd ar gael (crynodeb yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru).


30. Mae'r polisi ar gyfer rhai sectorau wedi'i ategu gan un neu ragor o fapiau er mwyn diffinio polisïau ar sail ofodol neu er mwyn rhoi eglurhad. Yn ogystal â dangos dosbarthiad cyffredinol adnoddau neu batrymau defnyddio presennol, mae rhai mapiau hefyd yn dangos ardaloedd allweddol:

- Dangosir Ardaloedd Adnoddau – ardaloedd eang yw'r rhain sy'n disgrifio dosbarthiad adnodd penodol y mae potensial iddo gael ei ddefnyddio neu sy'n cael ei ddefnyddio gan sectorau morol penodol, ee agregau, dyframaethu neu ynni'r môr.
- Dangosir Ardaloedd Adnoddau Strategol – defnyddir y rhain i ddyrannu gofod a chanoli defnydd yn y dyfodol. Mae'r rhain yn ardaloedd lle mae cyfleoedd da i ddefnyddio adnoddau gan sector penodol yn ystod cyfnod y cynllun ac wedyn. Mae'r Ardaloedd Adnoddau Strategol o fewn yr Ardal Adnoddau gysylltiedig. Mae Ardaloedd Adnoddau Strategol wedi'u dangos ar raddfa eang: rhoddir sylw i faterion a chyfyngiadau lleol sydd â dimensiwn gofodol sy'n gysylltiedig â'r polisïau cyffredinol wrth ystyried cynigion penodol.

31. Gellir cael newid mewn polisïau gofodol ar gyfer cynllunio morol (y rheini sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Adnoddau Strategol) wrth i gynllunio morol gael ei ddatblygu ac wrth i'n dealltwriaeth wella. Bydd dynodi Ardal Adnoddau Strategol drwy'r cynllun hwn yn fodd i gynnal proses o gasglu tystiolaeth ychwanegol a datblygu dealltwriaeth ar gyfer penderfynu ar raddfa leol. Mae'r holl fapiau yn y cynllun hwn yn ddangosol.

DRAFT


## Ffigur 4: Trosolwg ar ardaloedd adnoddau strategol



## Y broses cynllunio morol

32. Mae'r broses cynllunio morol yn cynnwys nifer o gamau: casglu tystiolaeth, nodi materion a chyfleoedd, datblygu polisi, cyflawni, monitro ac adolygu cynlluniau, sydd wedi'u hategu'n barhaus gan ymgysylltu â rhanddeiliaid ac asesiadau o effaith.

### Ffigur 5: Y broses cynllunio morol




33. Mae'r broses cynllunio yn ailadroddus a bydd cynlluniau'n cael eu datblygu yn y dyfodol gan elwa o'r profiad a'r ddealltwriaeth a gafwyd o'r broses cynllunio morol gyntaf hon, gan gynnwys yr allbynnau o unrhyw gynllunio morol ar gyfer sectorau a darparu lefel uwch o gyfarwyddiadau gofodol lle bo'n briodol. Mae gwybodaeth ar gael ynghylch sut i gymryd rhan yn y broses cynllunio ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Integreiddio â phrosesau cynllunio eraill

34. Mae penderfyniadau cynllunio mewn un ardal gynllunio yn gallu effeithio ar y rheini mewn ardal arall, ac i'r gwrthwyneb. Yn aml bydd penderfyniadau ynghylch tir yn effeithio ar yr ardal forol, ac fel arall, ac mae'r rhan fwyaf o weithgareddau yn yr amgylchedd morol yn cynnwys cyfran neu oblygiad sy'n gysylltiedig â thir hefyd.

Mae'r cynllun hwn yn ymestyn hyd lefel cymedr penllanw'r gorllanw (*mean high water spring tides*), a dyfroedd pob aber, afon neu sianel hyd cymedr penllanw'r gorllanw. Ar y llaw arall, bydd ffiniau cynllunio ar gyfer defnydd tir yn ymestyn fel arfer at lefel cymedr distyll y gorllanw (*mean low water spring tides*). Felly mae'r cynllun yn gorgyffwrdd yn ffisegol â chynlluniau ar gyfer tir, gan helpu i hwyluso integreiddio rhwng tir a môr.

35. Bydd Gweinidogion Cymru yn llunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'i ddiweddaru'n barhaus. Bydd y Fframwaith hwn:
- yn dangos ble mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut y bydd y system gynllunio - ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol - yn gallu eu sicrhau;
- yn darparu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol ac yn helpu i bennu Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol;
- yn rhedeg ochr yn ochr â Polisi Cynllunio Cymru, sy'n disgrifio polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir;
- yn ategu strategaethau cenedlaethol ar gyfer yr economi, trafnidiaeth, yr amgylchedd, tai, ynni, diwylliant a'r môr ac yn sicrhau bod modd eu cyflawni drwy'r system gynllunio.

36. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhoi'r gallu i ystyried a chynllunio ar gyfer materion sy'n rhychwantu nifer o awdurdodau cynllunio lleol mewn modd integredig a chynhwysfawr. Ar lefel leol, mae dyletswydd statudol ar awdurdodau cynllunio i baratoi cynllun datblygu lleol a'i ddal dan sylw.

37. Mae awdurdodau cynllunio cenedlaethol a lleol ar dir ac awdurdodau cynllun morol cyfagos wedi chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu'r cynllun hwn ac felly wedi helpu i sicrhau bod y cynllun hwn yn rhoi sylw i gynlluniau perthnasol eraill ar gyfer y tir a'r môr. Mae'r cynllun hwn yn cydredeg ac yn rhyngweithio â chyfundrefnau cynllunio perthnasol eraill ar gyfer y tir a'r môr yn ogystal â phrosesau cynllunio a rheoli eraill sy'n ymwneud â'r arfordir a'r moroedd o gwmpas Cymru ac felly mae'n cyfrannu'n sylweddol at reolaeth integredig ar barthau arfordirol. I sicrhau cysondeb a chydnawsedd wrth wneud penderfyniadau, mae'r CMCC yn mynnu bod awdurdodau cynllunio'n cymryd camau rhesymol i hybu cydlyniant rhwng y polisïau.

38. Mae'r cynllun hwn yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer defnyddio moroedd Cymru yn y dyfodol ond mae'n cydnabod ei bod yn bosibl y bydd angen cynllunio morol sectorol ar gyfer sectorau penodol er mwyn pennu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol a darparu canllawiau i ddiwydiant ynghylch ble i fuddsoddi. Yn y penodau ar sectorau yn y cynllun hwn, mae polisïau ategol yn cymell awdurdodau perthnasol i gydweithio ymhellach ar gynllunio morol ar gyfer sectorau er mwyn helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd o fewn Ardaloedd Adnoddau Strategol a'r angen i'w mireinio [gweler **Ardaloedd Adnoddau Strategol**].

39. Lle ymgymerir â chynllunio morol ar sail sector, dylid ei ddatblygu'n unol ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan wneud defnydd o



DRAFT

asesiadau i nodi a delio â materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a all fod yn niweidiol, a dylid ymgynghori ar hyn lle bo'n briodol.

## Cynllunio trawsffiniol

40. Mae darparu cynllunio morol ar gyfer Cymru yn golygu cydweithio â gweinyddiaethau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y cynllun hwn yn gweithredu'n gyson a didrafferth ar draws ffiniau gweinyddol. Mae hyn yn bwysig iawn yng nghyswllt aberoedd trawsffiniol Dyfrdwy a Hafren ac yn fwy eang ar draws Môr Iwerddon.


41. Mae ecosystemau morol yn gweithredu ar wahanol raddfeydd ac yn aml yn gweithio ar draws ffiniau gweinyddol. Mae nodi defnydd o adnoddau naturiol morol a chynllunio ar ei gyfer fel rhan o'r broses ehangach o reoli ecosystemau yn agwedd bwysig ar gynllunio morol.

42. Er mwyn cyd-drefnu hyn, bydd angen cydgysylltu ac ymgysylltu'n rheolaidd, cynllunio ar gyfer gweithgareddau sy'n digwydd ar draws ffiniau a rhannu tystiolaeth berthnasol. Wrth i gynllunio gael ei ddatblygu ledled y DU a thu hwnt, manteisir ar gyfleoedd i gydgysylltu arferion cynllunio fwyfwy, yn enwedig yn ein hardaloedd trawsffiniol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag awdurdodau cynllun morol cyfagos ac yn rhoi trefniadau ar waith, lle bo'n briodol, i hwyluso cydweithio.

43. Bydd y gronfa o dystiolaeth forol a rennir sydd wedi'i chasglu gan wahanol raglenni monitro o dan Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU (UKMMAS) yn gymorth i gydgysylltu cynllunio morol ar draws ffiniau. Ar lefel leol, byddwn yn datblygu ac yn cynnal sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllunio morol yn ein hardaloedd trawsffiniol.

DRAFT

## Ffigur 6: Bathymetreg



## Sut i ddefnyddio'r cynllun hwn

44. Bydd y cynllun hwn (yn ogystal â Datganiad Polisi Morol y DU) yn ddogfennau polisi morol priodol at ddibenion y DMMA.

45. **Dylai'r holl destun yn yr adran ganlynol, yn adrannau'r Polisïau Trawsbynciol Cyffredinol ac yn yr adrannau ar Bolisïau Sectorau gael eu hystyried yn bolisi cynllunio**.

## Pwy a ddylai ddefnyddio'r cynllun hwn

46. Mae'r cynllun hwn yn darparu cyfarwyddyd a chymorth ar bolisi ar gyfer amrywiaeth fawr o benderfyniadau a chaniatadau morol a dylai gael ei ddefnyddio gan ddatblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol (sydd â rhan mewn penderfyniadau) wrth ddatblygu cynigion a'u hystyried ar gyfer eu caniatáu. Dylai gael ei ddefnyddio hefyd gan awdurdodau cyhoeddus perthnasol wrth wneud penderfyniadau a all effeithio ar ardal y cynllun.

47. Dylai unrhyw awdurdodiad neu benderfyniad gorfodi a all effeithio ar ardal y cynllun morol, yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â gweithgareddau ar dir, gael eu gwneud yn unol â'r cynllun hwn oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dangos y dylid gwneud fel arall.

48. Mae angen i nifer o bartïon gwahanol gymryd camau i sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei gyflawni'n effeithiol, gan gynnwys datblygwyr, awdurdodau cyhoeddus a'r cyhoedd. Mae rolau a chyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â chynllunio morol yn cynnwys:

## Gweinidogion Cymru (fel yr awdurdod cynllun morol)

49. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am osod polisi ac ymgymryd â chynllunio morol. Wrth wneud hynny, byddant:

- yn llunio cynlluniau morol, eu dal dan sylw a'u diwygio mewn perthynas â rhanbarthau'r cynllun morol, gan amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy a gwneud y defnydd gorau posibl o ofod morol;
- yn goruchwylio'r cyflawni ar y cynllun morol;
- yn monitro ac yn adrodd ar effeithiolrwydd y broses cynllunio morol;
- yn cyfrannu at gydweithredu ar draws ffiniau rhwng awdurdodau cynllunio (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon ac Ynys Manaw) a phrosesau cynllunio ar dir a môr;
- yn rhoi sylw i dystiolaeth a gyflwynir drwy'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a thystiolaeth berthnasol arall er mwyn llunio'r Polisi ar Adnoddau Naturiol ac yn sicrhau ei fod yn ymdrin â pholisi cynllunio morol;



DRAFT

- yn rhoi sylw i'r cynllun hwn ac i'r DPM wrth ddatblygu polisi neu wneud unrhyw benderfyniad a all effeithio ar ardal y cynllun;
- yn ymgymryd â swyddogaethau'n unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

## Datblygwyr

50. Mae datblygwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu cynigion yn unol â'r cynllun hwn. Wrth wneud hynny, dylent:
    - ymgysylltu gynnar ar draws a rhwng rhanddeiliaid perthnasol;
    - cymhwyso'r polisïau trawsbynciol cyffredinol a sector-benodol [links] sydd yn y cynllun hwn wrth lywio cynigion;
    - ystyried yr effeithiau llesol a niweidiol dichonol o'u gweithgarwch arfaethedig ar yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd; lleihau effeithiau niweidiol ac amlhau cyfleoedd i gydfodoli a sicrhau buddion lluosog;
    - ystyried cynllunio morol perthnasol ar gyfer sectorau a chyfrannu at weithgareddau cynllunio strategol ar gyfer sectorau;
    - darparu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol asesu eu cynnig/cynigion gan gynnwys eu haddasrwydd i bolisi cynllunio perthnasol;
    - sicrhau bod y dystiolaeth a ddarperir yn gadarn a chymesur yng nghyswllt y datblygiad dan sylw a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef;
    - helpu i lenwi bylchau mewn tystiolaeth drwy gasglu a rhannu tystiolaeth ar effaith datblygiadau a chyfrannu lle bo'n briodol at feithrin dealltwriaeth o Ardaloedd Adnoddau Strategol a chyfleoedd yn y dyfodol.

## Awdurdodau cyhoeddus

51. Mae awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn gyfrifol am asesu a yw cynigion yn unol â'r cynllun hwn er mwyn gwneud penderfyniadau ar awdurdodi, cynllunio a pholisi. Wrth wneud hynny, dylent wneud y canlynol:
    - cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwy integreiddio'r angen i ddiogelu'r amgylchedd ac ymdrin ag effeithiau niweidiol â chamau i hybu twf glas;
    - cymell ymgysylltu cynnar ar draws a rhwng rhanddeiliaid perthnasol;
    - gwneud unrhyw benderfyniad ar awdurdodi neu orfodi yn unol â'r cynllun hwn a'r DPM oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dangos y dylid gwneud fel arall (a datgan eu rhesymau os byddant yn gwneud penderfyniad nad yw'n unol â dogfennau perthnasol y cynllun);
    - rhoi sylw i'r cynllun hwn a'r DPM wrth wneud unrhyw benderfyniad a all effeithio ar y cyfan neu unrhyw ran o ardal y cynllun (heblaw penderfyniad ar awdurdodi neu orfodi);
    - edrych yn ffafriol ar gynigion sy'n cyfrannu at gyflawni gweledigaeth ac amcanion y cynllun hwn ac yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y cynllun;
    - cyfeirio sectorau at Ardaloedd Adnoddau Allweddol a sicrhau defnydd cynaliadwy ohonynt;
    - diogelu buddiannau sefydledig yn unol â'r cynllun hwn

DRAFT

- trefnu i dystiolaeth a chanllawiau perthnasol fod ar gael lle bo modd er mwyn cyflawni'r cynllun;
- cyflawni swyddogaethau'n unol ag egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

## Sut i gymhwyso'r cynllun hwn

52. Yn yr holl gynigion, penderfyniadau ar awdurdodi a phenderfyniadau ar orfodi, dylid cymhwyso'r polisïau perthnasol yn y cynllun hwn wrth ddylunio prosiectau a gwneud penderfyniadau cysylltiedig oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dangos y dylid gwneud fel arall.

53. Pan wneir cais i awdurdod cyhoeddus am ddefnydd o'r ardal forol y mae'n ofynnol ei awdurdodi'n ffurfiol, dylai'r cynnig adlewyrchu'r polisïau perthnasol yn y cynllun hwn a dylid dangos yn glir yn y cynnig sut mae'n cydweddu â pholisi [gweler Tabl 2]. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn darparu canllawiau polisi ar gyfer datblygu cynigion a gwneud penderfyniadau cysylltiedig: nid ydynt yn dileu'r angen i fynd drwy'r broses neu brosesau awdurdodi priodol.

54. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys polisïau cyffredinol a pholisïau sector-benodol [gweler **Trosolwg ar bolisïau'r cynllun hwn a sut i'w dehongli**]. **Polisïau cyffredinol** yw polisïau cynllunio trawsbynciol o natur gyffredinol ac maent yn gymwys i bob sector a gweithgarwch, er y bydd y graddau y mae angen eu hystyried yn dibynnu ar natur y cynnig. Maent wedi'u rhestru yn y DPM o dan themâu AMLU y DU. Mae **polisïau sector-benodol** yn gweithredu ochr yn ochr â'r polisïau cyffredinol ac yn ymwneud â math penodol o weithgarwch. Maent yn cynnwys **polisïau cefnogi** (i hybu datblygiad sector penodol) a **pholisïau diogelu** (i amddiffyn gweithgareddau presennol y sector penodol neu ei weithgareddau dichonol yn y dyfodol).

55. Mae'r cynllun hwn yn darparu set integredig o amcanion a pholisïau sy'n cyfrannu at ddatblygu a defnyddio ardal forol Cymru yn gynaliadwy ac, oherwydd hynny, **ni ddylai unrhyw un o'r amcanion a pholisïau gael ei ystyried neu ei gymhwyso ar wahân.** Yn yr un modd, ni ddylai'r polisïau ar gyfer pob sector gael eu cymhwyso ar wahân. Dylid darllen yr holl bolisïau sector mewn cysylltiad â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol a hefyd â'r holl bolisïau sector eraill sy'n berthnasol [Tabl 3]. Dylid hefyd ystyried polisïau mewn dogfennau perthnasol eraill a'u cymhwyso lle bo'n briodol [gweler **GOV_02** a Ffigur 3].

DRAFT

**Tabl 2: Trosolwg ar y broses ar gyfer datblygu ac awdurdodi cynigion sy'n berthnasol i'r cynllun hwn.**

| **Gweithgarwch** | **Pwy** | **Ystyriaeth(au) allweddol** |
|---|---|---|
| Deall cyd-destun y cynnig sy'n gorfod cael awdurdodiad o bosib | Datblygwr | Ystyried y **fframwaith polisi** perthnasol – y cynllun hwn, y DPM, cynlluniau perthnasol ar gyfer cynllunio ar dir, Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol, cynlluniau morol ardaloedd cyfagos, y Polisi ar Adnoddau Naturiol ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.<br><br>Ystyried y **gyfundrefn reoleiddio** berthnasol – trwyddedu morol (CNC), Asesu Effeithiau Amgylcheddol, cynllunio ar dir, prosiect o faint canolig ar dir (Fframwaith Datblygu Cenedlaethol), Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (Datganiadau Polisi Cenedlaethol).<br><br>Ystyried **cyfleoedd** gofodol a **chyfyngiadau** dichonol – polisïau cyffredinol y cynllun hwn, polisïau cefnogi a diogelu sectorau a chanllawiau ar weithredu polisïau, porth cynllunio morol (adnoddau naturiol, defnyddwyr y môr, awdurdodiadau cyfredol) ac ystyriaethau cynllunio perthnasol ar gyfer sectorau. Ystyriaethau perthnasol eraill. |
| **Os yw'n ofynnol cael awdurdodiad ar gyfer y prosiect gan awdurdod cyhoeddus ac os gall effeithio ar ardal forol Cymru, yna gwneir penderfyniadau perthnasol ar awdurdodi yn unol â'r cynllun hwn** | | |
| Datblygu a mireinio'r cynnig – cyn gwneud cais | Datblygwr | Lle bo'n briodol, ymgysylltu â'r awdurdod cyhoeddus perthnasol, yn ogystal ag awdurdodau cyhoeddus cyfagos, i drafod graddfa a natur y cynnig a **gweithredu polisïau CMCC mewn ffordd gymesur** – awdurdodau cyhoeddus perthnasol a swyddogion cynllunio morol Llywodraeth Cymru.<br><br>Asesu'r **dystiolaeth sydd ar gael**, nodi materion allweddol ac anghenion am dystiolaeth ychwanegol – porth cynllunio morol (adnoddau naturiol, defnyddwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | | y, môr, awdurdodiadau cyfredol), ffynonellau tystiolaeth eraill, canllawiau ar gyfer lleoliadau os ydynt ar gael<br><br>Lle bo'n briodol, ymgysylltu â **defnyddwyr eraill y môr** i ddeall a rheoli cyfleoedd a gwrthdaro dichonol.<br><br>Ystyried cyngor a chanllawiau perthnasol sydd wedi'u llunio gan awdurdodau cyhoeddus a/neu gyrff diwydiant.<br><br>Casglu unrhyw dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen yn cynnwys, os oes angen, astudiaethau desg neu safle. |
| Darparu'r cynnig a'r dystiolaeth ategol i'r awdurdod cyhoeddus | Datblygwr | Cyflwyno cais gan roi tystiolaeth glir o **gydymffurfio â pholisïau** (ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael).<br><br>Disgrifio unrhyw wrthdaro â pholisi sydd heb ei ddatrys, yn cynnwys unrhyw ryngweithio croes rhwng sectorau a'r cyfiawnhad drosto. |
| Asesu'r cynnig | Awdurdod cyhoeddus | Ystyried sut mae'r cynnig **yn cydymffurfio â pholisïau CMCC**.<br><br>Ystyried y **gyfundrefn reoleiddio** neu ofyniad statudol perthnasol, ee Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (adrannau 6 a 7), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).<br><br>Cynnwys **ystyriaethau perthnasol** eraill – tystiolaeth newydd / arall, diweddariadau polisi cynllunio, cynllunio ar gyfer sectorau.<br><br>Pennu **amodau trwydded** yn unol â'r DPM a pholisïau perthnasol yn y cynllun morol ac ystyriaethau perthnasol eraill. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Gwneud penderfyniad | Awdurdod cyhoeddus | **Gwneud penderfyniad** yn unol â CMCC oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dangos y dylid gwneud fel arall ac, os felly, egluro'r rhesymau. |
| Ar ôl awdurdodi | Datblygwr ac awdurdod cyhoeddus | **Cydymffurfio ag unrhyw amodau ar awdurdodi, yn cynnwys unrhyw waith monitro sydd ei angen ac adrodd ar ganfyddiadau. Trefnu i dystiolaeth fod ar gael i'w hystyried wrth ddatblygu polisi ac wrth drafod datblygiadau yn y dyfodol.** |

57. Mae DMMA yn ei gwneud yn ofynnol (a.322(1) DMMA) bod awdurdod cyhoeddus yn gwneud unrhyw benderfyniad ar awdurdodi neu orfodi yn unol â'r dogfennau priodol ar bolisi morol (y cynllun hwn a'r DPM), oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dangos y dylid gwneud fel arall. Mae DMMA hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r dogfennau polisi morol priodol wrth wneud unrhyw benderfyniad (heblaw am benderfyniad gorfodi neu awdurdodi) sy'n ymwneud â chyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n effeithio ar y cyfan neu unrhyw ran o ardal forol y DU.

58. Fodd bynnag, os yw polisi sydd wedi'i ddatgan yn y cynllun hwn yn mynd yn groes i unrhyw raddau i unrhyw ddatganiad arall neu wybodaeth sydd yn y cynllun, yna rhaid datrys y gwrthdaro hwnnw o blaid y polisi. Lle gellir cael gwrthdaro rhwng polisïau'r cynllun, dylid gwneud penderfyniadau ar bob achos ar wahân yn y ffordd orau i gyflawni amcanion y cynllun hwn.

59. Os bydd awdurdod cyhoeddus yn gwneud penderfyniad ar awdurdodi neu orfodi nad yw'n unol â'r dogfennau hyn, dylai ddatgan ei resymau. Gall yr ystyriaethau perthnasol gynnwys, ymysg pethau eraill:
- polisi cenedlaethol perthnasol;
- polisïau mewn cynlluniau datblygu perthnasol yn cynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol;
- ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio a gyflawnir gan neu ar ran yr ymgeisydd;
- polisi Llywodraeth ehangach ar gynllunio morol – deddfwriaeth, polisi, canllawiau a chyngor;
- penderfyniadau apêl blaenorol ac unrhyw adroddiad gan Ymchwiliad Annibynnol;
- egwyddorion cyfraith achosion sy'n cael eu dal drwy'r llysoedd;
- tystiolaeth newydd nad oedd ar gael ar adeg datblygu'r cynllun, er enghraifft, mewn perthynas ag Ardaloedd Adnoddau Strategol.

60. Gall Gweinidogion Cymru ddyroddi polisi neu ganllawiau, o bryd i'w gilydd, a fyddai'n ystyriaeth berthnasol mewn cysylltiad â'r cynllun hwn neu eglurhad mewn perthynas â'r cynllun hwn a'i weithredu.



DRAFT

61. Yn ogystal â bod yn sail i benderfyniadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu a defnyddio cynaliadwy yn yr ardal y mae'r cynllun hwn yn ymdrin â hi, dylai'r polisïau yn y cynllun hwn fod yn sail hefyd i ddatblygu a gweithredu cynlluniau cysylltiedig, yn cynnwys, ymysg eraill, cynlluniau ar gyfer unrhyw ardaloedd morol cyfagos, cynlluniau defnydd tir a Chynlluniau Rheoli.

62. Nid yw'n ofynnol cael awdurdodiad ffurfiol gan awdurdod cyhoeddus ar gyfer pob gweithgarwch yn yr ardal forol. Er enghraifft, mae rhai gweithgareddau sydd heb eu cynnwys yn y darpariaethau trwyddedu morol yn DMMA. Hefyd, mae rhai gweithgareddau wedi'u hesemptio drwy orchymyn fel nad oes angen awdurdodiad ffurfiol ar eu cyfer. Er bod y polisïau sydd yn y cynllun hwn yn ymwneud â phenderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus, maent hefyd yn darparu cyd-destun i ddefnyddwyr y môr ar gyfer deall sut y gallant ymwneud â pholisi cynllunio strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer ardal y cynllun morol, a sut y gallant gyfrannu ato.

63. Fel awdurdod cynllun morol, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddal materion perthnasol dan sylw. Dylai tystiolaeth a gesglir ar ôl awdurdodi cynnig gael ei hadborthi i'r sylfaen dystiolaeth i'w defnyddio ar gyfer fersiynau o'r cynllun hwn yn y dyfodol ac i helpu i sicrhau bod modd asesu effeithiolrwydd polisïau'r cynllun hwn [gweler **Gwneud defnydd cyfrifol o dystiolaeth wyddonol gadarn**].

## Cymhwyso'r cynllun hwn a'i bolisïau mewn ffordd gymesur

64. Nid yw'n debygol y bydd penderfyniad penodol ar gynnig yn galw am gymhwyso un polisi yn y cynllun hwn neu'r holl bolisïau. Yn hytrach, mae'n debygol y bydd nifer o bolisïau'r cynllun yn gymwys. Bydd awdurdodau cyhoeddus, wrth weithio gydag ymgeiswyr ac eraill yn ôl yr angen, yn penderfynu pa bolisïau yn y cynllun (a mapiau cysylltiedig) sy'n gymwys i benderfyniad penodol.

65. Dylai lefel y manylder sydd ei hangen i ddangos cydymffurfiaeth fod yn gymesur â graddfa'r prosiect, ei effeithiau dichonol ac felly'r risg (yn unol â pholisi GEN_02 yn y cynllun hwn).

66. Yn yr un modd, dylai lefel yr asesu ac ymgysylltu a gyflawnir ar gyfer prosiect penodol fod yn gymesur â graddfa ac effaith y prosiect yn ogystal â sensitifrwydd yr amgylchedd cysylltiedig a dylid ei gyflawni'n unol ag unrhyw ofynion perthnasol ar gyfer asesu prosiectau.

67. I ddibenion ymarferol, mae'n bosibl y bydd awdurdodau perthnasol yn credu ei bod yn briodol categoreiddio cynigion ar sail "bandiau" er mwyn deall lefel y manylder sy'n debygol o fod yn ofynnol wrth ddylunio cynigion a gwneud penderfyniadau.

DRAFT

**Categoreiddio mathau o gynigion er mwyn deall sut i gymhwyso polisïau'r cynllun hwn. Er enghraifft:**

**Gweithgareddau Band Un** yw gweithgareddau risg isel lle mae'n debygol na fydd angen dim neu nemor ddim tystiolaeth ychwanegol i ddangos cydymffurfiaeth â'r cynllun hwn.

**Gweithgareddau Band Dau** yw gweithgareddau risg canolig. Mae'n debygol y bydd angen cael rhywfaint o dystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â'r cynllun hwn. Bydd lefel y dystiolaeth sy'n ofynnol yn seiliedig ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

**Gweithgareddau Band Tri** yw gweithgareddau risg uwch, yn cynnwys prosiectau lle bydd yn ofynnol dilyn prosesau ffurfiol i asesu'r prosiect. Mae'n debygol y bydd angen lefel uwch o dystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â'r cynllun hwn. Yn achos datblygiadau ar raddfa fawr, mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r polisïau yn y cynllun hwn yn gymwys.

*Dylai cynigion sy'n disgyn i Fandiau Dau a Thri gynnwys datganiad clir yn nodi pa bolisïau'r cynllun sy'n berthnasol, i bar raddau mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r polisïau hyn, a sut mae'r cynnig yn cyfrannu at weledigaeth ac amcanion cyffredinol y cynllun.*

68. Dylid gofyn am gyngor ar gategoreiddio mathau o brosiectau a pherthnasedd polisïau'r cynllun oddi wrth yr awdurdod cyhoeddus perthnasol neu swyddogion polisi cynllunio morol yn Llywodraeth Cymru.

## Trosolwg ar bolisïau'r cynllun hwn a sut i'w dehongli

### Crynodeb o'r polisïau trawsbynciol cyffredinol

### Tabl 3: Crynodeb o'r polisïau trawsbynciol cyffredinol

| **Polisi trawsbynciol cyffredinol** | Rhif(au) tudalen(nau) | Rhif(au) map(iau) |
|---|---|---|
| **GEN_01: Polisi cynllunio trosfwaol**<br>Mae rhagdybiaeth o blaid datblygu ardal y cynllun yn gynaliadwy er mwyn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru. | **53** | |
| **GEN_02: Polisi cynllunio trosfwaol**<br>Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol ymdrin â pholisïau cynllunio morol perthnasol mewn ffordd gymesur, seiliedig ar risg wrth wneud penderfyniadau. | **53** | |
| **ECON_01: Twf glas**<br>Anogir cyflwyno cynigion ar gyfer gweithgareddau economaidd gynaliadwy, yn enwedig lle maent yn cyfrannu at:<br>• economi fwy cydnerth;<br>• cyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig i gymunedau'r arfordir;<br>• creu cyfoeth;<br>• caniatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth;<br>• diogelu a chreu cyflogaeth ar bob lefel sgiliau;<br>• cynnal cymunedau lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg;<br>• trechu tlodi drwy gefnogi cymunedau difreintiedig ar yr arfordir; a / neu at<br>• reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan helpu i wneud ecosystemau'n gydnerth. | **58** | |
| **ECON_02: Cydfodolaeth**<br>Anogir cyflwyno cynigion sy'n ystyried cyfleoedd i gydfodoli â sectorau cydweddol eraill er mwyn optimeiddio gwerth yr ardal forol ac adnoddau naturiol morol a'r defnydd ohonynt. | **60** | |
| **SOC_01: Mynediad i'r amgylchedd morol**<br>Dylai cynigion gadw neu wella mynediad i'r amgylchedd morol. | **63** | |
| **SOC_02: Llesiant cymunedau'r arfordir**<br>Anogir cyflwyno cynigion sy'n cyfrannu at lesiant cymunedau'r arfordir. | **64** | **7** |
| **SOC_03: Digwyddiadau sy'n llygru'r môr**<br>Dylai cynigion leihau'r risg iddynt achosi digwyddiadau sy'n llygru'r môr. | **67** | |

| | | |
|---|---|---|
| **SOC_04: Y Gymraeg a'i diwylliant**<br>Anogir cyflwyno cynigion sy'n cyfrannu at hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. | **68** | |
| **SOC_05: Asedau hanesyddol**<br>Dylai cynigion ddangos sut mae effeithiau dichonol ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau wedi cael eu hystyried yn gynnar a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.<br><br>Cefnogir cyfleoedd i wella asedau hanesyddol. | **69** | **8** |
| **SOC_06: Tirweddau dynodedig**<br>Anogir cyflwyno cynigion sy'n dangos eu bod yn cydweddu â'r dibenion a phriodweddau arbennig y mae Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi'u dynodi ar eu sail. | **71** | **8** |
| **SOC_07: Morweddau**<br>Dylai cynigion ddangos sut mae effeithiau dichonol ar forweddau wedi cael eu hystyried yn gynnar a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar forweddau; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.<br><br>Cefnogir cyfleoedd i wella morweddau. | **74** | **9** |
| **SOC_08: Gwrthsefyll newid a llifogydd arfordirol**<br>Dylai cynigion ddangos sut y byddant yn gwrthsefyll newid a llifogydd arfordirol yn ystod eu hoes. | **82** | **10** |
| **SOC_09: Effeithiau ar newid a llifogydd arfordirol**<br>Anogir cyflwyno cynigion sydd:<br><br>• yn dangos nad ydynt yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar brosesau arfordirol;<br>• yn lleihau'r risg o newid a llifogydd arfordirol;<br>yn gyson â'r Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol. | **85** | **11(a)**<br><br>**11(b)** |

| | | |
|---|---|---|
| **SOC_10: Lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd**<br>Dylai cynigion, yn nhrefn blaenoriaeth:<br>• osgoi allyrru nwyon tŷ gwydr; a/neu<br>• leihau allyriadau ohonynt lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>• eu lliniaru lle na ellir eu lleihau.<br><br>Lle na ellir ymdrin yn ddigonol ag allyrru arwyddocaol ar nwyon tŷ gwydr, dylai cynigion ar gyfer gweithgareddau a reoleiddir gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw. | **86** | |
| **SOC_11: Gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd**<br>Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac wedi cynnwys mesurau ymaddasu priodol, gan roi sylw i Asesiadau o Risg Newid Hinsawdd i Gymru. | **87** | |
| **SOC_12: Cefnogi camau ehangach i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd**<br>Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol gefnogi cyfleoedd sy'n cyfrannu at ymaddasu a/neu liniaru yng nghyswllt y newid yn yr hinsawdd. | **87** | |
| **ENV_01: Ecosystemau morol cydnerth**<br>Dylai cynigion ddangos sut maent yn cyfrannu at ddiogelu, adfer a/neu wella ecosystemau morol. | **92** | |
| **ENV_02: Ardaloedd Morol Gwarchodedig**<br>Dylai cynigion ddangos sut maent:<br>• yn osgoi effeithiau niweidiol ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chydlyniant y rhwydwaith cyfan;<br>• yn rhoi sylw i'r mesurau i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig;<br>• yn osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig nad ydynt yn rhai morol. | **94** | **12** |
| **ENV_03: Rhywogaethau estron goresgynnol**<br>Dylai cynigion gynnwys mesurau bioddiogelwch i leihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. | **98** | |
| **ENV_04: Sbwriel môr**<br>Dylai cynigion ddangos eu bod:<br>• yn osgoi cyflwyno sbwriel yn fwriadol i ardal y cynllun morol;<br>• yn lleihau'r risg o'i ryddhau'n ddamweiniol. | **99** | |

| | | |
|---|---|---|
| **ENV_05: Sŵn tanddwr**<br>Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau sŵn sydd wedi'u creu gan bobl ar yr amgylchedd morol a'u bod, yn nhrefn blaenoriaeth:<br><br>a) yn osgoi effeithiau niweidiol; a/neu<br>b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw. | **100** | |
| **ENV_06: Ansawdd aer a dŵr**<br>Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried eu heffeithiau dichonol ar ansawdd aer a dŵr a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol; a/neu<br>b) leihau effeithiau niweidiol lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau niweidiol lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw. | **103** | **13** |
| **GOV_01: Effeithiau cronnol**<br>Dylai cynigion ddangos eu bod wedi asesu effeithiau cronnol dichonol a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol; a/neu<br>b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.<br><br>Anogir cyflwyno cynigion sy'n cyfrannu i effeithiau cronnol cadarnhaol. | **107** | |
| **GOV_02: Nodau llesiant Cymru**<br>Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol geisio sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru a dylent wneud eu penderfyniadau'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, dylent roi sylw i'r canlynol: | **108** | |

| | | |
|---|---|---|
| • unrhyw bolisi cymwysadwy mewn cynllun morol perthnasol;<br>• unrhyw bolisi cymwysadwy mewn cynlluniau perthnasol ar gyfer y tir neu ddogfennau cysylltiedig;<br>• y Polisi ar Adnoddau Naturiol;<br>• unrhyw gynllun(iau) llesiant lleol perthnasol (yn cynnwys yr asesiad llesiant lleol);<br>• unrhyw ddatganiad(au) ardal perthnasol a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). | | |
| **SCI_01: Gwneud penderfyniadau seiliedig ar risg**<br>Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn a dull seiliedig ar risg. Lle bo'n briodol, dylent gymhwyso'r egwyddor ragofalus ac ystyried cyfleoedd i reoli'n ymaddasol. | **111** | |

DRAFT

## Crynodeb o bolisïau ar sectorau

### Tabl 4: Crynodeb o bolisïau ar sectorau

| Cefnogi | Rhif(au) tudalen (nau) | Diogelu | Rhif(au) tudalen (nau) | Rhif (au) map (iau) |
|---|---|---|---|---|
| **AGG_01: Agregau (cefnogi)**<br><br>Anogir cyflwyno cynigion ar gyfer codi agregau mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol o fewn unrhyw gyfyngiadau ar dunelledd a ganiateir sydd wedi'u diffinio ar gyfer yr ardal honno.<br><br>Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio i ddeall cyfleoedd i wneud defnydd cynaliadwy o:<br><br>• Ardaloedd Adnoddau Strategol agregau; ac<br>• adnoddau naturiol agregau morol ehangach;<br><br>er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector agregau drwy gynllunio | 139 | **AGG_02: Agregau (diogelu)**<br><br>Ni ddylid awdurdodi ardaloedd lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am drwydded forol a chytundeb cynhyrchu ar gyfer codi agregau oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch agregau sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.<br><br>**AGG_03: Agregau (diogelu)**<br><br>Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle mae cytundeb | 141<br><br>142 | 14 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| morol. | | chwilio neu opsiwn wedi'i gynnig neu wedi'i wneud ar gyfer codi agregau oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch agregau sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.<br><br>**AGG_04: Agregau (diogelu)**<br><br>Dylai cynigion a all effeithio ar Ardaloedd Adnoddau Strategol ddangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:<br><br>a) yn osgoi effeithiau niweidiol ar weithgareddau dichonol i godi agregau yn yr ardaloedd hynny; a/neu<br>b) yn lleihau effeithiau lle | **142** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau; a<br><br>dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw lle nad yw (a-c) yn bosibl. | | |
| **AQU_01: Dyframaethu (cefnogi)**<br><br>Anogir cyflwyno cynigion am weithgareddau dyframaethu mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.<br><br>Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio i ddeall cyfleoedd i wneud defnydd cynaliadwy o:<br><br>• Ardaloedd Adnoddau Strategol dyframaethu; ac<br>• adnoddau naturiol ehangach sydd â photensial ar gyfer dyframaethu;<br><br>er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector dyframaethu drwy gynllunio morol. | **155** | **AQU_02: Dyframaethu (diogelu)**<br><br>Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle:<br><br>• rhoddwyd neu y gwnaed cais ffurfiol am orchymyn pysgodfa unigol neu hawliau cynhyrchu ar gyfer dyframaethu;<br>• mae cytundeb ffurfiol a gofnodwyd wedi'i wneud rhwng perchennog gwely'r môr a gweithredwr dyframaethu; neu<br>• lle gwnaed neu lle gwnaed cais am gofrestriad Busnes Cynhyrchu Dyframaethol,<br><br>oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch dyframaethu sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy: | **158** | **15** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.<br><br>**AQU_03: Dyframaethu (diogelu)**<br><br>Dylai cynigion a all effeithio ar Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer dyframaethu ddangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:<br><br>a) yn osgoi effeithiau niweidiol ar weithgareddau dyframaethu dichonol yn y dyfodol yn yr ardaloedd hynny; a/neu<br>b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau; a | **158** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw lle nad yw (a-c) yn bosibl. | | |
| **DEF** | | **DEF_01: Amddifyn (diogelu)**<br><br>Mae cynigion:<br><br>• a all effeithio ar Ardaloedd Perygl, Ardaloedd Ymarfer neu fuddiannau amddiffyn strategol y Weinyddiaeth Amddiffyn; a/neu<br>• a all ymyrryd â chyfleusterau cyfathrebu, gwyliadwriaeth a llywio sydd eu hangen ar gyfer amddiffyn a diogelwch gwladol;<br><br>i'w hawdurdodi gyda chytundeb y Weinyddiaeth Amddiffyn yn unig. | **167** | **16** |
| **D&D_01: Carthu a gwaredu (cefnogi)**<br><br>Anogir cyflwyno cynigion sy'n cadw sianeli mordwyadwy a mynediad hirdymor i safleoedd agored ar y môr ar gyfer gwaredu deunydd priodol. | **177** | **D&D_02: Carthu a gwaredu (diogelu)**<br><br>Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad ar gyfer carthu ar gyfer mordwyo, cloddio deunydd neu waredu deunydd a garthwyd yn y môr oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch carthu neu waredu sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod | **178** | **17** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.<br><br>**D&D_03: Carthu a gwaredu (diogelu)**<br><br>Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd sy'n cael eu harchwilio ar gyfer carthu cyfalaf neu bennu nodweddion safleoedd gwaredu oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch agregau sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na | **178** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw | | |
| **ELC_01: Ynni carbon isel (cefnogi)**<br><br>Anogir cynigion ar gyfer pob math o ddulliau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy morol (ynni gwynt, y llanw a'r tonnau), yn enwedig:<br>a) mewn parthau profi ac arddangos technoleg ynni tonnau, ynni ffrwd lanw ac ynni adnewyddadwy cyfatebol; a<br>b) mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol ynni tonnau, ynni ffrwd lanw ac ynni môr-lynnoedd llanw cyfatebol.<br><br>Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio i ddeall cyfleoedd i wneud defnydd cynaliadwy o:<br>a) Ardaloedd Adnoddau Strategol ynni cynaliadwy; a<br>b) adnoddau naturiol ehangach sydd â photensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy; | **193** | **ELC_02: Ynni carbon isel (diogelu)**<br><br>Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch ynni adnewyddadwy sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw. | **197** | **18(a)**<br><br>**18(b)**<br><br>**18(c)**<br><br>**18(d)** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector ynni adnewyddadwy drwy gynllunio morol.<br><br>Er mwyn deall y cyfleoedd i ddatblygu **ynni gwynt ar y môr** yn y dyfodol, anogir cyflwyno cynigion sy'n cefnogi cynllunio strategol ar gyfer y sector. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio er mwyn:<br><br>• casglu tystiolaeth i ddeall cyfyngiadau amgylcheddol a chyfleoedd<br>• deall beth yw'r lleoliadau gorau posibl ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y môr ledled Cymru.<br><br>Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol drefnu i dystiolaeth berthnasol fod ar gael yn eang i gefnogi cynllunio a phenderfynu. | | **ELC_03: Ynni carbon isel (diogelu)**<br><br>Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle mae cytundeb chwilio neu opsiwn wedi'i gynnig neu wedi'i wneud ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn cynnwys rhai ar gyfer ardaloedd arddangos, oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch arfaethedig. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.<br><br>**ELC_04: Ynni carbon isel (diogelu)**<br><br>Dylai cynigion a all effeithio ar Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer ynni adnewyddadwy (yn cynnwys y rheini sydd ym mhroses asesiadau amgylcheddol strategol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni | **198**<br><br>**198** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ar y môr) ddangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:<br><br>a) yn osgoi effeithiau niweidiol ar weithgaredd ynni adnewyddadwy dichonol yn y dyfodol yn yr ardaloedd hynny; a/neu<br>b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen lle nad yw (a-c) yn bosibl. | | |
| **O&G_01: Olew a nwy (cefnogi)**<br><br>Anogir cyflwyno cynigion sy'n mwyhau'r cyflenwad hirdymor o olew a nwy, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio'n llwyr â mesurau i ddiogelu'r amgylchedd sydd yn y prosesau statudol ar gyfer dyfarnu trwyddedau cynhyrchu a chymeradwyaethau a roddir wedyn ar gyfer gweithgareddau penodol.<br><br>**O&G_02: Olew a nwy (cefnogi)**<br><br>Anogir cyflwyno | **215**<br><br>**215** | **O&G_03: Olew a nwy (diogelu)**<br><br>Ni ddylid awdurdodi cynigion mewn ardaloedd lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd ar gyfer seilwaith olew a nwy oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:<br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu | **216** | **19** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cynigion sy'n cefnogi datblygu hirdymor ar dechnoleg dal a storio carbon. | | lleihau.<br><br>Mewn amgylchiadau eithriadol, os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.<br><br>**O&G_04: Olew a nwy (diogelu)**<br><br>Mewn cynigion a all effeithio ar weithgarwch dichonol yn y dyfodol mewn ardaloedd (blociau) a gynigir ar gyfer trwyddedu olew a nwy, dylid osgoi sterileiddio'r ardal honno ar gyfer echdynnu olew a nwy yn y dyfodol a dangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:<br><br>a) yn osgoi effeithiau niweidiol dichonol ar y gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) yn lleihau effeithiau dichonol lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) yn lliniaru effeithiau dichonol lle na ellir eu lleihau; a<br><br>dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen lle nad yw (a-c) yn bosibl. | **216** | |
| **FIS_01: Pysgodfeydd (cefnogi)** | **230** | **FIS_02: Pysgodfeydd (diogelu)** | **231** | **20(a)** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Anogir cyflwyno cynigion sy'n cefnogi ac yn gwella gweithgareddau pysgota cynaliadwy.<br><br>Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio er mwyn:<br><br>• datblygu sylfaen dystiolaeth strategol i gael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd i ddatblygu pysgodfeydd yn gynaliadwy;<br>• cefnogi camau i ddatblygu a mireinio Ardaloedd Adnoddau Strategol;<br><br>er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector pysgodfeydd drwy gynllunio morol. | | Dylai cynigion a all ddadleoli gweithgareddau pysgota masnachol ddangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:<br><br>a) yn osgoi dadleoli'r gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) - yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau; a<br><br>dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen lle nad yw (a-c) yn bosibl.<br><br>**FIS_03: Pysgodfeydd (diogelu)**<br><br>Dylai cynigion a all effeithio ar ardaloedd pwysig ar gyfer bwydo, magu (yn cynnwys silio a meithrin) ac ymfudo neu ar gynefinoedd ar gyfer rhywogaethau allweddol o bwysigrwydd masnachol neu ecolegol ddangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:<br><br>a) yn osgoi effeithiau niweidiol ar yr ardaloedd hynny; a/neu<br>b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) yn lliniaru effeithiau lle na | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**232** | **20(b)**<br><br>**20(c)**<br><br>**20(d)** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ellir eu lleihau; a<br><br>dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen lle nad yw (a-c) yn bosibl. | | |
| **P&S_01: Porthladdoedd a morgludo (cefnogi)**<br><br>Anogir cyflwyno cynigion ar gyfer porthladdoedd, harbyrau a gweithgareddau morgludo mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.<br><br>Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio i ddeall y cyfleoedd i wneud defnydd cynaliadwy o Ardaloedd Adnoddau Strategol porthladdoedd a morgludo er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector porthladdoedd a morgludo drwy gynllunio morol.<br><br>**P&S_02: Porthladdoedd a morgludo (cefnogi)**<br><br>Anogir cyflwyno cynigion sy'n darparu ar gyfer cynnal, atgyweirio, datblygu ac arallgyfeirio cyfleusterau | **251**<br><br>**252** | **P&S_03: Porthladdoedd a morgludo (diogelu)**<br><br>Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer:<br><br>• llwybrau mordwyo masnachol sefydledig;<br>• ardaloedd byrddio peilotiaid ac angorfeydd masnachol; neu<br>• weithgareddau porthladdoedd, harbyrau a marinâu presennol a'u potensial ar gyfer ehangu yn y dyfodol;<br><br>yn cynnwys lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau | **255** | **21(a)**<br><br>**21(b)** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| porthladdoedd a harbyrau. | | hynny; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw. | | |
| **CAB_01: Ceblau o dan y môr (cefnogi)**<br><br>Anogir cyflwyno cynigion sy'n hwyluso twf rhwydweithiau cyfathrebu digidol a/neu'r ffyrdd gorau posibl o ddosbarthu trydan. | **266** | **CAB_02: Ceblau o dan y môr (diogelu)**<br><br>Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar geblau presennol ac arfaethedig o dan y môr a'u glanfeydd lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad neu les oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch ceblau dan y môr sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu | **268** | **22** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw. | | |
| **Dŵr gwastraff** | | **SWW_01: Trin a gwaredu dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff (diogelu)**<br><br>Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar seilwaith presennol ac arfaethedig ar gyfer rheoli a thrin dŵr gwastraff lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad neu les oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:<br><br>a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu<br>b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu<br>c) liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.<br><br>Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw | **277** | **23** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ymlaen â nhw. | | |
| **T&R_01: Twristiaeth a hamdden (cefnogi)**<br><br>Anogir cyflwyno cynigion sy'n dangos cyfraniad cadarnhaol at gyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden ac at gyflawni amcanion polisi (ar gyfer y sector) o gwmpas arfordir Cymru.<br><br>Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio er mwyn:<br><br>datblygu sylfaen dystiolaeth strategol i gael gwell dealltwriaeth o weithgareddau twristiaeth a hamdden presennol a dichonol, yn cynnwys ecodwristiaeth a gweithgareddau eraill isel eu heffaith;<br><br>cefnogi camau i ddatblygu a mireinio Ardaloedd Adnoddau Strategol;<br><br>er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector twristiaeth a hamdden drwy gynllunio morol | **290** | **T&R_02: Twristiaeth a hamdden (diogelu)**<br><br>Dylai cynigion ddangos eu bod wedi cymryd mesurau priodol i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol ar weithgareddau twristiaeth a hamdden presennol ac arfaethedig hysbys.<br><br>Ni ddylid awdurdodi cynigion a fyddai'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar amcanion Llywodraeth Cymru ar hamdden, chwaraeon a thwristiaeth oni bai fod amgylchiadau eithriadol. | **293** | **24(a)**<br><br>**24(b)** |

## Sut i ddehongli polisïau'r cynllun

72. Er hwylustod, rhoddwyd cod ar gyfer pob polisi. Er enghraifft, GEN_01 = Polisi trawsbynciol cyffredinol rhif 01. Oni nodir fel arall, mae polisïau'n gymwys i ranbarthau cynllunio morol y glannau a'r môr mawr. Mae'r polisïau wedi'u hategu gan y cyd-destun perthnasol, canllawiau ar weithredu'r polisi a, lle bo'n briodol, mapiau. Mae'r mapiau hyn yn dangos gwybodaeth berthnasol sy'n cynnwys dosbarthiad gweithgareddau ac adnoddau naturiol a, lle bo'n berthnasol, maent yn dangos sut mae polisïau ar sectorau'n cael eu cymhwyso'n ofodol.

73. Dylid dehongli'r polisïau a'r canllawiau ar eu gweithredu fel a ganlyn.
- Mae "datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol" yn golygu'r holl weithgareddau sy'n defnyddio'r amgylchedd morol. Gall gynnwys gweithgareddau presennol ac arfaethedig a rhai dichonol yn y dyfodol a gweithgareddau a reoleiddir a rhai sydd heb eu rheoleiddio.
- Mae "awdurdodau cyhoeddus (perthnasol)" yn golygu awdurdod trwyddedu morol, awdurdod cynllun morol, awdurdod lleol, corff ariannu neu gorff arall sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a all effeithio ar yr amgylchedd morol. Os yw polisi'n cyfeirio at awdurdodau cyhoeddus, mae hyn yn dangos ei fod yn gymwysadwy'n benodol i gynigion am weithgareddau a reoleiddir (y rheini y mae'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus eu hawdurdodi'n ffurfiol) ac felly fod rhan flaenllaw i awdurdodau cynllunio a chaniatáu wrth ei weithredu. Er hynny, gellir defnyddio'r polisi i lywio gweithgareddau presennol a reoleiddir a/neu weithgareddau nas rheoleiddir yn awr neu yn y dyfodol.
- Ystyr "cynnig" yw cais sy'n cael ei ddatblygu neu sydd wedi'i gwblhau ar gyfer gweithgarwch a all effeithio ar yr ardal forol a gyflwynir i awdurdod cyhoeddus ar gyfer y môr neu'r tir i gael caniatâd, awdurdodiad neu benderfyniad arall.
- Gall "cyfleoedd" gyfeirio at fesurau, cynigion neu weithgareddau sy'n digwydd yn yr amgylchedd morol neu a all effeithio arno.
- Lle mae polisi neu'r canllawiau ar ei weithredu yn dweud "dylai', mae'n ymwneud ag opsiwn gorfodol neu ddewisol yn unol â deddfwriaeth, canllawiau a/neu yr arfer gorau perthnasol; gall fod yn fwy tebygol i'r gweithgarwch arfaethedig gael ei ganiatáu os cydymffurfiwyd â'r polisi; mewn rhai achosion, ni fyddai'r gweithgarwch arfaethedig yn cael ei ganiatáu oni bai fod y gofynion hyn wedi'u cyflawni.
- Lle mae polisi neu'r canllawiau ar ei weithredu yn cyfeirio at "gefnogaeth" gan neu oddi wrth awdurdod cyhoeddus, mae hyn yn cyfeirio at y ffaith y bydd disgwyl i'r awdurdod roi ystyriaeth ffafriol i'r cynnig os yw wedi bodloni'r polisi (ar y cyd â pholisïau eraill). Ni ddylid dehongli hyn i olygu y bydd y cynnig yn sicr o gael ei ganiatáu. Yn yr un modd, nid yw'n golygu y bydd yr awdurdod yn rhoi unrhyw gefnogaeth weithredol neu ariannol.
- Lle mae polisi neu'r canllawiau ar ei weithredu yn dweud "lle bo'n briodol", mae hyn yn golygu y dylid cymryd camau rhesymol i gymhwyso'r polisi mewn ffordd gymesur, heblaw lle mae ystyriaethau perthnasol eraill yn dangos y dylid gwneud fel arall.
- Lle mae polisi neu'r canllawiau ar ei weithredu yn dweud "lle bo'n bosibl", mae hyn yn golygu y dylid bodloni'r polisi lle bynnag y bo'n ymarferol ond y dylai'r awdurdod cyhoeddus gydnabod na fydd yn bosibl bodloni polisi ym mhob achos ac y dylai arfer disgresiwn.



DRAFT

- Lle mae polisi neu'r canllawiau ar ei weithredu yn cyfeirio at rwymedigaethau fel deddfwriaeth gyfredol, nid yw hyn yn dangos mai'r corff cynllunio morol sy'n gyfrifol o reidrwydd am ei gorfodi.
- Lle defnyddir y term "defnyddiwr y cynllun", mae hyn yn golygu pawb sydd â buddiant yn y polisïau sydd yn y cynllun hwn.
- Lle mae cysylltiad agos rhwng dau neu ragor o bolisïau, fe'u cyflwynir ochr yn ochr â'i gilydd, gyda chanllawiau ar y cyd ar gyfer eu gweithredu (ee AGG_02 ac AGG_03). Mae hyn yn dangos i ddefnyddiwr y cynllun y gall y gofynion ar gyfer bodloni'r polisïau fod yn wahanol, er bod cysylltiad rhyngddynt.

## Rhagor o wybodaeth a chyngor

74. Mae'r cynllun hwn yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol allweddol ond ni all gynnig gwybodaeth gynhwysfawr. Mae rhagor o wybodaeth a deunydd ategol ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru, yn cynnwys:
    - yr adroddiadau ar Arfarniadau o Gynaliadwyedd ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ac asesiadau eraill o effeithiau;
    - tystiolaeth strategol, ee Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol i Gymru;
    - y porth cynllunio morol sy'n cynnwys mapiau perthnasol, gwybodaeth gysylltiedig a pholisïau'r cynllun;
    - polisi a chanllawiau cysylltiedig a pherthnasol;
    - ein dull o werthuso ac adrodd;
    - canlyniadau ac adroddiadau o fonitro cynllunio morol;
    - manylion unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill y credir eu bod yn briodol ac yn ddefnyddiol ar gyfer gweithredu'r cynllun hwn.

75. Os ydych yn ansicr am unrhyw fater, gofynnwch am ragor o wybodaeth ac eglurhad oddi wrth:
    - Lywodraeth Cymru ar ddehongli neu gymhwyso unrhyw bolisi sydd yn y cynllun hwn;
    - yr awdurdod cyhoeddus perthnasol ynghylch gofynion a phrosesau ymgeisio gan gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen arno i gymhwyso'r polisïau sydd yn y cynllun hwn.

DRAFT

## Polisïau trawsbynciol cyffredinol

76. Mae polisïau trawsbynciol cyffredinol yn gymwys i bob math o ddatblygu a defnydd o'r amgylchedd morol a, lle bo'n briodol, dylid eu defnyddio ar y cyd â'r polisïau sector-benodol.

## Polisi cyffredinol – Polisi cynllunio

### Cyflwyniad

77. Amcan trosfwaol y cynllun hwn (tabl 1) yw cefnogi datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru fel rhan o'n cefnogaeth i'r weledigaeth a rennir yn y DU ar gyfer ein moroedd. Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau cynllun morol cyfagos ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol eraill er mwyn cael y buddion ehangach mwyaf posibl o'r adnoddau morol rydym yn eu rhannu ar gyfer llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

78. Mae'r WFGA yn diffinio datblygu cynaliadwy fel proses o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy, i gyflawni nodau llesiant. Mae'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn gofyn i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb lesteirio gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

79. Mae hyn yn cynnwys dull o wneud penderfyniadau sy'n gymesur ac yn seiliedig ar risg. Egwyddorion cyffredinol rheoli risg yw:
- cymesuredd rhwng y mesurau a gymerir a lefel yr amddiffyniad a ddewisir;
- peidio â gwahaniaethu wrth gymhwyso'r mesurau;
- bod y mesurau'n gymesur â mesurau tebyg a gymerwyd yn barod mewn sefyllfaoedd tebyg neu wrth ddefnyddio dulliau tebyg;
- edrych ar y buddion a'r costau o weithredu neu beidio â gweithredu;
- adolygu'r mesurau yng ngolwg datblygiadau gwyddonol.

80. Drwy ddatblygu a defnyddio ein hadnoddau naturiol morol yn gynaliadwy, gellir dod â buddion sylweddol i gymdeithas a'r amgylchedd yn y dyfodol. Mae hyn hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig at dwf economaidd cenedlaethol gan gynnwys hynny mewn cymunedau ar yr arfordir ar lefel leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud popeth yn ei gallu i gynyddu lefelau cyflogaeth, gwella'r economi a threchu tlodi er mwyn ein pobl, gan gyfrannu drwy hynny at ffyniant ehangach y DU

81. Rydym wedi ymrwymo i system forol sy'n seiliedig ar gynllun a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer penderfynu cyson yn yr amgylchedd morol. Mae tryloywder ac atebolrwydd yn hanfodol i sicrhau bod yr holl fuddiannau wedi'u cynrychioli'n briodol a bod y system cynllunio morol yn gweithredu er budd hirdymor democrataidd y cyhoedd. Gwneir penderfyniadau mewn modd cymesur sy'n rhoi

DRAFT

 **ISBN: 978-1-4734-5357-9**

lefel uchel o hyder drwy sicrhau bod y broses yn gweithredu'n agored, yn deg, yn ddiduedd ac yn effeithlon.

**GEN_01: Polisi cynllunio trosfwaol**

Mae rhagdybiaeth o blaid datblygu ardal y cynllun yn gynaliadwy er mwyn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru.

**GEN_02: Polisi cynllunio trosfwaol**

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol gymhwyso polisïau cynllunio morol perthnasol mewn ffordd gymesur, seiliedig ar risg wrth wneud penderfyniadau

### Canllawiau ar weithredu

82. Mae polisïau trosfwaol GEN_01 a GEN_02 yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu'r ardal forol yn gynaliadwy (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru)) drwy wneud penderfyniadau cymesur, seiliedig ar risg ym maes cynllunio a thrwyddedu morol. Oherwydd hyn, mae'r ddau bolisi hyn yn cyfleu ac yn llywio'r **holl** benderfyniadau i sicrhau economi forol, cymdeithas ac amgylchedd cydnerth.

83. Dylai awdurdodau cyhoeddus fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol wrth asesu cynigion ar gyfer datblygu sy'n cydymffurfio â'r polisïau hyn, a dylent geisio cefnogi cynigion a fydd yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys datblygu cynaliadwy ehangach yn y DU, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dangos y dylid gwneud fel arall.

84. Anogir pob unigolyn a sefydliad i gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru ac i gymhwyso egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Dylai cynigion ar gyfer datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen i helpu awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau o ran datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru.

85. Mae'r polisïau trosfwaol hyn yn gymwys i weithgareddau morol o bob math. Maent yn berthnasol yn benodol i'r sectorau sy'n cyfrannu at dwf economaidd drwy "dwf glas" yn ardal y cynllun morol gan sicrhau yr un pryd fod agweddau amgylcheddol a chymdeithasol yn cael eu hystyried yn drwyadl gan ddefnyddwyr y cynllun. Mae'r dull hwn yn ceisio cefnogi buddsoddi, arloesi a thwf.

DRAFT

## Polisi cyffredinol – Sicrhau economi forol gynaliadwy

86. Mae adnoddau naturiol morol Cymru yn ased pwysig ac mae ecosystemau morol iach yn hanfodol i gynnal ein heconomi forol drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau i gymdeithas. Ymhlith y rhain mae buddion y gellir eu gwerthu'n uniongyrchol fel bwyd, olew a deunyddiau adeiladu, yn ogystal â gwasanaethau llai amlwg fel dal a storio carbon a rheoleiddio'r hinsawdd.

87. Ceir amrywiaeth o weithgareddau ym moroedd Cymru mewn nifer o sectorau sy'n cyfrannu i'n heconomi; mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod potensial economaidd ein hadnoddau morol yn ogystal â'r rhan y mae ein moroedd yn ei chwarae mewn cynnal llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydnabod bod twf economaidd yn bwysig i gymdeithas ac yn galw arnom i weithio i greu Cymru lewyrchus, sydd wedi'i diffinio fel a ganlyn: ''Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas'.

88. Yn yr un modd, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cydnabod bod cryfder ecosystemau yn bwysig o ran sicrhau twf economaidd cynaliadwy. Mae'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn sicrhau ein bod yn rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd ragweithiol, gynaliadwy a chydgysylltiedig ac yn eu defnyddio mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu gan gwrdd ag anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

89. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai'r Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) a gynhyrchwyd gan y sector morol yng Nghymru yn 2014 oedd tua £317 miliwn[3], a bod ei gyfraniad at gyfanswm y GVA wedi amrywio rhwng 0.4% a 2.2% rhwng 2005 a 2013. Yn ystod yr un cyfnod, ac ar sail yr un diffiniad, mae'r cyfraniad gan y sector morol ar lefel y DU wedi amrywio rhwng 2.2% a 3.2% o gyfanswm y GVA. Ar hyn o bryd, y cyfranwyr mwyaf at yr amcangyfrif o GVA y sector morol yng Nghymru yw'r sector olew a nwy[4] a'r sector trafnidiaeth forol (porthladdoedd a morgludiant).

90. Mae cynyddu ffyniant a llesiant drwy greu swyddi a thwf economaidd yn flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru; mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i fuddsoddi mewn seilwaith, arloesi a gwella'r amgylchedd busnes.

---

[3] Ffynhonnell: Annual Business Inquiry, Regional Accounts (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Roedd hyn yn cynnwys Mwynau (25), Pysgod (29), Trafnidiaeth Forol (246), Olew a Nwy (372), Mewndirol (1).

[4] Mae porthladd Aberdaugleddau yn borthladd pwysig yn y DU yn nhermau nwyddau fel swmpgyflenwadau o danwydd, nwy hylifedig, olew crai a chynhyrchion olew.


ISBN: 978-1-4734-5357-9

DRAFT

Mae'r cynllun hwn yn cefnogi twf yr economi forol drwy bolisïau strategol sy'n llywio penderfyniadau mewn perthynas â'r gweithgareddau hyn mewn sectorau

91. Roedd cyfanswm o tua 5,800 o swyddi cyflogedig yn y sector morol yng Nghymru yn 2013, sef tua 0.5% o'r cyfanswm ar gyfer Cymru, sydd ychydig yn is na'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU, sef 0.7%. Cafwyd y cyfraniad mwyaf gan drafnidiaeth, drwy ddarparu tua 3,300 o swyddi cyflogedig, ac roedd tua 1,300 yn y sector olew a nwy. Mae tua 565 o fusnesau yn y sector morol yng Nghymru, ac mae'r gyfran fwyaf ohonynt yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â physgod a thrafnidiaeth forol.

92. Mae rhai terfynau ar ein gallu i fesur cwmpas yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r sectorau morol hyn mewn ystadegau economaidd swyddogol (nid yw ystadegau swyddogol ar gael ar gyfer rhai diwydiannau sydd wedi'u dadgyfuno yn y sector morol yng Nghymru ac mae gwahaniaethau rhwng y methodolegau a'r cwmpas ar gyfer ffynonellau eraill). Yn yr un modd, mae deall a mesur gwerth buddion o ecosystemau yn gymhleth ac nid ydym wedi ceisio prisio nwyddau a gwasanaethau ecosystemau ar gyfer y cynllun hwn. Er hynny, mae'r cynllun hwn yn ceisio optimeiddio twf cynaliadwy yn economi forol Cymru drwy hybu cydnerthedd ecosystemau morol er mwyn hwyluso twf cynaliadwy.

### Cyfleoedd ar gyfer twf glas

93. Mae'r penodau ar sectorau yn y cynllun hwn yn cefnogi twf glas yn yr economi forol drwy bolisïau strategol sy'n llywio penderfyniadau mewn perthynas â gweithgareddau sectorau ac felly'n hybu buddsoddi. Yn ogystal â chyfrannu i'n heconomi, mae twf glas hefyd yn cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant ehangach. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi twf glas drwy ddarparu fframwaith integredig ar gyfer penderfynu. Mae nifer o ffactorau ehangach hefyd yn dylanwadu ar berfformiad yr economi forol sydd y tu allan i gwmpas y cynllun hwn.

94. Mae amcanion wedi'u pennu ar gyfer y cynllun cyfan ac ar gyfer pob sector. Ym mhob pennod, rydym yn ymdrin â chyfraniadau economaidd cymharol y gweithgareddau presennol ar sail y wybodaeth sydd ar gael. Lle bo modd, mae targedau mesuradwy wedi'u pennu; rydym yn disgwyl y bydd targedau o'r fath yn cael eu defnyddio'n amlach mewn fersiynau o gynlluniau morol yn y dyfodol wrth i ni gael gwell dealltwriaeth o weithgareddau'r sectorau ac o botensial ein hadnoddau naturiol yn y dyfodol, ac wrth i rôl cynllunio morol ddatblygu. Datblygwyd rhai amcanion a pholisïau ar gyfer sectorau drwy gydweithio â gwahanol bartneriaid, nid yn unig ar draws llywodraeth ond hefyd â diwydiant a chymunedau, a bydd y cydweithio hwn, sy'n nodwedd mewn twf glas cynaliadwy, yn parhau drwy gydol cyfnod gweithredu'r cynllun.

95. Mae'r holl sectorau'n cefnogi'r economi forol mewn rhyw ffordd. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael a'r ddealltwriaeth bresennol o faterion a fydd yn



DRAFT

codi yn y dyfodol a chyfleoedd ar gyfer twf, mae'r cynllun hwn yn nodi bod potensial sylweddol yn y sectorau morol canlynol ar gyfer twf cynaliadwy yn ystod oes y cynllun hwn:

- ynni adnewyddadwy (carbon isel) (gwynt, tonnau, a ffrwd ac amrediad llanw);
- porthladdoedd a morgludiant;
- twristiaeth a hamdden;
- dyframaethu.

96. Mae'r sectorau y credir eu bod yn cynnig y potensial mwyaf ar gyfer twf glas ledled Ewrop[5] yn debyg: dyframaethu; ynni adnewyddadwy morol; cloddio mwynau morol; biotechnoleg forol a twristiaeth y môr a'r arfordir. Mae'r OECD[6] yn awgrymu bod y rhagolygon ar gyfer twf yn economi'r cefnforoedd ar lefel fyd-eang erbyn 2030 yn cynnwys:
    - cynaeafu pysgod a chynhyrchu olew a nwy mewn dŵr dwfn (rhagolygon am dwf bach mewn busnesau a chyflogaeth);
    - morgludiant, adeiladu llongau, ynni gwynt ar y môr, dyframaethu morol, twristiaeth forol, gwyliadwriaeth a diogelwch morol (rhagolygon am dwf uchel hirdymor mewn busnesau a chyflogaeth);
    - ynni adnewyddadwy ar gefnforoedd (tonnau a llanw), cloddio mewn cefnforoedd, biotechnoleg forol a dal a storio carbon (potensial hirdymor sylweddol ond nid ydynt yn gweithredu ar raddfa fasnachol ar hyn o bryd).

97. Er bod y sectorau uchod yn cynnig potensial penodol am dwf i Gymru, mae sectorau eraill yn bwysig iawn ac yn darparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol sy'n cynnal ein heconomi (pysgodfeydd, agregau ar gyfer adeiladu, ceblau trydan ar gyfer cynhyrchu ynni ar y môr, ceblau telathrebu sy'n cefnogi twf mewn gwasanaethau digidol etc.).

98. Mae'n bwysig bod cymdeithas yn deall ac yn gwerthfawrogi'r buddion y mae ein moroedd yn eu darparu gan gynnwys y berthynas rhwng cydnerthedd ecosystemau a chyfleoedd am dwf cynaliadwy yn y dyfodol. Felly bydd Llywodraeth Cymru:
    - yn cydweithio i gael gwell dealltwriaeth o sectorau morol a'u ffyrdd o gyfrannu i'n heconomi;
    - yn cydweithio i gael rhagor o ddealltwriaeth o nwyddau a gwasanaethau ecosystemau morol a'r buddion a geir ohonynt;
    - yn cydweithio i ddeall gwerth amgylchedd y môr i economi a chymdeithas Cymru drwy'r broses monitro ac adrodd ar gyfer y cynllun hwn.
- Mae cyfnewid gwybodaeth yn agored yn gallu ysgogi arloesi a thwf economaidd. Dylai awdurdodau cyhoeddus geisio trefnu i ddata a gwybodaeth fod ar gael yn agored lle bynnag y bo modd.

[5] http://ec.europa.eu/maritimeaffairs/policy/blue_growth_en

[6] http://www.keepeek.com/Digital-Asset-Management/oecd/economics/the-ocean-economy-in-2030_9789264251724-en#.WG9ZDLmyrrc#page190

DRAFT

## Polisïau

99. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi gweithgarwch economaidd cynaliadwy ar bob graddfa [**GEN/01 a GEN/02**] drwy nodi materion allweddol a chyfleoedd i ddefnyddio adnoddau naturiol morol a gofod morol yn y dyfodol. Mae'n helpu defnyddwyr i wneud ceisiadau cryfach am ddatblygu sy'n gyson â pholisi, gan ei gwneud yn fwy tebygol iddynt gael eu hawdurdodi.

## Cefnogi gweithgareddau sy'n economaidd gynaliadwy

100. Mae angen pendant am gynnal a thyfu economïau lleol a chenedlaethol drwy weithgareddau cynaliadwy newydd, yn cynnwys rhai yn yr ardal forol, sy'n darparu swyddi ac incwm ar gyfer pobl leol ac yn arwain at ddarparu nwyddau a gwasanaethau sy'n ychwanegu gwerth ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

101. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio pob modd sydd ar gael iddi i barhau i ddatblygu economi sy'n hyderus, yn gytbwys ac yn edrych tuag at allan, gydag allforion a mewnfuddsoddi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith addas. Rydym yn cydweithio â busnesau i'w helpu i ffynnu, er mwyn helpu i ddatblygu'r economi forol a chreu swyddi, a hybu buddsoddi ehangach yn ein hamgylchedd ac economi forol, a fydd yn arwain at dwf yn y GVA sy'n gysylltiedig â'r môr. Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid ar draws diwydiant a Llywodraeth leol a chanolog fel y bydd busnesau'n cael cymorth ac yn cyfrannu i lesiant cymdeithas drwy ddefnyddio ein hadnoddau naturiol morol yn gynaliadwy.

102. Er mwyn denu busnesau newydd a gwneud economi Cymru'n fwy cystadleuol, mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi 7 Ardal Fenter ledled Cymru. Ardaloedd daearyddol yw'r rhain sy'n cynnal seilwaith busnesau ac yn cynnig cymhellion i greu swyddi newydd a hybu twf cynaliadwy, yn cynnwys y gallu i gael gafael ar gyllid a chyngor ar ariannu, arloesi, hyfforddiant a masnach ryngwladol. Mae'n bwysig bod busnesau sy'n ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru yn derbyn ein hegwyddorion ar gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, gan ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy, hyfforddiant ac arferion cyflogaeth da.

DRAFT

**ECON_01: Twf glas**

Anogir cyflwyno cynigion ar gyfer gweithgareddau economaidd gynaliadwy, yn enwedig lle maent yn cyfrannu at:

- economi fwy cydnerth;
- cyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig ar gyfer cymunedau'r arfordir;
- creu cyfoeth;
- galluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth;
- diogelu a chreu cyflogaeth ar bob lefel sgiliau;
- cynnal cymunedau lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg;
- trechu tlodi drwy gefnogi cymunedau difreintiedig ar yr arfordir; a / neu
- rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn cynnal ecosystemau cydnerth..

## Canllawiau ar weithredu

103. Mae datblygu cynaliadwy ar yr amgylchedd morol yn gallu cynyddu ffyniant a llesiant pobl Cymru. Felly anogir cyflwyno cynigion sy'n darparu neu'n hyrwyddo cyfleoedd i gefnogi'r economi, yn enwedig gweithgareddau y nodwyd bod ynddynt botensial uchel ar gyfer twf cynaliadwy.

104. Dylai cynigion ddangos sut y byddant yn economaidd gynaliadwy, gan ystyried gwerth am arian, buddion i gymdeithas, cymorth i ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â'r môr, yn enwedig lle maent yn ymwneud â chreu swyddi morol, a lle byddant o fantais i'r cymunedau cyfagos i ardal y cynllun, pethau sydd i gyd yn hybu economi gydnerth. Dylai cynigion hefyd nodi ym mha ffyrdd y byddent yn gallu cael effeithiau cadarnhaol ac effeithiau niweidiol ar y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod Cymru'n gydnerth, yn unol â'r diffiniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).

105. Anogir camau i ddatblygu a defnyddio'r amgylchedd morol lle maent yn arwain at fuddion i gymunedau lleol. Lle bo'n bosibl, dylai datblygiadau morol ddigwydd o fewn neu'n agos i ardaloedd sy'n gallu cael y budd gorau o'r gweithgarwch hwnnw. Gall hyn olygu bod y seilwaith ffisegol neu weithlu medrus eisoes ar gael neu y gallent fod ar gael ar gyfer gweithgarwch penodol a dylid cydnabod hyn. Fel arall, gall olygu datblygu mewn ardaloedd a fyddai'n elwa fwyaf o gyfleoedd newydd ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r môr. Mae creu ac arallgyfeirio sgiliau'n fodd i gynyddu gallu cymunedau i wrthsefyll amrywiadau yn y galw mewn rhai diwydiannau. Mae lefelau ac amrywiaeth sgiliau, ac anghenion cyflogaeth y gymuned leol, yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Mae cynlluniau datblygu lleol a pholisi arall sydd wedi'i fynegi mewn termau gofodol yn gallu ein helpu i ddeall cyfleoedd penodol i ddatblygu sy'n briodol mewn lleoliadau penodol. Er mwyn hyrwyddo cyfleoedd sy'n economaidd gynhyrchiol, mae'n bwysig bod

systemau cynllunio ar gyfer tir a môr yn hwyluso'r gallu i bennu cyfleoedd a hyrwyddo buddion cyffredin ac osgoi gwrthdaro lle bo'n bosibl.

106. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), sydd wedi'u hadlewyrchu yn y cynllun hwn, yn cyflwyno dull strategol o integreiddio polisi economaidd, cymdeithasol ac economaidd. Dylid rheoli'r defnydd o'n hadnoddau morol er mwyn sicrhau'r budd economaidd mwyaf posibl (mewn ystyr eang) i Gymru, gan gefnogi amcanion a gwerthoedd cymdeithasol, yn cynnwys llesiant cenedlaethau'r dyfodol, a chynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau morol drwy Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy [gweler y polisïau ar **Sicrhau cymdeithas gryf, iach a chyfiawn** a **Byw o fewn terfynau amgylcheddol**]. Dylid ystyried yr holl effeithiau dichonol y bydd cynnig yn eu creu dros y tymor hir, yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

107. Er mwyn cael y buddion mwyaf posibl o ddefnyddio adnoddau naturiol, rhaid cael dealltwriaeth o'u gwerth a'r ffyrdd y maent yn ategu ei gilydd i roi buddion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r polisi economaidd yn y cynllun hwn wedi'i osod yng nghyd-destun rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol, sy'n ceisio cynnal a chynyddu'r defnydd o'r ardal forol gan sicrhau bod ecosystemau'n gydnerth. Felly dylai gwerth ecosystemau morol a'r nwyddau a gwasanaethau a ddarparant, fod yn rhan o'r broses penderfynu er mwyn hybu defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol morol. Bydd hyn yn galw am ddatblygu sylfaen dystiolaeth er mwyn cael dealltwriaeth fwy cyflawn o werth economaidd adnoddau naturiol morol; anogir camau i gyflawni hyn. Gellir hybu twf cynaliadwy drwy gynnwys ystyriaeth benodol i'r effeithiau dichonol ar nwyddau a gwasanaethau ecosystem mewn prosesau penderfynu perthnasol, a hefyd i werth hanfodol bioamrywiaeth. Dylid datblygu a mabwysiadu arferion da i'w gwneud yn haws cwmpasu ac adlewyrchu nwyddau a gwasanaethau ecosystem, gan gynnwys y rheini sy'n llai hawdd eu prisio mewn ystyr traddodiadol, mewn penderfyniadau.

## Cefnogi cydfodoli

108. Cydfodoli yw sefyllfa lle mae nifer o ddatblygiadau, gweithgareddau neu fathau o ddefnydd yn gallu bodoli ochr yn ochr neu'n agos i'w gilydd yn yr un lle a/neu ar yr un pryd. Mae cydfodoli'n gyffredin eisoes yn yr amgylchedd morol, yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau dros dro, h.y. y rheini nad ydynt yn sefydlog neu'n barhaol. Mae cydleoli yn un o'r is-elfennau mewn cydfodoli lle mae nifer o ddatblygiadau (adeiladweithiau yn aml), gweithgareddau neu fathau o ddefnydd yn cydfodoli yn yr un lle drwy rannu'r un ôl troed neu arwynebedd.

109. Cydfodoli yw conglfaen cynllunio morol. Wrth i'r amgylchedd morol gael ei ddatblygu a'i ddefnyddio fwyfwy, ceir cystadlu cynyddol am ofod, mwy o ryngweithio rhwng gweithgareddau a mwy o gyfle i gydfodoli. Ceir gwahanol fathau o gynigion sy'n hwyluso cydfodoli, e.e. byddai rhai prosiectau seilwaith yn gallu cynnig amwynder sylweddol a chyfleoedd hamdden ar gyfer cymunedau lleol a/neu dwristiaeth arfordirol. Fel arall, gellid cael cyfle i ddatblygu ac ehangu

DRAFT

dyframaethu drwy cydleoli busnesau mewn ffermydd gwynt ar y môr neu o fewn y cyfleusterau technolegol mewn môr-lynnoedd llanw.

110. Mae hyrwyddo cydfodoli, lle bo'n briodol, yn helpu i sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r ardal forol drwy hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau naturiol morol a gofod morol.

111. Mae'r broses cynllunio morol yn pennu cyfleoedd presennol a dichonol ar gyfer defnyddio adnoddau a gofod morol ar gyfer gwahanol sectorau, gan helpu i reoli gwrthdaro dichonol a hybu datblygu cynaliadwy. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi cydfodoli rhwng gweithgareddau a mathau o ddefnydd perthnasol drwy annog cyflwyno cynigion sy'n cyfuno gweithgareddau gwahanol ond cydweddol i wneud y defnydd gorau posibl o ofod ac adnoddau naturiol morol dros amser.

**ECON_02: Cydfodoli**

Anogir cyflwyno cynigion sy'n ystyried cyfleoedd ar gyfer cydfodoli â sectorau cydweddol eraill er mwyn optimeiddio gwerth a defnydd yr ardal forol ac adnoddau naturiol morol.

## Canllawiau ar weithredu

112. Dylai cynigion amlinellu sut mae cyfleoedd dichonol ar gyfer cydfodoli â gweithgareddau eraill wedi'u hasesu a sut y byddai gwireddu'r cyfleoedd hyn yn gallu optimeiddio gwerth ardal y cynllun a'r defnydd ohoni, gan gynnwys darparu buddion amgylcheddol, cymdeithasol a/neu economaidd i gyflawni nodau llesiant Cymru. Dylai cynigion ddangos y graddau y byddant yn cydfodoli â gweithgareddau eraill a sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni. Dylid ystyried hefyd y cydfodoli â gweithgareddau a datblygiadau mewn ardaloedd cynllunio morol cyfagos er mwyn optimeiddio gwerth yr ardal forol ehangach a'r defnydd ohoni.

113. Lle mae gwrthdaro dros ofod neu adnoddau'n bodoli neu'n codi, anogir cyflwyno mentrau rhwng sectorau i ddatrys gwrthdaro. Mae angen ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid perthnasol ac awdurdodau cyhoeddus er mwyn hwyluso camau i wireddu cyfleoedd ar gyfer cydfodoli.

114. Drwy gyflwyno opsiynau ar gyfer cydfodoli mewn cynigion newydd, bydd penderfynwyr yn ei chael yn haws lleihau gwrthdaro presennol a dichonol, sicrhau'r cydweddu gorau posibl rhwng gweithgareddau morol a hyrwyddo cydfodoli rhwng nifer o fathau o ddefnydd. Lle bo'n bosibl, dylai awdurdodau cyhoeddus asesu'r goblygiadau o fathau eraill o ddefnydd mewn ardaloedd morol er mwyn sicrhau'r defnydd gorau posibl o adnoddau (e.e. drwy ystyried dyluniadau gwahanol neu drwy benderfyniadau ac amodau ar drwyddedau) [gweler **ECON_02**]. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial ein moroedd ar gyfer



DRAFT

twf economaidd, dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried y buddion cymharol o gefnogi un gweithgarwch yn hytrach nag un arall yng nghyd-destun amcanion a pholisïau'r cynllun hwn a dylent ystyried unrhyw opsiynau gwahanol, gan wneud y defnydd gorau o arferion da presennol a'r dystiolaeth orau sydd ar gael, gan annog a hwyluso ymchwil a datblygu fel y bo'n briodol er mwyn llenwi bylchau mewn gwybodaeth.

115. Mae ardaloedd penodol yn nyfroedd Cymru lle mae lefelau uwch o weithgarwch, e.e. Aber Afon Hafren, Aberdaugleddau ac Aber Afon Dyfrdwy. Mae lefelau uchel iawn o weithgareddau porthladdoedd a morgludiant o gwmpas Aberdaugleddau, cloddir y rhan fwyaf o'r agregau mewn ardaloedd allweddol oddi ar arfordir De Cymru ac mae'r datblygu ar ffermydd gwynt ar y môr ar gynnydd oddi ar arfordir Gogledd Cymru, yn ogystal â photensial sylweddol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn ardaloedd lle mae adnoddau llanw addas. Mae sectorau eraill yn fwy gwasgaredig, er enghraifft, pysgodfeydd a thwristiaeth a hamdden. Mae rheoli'r posibiliadau ar gyfer cydfodoli, yn cynnwys gweithgareddau yn yr un ardal, ond wedi'u gwahanu, yn fertigol, yn ochrol neu dros amser, yn berthnasol iawn yn yr ardaloedd prysuraf sy'n rhoi buddion lluosog.

116. Mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru yn cwmpasu mwy na 5500 milltir sgwâr o fôr ac yn cynnal amrywiaeth o fathau o ddefnydd gan gynnwys gweithgareddau morgludiant, ynni, pysgodfeydd a hamdden. Mae'n bosibl y bydd angen rheoli a/neu reoleiddio rhai gweithgareddau a datblygiadau. Fodd bynnag, mae nifer o weithgareddau morol ac arfordirol yn gallu cydfodoli'n dda â chadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau. Gall Ardaloedd Morol Gwarchodedig helpu i sicrhau darpariaeth hirdymor o amrywiaeth fawr o nwyddau a gwasanaethau ecosystem, yn cynnwys ailgylchu maethynnau, dal a storio carbon ac amddiffyn yr arfordir a gallant gynnal gweithgareddau sectorau gan gynnwys twristiaeth a hamdden, pysgodfeydd a dyframaethu.

117. Mae gwerth a buddion net Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru yn dibynnu ar y dull o reoli gweithgareddau sy'n cael neu a all gael effaith niweidiol ar y nodweddion a warchodir. Mae mesurau rheoli mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn newid lefel y pwysau oddi wrth weithgareddau a gall hyn, yn ei dro, gael effaith ar gyflwr y nodweddion a warchodir. Felly mae angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng opsiynau rheoli er mwyn sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau ecosystem yn parhau i gael eu darparu gan hybu twf economaidd yr un pryd.

## Polisi cyffredinol – Sicrhau cymdeithas gryf, iach a chyfiawn

### Cyflwyniad

118. Mae ein moroedd yn rhan hanfodol o'n hanes, ein heconomi a'n ffordd o fyw. Mae mwy na 60% o boblogaeth Cymru yn byw ac yn gweithio ar yr arfordir, ac mae pob un o'r dinasoedd mawr a nifer o drefi pwysig wedi'u lleoli yma hefyd. Yn yr adran hon, ceir polisïau'r cynllun sy'n ymwneud â nifer o faterion cymdeithasol, yn cynnwys cymunedau'r arfordir; treftadaeth; newid a llifogydd arfordirol; a'r newid yn yr hinsawdd.

### Cymunedau'r arfordir

119. Ar gyfer cymunedau'r arfordir yng Nghymru, yn enwedig y rheini sy'n bell o'r dinasoedd mawr, mae'r môr a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ef yn chwarae rhan bwysig yn llesiant pobl drwy ddarparu swyddi a chyfleoedd am weithgareddau hamdden a thrwy gynnal amrywiaeth ddiwylliannol ac ymdeimlad o dreftadaeth. Fodd bynnag, mae cyfle gan nifer o gymunedau'r arfordir i gael buddion mwy byth o'n moroedd gan ymaddasu yr un pryd i heriau fel y risg gynyddol o lifogydd a newidiadau mewn amser hamdden.

120. Mae potensial yn ein hamgylcheddau arfordirol i fod ymysg y rhai mwyaf deniadol yn Ewrop ar gyfer byw, gweithio ac ymweld, lle mae pobl yn byw bywydau hirach ac iachach mewn lleoedd cysylltiedig, cynaliadwy sydd wedi'u cynllunio'n dda gyda mynediad da at fwynderau a gwasanaethau. Mewn cymunedau o'r fath, mae pobl yn trysori, yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol er mwyn llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

### Mynediad i'r amgylchedd morol

121. Mae mynediad i'r amgylchedd morol yn ymwneud â'r gallu i gyrraedd datblygiadau, mynd i mewn iddynt a symud o gwmpas ynddynt, a/neu gymryd rhan yn y gweithgareddau a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan neu o fewn yr amgylchedd morol. Mae mynediad i ardal y cynllun morol yn angenrheidiol er mwyn ei mwynhau a'i defnyddio, yn cynnwys drwy hamdden a twristiaeth, felly mae'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ac at iechyd a llesiant.

122. Mae'r gallu i gael mynediad i amgylcheddau arfordirol yn gallu cael effaith arwyddocaol o ran helpu pobl sy'n byw mewn tlodi i wella eu hiechyd meddyliol a chorfforol. Gall gynnig cyfleoedd i deuluoedd ar incwm isel, yn enwedig plant a phobl ifanc, i brofi'r byd naturiol o'u cwmpas a dysgu oddi wrtho.

DRAFT

**SOC_01: Mynediad i'r amgylchedd morol**
Dylai cynigion gynnal neu wella mynediad i'r amgylchedd morol..

## Canllawiau ar weithredu

123. Anogir cyflwyno cynigion sy'n hwyluso mynediad cynhwysol er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cyrraedd datblygiadau, mynd i mewn iddynt a symud o gwmpas ynddynt, a chymryd rhan yn y gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir, lle bo'n briodol. Mae "pawb" yn cynnwys rhieni â bygis, pobl hŷn a phobl sydd â nam ar eu golwg, clyw, symudedd neu ddealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas. Mynediad cynhwysol yw'r canlyniad terfynol i broses dylunio cynhwysol ynghyd â gweithgareddau rheoli, gweithredu a chynnal a chadw; a staff sydd â meddylfryd ymarferol sydd wedi'u hyfforddi'n dda.

124. Dylai cynigion newydd hwyluso neu beidio â chyfyngu ar y mynediad presennol lle bo'n bosibl ac yn briodol. Yn yr un modd, dylai awdurdodau cyhoeddus gefnogi mynediad i'r amgylchedd morol lle bo'n bosibl a phriodol, gan ystyried hefyd y risgiau a'r effeithiau niweidiol dichonol o gael gwell mynediad mewn rhai achosion.

125. Gall y rhain gynnwys aflonyddu ar fywyd gwyllt, effeithiau niweidiol ar ddynodiadau hanesyddol, gwrthdaro rhwng gweithgareddau ac ystyriaethau diogelwch. Er ei bod yn dderbyniol cyfyngu dros dro ar fynediad gan y cyhoedd ar sail diogelwch, dylid osgoi'r angen i gyfyngu neu wahardd mynediad i ofod morol dros y tymor hir lle bynnag y bo modd. Os collir mynediad i leoliad penodol, er enghraifft oherwydd newid arfordirol neu ddatblygiad newydd â blaenoriaeth uwch, dylai awdurdodau cyhoeddus geisio ailsefydlu mynediad gan amharu i'r graddau lleiaf ar y cyhoedd lle bo'n bosibl.

126. Er bod y polisi hwn yn ymwneud yn bennaf â mynediad ffisegol, gellid hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i wella mynediad deallusol / o bell i'r amgylchedd morol hefyd drwy gyhoeddiadau a dehongli ar y we a mathau eraill o ddarpariaeth o bell.

## Llesiant cymunedau'r arfordir

127. Mae'r môr yn chwarae rhan bwysig drwy gyfrannu at lesiant cymunedau'r arfordir ar lefel leol. Mae'r cymunedau o gwmpas ein harfordir yn amrywiol a gall dull polisi sy'n llwyddiannus mewn un ardal fod yn amhriodol mewn un arall. Byddai datblygiad priodol mewn man priodol yn gallu bod yn gymorth i addasu neu fod yn hwb i adfywio ond, yn yr un modd, gallai gael effaith negyddol ar y nodweddion a phriodweddau amgylcheddol cynhenid y mae'r gymuned yn dibynnu arnynt am ei ffyniant a'i llesiant. Un rhan allweddol o hyn yw proffiliau ieithyddol amrywiol y cymunedau o gwmpas ein harfordir, gan fod dwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn uwch mewn rhai cymunedau na'i gilydd. Felly mae'n bwysig ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar raddfa leol a dal y ddysgl yn wastad rhwng datblygu ac adfywio ardal a diogelu'r nodweddion sy'n cyfrannu at yr ymdeimlad o fod



DRAFT

mewn lle neilltuol (gan gynnwys ei phroffil ieithyddol er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau'n cael effaith negyddol ac anghymesur ar y Gymraeg) er mwyn sicrhau bod y system gynllunio gyfan yn darparu buddion net i gymunedau'r arfordir. Bydd hyn yn bwysig iawn lle mae cymuned arfordirol draddodiadol wedi ymaddasu'n llwyddiannus a chynaliadwy i'w lleoliad unigryw neu anodd.

**SOC_02: Llesiant cymunedau'r arfordir**
Anogir cyflwyno cynigion sy'n cyfrannu at lesiant cymunedau'r arfordir..

## Canllawiau ar weithredu

128. Mae datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol yn gallu effeithio ar ddyfodol economaidd-gymdeithasol cymunedau'r arfordir a dylai penderfynwyr sicrhau y manteisir ar gyfleoedd i gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant cymunedau'r arfordir yn y dyfodol.

129. Dylai cynigion ddangos eu bod yn ystyried arwyddocâd datblygiadau dichonol yng nghyswllt nodweddion perthnasol yn yr ardal, gan gynnwys treftadaeth ddiwylliannol, morweddau ac ansawdd amgylcheddol. Gellir hwyluso'r broses hon drwy bennu nodweddion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal astudiaethau teipolegol ac wedi pennu Ardaloedd Cymeriad Morol Cenedlaethol a oedd yn disgrifio cymeriad morweddau lleol[7] (gweler hefyd bolisi SOC_07 a Ffigur 9). Gall pennu nodweddion fel hyn fod o gymorth hefyd i adnabod, diogelu a gwella hunaniaeth leol, a gall fod yn sail briodol i ymgysylltu â chymunedau lleol ac awdurdodau cynllunio mewn modd strwythuredig. Dylid ystyried gwybodaeth a geir o astudiaethau teipolegol ac ymgysylltu â chymunedau yng nghyd-destun y sylfaen dystiolaeth ehangach er mwyn pennu pa weithgareddau sy'n fwyaf addas i gymunedau mewn ardaloedd penodol.

130. Dylai cynigion ddangos eu bod yn cydymffurfio â pholisi ac amcanion cynllunio cenedlaethol a lleol, fel Polisi Cynllunio Cymru a Chynlluniau Datblygu Lleol, a'u bod wedi ymgysylltu ag awdurdodau cyhoeddus perthnasol y tir, i sicrhau bod datblygu morol yn cefnogi a gwella hunaniaeth ddiwylliannol a llesiant cymunedau'r arfordir. Dylid defnyddio'r sylfaen dystiolaeth a ddatblygwyd drwy'r broses cynllunio datblygu (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Lleol), yn ogystal â chynllunio morol, i alluogi penderfynwyr, gan gynnwys datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus, i ddal y ddysgl yn wastad rhwng gwahanol amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

131. Gan amlaf, mae ardaloedd lle ceir tlodi plant yn rhai lle ceir ansawdd aer gwael a sŵn gormodol hefyd a dylid ystyried hyn wrth wneud cynigion. Gall newid yn yr hinsawdd gael effaith anghymesur ar y rheini sy'n fwyaf agored i niwed, gan mai'r

[7] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidence/development-of-a-coastal-community-typology-for-wales/?lang=cy




DRAFT

rheini sy'n cyfrannu leiaf i'r broblem drwy allyriadau yw'r rhai a all brofi'r effeithiau mwyaf o newid yn yr hinsawdd. Mae Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen i bolisïau amgylcheddol lleol gefnogi'r agenda ar drechu tlodi gan wneud ardaloedd yn fwy cydnerth yn eu tro.

DRAFFT

## Ffigur 7 Cymunedau arfordirol



## Achosion o lygredd môr

132. Ceir achosion o lygredd y môr pan gaiff olew a/neu lygryddion eraill eu rhyddhau i'r môr. Er bod llygredd yn cael ei ystyried yn fater amgylcheddol yn bennaf, mae achosion mawr o lygredd môr yn gallu cael effaith niweidiol arwyddocaol ar gymunedau'r arfordir drwy golli gwerth amwynder o ganlyniad i'r effaith o ran estheteg a bioamrywiaeth, gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr, colli enw da ac effeithiau dichonol ar iechyd.

| |
|---|
| **SOC_03: Achosion o lygredd môr**<br>Dylai cynigion leihau eu risg o beri achosion o lygredd môr |

## Canllawiau ar weithredu

133. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â tharddleoedd llygredd fel gollyngiadau olew neu gemegion nad ydynt yn wasgaredig, felly mae'n canolbwyntio ar ddefnyddio, cludo a storio cemegion, cyfryngau biolegol neu danwyddau yn yr amgylchedd morol (boed wrth weithredu neu'n rhan o weithgareddau adeiladu, cynnal a chadw neu ddatgomisiynu). Rhai enghreifftiau yw: llongau a chyfarpar a ddefnyddir mewn gwaith adeiladu (fel ffermydd gwynt ar y môr, amddiffyn yr arfordir, (ail)ddatblygu porthladdoedd); llongau masnach; cerbydau / cychod hamdden. Mae'r polisi'n ceisio sicrhau bod cynigion yn ystyried y risgiau sydd ynddynt o achosi neu gyfrannu at ddigwyddiad mawr, ac yn cymryd camau i ddelio â nhw lle bo'n bosibl. Rhoddir sylw i fater ansawdd dŵr yn gyffredinol ym Mholisi **ENV_06**.

134. Dylai cynigion ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau, deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ar lefel ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol er mwyn lleihau'r risg o lygredd môr. Ymhlith y gofynion perthnasol mae'r rheini o dan y Confensiwn Rhyngwladol er Atal Llygredd o Longau (MARPOL 73/78); Deddf Llongau Masnach 1995 fel y'i diwygiwyd a Deddf Diogelwch Morol 2003. Mae Cynllun Wrth Gefn Cenedlaethol y DU ar gyfer llygredd môr o forgludiant a gweithfeydd ar y môr yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ymateb i achosion o lygredd môr.

## Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

135. Mae Llywodraeth Cymru am gynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg i un miliwn erbyn 2050 ac mae wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r gallu i gael gafael yn rhwydd ar wybodaeth am ein hanes diwylliannol cyfoethog, ein llenyddiaeth a'n cymunedau yn gallu ysgogi arloesi, addysg a thwf economaidd yn ogystal â chyfrannu at lesiant ein cymunedau yn y dyfodol.



DRAFT

**SOC_04: Y Gymraeg a'i diwylliant**
Anogir cyflwyno cynigion sy'n cyfrannu at hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

## Canllawiau ar weithredu

136. Dylai cynigion ystyried cyfleoedd i hybu'r Gymraeg mewn amrywiaeth fawr o weithgareddau, yn cynnwys rhai ar gyfer busnesau a hamdden. Dylai datblygwyr a defnyddwyr yr amgylchedd morol geisio pennu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ohoni yn eu sector a'r tu allan iddo. Yn yr un modd, dylai awdurdodau cyhoeddus hwyluso cyfrannu mewn penderfyniadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys bod yn rhagweithiol wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol, ar arwyddion ac mewn deunyddiau allweddol fel canllawiau, cyfarwyddiadau a phrosesau ymgeisio, gan wneud y defnydd gorau o'r arferion da presennol.

137. Mewn cynigion a all gael effaith niweidiol ar y Gymraeg, dylid amlinellu sut y deliwyd â hyn.

138. Yn achos datblygiadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru neu eu cyflawni o dan gontract â hi, dylid dilyn polisi Iaith Gymraeg addas a, lle bo hynny'n angenrheidiol, cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg sydd wedi'u nodi yn ei Hysbysiad Cydymffurfio y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gydymffurfio ag ef. Anogir yr holl gynigion eraill i wneud hyn hefyd.

## Trefadaeth

139. Mae miloedd o flynyddoedd o fasnachu, fforio, amddiffyn, diwydiant a hamdden wedi creu amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol yn nyfroedd Cymru ac ar hyd ein harfordir sy'n cynnwys cestyll canoloesol, amddiffynfeydd Fictoraidd, harbyrau pysgota bach, porthladdoedd diwydiannol a threfi glan môr yr 19$^{eg}$ ganrif. Mae'r môr yn rhan hanfodol o gymeriad nifer o ardaloedd cadwraeth, yn cynnwys Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharciau Cenedlaethol, a lleoliadau niferoedd mawr o Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig. Mae Polisïau SOC_05 i SOC_08 yn pennu gofynion i sicrhau'r buddion mwyaf posibl o'r amgylchedd hanesyddol; tirweddau dynodedig; a morweddau a chymeriad.

## Yr Amgylchedd Hanesyddol

140. Mae amgylchedd hanesyddol yr arfordir yn rhan ganolog o ddiwylliant Cymru ac mae ei gymeriad yn cyfrannu i'n hymdeimlad o le, hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth.  Mae ein treftadaeth danddwr yr un mor gyfoethog. Ceir



DRAFT

llongddrylliadau sy'n porthi'r dychymyg, a'r un mor rhyfeddol yw ein tirweddau tanddwr a rhynglanwol sy'n dyddio'n ôl dros filoedd o flynyddoedd. Mae dulliau arloesol o fapio gwely'r môr yn dechrau ein deffro i'r posibilrwydd y bydd rhagor o archeoleg hynod yn dod i'r golwg mewn tirweddau tanddwr.

141. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn gallu sbarduno twf economaidd, denu ymwelwyr a darparu lleoedd dymunol i fyw a gweithio.  Mae'n bwysig bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei werthfawrogi, ei ddiogelu a'i wneud yn hygyrch i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae asedau hanesyddol o arwyddocâd cenedlaethol yn cael eu diogelu drwy ddynodiadau fel Henebion Cofrestredig, Safleoedd Llongddrylliadau a Ddiogelir ac Adeiladau Rhestredig. Gellir dynodi ardaloedd sydd â chymeriad lleol neilltuol ac sydd o arwyddocâd hanesyddol yn Ardaloedd Cadwraeth. Hefyd mae dynodiadau anstatudol perthnasol sy'n ystyriaethau perthnasol yn y system gynllunio ar dir fel Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig neu Eithriadol. Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru sy'n gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a diogel i Gymru, a gall ddarparu cyngor ar ddatblygu a defnyddio'r amgylchedd morol mewn perthynas ag asedau treftadaeth.

**SOC_05: Asedau hanesyddol**
Dylai cynigion ddangos sut mae effeithiau dichonol ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau wedi cael eu hystyried yn gynnar a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.
d)

Os na ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

Cefnogir cyfleoedd i wella asedau hanesyddol.

## Canllawiau ar weithredu

142. Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn allweddol wrth ystyried penderfyniadau ynghylch eu rheoli yn y dyfodol ac a yw'n briodol eu diogelu (hyd at ac yn cynnwys eu dynodi) o dan gyfraith a pholisi. Dylid cefnogi a hyrwyddo unrhyw gyfleoedd i gael gwell dealltwriaeth o arwyddocâd asedau hanesyddol. Mae hyn yn cyflawni dull Llywodraeth Cymru o reoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy ac mae'n gyson ag *Egwyddorion Cadwraeth*[8] Cadw sy'n darparu canllawiau ar werthuso a disgrifio arwyddocâd asedau hanesyddol. Dylai defnyddwyr y cynllun gyfeirio at ganllawiau Cadw a dylent roi

[8] Cadw: 2011: Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy

DRAFT

sylw i ganllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

143. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi nodi asedau hanesyddol perthnasol ac wedi ystyried eu heffeithiau dichonol arnynt. Mae datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol yn gallu effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar asedau hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys colli neu ddifrodi deunydd hanesyddol; newid amgylchoedd asedau hanesyddol mewn ffordd sy'n effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar y gallu i'w deall a'u gwerthfawrogi; cuddio neu ddatguddio (er enghraifft, o ganlyniad i newid mewn patrymau gwaddodi).

144. Dylai awdurdodau cyhoeddus eu bodloni eu hunain bod yr ymgeisydd wrth ddatblygu ei gynnig:

- wedi cymryd camau digonol i ymchwilio i arwyddocâd asedau hanesyddol dynodedig a rhai nas dynodwyd a all fod yn agored i effeithiau o'r datblygiad a'r defnydd o'r amgylchedd morol, ac wedi'i werthuso;
- wedi cymryd mesurau priodol i osgoi, lleihau neu liniaru'r effaith ar asedau hanesyddol a'u lleoliad mewn modd sy'n gymesur â'u harwyddocâd.

145. Lle bo'n bosibl, dylai asedau dynodedig a safleoedd o bwysigrwydd cyfatebol gael eu cadw *in situ* mewn amgylchoedd priodol. Ni ddylid caniatáu dim sy'n peri colled neu niwed sylweddol i asedau dynodedig neu safleoedd o bwysigrwydd cyfatebol neu eu lleoliadau oni bai fod hyn yn angenrheidiol i sicrhau buddion economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol i gyflawni nodau llesiant Cymru y gellir dangos eu bod yn fwy na'r difrod neu'r golled.

146. Ni ddylid cymryd bod absenoldeb asedau hanesyddol dynodedig yn golygu ohono'i hun fod asedau hanesyddol nas dynodwyd yn llai arwyddocaol. Oherwydd yr anawsterau logistaidd a'r defnydd dwys o adnoddau sydd ynglŷn â gweithio dan ddŵr, mae arwyddocâd nifer mawr o asedau hanesyddol morol heb gael ei bennu eto. Er hynny, dylid ystyried pob ased o'r fath, a'i leoliad, wrth wneud penderfyniadau.

## Tirweddau dynodedig

147. Mae tirwedd yn ganlyniad i ryngweithio rhwng prosesau dynol a naturiol. Bydd pobl yn meddwl am dirweddau fel lleoedd i fyw, gweithio a mwynhau. Mae tirweddau'n darparu amrywiaeth o wasanaethau diwylliannol sy'n cyfrannu at ein hymdeimlad o le, llesiant ac ansawdd bywyd. Wrth ddarparu'r buddion lluosog hyn, mae tirweddau hefyd yn gallu darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig ar wahanol raddfeydd.

148. Mae nifer mawr o'r tirweddau ar arfordir Cymru yn cael eu cydnabod yn ardaloedd hardd a thrawiadol sydd â haenau o draddodiad diwylliannol ac ieithyddol sy'n ychwanegu at eu hamrywiaeth a'u cymeriad. Mae rhai o'r tirweddau hyn yn cael eu trysori gymaint gan gymdeithas fel eu bod wedi'u dynodi o dan ddeddfwriaeth y DU drwy Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad (1949) yn Barciau Cenedlaethol neu o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000) yn



DRAFT

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae'r dynodiadau statudol hyn wedi'u gwneud er mwyn cadw a gwella eu harddwch naturiol, eu bywyd gwyllt a'u diwylliant ac yn achos Parciau Cenedlaethol er mwyn y cyfleoedd hamdden sydd ar gael ynddynt.

149. Mae Tirweddau Dynodedig yn cael eu cydnabod ar lefel ryngwladol gan Undeb Cadwraeth y Byd (IUCN) yn Ardaloedd Gwarchodedig Categori V, wedi'u trysori fel tirweddau byw oherwydd y rhyngweithio rhwng elfennau naturiol a dynol o'u mewn. Mae 5 o'r 8 Tirwedd Ddynodedig yng Nghymru wedi'u dynodi ar sail eu golygfeydd arfordirol ysblennydd a'u cymeriad arfordirol. Yn sir Benfro y ceir yr unig Barc Cenedlaethol arfordirol yn y DU. Mae tua 54% o arfordir Cymru wedi'i ddynodi'n Barc Cenedlaethol neu AHNE[9].

150. Yn ogystal â hyn, mae nifer o ddynodiadau anstatudol yn cynnwys Arfordiroedd Treftadaeth a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Mae'r ardaloedd hyn wedi cael eu nodi'n bwysig ond nid oes amddiffyniad statudol iddynt fel sydd gan Dirweddau Dynodedig.

151. Mae tua 42% o arfordir Cymru wedi'i ddiffinio'n Arfordiroedd Treftadaeth; mae'r rhain yn cydgyffwrdd yn aml â dynodiadau eraill fel Parciau Cenedlaethol ac AHNE. Nodwyd y rhain gan awdurdodau lleol yn y 1970au a'r 1980au er mwyn diogelu morlinau hardd sydd heb eu datblygu rhag datblygiadau anaddas. Mae polisïau mewn cynlluniau datblygu lleol perthnasol yn ceisio diogelu neu wella cymeriad tirweddau'r morlin sydd heb eu datblygu.

152. Mae Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig yn cofnodi rhai o'r tirweddau hanesyddol a diwylliannol mwyaf arbennig ac eithriadol yng Nghymru. Bydd awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried y wybodaeth sydd yn y Gofrestr Tirweddau Hanesyddol wrth baratoi eu cynlluniau datblygu. Mae awdurdodau lleol yn gallu defnyddio gwybodaeth yn y Gofrestr hefyd yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth, ar ôl cael cyngor gan Cadw[10] lle bo'n briodol, wrth gyflawni eu swyddogaethau rheoli datblygu (Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn y Broses Gynllunio a Datblygu).

**SOC_06: Tirweddau dynodedig**
Anogir cyflwyno cynigion sy'n dangos eu bod yn cydweddu â'r dibenion a nodweddion arbennig a oedd yn sail i ddynodi Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol..

## Canllawiau ar weithredu

153. Lle ceir tirweddau amrywiol, amlswyddogaethol ag ecosystemau a gedwir mewn cyflwr da ac arferion rheoli tir cynaliadwy, dylent fod yn gydnerth gan ddarparu

9 Ref NRW GIS 2016

10 http://cadw.gov.wales/historicenvironment/protection/historiclandscapes/?lang



DRAFT

amrywiaeth o wasanaethau a chyfleoedd yn gyson er mwyn llesiant a budd cymdeithasol ac economaidd. Mae gwahanol fathau o ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau arfer da ar gyfer Cymru a'r DU sy'n helpu i gyflawni'r uchelgais hwn.

154. Mae amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu a gwella Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn cael eu cyflawni'n bennaf drwy'r system gynllunio genedlaethol. Mae Parciau Cenedlaethol yn cyflawni'r swyddogaeth cynllunio statudol yn eu hardaloedd, sy'n cynnwys llunio cynlluniau datblygu lleol a chyflawni'r swyddogaeth rheoli datblygu (awdurdodi cynigion). Mae AHNE yn rhan o system llywodraeth leol ac felly mae'r cynllunio ar eu cyfer yn parhau'n gyfrifoldeb i'r awdurdodau lleol sydd wedi'u dynodi.

155. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn gyfartal o ran harddwch tirweddau a golygfeydd a dylid diogelu'r ddau i'r graddau mwyaf rhag datblygu amhriodol. Mae'n bwysig bod unrhyw gynigion sy'n mynd drwy'r fframwaith cynllunio datblygu yn cydymffurfio â pholisïau yn Polisi Cynllunio Cymru a pholisïau yn y cynllun datblygu lleol perthnasol.

156. Bydd cynigion datblygu penodol sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) a dylai asesiadau roi sylw i'w heffaith ar dirwedd ymysg pethau eraill. Mae canllawiau ar gael oddi wrth y Sefydliad Tirwedd ar asesu'r effaith ar dirweddau ac effeithiau gweledol i gynnal broses hon.

157. Mae dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus, ymgymerwyr statudol a chyfleustodau penodol i roi sylw i ddibenion Parciau Cenedlaethol (o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995) ac AHNE (o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) wrth ymgymryd â gweithgareddau sy'n effeithio ar yr ardaloedd dynodedig hyn. Mae canllawiau ar gael oddi wrth Defra[11].

158. Mae'n ofyniad cyfreithiol i Barciau Cenedlaethol ac AHNE lunio cynlluniau rheoli ar gyfer rheoli, adnoddau a chyflawni. Caiff y cynlluniau rheoli hyn eu llunio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid o bob math ac maent yn cynnig cyfle unigryw i gymunedau a defnyddwyr yr arfordir i ymddiddori yn y Tirweddau Dynodedig hyn a helpu i lywio dyfodol y mannau arbennig hyn.


159. Mae'n bwysig bod cynigion ar gyfer gweithgareddau, rheoli a datblygu yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion cynllunio a dylent ystyried yr arferion gorau sydd ar waith, tystiolaeth a pholisïau yn y cynlluniau rheoli perthnasol. Lle bynnag y bo modd, dylai cynigion helpu i gyflawni diben(ion) y Tirweddau Dynodedig a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cynlluniau rheoli.

11 http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130402151656/http://archive.defra.gov.uk/rural/documents/protected/npaonb-duties-guide.pdf



DRAFT

## Ffigur 8: Nodweddion tirwedd a threftadaeth ar yr arfordir a warchodir



## Morweddau a chymeriad

160. Yng nghyd-destun y cynllun hwn, mae tirweddau (fel y maent wedi'u diffinio yn y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd) mewn ardaloedd morol ac arfordirol yn cael eu galw'n "forweddau" ac maent yn cynnwys "landscapes with views of the coast or seas, and coasts and the adjacent marine environment with cultural, historical and archaeological links with each other", fel y maent wedi'u diffinio yn y DPM**.**

161. Mae gan Gymru forlin amrywiol a deniadol gyda morweddau sy'n cynnal amrywiaeth fawr o weithgareddau a mathau o ddefnydd ac yn agored i'w dylanwad. Mae'r ymdeimlad cryf o le a'r cymeriad unigryw sy'n nodweddiadol o'n hamgylchedd arfordirol yn gwneud cyfraniad pwysig i'n hiechyd a llesiant cenedlaethol. Un o'r prif resymau a fydd gan unigolion a busnesau dros symud i ardaloedd yr arfordir yw'r ansawdd bywyd uchel y mae lleoedd o'r fath yn gallu ei hyrwyddo, yn enwedig drwy dwristiaeth a hamdden.

162. Gall datblygiadau yn rhanbarth cynllunio morol y glannau arwain at newid mewn cymeriad o gwmpas arfordir Cymru. Mae newidiadau o'r fath yn digwydd eisoes. Yn ystod oes y cynllun hwn, mae'n debygol y bydd newid parhaus yng nghymeriad morweddau Cymru, o ganlyniad yn bennaf i adeiladu rhagor o seilwaith ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y môr , yn enwedig oddi ar arfordir Gogledd Cymru a De Cymru. Mae'r newidiadau hyn yn ganlyniad anorfod i'n dyheadau i gael mwy o fuddion o'n moroedd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

**SOC_07: Morweddau**

Dylai cynigion ddangos sut mae effeithiau dichonol ar forweddau wedi cael eu hystyried yn gynnar a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar forweddau; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

Cefnogir cyfleoedd i wella morweddau.

## Canllawiau ar weithredu

163. Mae datblygiadau, gweithgareddau a mesurau rheoli yn gallu newid cymeriad ardal a'i hadnoddau gweledol. Mae pob morwedd yn werthfawr; lle mae posibilrwydd o newid morwedd ardal i raddau arwyddocaol dwy ddatblygiadau arfaethedig neu wneud cynlluniau, dylid ystyried yr effeithiau a gwerth cymharol y forwedd a newidir wrth wneud penderfyniadau. Nid yw pryderon ynghylch



DRAFT

morweddau yn rhwystr o reidrwydd ar eu pen eu hunain rhag datblygu sydd wedi'i leoli a'i ddylunio mewn ffordd sensitif a dylid ystyried morweddau'n gynnar er mwyn gallu dod o hyd i atebion sy'n fwy derbyniol a helpu i gyfeirio datblygiadau addas at leoliadau priodol.

164. Wrth ddechrau prosiect neu ddatblygu opsiynau mewn cynllun y ceir yr adeg fwyaf effeithiol i osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau niweidiol ar forweddau. Y flaenoriaeth gyntaf wrth ymdrin ag effeithiau dichonol fydd ystyried lleoliadau addas a dewisiadau eraill.

165. Dylai cynigion ddangos eu bod yn ystyried cymeriad ac ansawdd presennol y forwedd, ei sensitifrwydd a'i gallu i ddygymod â newid. Gall methodoleg Asesu Cymeriad Tirwedd fod o gymorth yn y broses hon. Mae'r system hon yn pennu nodweddion a buddion naturiol, diwylliannol a rhai sy'n perthyn i leoliadau penodol a gellir ei defnyddio ar gyfer strategaeth, cynllunio, rheolaeth integredig ar barthau arfordirol a rheoli datblygu. Mae ardaloedd cymeriad morol wedi'u nodi ar lefel genedlaethol (gweler ffigur 9) a lefel leol a cheir y rhan fwyaf ohonynt mewn ardaloedd arfordirol lle mae'r cymhlethdod a'r rhyngweithio mwyaf rhwng tir a môr. Gall CNC ddarparu tystiolaeth a chyngor ar gymeriad morweddau, eu nodweddion arbennig, a'u sensitifrwydd i newid. Lle bo'n briodol, bydd CNC hefyd yn llunio canllawiau ar arfer technegol da, neu'n cyfeirio at ganllawiau presennol sydd wedi'u llunio gan gyrff eraill. Dylid ystyried canllawiau o'r fath wrth ddylunio datblygiadau ac yn y broses gwneud cynlluniau.

166. Ar gyfer cynllunio defnydd tir, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynghori awdurdodau cynllunio lleol i bennu nodweddion eu morlin a datblygu neu gymhwyso polisïau penodol sy'n adlewyrchu nodweddion eu morlin. Dylid ystyried dulliau o fapio cymeriad morweddau ac adnoddau gweledol (sydd ar gael oddi wrth CNC) wrth wneud hyn. Gellir cael effeithiau mwy arwyddocaol ar forweddau o ganlyniad i ddatblygu ac mae hyn yn galw am ddull mwy sensitif o weithredu os yw o fewn neu'n effeithio ar Barciau Cenedlaethol; AHNE; Arfordiroedd Treftadaeth; Tirweddau, Parciau neu Erddi Hanesyddol Cofrestredig; Safleoedd Treftadaeth y Byd; neu dreftadaeth adeiledig arall neu arfordir sydd heb ei ddatblygu. Bydd yr arwyddocâd yn amrywio yn ôl natur y datblygiad a sensitifrwydd y morweddau dan sylw.

167. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol eu bodloni eu hunain wrth wneud penderfyniadau fod cynigion:

- wedi cymryd camau digonol i ymchwilio i arwyddocâd morweddau a Thirweddau Dynodedig a all fod yn agored i effeithiau'r defnydd arfaethedig o'r amgylchedd morol, ac wedi'i werthuso;
- wedi cymryd mesurau priodol a chymesur i osgoi, lleihau a/neu liniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol ar forweddau, ac yn cydnabod lle bo'n bosibl y potensial i'w gwella.

168. Ystyr 'lleihau' yw peri i effaith niweidiol fod mor fach â phosibl, e.e. lleoli mewn morwedd sydd â'r lleiaf posibl o sensitifrwydd. 'Lliniaru' yw defnyddio technegau lleoli a dylunio sy'n lleihau'r effaith niweidiol sy'n weddill. Er enghraifft, torri



DRAFT

graddfa gwrthrych mawr yn nifer o raddfeydd llai gan gyfyngu'r datblygiad, a defnyddio lliwiau, cefndir a deunyddiau i'w wneud yn llai amlwg . Ystyr 'gwella' yw mynd â'r broses lleoli a dylunio gam ymhellach, i gynyddu amrediad ac ansawdd yr effeithiau cadarnhaol a'r buddion lluosog a ddarperir. Er enghraifft, byddai cynnig yn gallu helpu i adfer asedau treftadaeth.

169. Mae morweddau'n bwysig o ran y canfyddiadau o ardal sydd gan bobl leol ac ymwelwyr ac maent yn rhan allweddol o'r pwynt gwerthu unigryw mewn ardaloedd arfordirol sy'n cynnal cymunedau arfordirol. Felly mae'n hanfodol cynnwys cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu cynigion a hefyd, lle bo'n briodol, wrth wneud penderfyniadau er mwyn deall y gwahanol ganfyddiadau ynghylch pwy sy'n trysori beth, ymhle a pham. Mae'n bwysig bod cynigion sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar forweddau yn nodi'n glir y camau y maent wedi'u cymryd i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol a chael barn rhanddeiliaid.


170. Mewn rhai ardaloedd, mae'n bosibl y bydd yn fwyaf priodol derbyn newid mewn cymeriad a golygfeydd lle bydd buddion newydd neu ychwanegol i'r forwedd yn codi hefyd. Mewn ardaloedd eraill, gellir cael mwy o fuddiant cyhoeddus mewn cadw cymeriad naturiol neu hanesyddol a nodweddion arbennig cysylltiedig fel "gwylltineb", "pellenigrwydd" a "threftadaeth", lle na fydd rhai datblygiadau'n briodol.

171. Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer ynni yn ei gwneud yn glir na ddylid gwrthod caniatáu datblygiad dim ond ar y sail ei fod yn cael effaith niweidiol ar y forwedd neu amwynder gweledol oni bai:

- ei bod yn rhesymol cynnig cynllun safle gwahanol o fewn y safle a nodwyd a fyddai'n lleihau unrhyw niwed gan gadw diogelwch a hyfywedd economaidd y cais, gan ystyried cyfyngiadau eraill y mae'r ymgeisydd wedi'u hwynebu fel effeithiau ecolegol; neu
- fod y derbynyddion (sydd wedi'u nodi yn **ENV_01)** mor sensitif fel bod yr effeithiau niweidiol yn cael eu hystyried yn drech na buddion y cynllun arfaethedig.

DRAFT

## Ffigur 9: Ardaloedd Cymeriad Morol



## Newid a llifogydd arfordirol

172. Newid arfordirol yw newidiadau ffisegol yn y traethlin, er enghraifft, erydu, tirlithriad arfordirol, llifogydd parhaus o'r môr ac ailgronni ar y traethlin.

173. Mae erydu arfordirol yn digwydd ar 23% o draethlin Cymru[12] ac mae'n codi heriau mewn mannau lle mae'n bygwth cymunedau a seilwaith. Mae'r arfordir yn ddynamig o'i hanfod ac yn agored i newid, ac mae cyfraddau erydu cyffredinol yn digwydd yn raddol dros gyfnodau cymharol hir. Er hynny, fe all erydu ddigwydd yn sydyn ac yn ysbeidiol. Disgwylir y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu at gyfraddau uwch o newid arfordirol yn ystod y degawdau nesaf. Gan fod rhagolygon yn dangos y bydd lefelau'r môr yn codi o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, mae tir isel sy'n draenio'n naturiol ar y distyll ar hyn o bryd yn debygol o fod dan ddŵr am gyfnodau hirach neu'n barhaol. Mae'r cynnydd disgwyliedig yn lefel y môr, ynghyd â mwy o dywydd eithafol, yn debygol o arwain at fwy o berygl o lifogydd ac erydu arfordirol.

174. Mae erydu a llifogydd arfordirol yn gallu effeithio'n uniongyrchol ar weithgareddau dynol ac economaidd. Gallant newid tirweddau'r arfordir, gwanhau amddiffynfeydd môr, a pheryglu adeiladau ar yr arfordir (yn cynnwys treftadaeth adeiledig), rhwydweithiau seilwaith (yn cynnwys porthladdoedd, marinâu, ffyrdd, rheilffyrdd ac ynni) a phobl. Mae perygl o lifogydd ar yr arfordir yn fater o bwys mawr ar lefel genedlaethol. Mae tua 208,000 o unedau eiddo yng Nghymru mewn perygl o lifogydd o afonydd neu'r môr[13]. Mae lefel y tebygolrwydd sydd ynglŷn â'r perygl o lifogydd ar raddfa fawr yn cael ei hystyried yn isel gan mwyaf, yn rhannol o ganlyniad i'r buddsoddi mewn amddiffynfeydd arfordirol, ond yn uchel o ran ei chanlyniadau, ac mae hyn yn codi heriau cymhleth o ran rheoli.

175. Mae newid a llifogydd arfordirol yn gallu cael effaith arwyddocaol hefyd ar adnoddau naturiol. Mae rhan helaeth o'n hamgylchedd morol wedi'i dynodi ar sail ei bwysigrwydd amgylcheddol (gweler polisi **ENV_02** a'r map cysylltiedig) ac mae newidiadau mewn cynefinoedd arfordirol dan fygythiad fel morfeydd heli, twyni tywod a blaendraethau yn gallu effeithio ar fioamrywiaeth a'r ddarpariaeth o wasanaethau ecosystem eraill yn y dyfodol, fel gwasanaethau diwylliannol sy'n helpu i gynnal y diwydiant twristiaeth ar yr arfordir. Gall newid yn yr hinsawdd arwain hefyd at fwy o stormydd, amodau llai addas a mwy o ddifrod i gyfleusterau arfordirol.

176. Gellir cynllunio rheolaeth arfordirol yn ei hystyr cyffredinol i greu cynefinoedd a hwyluso ymaddasu. Fodd bynnag, yn hanesyddol mae'r dulliau traddodiadol o reoli'r peryglon o newid a llifogydd arfordirol wedi canolbwyntio ar egwyddorion amddiffyn. Amcangyfrifwyd bod 415 km o amddiffynfeydd môr adeiledig yn gwarchod ein cymunedau arfordirol  ac yn diogelu asedau arfordirol sy'n werth

DRAFT

[12] UKMMAS 2010a

[13] http://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/flooding/flood-and-coastal-erosion-risk-in-wales/?lang=en

mwy na £8 biliwn yng Nghymru[14]. Wrth i gymunedau ddatblygu, datblygu hefyd a wnaeth y rhwydwaith sylweddol o amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r seilwaith ar gyfer draenio a diogelu'r arfordir sy'n helpu i leihau'r risgiau. Mae cynnal yr amddiffynfeydd presennol, yn ogystal â chodi rhai newydd, yn parhau'n weithgarwch sylweddol o gwmpas arfordir Cymru. Er y bydd y trefniadau hyn yn parhau'n elfen bwysig yn ein hamddiffynfeydd arfordirol, ac yn gweithio o hyd yn y rhan fwyaf o Gymru, mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd y pwysau ar ein seilwaith presennol yn cynyddu'n sylweddol. Ni ellir parhau i fforddio codi amddiffynfeydd sy'n cynyddu o ran maint a beth bynnag fo maint yr amddiffynfa, bydd perygl bob amser iddi gael ei bylchu neu ei gorlifo. Felly bydd risg weddilliol bob amser na fydd amddiffynfeydd yn gallu delio â hi ar eu pen eu hunain. Mae prosiectau amddiffyn arfordirol hefyd yn gallu newid yr amgylchedd arfordirol drwy newidiadau mewn geomorffoleg ac mae gwasgfa arfordirol yn gallu arwain at ddiraddio a cholli cynefinoedd. Er enghraifft, mewn ardaloedd lle mae amddiffynfeydd arfordirol sefydlog (caled), mae gallu cynefinoedd i ymaddasu a symud yn cael ei gyfyngu mewn rhai achosion wrth i lefelau'r môr godi. Byddai hyn yn gallu arwain at golli'r ardaloedd/cynefinoedd hyn yn barhaol, yn ogystal â'r nwyddau a gwasanaethau ecosystem cysylltiedig y maent yn eu darparu.

177. Gan gydnabod y materion sy'n gysylltiedig â newid a llifogydd arfordirol, mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd oddi wrth system seiliedig ar y dulliau traddodiadol hyn at un sy'n canolbwyntio ar egwyddorion rheoli risg. Mae'r dull hwn yn cael ei gynnal gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, ac mae'r camau cyntaf i roi hyn ar waith yn cynnwys cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn 2011 a chyflwyno Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd o dan y Gyfarwyddeb Llifogydd yn 2014.

178. Ochr yn ochr â'r strategaeth hon, datblygwyd mapiau erydu arfordirol a risg llifogydd cenedlaethol (ffigur 10,11a and 11b) a mabwysiadwyd Cynlluniau Rheoli Traethlin. Nod y Cynlluniau Rheoli Traethlin yw sicrhau dull mwy cynaliadwy o reoli'r traethlin dros y tymor hwy, a fydd yn gallu gwrthsefyll newid hinsawdd yn well, yn enwedig y cynnydd yn lefel y môr. Mae'r cynlluniau anstatudol hyn yn cynnig cyd-destun pwysig ar gyfer penderfyniadau ynghylch yr arfordir drwy amlinellu polisïau a ffefrir ar gyfer rheoli'r arfordir. (Hold the Line, No Active Intervention, Managed Realignment, Advance the Line) dros dri chyfnod: 0-20 mlynedd, 20-50 mlynedd a 50-100 mlynedd.

179. Mae cynllunio ymlaen i baratoi am lifogydd neu erydu'r arfordir yn elfen hanfodol hefyd mewn rheoli effeithiol ar lifogydd. Yn sgil y llifogydd yng ngaeaf 2013/14, comisiynwyd adolygiad gan Lywodraeth Cymru a wnaeth 47 o argymhellion i wella'r gallu i wrthsefyll llifogydd arfordirol yng Nghymru. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd wedyn, Cynllun Cyflawni'r Adolygiad o'r Lifogydd ar yr Arfordir[15], yn

---

[14] Swyddfa Archwilio Cymru, 2009


[15] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/studies/review-into-coastal-flooding-december-2013-and-january-2014-delivery-plan/?lang=cy

DRAFT

amlinellu sut y gellir gweithredu arnynt. Mae cynllunio at argyfwng rhwng asiantaethau yng Nghymru'n digwydd yn bennaf drwy'r pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth sy'n cydweithio i sicrhau bod cynlluniau argyfwng wedi'u paratoi i ddelio â llifogydd a digwyddiadau erydu.

DRAFFT

## Ffigur 10: Perygl o Lifogydd



180. Mae integreiddio cynllunio a phenderfynu ar dir a môr yn allweddol i ddelio â'r materion sy'n gysylltiedig â newid a llifogydd arfordirol.

181. O dan y polisïau canlynol, mae'n ofynnol bod cynigion yn ystyried y tebygolrwydd i newid a llifogydd arfordirol effeithio arnynt a'u heffaith ddichonol eu hunain ar y prosesau hyn.

**SOC_08: Gwrthsefyll newid a llifogydd arfordirol**
Dylai cynigion ddangos sut y byddant yn gwrthsefyll newid a llifogydd arfordirol yn ystod eu hoes.

## Canllawiau ar weithredu

182. Lle bo'n briodol, dylai cynigion ar gyfer datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol gynnwys asesiad o'r perygl o newid a llifogydd arfordirol yn ystod oes y prosiect. Hefyd, lle bo'n briodol, dylent gynnwys mesurau i ddelio â'r perygl hwnnw a bod yn fwy cydnerth.

183. Mewn perthynas â llifogydd, dylai defnyddwyr y cynllun roi sylw i bolisi Llywodraeth Cymru ar berygl o lifogydd yn Polisi Cynllunio Cymru a dylent gyfeirio at TAN 15 i gael canllawiau ar ddatblygu a pherygl o lifogydd. Dylai defnyddwyr y cynllun ymgynghori â CNC i gael gwybodaeth a chyngor technegol ar berygl o lifogydd a gall fod yn ofynnol iddynt gynnal Asesiad Canlyniadau Llifogydd ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd lle mae perygl mawr o lifogydd. Os ydynt ar gael, dylid defnyddio mapiau llifogydd Llywodraeth Cymru neu CNC i ganfod lefel y perygl o lifogydd mewn ardaloedd arfordirol, ac mae Mapiau Cyngor Datblygu yn TAN 15 yn dangos lle bydd angen asesu ychwanegol.

184. Dylai defnyddwyr y cynllun ystyried polisïau mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin sy'n cynnig cyd-destun pwysig ar gyfer penderfynu ar yr arfordir drwy amlinellu polisïau a ffefrir ar gyfer y ffordd o reoli'r arfordir.

185. Os oes modd, dylai datblygiadau arfordirol gael eu lleoli mewn ardaloedd sy'n llai agored i lifogydd ac erydu, er y gellir cael eithriadau os yw lleoliad penodol yn hanfodol am resymau gweithredol neu os na ellir lleoli seilwaith mewn man arall. Fel y nodwyd yn Polisi Cynllunio Cymru, mae morlin sydd heb ei ddatblygu'n annhebygol o gael ei ystyried yn briodol ar gyfer datblygu newydd, na datblygu sy'n galw am waith peirianegol neu amddiffyn helaeth i'w wneud yn ddiogel.


186. Yn unol â'r polisi mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin, ni ddylid caniatáu cynigion i ddatblygu ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd / erydu ac sydd â pholisi "no active intervention" neu "managed alignment" ar eu cyfer yn y Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer unrhyw gyfnod sy'n berthnasol i oes y datblygiad. Yn yr un modd, ni ddylid datblygu ardaloedd sydd mewn perygl mawr o lifogydd (TAN 15).

DRAFT

## Ffigur 11 (a): Erydiad Arfordirol - Cynllun Rheoli Traethlinau



### Ffigur 11 (b): Erydiad Arfordirol - Amddiffynfeydd



**SOC_09: Effeithiau ar newid a llifogydd arfordirol**
Anogir cyflwyno cynigion sydd:

- yn dangos nad ydynt yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar brosesau arfordirol;
- yn lleihau'r risg o newid a llifogydd arfordirol;
- yn gyson â'r Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol.

## Canllawiau ar weithredu

187. Mae rheoli perygl o lifogydd ac erydu yn gyfrifoldeb i CNC, Awdurdodau Lleol a pherchenogion tir. Dylid ymgynghori â'r awdurdodau hyn ar faterion sy'n ymwneud â newid a llifogydd arfordirol ar y cyfle cyntaf.

188. Dylid cefnogi mesurau sy'n gysylltiedig â datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol sy'n lleihau'r perygl o newid arfordirol. Hefyd cefnogir mesurau sy'n gweithio ar y cyd â phrosesau naturiol, yn helpu i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd ac yn gwneud ecosystemau a chymunedau arfordirol yn fwy cydnerth.

189. Dylai cynigion ddangos na fydd gweithgareddau arfaethedig yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar brosesau arfordirol ac na fyddant yn arwain at fwy o risg o newid a llifogydd arfordirol. Dylai cynigion roi sylw i gynlluniau a pholisïau perthnasol, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, TAN 14, TAN 15 a Chynlluniau Rheoli Traethlin.

190. Mewn cynigion sy'n ymwneud â dulliau o reoli'r perygl o lifogydd a diogelu'r arfordir, dylid rhoi sylw i'r Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol, a dylid sicrhau, lle bo'n bosibl, eu bod yn cydymffurfio â'r polisi yn y Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol. I'r graddau y mae hynny'n ymarferol, dylai penderfynwyr gefnogi dulliau sy'n gweithio ar y cyd â phrosesau naturiol a'r dirwedd/morwedd leol ac yn rhoi cyfleoedd i greu cynefinoedd (**ENV_01a02; SOC_06a07**).

191. Lle mae'r Cynllun Rheoli Traethlin yn cefnogi dulliau artiffisial traddodiadol, dylai cynigion ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd gan ddefnyddio'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf sydd ar gael[16]. Dylai cynigion ddangos nad yw ymyriadau arfaethedig yn cael effeithiau niweidiol ar y risg o erydu arfordirol, nac yn cynyddu neu'n gwaethygu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill, a bydd yn hanfodol cymhwyso polisi **ENV_02** (Ardaloedd Morol Gwarchodedig).

[16] Ar gael yn ukclimateprojections.metoffice.gov.uk/

## Y newid yn yr hinsawdd

192. Mae'r achos gwyddonol bod yr hinsawdd yn newid a bod gweithgarwch dynol yn chwarae rhan arwyddocaol yn y newid hwnnw yn glir[17]. Bydd y newid yn yr hinsawdd yn codi nifer o heriau i'r amgylchedd morol a'r cymunedau a busnesau sy'n dibynnu arno. Rhai o'r effeithiau tebygol yw cynnydd yn lefel y môr, mwy o berygl o lifogydd a newidiadau mewn bioamrywiaeth ac ecosystemau, yn ogystal ag effeithiau cysylltiedig ar iechyd a llesiant.

193. Mae dwy ffordd allweddol o weithredu ar y newid yn yr hinsawdd – lliniaru ac addasu. Nod mesurau lliniaru yw arafu newid a lleihau ei effeithiau drwy leihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr (neu gynyddu'r dalfeydd sy'n gallu amsugno'r nwyon). Mae mesurau addasu yn helpu i ddiogelu rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy gymryd camau priodol i atal neu leihau'r difrod i systemau economaidd-gymdeithasol a naturiol. Yn ogystal â hynny, mae'n golygu pennu a manteisio ar gyfleoedd a all godi o'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r costau yn y dyfodol a'r risgiau o beidio â gweithredu yn fwy o lawer na'r costau o weithredu'n awr. Hefyd, byddai oedi cyn gweithredu ar effeithiau negyddol y newid yn yr hinsawdd yn sicr o'i gwneud yn fwy drud ac anodd eu trechu yn y dyfodol.

194. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod targed cyfreithiol ar gyfer lleihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050 ac yn ei gwneud yn ddyletswydd i Weinidogion Cymru osod cyfres o dargedau interim (ar gyfer 2020, 2030, a 2040) a chyllidebau carbon pum mlynedd. Bydd y cyllidebau'n gosod terfynau ar gyfanswm yr allyriadau a gaiff eu hallyrru yng Nghymru dros gyfnod o 5 mlynedd: byddant yn ffordd o gamu ymlaen ac yn sicrhau cynnydd rheolaidd ar gyrraedd y targed hirdymor. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cynllun Cyflawni a fydd yn amlinellu eu cynigion a'u polisïau, ar sail cyfnodau'r cyllidebau carbon, i ddarparu sicrwydd er mwyn hybu buddsoddi ar gyfer economi carbon isel.

**SOC_10: Lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd**
Dylai cynigion, yn nhrefn blaenoriaeth:

a) osgoi allyrru nwyon tŷ gwydr; a/neu
b) lleihau allyriadau ohonynt lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) eu lliniaru lle na ellir eu lleihau.

Lle na ellir ymdrin yn ddigonol ag allyrru arwyddocaol ar nwyon tŷ gwydr, dylai cynigion ar gyfer gweithgareddau a reoleiddir gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

[17] ref : 5th Synthesis IPCC report

DRAFT

## Canllawiau ar weithredu

195. Dylid lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr lle bynnag y bo modd, yn enwedig yng nghyd-destun datblygiadau ar raddfa fwy a phrosiectau seilwaith. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried allyriadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgarwch arfaethedig (yn cynnwys nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu) ac sy'n ymwneud yn anuniongyrchol â'r gweithgarwch arfaethedig (er enghraifft, teithiau hirach gan longau o ganlyniad i'r datblygiad). Ymhlith y mesurau lleihau posibl y mae camau i arbed mwy o ynni a defnyddio technolegau carbon isel fel ffynonellau ynni adnewyddadwy.

**SOC_11: Gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd**

Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac wedi cynnwys mesurau ymaddasu priodol, gan roi sylw i Asesiadau o Risg Newid Hinsawdd i Gymru.

## Canllawiau ar weithredu

196. Lle bo'n briodol, dylai defnyddwyr y cynllun wneud defnydd o'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf sydd ar gael am y rhagolwg o faint y newid yn yr hinsawdd er mwyn asesu'r effeithiau tebygol ar y datblygu a'r defnydd arfaethedig o'r amgylchedd morol. Lle bo angen, dylai awdurdodau cyhoeddus gael eu bodloni bod cynlluniau digonol ar gyfer rheoli risg neu hapddigwyddiadau wedi'u paratoi i gynyddu gallu datblygiadau i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

197. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried yr effaith bosibl o fesurau arfaethedig i addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar fesurau a gymerir mewn mannau eraill a dylent ddangos sut mae elfennau o arfer da sy'n ymwneud ag addasu i newid hinsawdd wedi cael eu hintegreiddio mewn cynlluniau neu gynigion. Dylid rhoi sylw i Gynlluniau Ymaddasu Sectorol Llywodraeth Cymru[18] lle bo'n briodol

198. Dylai defnyddwyr y cynllun roi ystyriaeth hefyd i'r cyfleoedd posibl sy'n codi o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, fel y nodwyd yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU (CCRA).

**SOC_12: Cefnogi camau ehangach i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd**

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol gefnogi cyfleoedd sy'n cyfrannu at

[18] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/preparing/saps/?skip=1&lang=cy

DRAFT

| |
|---|
| ymaddasu a/neu liniaru yng nghyswllt y newid yn yr hinsawdd. |

## Canllawiau ar weithredu

199. Anogir cyflwyno cynigion sy'n cynnwys mesurau i gyfrannu at gamau i liniaru ac ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

200. Ymhlith y mesurau posibl i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd mae lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr drwy arbed mwy o ynni, neu ddefnyddio technoleg carbon isel.

201. Ymhlith y mesurau ymaddasu posibl y mae rhai sy'n cynyddu gallu ecosystemau, cymunedau a gweithgareddau economaidd i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn ymdrin â'r ffordd orau o reoli'r arfordir, dros y tymhorau byr, canolig a hir, gan gynnwys ymaddasu ar yr arfordir, yng nghyd-destun y cynnydd a ragwelir yn lefel y môr a chyfyngiadau eraill. Maent yn allweddol ar gyfer llywio penderfyniadau ynghylch ymaddasu.

DRAFT

## Polisi cyffredinol – Byw o fewn terfynau amgylcheddol

### Cyflwyniad

202. Mae ecosystemau morol yn ddynamig ac maent yn darparu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau hanfodol, fel ffynhonnell bwydydd iach, amddiffyniad rhag trychinebau naturiol a rheoleiddio ein hinsawdd. Mae'n bwysig bod ecosystemau a'r cynefinoedd a rhywogaethau a gynhelir ganddynt yn gydnerth a'u bod yn gallu ymaddasu i newid ac effeithiau fel y gallwn barhau i gael buddion o'r nwyddau a gwasanaethau y maent yn eu darparu. Yn yr adran hon, rydym yn amlinellu polisïau sy'n hyrwyddo camau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd morol er mwyn sicrhau bod ecosystemau morol yn gydnerth a'u bod yn gallu diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

### Statws Amgylcheddol Da a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

203. Mae Strategaeth Forol y DU wedi sefydlu fframwaith i ddiogelu ein moroedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ei nod yw cyrraedd neu gynnal Statws Amgylcheddol Da (GES) yn nyfroedd y môr a'r arfordir. Mae GES yn cael ei ddiffinio ar sail 11 "disgrifydd" sy'n cwmpasu'r amgylchedd morol cyfan. Mae Strategaeth Forol y DU yn amlinellu, ar lefel y disgrifyddion, raglen fonitro a set o fesurau i gyrraedd neu gynnal GES. Er mwyn cyrraedd GES, rhaid diogelu'r amgylchedd morol, gan ei atal rhag dirywio a'i adfer lle bo'n ymarferol gan ddefnyddio adnoddau morol yn gynaliadwy.

204. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ceisio hyrwyddo ffyrdd o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Yr amcan wrth Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu. Mae egwyddorion ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wedi'u nodi yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) ac maent yn ategu'r 11 disgrifydd ar gyfer GES yn Strategaeth Forol y DU.

205. Mae'r polisïau sydd yn y cynllun hwn yn chwarae ran allweddol mewn sicrhau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac yn helpu i gyrraedd GES.

206. Mae Tabl 5 yn dangos y berthynas rhwng yr holl bolisïau yn y cynllun hwn a'r 11 disgrifydd sy'n cynrychioli'r agweddau allweddol ar GES.

DRAFT

### Tabl 5: Polisïau yn y cynllun sy'n helpu i gyrraedd Statws Amgylcheddol Da (GES)

| **Rhif y disgrifydd a'r disgrifiad** | | **Polisïau'r Cynllun** |
|---|---|---|
| **D1** | Mae amrywiaeth fiolegol yn cael ei chynnal a'i hadfer lle bo'n briodol. Mae ansawdd a mynychder cynefinoedd a dosbarthiad ac amlder rhywogaethau yn unol â'r amodau ffisiograffig, daearyddol a hinsoddol cyffredinol. | **ENV_01, 02, 03, 04, 05, 06**<br>**SOC_06, 09**<br>**GOV_01**<br>**FIS_03** |
| **D2** | Mae rhywogaethau estron a gyflwynwyd drwy weithgareddau dynol ar lefelau nad ydynt yn newid yr ecosystemau er gwaeth. | **ENV_01; 03**<br>**GOV_01** |
| **D3** | Mae poblogaethau'r holl bysgod a physgod cregyn a gaiff eu pysgota'n fasnachol o fewn terfynau biolegol diogel, ac maent o oedran a maint sy'n dangos bod y stoc yn iach. | **ENV_01**<br>**GOV_01**<br>**FIS_01, 03** |
| **D4** | Mae helaethrwydd ac amrywiaeth pob elfen o weoedd bwyd y môr, i'r graddau y maent yn hysbys, yn normal ac ar lefelau sy'n gallu sicrhau helaethrwydd y rhywogaethau yn y tymor hir a chadw eu gallu atgenhedlu llawn. | **ENV_01, 02, 03, 04, 05, 06**<br>**GOV_01**<br>**FIS_03** |
| **D5** | Caiff ewtroffigedd a achosir gan bobl ei leihau i'r eithaf, yn enwedig yr effeithiau niweidiol ohono, fel colli bioamrywiaeth, diraddio ecosystemau, gordyfiant o algâu a diffyg ocsigen yn y dyfroedd isaf. | **ENV_01, 02, 06**<br>**GOV_01** |
| **D6** | Mae integredd gwely'r môr ar lefel sy'n sicrhau bod strwythur a swyddogaethau'r ecosystemau yn cael eu diogelu ac nad yw ecosystemau môr-waelodol, yn benodol, yn profi effeithiau niweidiol. | **ENV_01, 02, 03**<br>**GOV_01**<br>**FIS_01, 03** |

| | | |
|---|---|---|
| **D7** | Nid yw newid parhaol mewn amodau hydrograffigol yn cael effaith niweidiol ar ecosystemau morol. | **SOC_09**<br>**ENV_01, 02**<br>**GOV_01** |
| **D8** | Mae crynodiadau o halogion ar lefelau sy’n golygu nad ydynt yn arwain at lygru. | **ENV_06**<br>**SOC_01**<br>**GOV_01** |
| **D9** | Nid yw halogion mewn pysgod a bwyd môr arall i’w bwyta gan bobl yn uwch na lefelau a bennwyd gan ddeddfwriaeth y Gymuned neu safonau perthnasol eraill. | **SOC_01**<br>**ENV_06**<br>**GOV_01** |
| **D10** | Nid yw priodweddau a meintiau sbwriel môr yn achosi niwed i’r amgylchedd arfordirol a morol. | **ENV_04**<br>**GOV_01** |
| **D11** | Mae’r ynni a gyflwynir, gan gynnwys sŵn tanddwr, ar lefelau sy'n golygu nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd morol. | **ENV_05**<br>**GOV_01** |

DRAFT

## Diogelu, adfer a gwella ecosystemau morol

207. Mae bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn elfennau allweddol mewn ecosystemau. Os bydd unrhyw golled neu ddifrod i’r rhain, gall effeithio ar weithrediadau’r ecosystem a’i gallu i ymaddasu i newid. Drwy ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, gallwn hybu cydnerthedd ecosystemau a gwella ansawdd yr amgylchedd ehangach.

208. Bioamrywiaeth yw amrywiaeth y bywyd ar y ddaear ac mae’n cynnwys yr holl rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid, eu helaethrwydd a’u hamrywiaeth enetig. Mae bioamrywiaeth o werth ynddi ei hun; mae’n cyfrannu at lesiant cymdeithas, yr ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae bioamrywiaeth hefyd yn fesur o lwyddiant wrth Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

209. Geoamrywiaeth yw amrywiaeth y creigiau, ffosiliau, mwynau, prosesau naturiol, tirffurfiau a phriddoedd sydd o dan ein tirwedd ac sy’n pennu ei chymeriad ac mae’n cynnal y ddarpariaeth o nifer o wasanaethau ecosystem.

210. Mae ecosystem forol gydnerth yn iach ac mae’n gweithredu mewn ffordd sy’n gallu ymaddasu i newid ac effeithiau ac yn parhau i ddarparu’r nwyddau a

gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt dros y tymor hir. Mae ein cyfoeth economaidd yn elwa o ecosystemau iach a chydnerth drwy hamdden a chreu swyddi mewn sectorau sy'n amrywio o dwristiaeth i fiotechnoleg.

211. Derbynnir yn gyffredinol fod ecosystemau morol o dan bwysau oddi wrth nifer o ddylanwadau fel y newid yn yr hinsawdd, gweithgareddau dynol anghynaliadwy a chyflwyno rhywogaethau estron. Drwy fabwysiadu egwyddorion y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 1992 a chyflawni Strategaeth Forol y DU, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Chynllun Adfer Natur Cymru, rydym yn ymrwymo i gynnal a gwella ein hecosystemau morol.

212. Mae ein moroedd yn cael eu diogelu o dan wahanol fathau o ddeddfwriaeth er mwyn cydnabod amrywiaeth y nodweddion naturiol y maent yn eu cynnal. Yn gyffredinol, mae ein deddfwriaeth yn creu system sy'n darparu ar gyfer cadw a diogelu cynefinoedd, geoamrywiaeth a rhywogaethau sy'n cael eu hystyried yn brin, dan fygythiad, mewn perygl o ddiflannu neu o'r pwysigrwydd mwyaf i Gymru.

**ENV_01: Ecosystemau morol cydnerth**

Dylai cynigion ddangos sut maent yn cyfrannu at ddiogelu, adfer a/neu wella ecosystemau morol.

## Canllawiau ar weithredu

213. Mae polisi **ENV_01** yn sicrhau bod yr elfennau biolegol a daearegol mewn ecosystemau yn cael eu cynnal, eu hadfer lle bo angen a'u gwella lle bo'n bosibl, er mwyn cynyddu cydnerthedd ecosystemau morol a'r buddion y maent yn eu darparu.

214. Wrth ddatblygu cynigion, dylid ystyried yr elfennau sensitif mewn ecosystemau morol a, lle bo'n bosibl, dylai cynigion ddangos sut y byddant yn cyfrannu at eu diogelu.

215. Dylid canolbwyntio ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig iawn ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru, sydd wedi'u rhestru o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Dylai cynigion ddangos sut maent yn cynnal ac yn hyrwyddo'r cynefinoedd a rhywogaethau hyn, gan gynnwys eu diogelu rhag effeithiau dichonol neu hyrwyddo eu hadfer a/neu eu gwella.

216. Dylai cynigion ddangos sut maent yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n gwarchod Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop gan ei fod yn drosedd anafu, lladd neu aflonyddu ar rywogaeth a warchodir yn fwriadol. Mae rhagor o droseddau wedi'u rhestru yn Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Dylai cynigion asesu'r effeithiau dichonol a nodi'r mesurau a gymerir i warchod Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop. Hefyd dylid ystyried a oes angen cael trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan

DRAFT

Ewrop os na ellir osgoi trosedd. Mae canllawiau ar gael gan CNC ynghylch sut a pha bryd i wneud cais am drwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewr.

217. Mae cynigion sy'n gwella neu'n adfer cynefinoedd morol, er enghraifft, yn gallu helpu i gynyddu cydnerthedd ecosystemau drwy hybu bioamrywiaeth a chefnogi swyddogaethau ecosystemau, fel ailgylchu maethynnau, hidlo dŵr a diogelu'r arfordir. Gall hyn roi nifer o fuddion i gymdeithas mewn meysydd fel twristiaeth drwy greu cyfleoedd ar gyfer nofio tanddwr neu wylio bywyd gwyllt, ar gyfer pysgodfeydd drwy gynhyrchu mwy o bysgod, ac amddiffyn rhag llifogydd drwy wasgaru tonnau.

218. Drwy ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o adfer a gwella bioamrywiaeth, gall cynigion helpu i gynyddu cydnerthedd ecosystemau morol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gael buddion ohonynt yn y tymor hir.

219. Nid yw cynnwys camau i adfer a/neu wella ecosystemau morol mewn cynigion yn fater drud neu gymhleth o reidrwydd. Gall gynnwys y defnydd o wahanol swbstradau ar gyfer adeiladu ar y blaendraeth a fydd yn helpu gwahanol rywogaethau i gytrefu ar ôl adeiladu. Drwy wneud newidiadau bach mewn adeiladweithiau rhynglanwol i ffurfio agennau mewn waliau neu byllau ar y distyll yn hytrach na bod yr adeiladweithiau'n sychu'n llwyr, gellir darparu amgylchedd ychwanegol ar gyfer rhywogaethau pyllau glan môr na fyddent yn gallu byw yno fel arall.

220. Ni fydd pob cynnig yn gallu cynnwys elfen adfer neu wella. Rydym yn argymell ymgysylltu'n gynnar â CNC i drafod cyfleoedd posibl a chynllunio atebion.

221. Rydym yn cydnabod bod angen gweithio ar y raddfa briodol ac ymgymryd â rheoli morol mewn ffordd gyfannol a hirdymor, yn enwedig yng nghyd-destun ecosystemau morol. Er mwyn datblygu'r ardal forol yn gynaliadwy, mae angen ystyried a deall strwythur a gweithrediad ecosystemau morol. Wrth gyflawni prosesau cynllunio morol a phrosesau rheoli eraill, dylid ystyried priodoleddau a phrosesau ecosystemau ar bob graddfa briodol, yn enwedig mewn ardaloedd trawsffiniol fel aberoedd lle mae angen gwneud penderfyniadau cydlynol ar sail tystiolaeth a rennir ac arferion rheoli cydategol a chydgysylltiedig. Ar y raddfa ehangach, dylid cynllunio, rheoli a phenderfynu mewn ffordd sy'n adlewyrchu natur yr adnoddau rydym yn eu rhannu a chysylltiadau a dibyniaethau ehangach rhwng ecosystemau.

### Darparu rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n ecolegol gydlynol ac wedi'i reoli'n dda

222. Mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn ardaloedd sydd wedi'u dynodi ar sail eu pwysigrwydd ar gyfer cadwraeth ac maent yn dod o dan reolau penodol sy'n ymwneud â'u rheoli a natur y gweithgareddau y gellir eu cynnal ynddynt. Maent yn hanfodol i gadw bioamrywiaeth forol, drwy sicrhau bod ecosystemau morol yn aros yn iach, yn ddigon cysylltiedig ac yn gallu gwrthsefyll newid. Mae rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd wedi'i gynllunio a'i reoli'n dda yn gallu rhoi mwy o fuddion o ran bioamrywiaeth na safleoedd unigol digyswllt. Dyma pam

DRAFT

rydym wedi ymrwymo i ddarparu rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n ecolegol gydlynol ac wedi'i reoli'n dda, sy'n cynrychioli amrywiaeth fawr o gynefinoedd a rhywogaethau.

223. Rydym eisoes yn cyfrannu'n helaeth at warchod bioamrywiaeth a'r amgylchedd morol ehangach drwy ein rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd ar hyn o bryd yn cwmpasu tua 75% o forlin Cymru a 69% o ardal y glannau yn y cynllun. Gyda'i gilydd, mae ein rhwydwaith yn cyfrannu at rwydweithiau o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn y DU ac ar lefel ryngwladol.

224. Yng Nghymru, ceir gwahanol fathau o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n adlewyrchu'r agweddau manwl ar eu rheoli a'u llywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig; Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig; Parthau Cadwraeth Morol; Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA); a safleoedd Ramsar sydd â chydrannau morol.

225. Drwy gydweithio â rhanddeiliaid morol, rydym yn bwriadu darparu mesurau rheoli sy'n osgoi niwed i Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac yn gwella eu cyflwr. Drwy sicrhau bod ein safleoedd yn cyrraedd ac yn parhau mewn cyflwr da, byddwn yn cyflawni ein hymrwymiadau i ddiogelu, adfer a gwella bioamrywiaeth forol a sicrhau bod ein hecosystemau'n iach.

226. Mae nifer o ddynodiadau safle y tu allan i rwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig a allai fod yn agored i effeithiau o weithgareddau yn amgylchedd y môr a'r arfordir. Ymhlith dynodiadau o'r fath mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a safleoedd Natura 2000 sy'n cynnwys amrywiaeth o nodweddion daearegol a bioamrywiaeth ar y tir. Mae nodweddion geoamrywiaeth ar yr arfordir yn dod o dan ddeddfwriaeth ar gyfer SoDdGA ac maent wedi'u cynnwys mewn safleoedd anstatudol sydd wedi'u dewis i fod yn Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth. Rhai enghreifftiau o nodweddion yw prosesau arfordirol, nodweddion daearegol sydd wedi'u datguddio ar y blaendraeth a chlogwyni caled neu feddal.

**ENV_02: Ardaloedd Morol Gwarchodedig**
Dylai cynigion ddangos sut maent:

- yn osgoi effeithiau niweidiol ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chydlyniant y rhwydwaith cyfan;
- yn rhoi sylw i'r mesurau i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig;
- yn osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig nad ydynt yn rhai morol.

## Canllawiau ar weithredu

227. Dylai cynigion gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol i sicrhau integredd Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chynnal cydlyniant y rhwydwaith ym moroedd y DU. Mae'r polisi hwn yn gymwys hefyd i unrhyw safleoedd gwarchod natur nad ydynt yn rhai morol y gall cynigion effeithio arnynt.



DRAFT

228. Dylai cynigion gynnwys gwybodaeth y mae awdurdodau cyhoeddus yn gofyn amdani i'w galluogi i benderfynu a yw'r cynnig yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle a warchodir a/neu a fydd angen cynnal asesiad priodol o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

229. Dylai cynigion gynnwys gwybodaeth y mae awdurdodau cyhoeddus yn gofyn amdani i'w galluogi i benderfynu a yw'r cynnig yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle a warchodir a/neu a fydd angen cynnal asesiad priodol o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

230. Ni fydd cynnig yn gallu mynd ymlaen oni bai fod yr awdurdod cyhoeddus wedi penderfynu na fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar y safle ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Wrth roi caniatâd, gellir pennu mesurau lliniaru priodol i sicrhau integredd y safle dynodedig o ganlyniad i'r cynnig. Fodd bynnag, fe all awdurdod cyhoeddus gymeradwyo cynigion a fydd yn cael effaith niweidiol ar integredd Safle Ewropeaidd neu Safle Morol Ewropeaidd:
- os yw wedi'i fodloni nad oes atebion gwahanol sy'n cwrdd ag amcan y cynnig, a
- am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig.

231. Mewn achosion o'r fath, rhaid sicrhau mesurau cydbwyso i sicrhau bod cydlyniant cyffredinol y rhwydwaith yn cael ei gadw.

232. Os yw'r sail budd cyhoeddus yn debygol o gael ei chymhwyso, dylai Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod priodol, ofalu bod unrhyw fesurau cydbwyso angenrheidiol wedi'u sicrhau er mwyn gwarchod cydlyniant cyffredinol y rhwydwaith o safleoedd Natura 2000 a/neu Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Felly dylai datblygwyr a/neu awdurdodau cyhoeddus perthnasol ymgysylltu'n gynnar â Llywodraeth Cymru a CNC os yw'r sail budd cyhoeddus yn debygol o gael ei chymhwyso.

233. Os bydd awdurdod cyhoeddus yn penderfynu y gellir cael risg arwyddocaol i Barth Cadwraeth Morol o ganlyniad i gynnig, yn unol â DMMA, dylai hysbysu CNC, fel y corff gwarchod natur statudol priodol, cyn penderfynu a fydd yn awdurdodi'r cynnig.

234. O dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, os bydd perchennog/meddiannydd yn difrodi SoDdGA, fe ellir ei erlyn. Felly dylai cynigion ystyried a ellir cael effeithiau ar SoDdGA o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnir. Hefyd gall fod yn ofynnol i'r perchennog/meddiannydd adfer unrhyw ddifrod ar y safle. Mae'n bosibl, felly, y bydd angen cael cydsyniad SoDdGA gan CNC.


235. Bydd cyngor cadwraeth sydd ar gael oddi wrth CNC yn helpu i sicrhau bod y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael ei reoli'n dda drwy ddarparu cyngor ar weithrediadau sy'n debygol o achosi dirywiad a/neu aflonyddu ar gynefinoedd a rhywogaethau, ac amcanion cadwraeth ar gyfer safleoedd. Anogir datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus i ddefnyddio'r Pecynnau Cyngor Cadwraeth i'w helpu wrth ddatblygu a phenderfynu ar gynigion.

DRAFT

236. Lle bo’n briodol, dylid paratoi cynigion yn unol ag unrhyw fesurau rheoli perthnasol ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig, neu godau ymddygiad gwirfoddol sydd wedi’u mabwysiadu. Bydd yn ddoeth ymgysylltu’n gynnar â CNC i drafod y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig a phennu unrhyw fesurau rheoli a all fod yn berthnasol yng nghyd-destun cynigion penodol.

DRAFFT

## Ffigur 12: Ardaloedd Morol Gwarchodedig



## Rhywogaethau estron goresgynnol

237. Rhywogaethau estron (a elwir hefyd yn rhywogaethau anfrodorol neu egsotig) yw rhywogaethau sydd y tu allan i'w tiriogaeth naturiol. Nid yw mwyafrif y rhywogaethau hyn yn peri dim neu nemor ddim perygl i ecosystemau morol. Er hynny, mae rhai ohonynt yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar fioamrywiaeth, iechyd dynol a gweithgarwch economaidd. Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn gallu amharu ar gynefinoedd ac ecosystemau brodorol, ysglyfaethu neu drechu rhywogaethau brodorol, lledaenu clefydau ac ymyrryd ag integredd genetig rhywogaethau brodorol. Byddai lleihau nifer y rhywogaethau estron goresgynnol yn helpu i gynnal a chynyddu amrywiaeth a chydnerthedd ein bioamrywiaeth frodorol.

238. Y prif lwybrau ar gyfer cyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol morol yw cludiant ar fôr (masnachol a hamdden), dyframaethu a datblygiadau seilwaith. Nid yw bob amser yn ymarferol dileu rhywogaethau estron goresgynnol yn yr amgylchedd morol a gall fod yn gostus mewn llawer o achosion. Oherwydd hynny, mae'n bwysig eu hatal rhag cael eu cyflwyno ac ymledu.

**ENV_03: Rhywogaethau estron goresgynnol**

Dylai cynigion gynnwys mesurau bioddiogelwch i leihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol..

## Canllawiau ar weithredu

239. Bydd cynnwys mesurau bioddiogelwch mewn cynigion yn helpu i leihau'r perygl o gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

240. Dylai cynigion asesu'r perygl tebygol o gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol a rhoi mesurau bioddiogelwch rhesymol (mesurau ataliol) ar waith lle bo angen i leihau neu atal eu cyflwyno neu eu lledaenu. Bydd natur y mesurau bioddiogelwch yn dibynnu ar risg, graddfa, natur a lleoliad y cynnig. Dylai datblygwyr ymgysylltu'n gynnar â CNC i drafod pa fesurau asesu a bioddiogelwch a all fod yn ofynnol.

241. Rhai enghreifftiau posibl o fesurau bioddiogelwch yw:
- dilyn canllawiau arfer da, fel yr ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu ar gyfer yr amgylchedd morol, sy'n ceisio atal trosglwyddo rhywogaethau estron goresgynnol yn ddamweiniol gan rai sy'n ymweld neu'n gweithio mewn dŵr neu'n agos iddo; a/neu
- datblygu cynllun bioddiogelwch cyflawn sy'n nodi'r camau penodol a gymerir i leihau'r perygl o gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

242. Mae Canllawiau Cynllunio Bioddiogelwch (Cymru a Lloegr) ar gael oddi wrth Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr[19]; yn ogystal â siartiau adnabod ac asesiadau risg ar gyfer rhai rhywogaethau a mecanwaith i roi gwybod am weld rhywogaethau estron goresgynnol

## Sbwriel môr

243. Sbwriel môr yw unrhyw ddeunydd solet sy'n barhaol, wedi'i weithgynhyrchu neu ei brosesu sydd wedi'i daflu, ei waredu, ei adael neu ei golli yn yr amgylchedd morol ac arfordirol.

244. Mae disgrifydd 10 yn Strategaeth Forol y DU yn ymdrin â monitro sbwriel yn yr amgylchedd morol a'r mesurau sydd ar waith i leihau'r maint ohono a gyflwynir. Mae sbwriel môr yn broblem fyd-eang o safbwynt yr amgylchedd, yr economi, iechyd dynol ac estheteg. Mae'n bygwth cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau drwy wneud difrod uniongyrchol i fywyd gwyllt drwy ei glymu, ei faglu a'i fygu a thrwy ei lyncu gan greaduriaid gwyllt. Mae'n gallu cael effaith arwyddocaol ar dwristiaeth, gan fod ardaloedd arfordirol diolwg yn llai deniadol i ymwelwyr, a cheir costau am lanhau a chostau i bysgotwyr drwy golli pysgod a ddaliwyd a rhwygo rhwydi. Gall fod yn berygl hefyd i forwyr drwy glymu sgriwiau gyrru. Mae gwastraff meddygol a glanweithiol a darnau gwydr yn risg bosibl i iechyd dynol. Gellir cael effeithiau niweidiol ar iechyd hefyd o ganlyniad i bresenoldeb gronynnau plastig mewn organeddau morol sy'n cyrraedd y gadwyn fwyd yn y pen draw.

245. Mae sbwriel môr yn broblem drawsffiniol ac mae rhan i'w chwarae gan bob gwlad a chymuned wrth ddelio ag ef. Peidio â gadael sbwriel a pheidio â gwaredu gwastraff mewn ffordd amhriodol yw'r ffordd orau o leihau maint y sbwriel sy'n mynd i'r amgylchedd morol. Yn unol â'n huchelgais ar gyfer "economi gylchol", bydd camau i leihau deunydd pacio, ailgylchu a defnyddio llai o gynhyrchion plastig untro hefyd yn helpu i leihau sbwriel môr.

**ENV_04: Sbwriel môr**
Dylai cynigion ddangos eu bod:

- yn osgoi cyflwyno sbwriel yn fwriadol i ardal y cynllun morol;
- yn lleihau'r risg o'i ryddhau'n ddamweiniol.

## Canllawiau ar weithredu

246. Mae cyflwyno sbwriel yn fwriadol yn drosedd o dan ddeddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys Deddf Diogelu'r Amgylchedd a MARPOL. Mae rheoliadau caeth ar y deunyddiau y gellir eu gwaredu yn y môr. Dylai cynigion sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

[19] http://www.nonnativespecies.org/home/index.cfm

247. Lle bo'n briodol, dylid cymryd mesurau i leihau'r perygl o ryddhau sbwriel yn ddamweiniol a dangos cynllun effeithiol ar gyfer ei symud. Ymhlith y mesurau posibl y mae cynlluniau rheoli gwastraff, cydymffurfio â chodau ymddygiad perthnasol, a darparu hyfforddiant, arwyddion a chyfleusterau gwaredu gwastraff. Cefnogir mentrau a gweithgareddau sy'n helpu i leihau'r gwastraff sy'n mynd i'r amgylchedd morol; gall y rhain gynnwys mentrau pysgota am sbwriel, ailddefnyddio ac ailgylchu, systemau hidlo gwell a dewisiadau yn lle eitemau plastig untro.

## Cyflwyno ynni, yn cynnwys sŵn tanddwr

248. Mae cyflwyno ynni i'r amgylchedd morol yn gallu newid natur systemau ffisegol a chael effaith negyddol ar ecosystemau. Gall ynni fod ar ffurf golau, trydan, gwres, sŵn, ymbelydredd electromagnetig, tonnau radio neu ddirgryniadau. Mae gweithgareddau dynol yn gallu tynnu ynni allan o system neu ychwanegu ato. Mae disgrifydd 11 yn Strategaeth Forol y DU yn ymdrin â chyflwyno ynni ac mae'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar sŵn tanddwr. Mae'n ei gwneud yn ofynnol na fydd sŵn a gyflwynir i'r amgylchedd morol yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd morol. Yn benodol, mae'n ei gwneud yn ofynnol bod gweithgareddau dynol a all gyflwyno synau ergydiol o'r fath i'r amgylchedd morol yn cael eu rheoli i'r graddau na fydd effeithiau niweidiol hirdymor ar lefel y boblogaeth neu'n benodol ar lefel rhywogaethau sydd dan fygythiad a grwpiau gweithredol allweddol.

249. Mae sŵn sy'n codi o weithgaredd neu ddatblygiad arfaethedig yn yr amgylchedd morol ac arfordirol yn gallu cael effeithiau niweidiol ar famaliaid môr, adar a physgod. Gall ymyrryd â chyfathrebu ac ymddygiad, effeithio ar organau'r clyw, ac anafu neu hyd yn oed lladd bywyd yn y môr. Rhai ffynonellau sy'n achosi pryder yw: ffrwydradau; morgludiant; arolygon seismig; gwaith adeiladu yn y môr mawr a gweithgareddau diwydiannol yn y môr mawr, e.e. carthu, drilio a gosod pyst seiliau; gwahanol fathau o sonar; a dyfeisiau atal acwstig. Mae sŵn yn gallu cael effaith negyddol ar bobl hefyd drwy ddylanwadu ar iechyd a defnydd a mwynhad o'r amgylchedd morol.

**ENV_05: Sŵn tanddwr**
Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau sŵn sydd wedi'u creu gan bobl ar yr amgylchedd morol a'u bod, yn nhrefn blaenoriaeth:

a) yn osgoi effeithiau niweidiol; a/neu
b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

DRAFT

### Canllawiau ar weithredu

250. Dylid rheoli gweithgareddau dynol a all gyflwyno synau ergydiol er mwyn dileu effeithiau niweidiol arwyddocaol ar rywogaethau a phoblogaethau dan fygythiad. Ar hyn o bryd, mae ein dealltwriaeth o lefelau, dosbarthiad ac effeithiau sŵn tanddwr yn gyfyngedig. Felly rydym yn bwriadu rheoli effeithiau o sŵn ar sail y dystiolaeth sydd ar gael a monitro a chasglu tystiolaeth i wella ein dealltwriaeth.

251. Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllun morol gymryd trosolwg strategol ar ffynonellau sŵn artiffisial ac asesu effeithiau cronnol dichonol sŵn a dirgryndod ar draws derbynyddion sensitif yn yr ardal forol.

252. Dylai cynigion gynnwys asesiad o'r effaith o sŵn pan fydd awdurdod cyhoeddus yn gofyn hynny. Wrth asesu'r effaith o sŵn, dylid cynnwys manylion am fath, lefel a pharhad y sŵn y mae disgwyl iddo gael ei gynhyrchu drwy gydol holl gamau'r datblygiad; yr effeithiau a ragwelir ar rywogaethau sy'n sensitif i sŵn (yn cynnwys yr effaith gronnol). Lle mae tystiolaeth ar gael, dylai asesiadau ddangos na fydd effeithiau niweidiol ar rywogaethau a warchodir sy'n sensitif i sŵn. Gall CNC ddarparu cyngor ar rywogaethau a warchodir a all fod yn sensitif i sŵn. Os yw'n bosibl y bydd effaith ar famaliaid môr, dylai asesiadau ystyried effeithiau o fewn yr Unedau Rheoli Mamaliaid Môr priodol a bennwyd gan Gyrff Gwarchod Natur Statudol y DU (CNC yng Nghymru). Os oes angen, dylai cynigion amlinellu mesurau i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau sŵn artiffisial er mwyn eu rheoli.

253. Lle bo'n briodol, dylai defnyddwyr y cynllun gyfeirio hefyd at ganllawiau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ar leihau'r perygl o anafu mamaliaid môr o ganlyniad i weithgareddau seismig, gosod pyst seiliau a defnyddio ffrwydron. Bydd amod yn cael ei osod yn aml ar drwyddedau i gymhwyso'r canllawiau hyn. Dylai datblygwyr a defnyddwyr y cynllun ystyried hefyd a yw'n bosibl y bydd lefel y sŵn ar wyneb y dŵr neu o dan ddŵr yn effeithio ar unrhyw Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS) ac a yw'n bosibl y bydd angen cael trwydded EPS i adlewyrchu'r effeithiau o aflonyddu ac anafu.

254. Yn 2012, yn yr asesiad cyntaf o gyflwr ein moroedd ar gyfer y DU, a gyhoeddwyd yn Strategaeth Forol y DU, nodwyd nad oedd digon o ddata i asesu sŵn tanddwr a'i effeithiau neu i ddarparu llinell sylfaen berthnasol. Er mwyn rhoi sylw i hyn, mae Gweinyddiaethau'r DU wedi sefydlu Cofrestrfa Synau Morol ar gyfer cofnodi synau ergydiol fel y rheini a gynhyrchir wrth osod pyst seiliau neu gynnal arolygon seismig. Mae'r gofrestr synau yn cofnodi lleoliad ac amser gweithgareddau sy'n cynhyrchu sŵn er mwyn penderfynu a yw'n bosibl i'r rhain danseilio'r gallu i gyrraedd GES. Bydd gwybodaeth a gesglir drwy'r gofrestr yn rhoi dealltwriaeth well byth i ni o sŵn tanddwr a'r ffordd orau i'w reoli.

255. Dylai awdurdodau cyhoeddus sicrhau, lle bo'n briodol, fod y broses caniatáu yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gofnodi gweithgareddau sy'n cynhyrchu synau ergydiol yn y Gofrestrfa Synau Morol yn unol â Rhaglen Mesurau'r DU a'r Rhaglen Fonitro sy'n gysylltiedig â disgrifydd 11. Lle nad yw'n amod ar ganiatáu datblygiad i gyflwyno gwybodaeth i'r gofrestrfa, anogir datblygwyr i wneud hynny'n wirfoddol.

DRAFT

## Ansawdd aer a dŵr

256. Mae ansawdd aer a dŵr yn hanfodol i gydnerthedd ecosystemau morol ac i'n llesiant. Mae datblygu a defnyddio ardal y cynllun morol yn gallu cael effeithiau negyddol a chadarnhaol ar ansawdd aer a dŵr. Mae disgrifyddion 5, 7 ac 8 yn Strategaeth Forol y DU yn ymdrin yn benodol ag ansawdd dŵr.

*Aer*

257. Ymhlith y ffynonellau sy'n llygru aer mae allyriadau, yn cynnwys deunydd gronynnol a nwyon o forgludiant a llongau pysgota a llwch o weithgareddau adeiladu. Mae llygredd aer yn gallu cael effaith niweidiol ar lesiant pobl ac ar fioamrywiaeth, a gall gyfrannu at newid yn yr hinsawdd.

258. Mae Strategaeth Ansawdd Aer y DU[20] yn amlinellu ac yn rheoleiddio amcanion ac opsiynau polisi ar gyfer gwella ansawdd aer i'r DU gyfan a fydd yn dod â buddion i iechyd a chymdeithas.

259. Prif amcan y rheolaeth ar allyriadau ocsidau nitrogen (NOx) o longau o dan Reoliadau Llongau Masnach (Atal Llygredd Aer o Longau) 2008 (fel y'u diwygiwyd) yw gwella ansawdd aer drwy ei gwneud yn ofynnol bod peiriannau a osodwyd ar long yn cyrraedd y safon a bennwyd ar gyfer allyriadau NOx. Bydd y mesur hwn yn cyfrannu hefyd at leihau mewnbynnau NOx i ddyfroedd y môr, ac ewtroffigedd ynddynt a ysgogwyd gan bobl, o dan ddisgrifydd 5 yn Strategaeth Forol y DU.

*Dŵr*

260. Mae newidiadau nas dymunir ym maint neu ansawdd dŵr yn gallu cael effaith negyddol ar y buddion a gawn o ecosystemau morol, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer hamdden, twristiaeth a physgodfeydd.

261. Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Strategaeth Forol y DU sy'n darparu'r fframwaith trosfwaol ar gyfer rheoli ansawdd dŵr yn nyfroedd y glannau a'r môr. Yn nyfroedd y glannau, mae Strategaeth Forol y DU yn gymwys dim ond i'r agweddau hynny ar GES sydd heb eu cynnwys eisoes yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

262. Cynlluniau Rheoli Basn Afon yw'r mecanwaith ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Maent yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli pob agwedd ar yr amgylchedd dŵr mewn basnau afon ac yn amgylchedd yr arfordir, yn cynnwys dyfroedd ymdrochi a dyfroedd pysgod cregyn, ardaloedd a ddynodwyd yn

---

[20] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69336/pb12654-air-quality-strategy-vol1-070712.pdf



DRAFT

ewtroffig a safleoedd Natura 2000. Mae cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn bwysig o ran rheoli pwysau a chynnal a gwella ansawdd dŵr.


**ENV_06: Ansawdd aer a dŵr**
Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried eu heffeithiau dichonol ar ansawdd aer a dŵr a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a) osgoi effeithiau niweidiol; a/neu
b) lleihau effeithiau niweidiol lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau niweidiol lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

DRAFT

### Ffigur 13: Dyfroedd Ymdrochi



## Canllawiau ar weithredu

263. Dylai cynigion ddangos sut y byddant yn osgoi newidiadau annymunol yn ansawdd aer a dŵr. Anogir cyflwyno cynigion a fydd yn arwain at welliannau yn ansawdd aer a dŵr.

*Ansawdd aer*

264. Lle byddai datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol yn gallu arwain at fwy o allyriadau i'r aer, yn cynnwys deunydd gronynnol a nwyon, dylai cynigion ddangos bod effeithiau ar ansawdd aer a therfynau wedi cael eu hystyried. Lle bo'n briodol, dylai datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod effeithiau ar ansawdd aer wedi cael eu hystyried a bod mesurau lliniaru wedi'u mabwysiadu, lle bo'n briodol.

265. Lle mae cynigion wedi'u lleoli o fewn neu'n agos i Ardal Rheoli Ansawdd Aer, dylent geisio bod yn gyson â'r cynllun gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer perthnasol. Dylai datblygwyr gydgysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol er mwyn sicrhau na cheir lefelau sy'n uwch na'r terfynau statudol a bod cynigion yn gyson â chynlluniau gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer.

266. Dylid asesu cynigion hefyd am eu heffeithiau dichonol ar dderbynyddion ecolegol sensitif. O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), mae'r ofynnol i CNC ystyried cadwraeth natur yng nghyd-destun ei rôl rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys asesu effeithiau llygryddion o'r awyr ar safleoedd gwarchod natur. Mae hyn yn golygu dilyn proses sgrinio fesul cam sy'n seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael i asesu'r effeithiau o weithfeydd. Y cam cyntaf yw gweld a oes unrhyw safleoedd cadwraeth o fewn pellter penodol o'r weithfa. Wedyn bydd y cyfraniad o brosesau a ragwelir a'r crynodiad amgylcheddol a ragwelir o weithfeydd a reoleiddir yn cael eu cymharu â throthwyon sydd wedi'u mynegi fel canrannau o Safonau Ansawdd Aer, lefelau critigol a llwythi critigol.

*Ansawdd dŵr*

267. Lle mae'n bosibl i weithgarwch effeithio ar y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr drwy achosi dirywiad mewn statws neu drwy atal corff dŵr rhag cyflawni ei hamcanion, dylid cynnal Asesiad Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Dylid ystyried yr amcanion ar gyfer cyrff dŵr y gall datblygiad effeithio arnynt ac unrhyw ddirywiad posibl yn statws y corff dŵr. Mae hyn yn cynnwys effeithiau dichonol ar ansawdd dŵr, hydromorffoleg ac elfennau biolegol.

268. Os na ellir osgoi'r posibilrwydd o ddirywiad, dylai cynigion ddangos bod gofynion Erthygl 4.7 wedi'u bodloni er mwyn i'r cynnig gael mynd ymlaen. Dylai cynigion ddangos hefyd eu bod yn gyson ag ymrwymiadau a deddfwriaeth amgylcheddol genedlaethol a rhyngwladol arall.



DRAFT

## Polisi cyffredinol – Hyrwyddo llywodraethu da

### Cyflwyniad

269. Pwrpas llywodraethu da yw creu a defnyddio'r prosesau cywir ar gyfer gwneud a gweithredu penderfyniadau i sicrhau'r canlyniadau gorau i gymdeithas. Mae llywodraethu da mewn cynllunio morol yn bwysig am nifer o resymau. Mae'n darparu atebolrwydd, tryloywder a phenderfynu cyfranogol, yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau'n ymatebol, yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gyson â deddfwriaeth berthnasol. Yn ogystal â gwella hyder penderfynwyr a rhanddeiliaid yn y system gynllunio, mae hefyd yn bwysig o ran darparu sail foesegol ar gyfer llywodraethu.

270. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal gonestrwydd, uniondeb, gwrthrychedd, didueddrwydd a gweithredu agored fel gwerthoedd ym mhob rhan o'r broses cynllunio morol. Er enghraifft, wrth ddatblygu'r cynllun hwn rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae ein gweledigaeth ac amcanion [**gweler Gweledigaeth ac amcanion**] yn datgan yn glir y nod ar gyfer y cynllun hwn. Rydym yn cydweithio â diwydiannau ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol i sicrhau bod eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir a bod ganddynt ddigon o wybodaeth a chefnogaeth i'w cyflawni. Byddwn yn defnyddio technegau arloesol, fel technoleg newydd, lle maent ar gael a lle maent yn briodol, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ardal forol Cymru. Er mwyn bod yn atebol i drethdalwyr a dangos gwerth am arian, byddwn yn adolygu'r cynllun hwn yn rheolaidd ac yn adrodd ar ein canfyddiadau yn unol â DMMA.

271. Dylai datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol hefyd roi arferion llywodraethu da ar waith yn eu gweithgareddau. Yn yr adran hon o'r cynllun, ceir polisïau cyffredinol sy'n ymwneud â datblygu ac asesu cynigion a ffyrdd o wneud a gweithredu penderfyniadau.

### Effeithiau cronnol

272. Effeithiau cronnol yw effeithiau sy'n ganlyniad i newidiadau cynyddol a achoswyd gan ddau neu ragor o weithredoedd yn y gorffennol, y presennol a/neu yn y dyfodol, hyd y gellir rhag-weld yn rhesymol. Gall y rhain fod o natur economaidd, gymdeithasol neu amgylcheddol. Gall effeithiau cronnol godi o un ymateb neu nifer o ymatebion (amgylcheddol, economaidd neu gymdeithasol) i un neu nifer o bwysau oddi wrth un gweithgaredd neu ragor. Mae'r term "effeithiau cronnol" hefyd yn cwmpasu'r term "cydeffeithiau" a ddefnyddir mewn deddfwriaeth aral.

273. Mae'n bosibl na fyddai'r effaith neu effeithiau o un datblygiad, oherwydd eu natur a'u graddfa, yn cael dim neu nemor ddim effaith ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, fe allent fod yn arwyddocaol os ceir rhyngweithio rhwng dau neu ragor o bwysau/gweithgareddau/datblygiadau. Gan fod nifer o rywogaethau o bysgod, mamaliaid môr ac adar môr yn symud yn aml o fewn tiriogaethau eang, a chan fod rhai prosesau ecolegol a ffisegol yn gweithredu dros ardal ddaearyddol eang,

DRAFT

gellir cael rhyngweithio rhwng gweithgareddau a datblygiadau sydd ar gryn bellter oddi wrth ei gilydd. Felly mae ystyriaethau trawsffiniol yn hanfodol (gweler **GOV_02).**

> **GOV_01: Effeithiau cronnol**
> Dylai cynigion ddangos eu bod wedi asesu effeithiau cronnol dichonol a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:
>
> a) osgoi effeithiau niweidiol; a/neu
> b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
> c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.
>
> Os na ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.
>
> Anogir cyflwyno cynigion sy'n cyfrannu i effeithiau cronnol cadarnhaol.

DRAFT

## Canllawiau ar weithredu

274. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi ystyried unrhyw effeithiau lluosog a chronnol o gynigion, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â phrosiectau a gweithgareddau eraill (yn cynnwys rhai sy'n hysbys ac arfaethedig). Nid yw'n ddigon ystyried effeithiau datblygiadau unigol ar wahân.

275. Dylai lefel yr asesu ar gyfer prosiect penodol fod yn gymesur â graddfa ac effaith/effeithiau disgwyliedig y prosiect yn ogystal â sensitifrwydd yr effaith/effeithiau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol sydd dan sylw (yn cynnwys rhai sy'n croesi ffiniau gweinyddol).

276. Dylai cynigion roi sylw i'r canllawiau sydd ar gael a dylid ymgynghori â'r corff penderfynu ynghylch graddfa a natur unrhyw asesiad o effeithiau cronnol sy'n ofynnol. Mae'r porth cynllunio morol yn darparu gwybodaeth am weithgareddau a drwyddedwyd o'r blaen a gellir defnyddio gwybodaeth o'r fath i ategu'r asesiad o effeithiau cronnol dichonol. Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol cymryd mesurau lliniaru yn ôl arwyddocâd effeithiau o'r fath.

## Cydweithio trawsffiniol

277. Mae gweithgareddau ar y tir a gweithgareddau ar y môr yn gallu cael effaith uniongyrchol dros ardaloedd eang a all rychwantu awdurdodaeth nifer o awdurdodau cynllunio (ar gyfer y tir a'r môr). Felly mae angen integreiddio prosesau cynllunio ar draws y ffiniau hyn ac ar lefel leol, genedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal ag integreiddio â sefydliadau a phrosesau eraill sy'n gysylltiedig â rheoli a rheoleiddio gofod ac adnoddau naturiol. Mae hyn yn cynnwys:

- rhwng ardaloedd y môr ac ardaloedd y tir;

- rhwng ardaloedd morol yng Nghymru;
- rhwng ardaloedd morol o fewn y DU;
- rhwng ardaloedd morol y DU a'r rheini mewn gwledydd cyfagos.

**GOV_02: Nodau llesiant Cymru**

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol geisio sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru a gwneud eu penderfyniadau'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, dylent hefyd roi sylw i:

- unrhyw bolisi cymwysadwy mewn cynllun morol perthnasol;
- unrhyw bolisi cymwysadwy mewn cynlluniau perthnasol ar gyfer tir neu ddogfennau cysylltiedig;
- y Polisi ar Adnoddau Naturiol;
- unrhyw gynllun(iau) llesiant lleol perthnasol (yn cynnwys yr asesiad llesiant lleol);
- unrhyw ddatganiad(au) ardal perthnasol a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

### Canllawiau ar weithredu

278. Mae'r polisi hwn yn nodi dogfennau allweddol y dylid eu hystyried wrth ddatblygu cynigion er mwyn sicrhau integreiddio digonol â chyfundrefnau cynllunio eraill. Mae'n ceisio sicrhau bod penderfyniadau ar ddatblygu yn cyfrannu at ddefnydd cynaliadwy o foroedd Cymru gan geisio sicrhau'r buddion mwyaf posibl a lleihau effeithiau niweidiol ar weithgareddau a buddiannau mewn awdurdodaethau cyfagos. Dylai ymgeiswyr am ddatblygiadau unigol ddangos eu bod wedi nodi dogfennau perthnasol a'u bod wedi cydymffurfio â pholisïau cymwysadwy sydd ynddynt. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol hefyd sicrhau bod dogfennau o'r fath wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu eu cynlluniau, polisïau a strategaethau eu hunain.

279. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol wneud penderfyniadau ar awdurdodi yn unol â'r cynllun hwn, ar ôl ymgysylltu mewn modd priodol ag awdurdodau perthnasol eraill sy'n gwneud penderfyniadau (e.e. awdurdodau cynllunio a chyrff rheoleiddio eraill mewn ardaloedd cynllunio cyfagos), a thrwy ymgynghori â chynghorwyr statudol a chyrff eraill, fel y bo'n briodol. Dylid asesu'r effeithiau cadarnhaol a negyddol dichonol o gynigion datblygu ar amgylcheddau'r môr a'r tir, yng Nghymru a thu hwnt, mewn modd cronnol a chyfunol (gweler **GOV_01**).

280. Dylai cynigion ddarparu tystiolaeth bod integreiddio ar draws gwahanol weinyddiaethau wedi cael ei ystyried a bod y cynigion yn cydweddu â dogfennau a phrosesau cynllunio perthnasol. Mae hyn yn bwysig iawn yng nghyswllt ceisiadau sy'n croesi ffiniau lle dylai cynigion ddangos eu bod yn gyson â'r holl gynlluniau sy'n berthnasol iddynt. Cyfrifoldeb yr awdurdod cyhoeddus sy'n cael y cais yw hysbysu awdurdodau cyhoeddus perthnasol mewn unrhyw weinyddiaeth gyfagos y mae'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith arwyddocaol arni. Dylai

DRAFT

cynigion hefyd ystyried cyfleoedd i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a chyflawni amcanion mewn ardaloedd cynllunio morol cyfagos drwy weithio trawsffiniol.

281. Er mwyn sicrhau penderfynu cydgysylltiedig, dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol amlinellu sut y byddant yn cydweithio i reoli cynigion sy'n digwydd mewn ardaloedd trawsffiniol ac y bydd angen cael nifer o ganiatadau ar eu cyfer gan gynnwys, er enghraifft, mwy nag un drwydded forol oddi wrth awdurdodau cyfagos.

## Cynlluniau morol perthnasol

282. Mae ardal cynllunio morol Cymru yn cydffinio â thair ardal cynllunio morol arall yn y DU (De-orllewin Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Iwerddon), ac un y tu allan i'r DU (Iwerddon). Yn achos penderfyniadau cynllunio sy'n debygol o effeithio ar ardaloedd cynllunio morol cyfagos neu gyffiniol mewn gweinyddiaeth gyfagos, neu sy'n effeithio mewn unrhyw ffordd ar y swyddogaethau y mae awdurdod cynllun morol arall yn gyfrifol amdanynt, dylid cymryd pob cam rhesymol i hybu cydlyniant rhwng y polisïau. Gwneir hyn er mwyn sicrhau cysondeb a chydweddoldeb wrth benderfynu[21]. Y bwriad wrth weithredu mewn ffordd wahanol fydd sicrhau canlyniadau arfaethedig a dylid bod yn ymwybodol o ganlyniadau anfwriadol a cheisio eu hosgoi.

## Cynlluniau ar gyfer tir neu ddogfennau cysylltiedig

283. Mae integreiddio rhwng ardaloedd cynllunio'r tir a'r môr yn angenrheidiol oherwydd y gorgyffwrdd rhwng ardaloedd cynllunio a hefyd rhwng ardaloedd dylanwad. Mae ardal y cynllun morol hwn yn ymestyn at lefel cymedr penllanw'r gorllanw tra bydd ffiniau awdurdodau lleol fel arfer yn ymestyn i lawr at lefel cymedr distyll y gorllanw. Hefyd, mae penderfyniadau gan awdurdodau lleol nad ydynt yn gyfagos i'r arfordir yn gallu effeithio ar y rheini yn yr ardal forol, ac fel arall, e.e. mae datblygiadau ar dir yn gallu effeithio ar afonydd sy'n llifo i'r môr. Dylai'r awdurdodau lleol hyn fod yn ymwybodol o bolisïau'r cynllun hwn a chydymffurfio â nhw (ac wrth weithredu'r cynllun hwn, bydd angen cydymffurfio â chynlluniau ar gyfer tir a dogfennau cysylltiedig.

284. Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer datblygiadau unigol ac wrth ddatblygu cynlluniau, polisïau a strategaethau, dylai datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol ystyried egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol. Wrth wneud penderfyniadau ar awdurdodi, dylid rhoi sylw hefyd i gynlluniau statudol ac anstatudol perthnasol eraill, prosiectau, rhaglenni, a pholisïau a chanllawiau cenedlaethol a baratowyd gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys,

DRAFT

---

[21] Mae Rhan 3 o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (2007 Rhif 1518) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol ddarparu manylion am brosiect, yn cynnwys copi o'r datganiad amgylcheddol, i unrhyw wladwriaeth gyfagos y mae'n credu bod y cais yn cael effaith arwyddocaol arni.

ymysg eraill: cynlluniau datblygu yn y system cynllunio defnydd tir; Cynlluniau Rheoli Traethlin; Cynlluniau Rheoli Basn Afon a Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd.

285. O dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru egluro sut maent wedi ystyried polisïau perthnasol yn y cynllun morol hwn wrth ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru. Yn ogystal â hyn, dylai cynlluniau datblygu lleol roi sylw i gynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r ardal, neu ardaloedd cyfagos. Dylai'r ddwy system gynllunio geisio hyrwyddo cydlyniant drwy gyfeirio at ei gilydd a rhannu tystiolaeth. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd a gyflawnwyd ar gyfer y cynllun hwn yn nodi'r cynlluniau a oedd yn berthnasol ar adeg ei ddatblygu.

## Y Polisi ar Adnoddau Naturiol

286. Mae'r Polisi ar Adnoddau Naturiol[22], a luniwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), yn amlinellu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar dir a môr ar lefel genedlaethol. Bydd y blaenoriaethau a'r polisïau sydd ynddo'n helpu i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan ein hadnoddau naturiol at fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn awr ac yn y tymor hir. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i weithredu'r Polisi ar Adnoddau Naturiol ac annog eraill i gymryd camau o'r math hwn

## Cynlluniau llesiant lleol

287. Mae bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynlluniau lleol ("cynllun llesiant lleol"). Mae'r rhain yn nodi ei amcanion lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyflawni. Mae'r cynllun lleol wedi'i seilio ar asesiad o gyflwr y llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal. Bydd copïau o gynlluniau llesiant lleol yn cael eu dal gan: y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, Gweinidogion Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol.

288. Mae datganiadau ardal (a gynhyrchir gan CNC o dan y Polisi ar Adnoddau Naturiol) yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer adnabod risgiau a chyfleoedd i weithredu ar flaenoriaethau cenedlaethol ar lefel leol. Cyn cyhoeddi datganiad ardal, dylai CNC ystyried a oes cynllun, strategaeth neu ddogfen arall debyg y dylid ei ymgorffori yn y datganiad ardal. Yn yr un modd, dylai CNC ystyried a ddylai'r datganiad ardal gael ei ymgorffori mewn cynllun, strategaeth neu ddogfen arall debyg. Yn achos unrhyw ardal sy'n effeithio ar y parth arfordirol ac yn enwedig yr ardal rynglanwol, dylai CNC sicrhau ei bod wedi'i hintegreiddio â'r polisïau sydd yn y cynllun hwn. Mewn datganiadau ardal sy'n cynnwys y parth arfordirol, dylid rhoi sylw i'r polisïau sydd yn y cynllun hwn ar gyfer rheoli'r rhyng-gysylltu rhwng tir a môr (Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol). Drwy wneud

[22] http://gov.wales/docs/desh/publications/150914-natural-resources-policy-statement-cy.pdf



DRAFT

hyn, mae datganiadau ardal yn cydnabod bod gweithgareddau ar dir yn gallu cael effaith uniongyrchol ar y môr, ac fel arall.

## Datganiadau ardal perthnasol

289. Bydd y Polisi ar Adnoddau Naturiol yn nodi mai'r system cynllunio morol yw'r fframwaith polisi ar gyfer datblygu moroedd Cymru yn gynaliadwy. Dylai CNC ei fodloni ei hun, lle bo'n briodol, fod datganiadau ardal yn cyfrannu at gyflawni amcanion a pholisïau'r cynllun hwn ac nad ydynt yn rhwystro eu cyflawni.

## Polisi cyffredinol - Gwneud defnydd cyfrifol o dystiolaeth wyddonol gadarn

290. Tystiolaeth yw gwybodaeth a ddefnyddir i ategu penderfyniadau. Mae'n cwmpasu nifer o ddisgyblaethau gwahanol gan gynnwys economeg, ymchwil gymdeithasol, ymchwil weithredol, ystadegaeth, gwyddorau naturiol, peirianneg a daearyddiaeth. Mae'n cynnwys ymchwil a datblygu, monitro a gwyliadwriaeth, a dadansoddi a chyfosod eilaidd.

291. Mae nifer o offer yn cael eu defnyddio eisoes i gasglu, dadansoddi a rhannu data a thystiolaeth forol, yn cynnwys cronfeydd data ar gyfer rhaglenni monitro hirdymor a chytundebau ar safonau data morol. Mae gwybodaeth ar gael am foroedd Cymru, gan gynnwys eu hadnoddau a'r defnydd ohonynt, yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru ac ar y Porth Tystiolaeth Cynllunio Morol ar-lein. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol i Gymru hefyd yn cynnwys tystiolaeth berthnasol ar gyfer penderfynu.

292. Mae tystiolaeth yn ein helpu i ddeall dosbarthiad a statws ein hadnoddau naturiol morol, y defnydd ohonynt gan bobl, effeithiau'r defnydd hwnnw a'r cyfleoedd i'w defnyddio yn y dyfodol. Er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol, rhaid eu seilio ar dystiolaeth gadarn sy'n cael ei chymhwyso mewn ffordd gyson a thrwyadl gan arfer rhagofal a phragmatiaeth mewn modd priodol. Mae rhan i'w chwarae gan yr holl randdeiliaid sydd â buddiant yn yr amgylchedd morol wrth sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei defnyddio'n gyson a chyfr.

293. Mewn rhai achosion, bydd y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer gwneud penderfyniad yn annigonol neu gyfyngedig. Os felly, fe ddylid gwneud y penderfyniad ar reoli, ond hynny mewn ffordd sy'n delio ag unrhyw ansicrwydd sy'n weddill ac yn lleihau'r perygl o gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr economi, cymdeithas, yr amgylchedd a mathau posibl o ddefnydd o'r amgylchedd morol yn awr ac yn y dyfodol.

**SCI_01: Gwneud penderfyniadau seiliedig ar risg**

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn a dull seiliedig ar risg. Lle bo'n briodol, dylent gymhwyso'r egwyddor ragofalus ac ystyried cyfleoedd i reoli'n ymaddasol.

DRAFT

## Canllawiau ar weithredu

### Gwneud defnydd o dystiolaeth gadarn wrth benderfynu

294. Dylai penderfyniadau ar bolisi a rheoli gael eu seilio ar dystiolaeth gadarn. Mae'n bwysig bod datblygwyr a rheoleiddwyr ac eraill sy'n defnyddio'r amgylchedd morol yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael wrth ddatblygu eu cynigion a gwneud penderfyniadau. Yn yr un modd, dylent helpu eraill i wneud hynny drwy rannu tystiolaeth lle bynnag y bo'n bosibl.

295. Dylai datblygwyr ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â'u cais. Wrth ddatblygu cynnig, dylid defnyddio tystiolaeth o'r holl ffynonellau perthnasol i bennu'r effeithiau cadarnhaol a niweidiol sy'n debygol o'r cynnig, gan gynnwys effeithiau cronnol. Dylai'r dystiolaeth hon fod yn berthnasol, o ansawdd priodol ac yn gymesur â risg y gweithgarwch a gyflawnir, ei raddfa ofodol a'i leoliad. Dylai rheoleiddwyr, gyda chymorth y corff/cyrff ymgynghorol statudol perthnasol, roi gwybod yn glir ymlaen llaw beth yw natur y dystiolaeth sydd ei hangen ac a fyddai'n ddigonol ar gyfer gwneud penderfyniad.

296. Mae'n bosibl y bydd angen cael tystiolaeth newydd i wneud penderfyniad os oes ansicrwydd ynghylch yr effeithiau dichonol o gynnig. Dylid gweithredu mewn ffordd gymesur, seiliedig ar risg er mwyn canfod pa dystiolaeth fydd yn hanfodol i benderfynu ar gais. Byddai gweithredu fel hyn yn sicrhau bod yr anghenion am dystiolaeth a nodir yn gymesur â'r risg sydd ynglŷn â'r prosiect neu'r cynnig ac yn briodol a digonol ar gyfer gwneud penderfyniad.

297. Gall barn arbenigol fod yn bwysig mewn penderfynu. Os gwneir defnydd o farn arbenigol wrth wneud penderfyniad, dylid ystyried y canlynol:

- yr angen am broses strwythuredig a thryloyw i ddeall sail y farn arbenigol a darparu trywydd archwilio yng nghyd-destun y farn arbenigol;
- sicrhau ystod ddigon eang o farn arbenigol ar gyfer y broses, nid barn arbenigwyr technegol yn unig ond ymarferwyr a rhanddeiliaid hefyd;
- y posibilrwydd o ddefnyddio technegau heblaw ceisiadau syml am ddata ansoddol i gael gafael ar wybodaeth.

### Cyfleu tystiolaeth wyddonol ac ansicrwydd yn glir

298. Drwy gyflwyno tystiolaeth yn ofalus, gellir canfod yr ansicrwydd a lefelau hyder sy'n gysylltiedig â hi er mwyn gallu ystyried bylchau mewn tystiolaeth a chyfyngiadau eraill a gwneud penderfyniadau seiliedig ar risg.

299. Dylid cyfleu tystiolaeth mewn ffordd glir a diamwys i'r gynulleidfa arfaethedig. Dylid rhoi disgrifiad clir hefyd o lefelau'r hyder yn y data a'r rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig â'u dehongli. Dylid tynnu sylw at ddata sy'n wael, yn anghyflawn neu'n annibynadwy a'u disgrifio yn y ffordd honno. Os defnyddiwyd barn arbenigol, dylid nodi hynny'n glir ynghyd â'r broses ar gyfer datblygu'r farn arbenigol.

DRAFT

## Defnyddio dull seiliedig ar risg

300. Dylid arfer lefel briodol o ragofal wrth wneud penderfyniadau sy'n gymesur â'r risg i'r amgylchedd, neu fath arall o risg, sy'n codi o'r cynnig. Mae hyn yn galw am bennu effeithiau niweidiol dichonol ac am werthuso'r sylfaen dystiolaeth i weld a yw'n ddigonol (gan gynnwys ansicrwydd gwyddonol gweddilliol). Dylid diystyru materion sy'n debygol o fod yn ddibwys neu amherthnasol i benderfyniad ar awdurdodi a'u hepgor o'r broses cyn gynted â phosibl.

301. Os oes diffyg tystiolaeth a bod yr effeithiau o weithgarwch penodol yn aneglur, fe ellir gwneud penderfyniadau, er hynny, drwy ddull seiliedig ar risg. Ni ddylai diffyg tystiolaeth fod yn rheswm dros ohirio camau i ddiogelu'r amgylchedd morol. Hefyd, ni ddylai diffyg tystiolaeth gael effaith o reidrwydd ar gyflawni amcanion cymdeithasol ac economaidd.

302. Dylai penderfynwyr gymhwyso'r egwyddor ragofalus os oes lle rhesymol i bryderu y bydd gweithgareddau dynol yn peryglu iechyd dynol, yn niweidio adnoddau byw ac ecosystemau morol, yn difrodi amwynderau neu'n ymyrryd â mathau eraill o ddefnydd o'r môr sy'n ddilys, hyd yn oed os nad oes tystiolaeth derfynol o berthynas achosol . Dylid lleihau'r ddibyniaeth ar ragofal drwy wneud y defnydd gorau o dystiolaeth. Er hynny, gall lefel uchel o ragofal fod yn briodol mewn rhai achosion, er enghraifft, mewn perthynas â chynefinoedd a rhywogaethau sy'n sensitif iawn neu o dan fygythiad sy'n cael eu hamddiffyn gan y gyfraith.

303. Dylai penderfyniadau gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru fod yn unol hefyd ag egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cynnwys rhoi sylw i'r canlynol:

- y pwysigrwydd o gydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effaith hirdymor niweidiol;
- sut mae defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu ddwysáu yn gallu cyfrannu at gyflawni amcanion y corff ar gyfer llesiant, neu amcanion corff arall.

## Rheoli ymaddasol

304. Mae rheoli ymaddasol yn broses sy'n darparu ar gyfer optimeiddio a lleihau'r rheolaeth ar ansicrwydd dros amser. Mae'n helpu i reoli risg o fewn terfynau derbyniol. Mae'n golygu monitro ac adolygu penderfyniadau rheoli a rhoi adborth arnynt. Mae hon yn un o'r prif egwyddorion ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) [gweler **Cyd-destun polisi cynllunio morol Cymru**]. Felly dylid ystyried defnyddio'r dull hwn lle mae ansicrwydd ynglŷn â chynnig ond bod cyfle i reoli hyn drwy sicrhau adborth priodol ar ymatebion gan reolwyr neu benderfyniadau pellach. Er hynny, nid yw rheoli ymaddasol wedi'i fwriadu i osgoi'r angen i ystyried materion y mae'n rhesymol rhoi sylw iddynt mewn ffordd briodol.



DRAFT

305. Un math o reoli ymaddasol yw cynllunio gweithgareddau mewn ffordd strwythuredig er mwyn gallu dysgu drwy wneud o fewn cwmpas y cynnig, e.e. drwy ddull gweithredu fesul cam. Gelwir y dull hwn yn “deploy and monitor” (D&M). Gall y dull hwn o weithredu fod yn briodol lle nad oes digon o dystiolaeth i bennu’r effaith debygol o weithgareddau a thechnolegau newydd, ond bod y dystiolaeth orau sydd ar gael neu gyngor arbenigol yn awgrymu bod modd delio â’r effaith ddichonol drwy broses ymaddasol sydd wedi’i chynllunio’n ofalus.

306. Mae dull D&M yn gallu hwyluso’r defnydd o’r ardal forol drwy ganiatáu gweithgareddau newydd ar raddfa fach yn gyntaf, er mwyn gallu eu hasesu’n ofalus cyn eu cyflwyno mewn cylch ehangach. Wrth wneud penderfyniadau ar ganiatáu, gellir cynnwys mecanweithiau priodol ar gyfer monitro a rhoi adborth er mwyn atal neu ddelio ag effeithiau annerbyniol, os byddant yn codi, a gwella’r sylfaen dystiolaeth, fel y gellir lleihau ansicrwydd dros amser. Fel arall, gall penderfyniadau ganiatáu dull o gyflwyno gweithgareddau newydd fesul cam lle mae amodau ar fonitro yn caniatáu i’r prosiect ehangu’n raddol wrth ddatblygu gwybodaeth drwy fonitro manwl.

307. Mewn rhai achosion, gellir defnyddio D&M ar y cyd â throthwyon ar gyfer effeithiau niweidiol derbyniol a rhaglenni monitro cysylltiedig. Dylai datblygwyr fod yn ymwybodol y byddai dibynnu ar y dull hwn yn gallu arwain at bennu cyfyngiadau ar reoli neu weithredu mewn prosiectau.

308. Os defnyddir dull D&M, bydd yn hollbwysig bod:
- digon o dystiolaeth yn cael ei darparu i gefnogi’r cais, drwy ddefnyddio’r dystiolaeth orau sydd ar gael a chyngor arbenigol;
- monitro ar waith i ganiatáu dull o weithredu fesul cam, lle bo’n briodol, i roi prosiect ar waith;
- y gwersi a ddysgir o’r broses yn cael eu bwydo’n ôl i benderfyniadau yn y dyfodol.

309. Os yw amcan y dull D&M yn cynnwys rheoli effeithiau niweidiol o fewn terfynau derbyniol, yna bydd yn bwysig bod:
- trothwyon rhybudd cynnar yn cael eu nodi, os oes angen, i atal difrod annerbyniol;
- monitro ar waith i ganfod a yw’r trothwyon hyn wedi’u cyrraedd, os oes angen;
- mesurau rheoli ymaddasol yn cael eu cytuno ymlaen llaw i atal difrod annerbyniol.

## Datblygu dealltwriaeth i gefnogi penderfyniadau yn y dyfodol

310. Gwneir penderfyniadau ar ddefnyddio’r amgylchedd morol ar sail effeithiau a ragfynegwyd. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol sicrhau bod amodau trwydded priodol, gorfodadwy yn cael eu cynnwys mewn awdurdodiadau fel y gellir rhoi sicrwydd digonol bod yr effeithiau gwirioneddol wedi’u deall. Dylai gofynion am fonitro ac adrodd ar ôl rhoi caniatâd fod yn gymesur ac wedi’u cysylltu’n glir â’r prif faterion dichonol a nodwyd wrth awdurdodi’r cynnig. Fodd



DRAFT

bynnag, ni ddylai monitro fod yn amod ar ganiatâd os mai ei unig bwrpas yw hyrwyddo'r sector.

311. Mae'n bwysig cael adborth clir o'r broses o bennu effeithiau a ragfynegir ar gyfer y broses o fonitro effeithiau gwirioneddol a bod y dystiolaeth hon ar gael i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol. Anogir datblygwyr i ddarparu tystiolaeth forol a gasglwyd ar gyfer cyflwyno cynnig ac i ystyried monitro cynigion yn wirfoddol er mwyn helpu i ddatblygu'r sector yn y dyfodol. Dylai cynigion nodi'n glir sut maent yn bwriadu rhannu unrhyw dystiolaeth sydd wedi'i chasglu i ategu cais neu a gesglir ar ôl ei awdurdodi.

312. Dylid manteisio ar gyfleoedd i bennu a delio ag anghenion am dystiolaeth strategol yn unol â blaenoriaethau'r cynllun hwn er mwyn helpu i ddileu risg mewn penderfyniadau ar fuddsoddi a chaniatáu yn y dyfodol. Dylid cymryd camau rhesymol i lenwi bylchau mewn tystiolaeth strategol i ategu penderfyniadau gan awdurdodau cynllunio, rheoleiddwyr a defnyddwyr y môr. Drwy gydweithio â phartneriaid ar draws y DU ac ar lefel ryngwladol, gellir dysgu gwersi ac osgoi dyblygu gwaith.

DRAFT

## Polisïau ar sectorau

### Cyflwyniad i'r penodau ar sectorau

313. Mae'r penodau ar sectorau yn y cynllun hwn yn disgrifio polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a defnyddio ardal y cynllun morol yn y dyfodol ar gyfer y gwahanol sectorau sy'n defnyddio moroedd Cymru.

314. Ceir amrywiaeth o weithgareddau ym moroedd Cymru. Yn y cynllun hwn, mae'r gweithgareddau hyn wedi'u dosbarthu i 11 o sectorau yn unol â'r DPM:

- Agregau
- Dyframaethu
- Amddiffyn
- Carthu a gwaredu
- Ynni (carbon isel)
- Ynni (olew a nwy, yn cynnwys dal a storio carbon)
- Pysgodfeydd
- Porthladdoedd a morgludo
- Ceblau o dan y môr
- Trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff
- Twristiaeth a hamdden

315. Ym mhob pennod ar sector penodol, ceir polisi ar y sector sy'n cynnwys polisïau cynllun penodol wedi'u rhifo (ee **AQU_01**), sy'n cefnogi amcan(ion) y sector. Mae'r polisïau sector-benodol, ynghyd â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol, yn cyfrannu at gyflawni amcanion y cynllun a gweledigaeth gyffredinol y cynllun. Gallant fod yn gymwys i ardaloedd y glannau a/neu'r ardaloedd môr mawr yn y cynllun ac mewn rhai achosion maent yn ymwneud yn benodol ag **Ardaloedd Adnoddau Strategol** (gweler isod) neilltuol sydd wedi'u henwi. Mae'r ardaloedd hyn a/neu weithgareddau presennol neu arfaethedig wedi'u nodi ar fapiau dangosol lle bo'n briodol. Gall polisïau penodol **gefnogi** datblygiad y sector dan sylw neu **ddiogelu** rhag effeithiau niweidiol o ddatblygiadau eraill. Darparwyd **canllawiau ar weithredu** ar gyfer polisïau fel yr oedd yn briodol.

### Ardaloedd Adnoddau Strategol

316. Er mwyn disgrifio dosbarthiad adnoddau naturiol a all gefnogi datblygiad sector yn y dyfodol, mae'r cynllun hwn yn pennu Ardaloedd Adnoddau ar gyfer rhai sectorau. Ardaloedd eang yw'r rhain sy'n disgrifio dosbarthiad adnodd penodol y mae sectorau morol penodol yn ei ddefnyddio neu y byddant yn gallu ei ddefnyddio, ee agregau, dyframaethu neu ynni'r môr..

DRAFT

317. Pennwyd Ardaloedd Adnoddau drwy gasglu a dehongli tystiolaeth. Bydd Ardaloedd Adnoddau yn newid drwy'r broses cynllunio morol wrth gael gwell dealltwriaeth ac wrth i ragor o dystiolaeth ddod i law a/neu wrth i dechnolegau'r sectorau ddatblygu. Mae Ardaloedd Adnoddau wedi'u dangos ar y porth tystiolaeth cynllunio morol

## Ardaloedd Adnoddau Strategol

318. Er mwyn dyrannu gofod a chanoli defnydd yn y dyfodol, mae'r cynllun hwn yn pennu Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer rhai sectorau. Mae'r rhain yn ardaloedd lle mae cyfle da i ddefnyddio adnoddau yn y dyfodol yn ystod cyfnod y cynllun ac wedyn. Mae Ardaloedd Adnoddau Strategol o fewn yr Ardal Adnoddau gysylltiedig a chredir mai'r rhain sydd â'r potensial mwyaf i hybu twf y sector dan sylw. Mae Ardaloedd Adnoddau Strategol wedi'u diogelu drwy bolisi i ryw raddau er mwyn cymell penderfyniadau strategol ar y defnydd ohonynt yn y dyfodol a rhwystro'r posibilrwydd o sterileiddio'r adnodd.

319. Mae Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer sectorau yn dangos cyfleoedd ar gyfer y dyfodol ac maent yn cael eu pennu drwy broses o gasglu a dehongli tystiolaeth, mapio a dadansoddi sydd wedi ystyried mathau eraill o ddefnydd presennol a mathau defnydd dichonol yn y dyfodol. Gall hon fod yn ardal lle mae gwell dealltwriaeth o leoliad adnodd neu o'r gallu ymarferol i'w ddefnyddio; lle mae rhywfaint o ddealltwriaeth o gyfyngiadau; lle rydym yn gwybod bod marchnad ar gyfer yr adnodd; lle mae'r dechnoleg sylfaenol yn cynnig cyfleoedd newydd; a/neu lle mae'r sector o bwysigrwydd strategol. Os yw gweithgareddau sectorau yn gorgyffwrdd a bod posibilrwydd o wrthdaro rhyngddynt, yna gall map yr Ardal Adnoddau Strategol ddangos blaenoriaeth i sector penodol, er enghraifft, drwy beidio â hyrwyddo cynigion i osod dyfeisiau ynni ffrwd lanw ar wyneb y dŵr mewn sianeli mordwyo sefydledig ar gyfer llongau.

320. Heblaw ar lefel strategol, nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn y cynllun yn gallu llwyr adlewyrchu ystyriaethau manwl am gyfleoedd a chyfyngiadau ar safleoedd penodol, er enghraifft, agweddau ar safleoedd cadwraeth dynodedig. Rhaid cynnwys ystyriaethau o'r fath mewn asesiadau ar lefel prosiect os yw'n briodol lle gellir rhoi sylw digonol i fanylion prosiectau penodol (lleoliad, amseru, graddfa).

321. Mae'r cynllun hwn yn cymell cydweithio rhwng awdurdodau perthnasol a phartïon cysylltiedig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd a chyfyngiadau mwy manwl mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol er mwyn eu mireinio ymhellach drwy gynllunio morol. Darparwyd disgrifiad o'r modd y pennwyd pob un o'r Ardaloedd Adnoddau Strategol er mwyn helpu i'w hadolygu yn y dyfodol a thrafod eu datblygiad a ffyrdd i'w mireinio.

322. Mae gwybodaeth ar gael am Ardaloedd Adnoddau, Ardaloedd Adnoddau Strategol ac am y dull o bennu Ardaloedd Adnoddau Strategol ar borth tystiolaeth

DRAFT

cynllunio morol Llywodraeth Cymru
http://lle.gov.wales/apps/marineportal/

## Mapiau

323. Mae'r wybodaeth am rai sectorau wedi'i hategu gan un neu ragor o fapiau er mwyn rhoi diffiniad gofodol o bolisïau sector-benodol neu er mwyn egluro. Mae mapiau sectorau yn y cynllun hwn yn ddangosol ac mae eu cynnwys yn debygol o newid. Dylid gwneud penderfyniadau ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael ac ystyriaethau perthnasol; os bydd defnyddwyr y cynllun yn ansicr, yna dylent gysylltu â'r awdurdod perthnasol.

## Strwythur y penodau ar sectorau

## Cyflwyniad

324. Mae'r cyflwyniad yn diffinio'r sector ac yn darparu gwybodaeth gyd-destunol am y canlynol:

- ei gwmpas;
- ei statws presennol;
- y rhyngweithio presennol rhwng y sector a sectorau eraill a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol;
- rhyngweithio ag ecosystemau morol;
- materion a chyfleoedd cysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd a'r dyfodol;
- anghenion allweddol am dystiolaeth yng nghyswllt cynllunio morol;
- trefniadau llywodraethu.

Darperir rhagor o fanylion yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru.

## Amcan(ion) y sector

325. Mae amcanion y sector yn disgrifio cyflwr arfaethedig y sector hwnnw yn y dyfodol. Gall amcanion y sector fod yn rhai i'w cyflawni yn ystod oes y cynllun hwn ond gallant hefyd bennu cyfeiriad tymor hwy ar gyfer datblygu cynaliadwy ym moroedd Cymru.

## Polisi'r cynllun a chanllawiau ar weithredu ar gyfer y sector

326. Mae'r adran hon yn amlinellu polisi cyffredinol ar gyfer y sector, polisïau cefnogi penodol (os ydynt yn gymwys) a pholisïau diogelu penodol. Mae'r dull polisi yn



DRAFT

adlewyrchu amcanion y cynllun hwn, amcanion a blaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru, y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael, aeddfedrwydd cymharol y sector ac adborth a chyngor oddi wrth randdeiliaid.

327. Yn ogystal â hynny, mae'r adran hon yn darparu canllawiau ar weithredu polisïau cefnogi a diogelu ar gyfer y sector dan sylw. Dylai ymgeiswyr ac awdurdodau cyhoeddus ystyried y canllawiau hyn yn ogystal â'r "Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau" sydd wedi'u darparu isod.

## Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau

328. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn gymwys i weithgareddau mewn sectorau y mae'n ofynnol iddynt gael eu hawdurdodi gan awdurdod cyhoeddus ac i benderfyniadau eraill a wneir gan awdurdodau cyhoeddus a all effeithio ar ardal y cynllun hwn. **Mae'r canllawiau polisi yn yr adran hon yn gymwys i bob sector** ac maent yn ategu'r canllawiau sector-benodol ar weithredu yn y penodau ar sectorau.

329. Mae polisïau sector wedi'u rhannu'n bolisïau cefnogi (i gefnogi datblygiad sector penodol) a pholisïau diogelu (i ddiogelu sector penodol rhag effeithiau niweidiol posibl o weithgareddau eraill).

330. Dylid ystyried polisïau sector y cynllun hwn ochr yn ochr â'r polisïau trawsbynciol, cyffredinol yn y cynllun hwn, nodau llesiant Cymru ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Dylai'r broses ymgeisio am awdurdodiad fod yn gymwys i'r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy'n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys yr Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer sectorau eraill os ydynt yn bod). Dylid darparu tystiolaeth sy'n ymdrin â pholisïau perthnasol er mwyn hwyluso penderfyniadau. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn (ynghyd ag ystyriaethau perthnasol eraill) yn llywio cynigion a phenderfyniadau; nid ydynt yn dileu'r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol. Oherwydd hynny, ni ddylid rhagdybio y bydd cais o fewn Ardal Adnoddau Strategol ar gyfer y sector dan sylw yn llwyddiannus. Yn yr un modd, nid yw'r polisïau'n rhwystro gweithgareddau gan sector y tu allan i Ardaloedd Adnoddau Strategol a bennwyd.

331. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi cydweithio ac yn cynghori datblygwyr cynigion i ymgysylltu'n gynnar â defnyddwyr eraill y môr, partïon cysylltiedig ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol.

332. Bydd yn bwysig bod cynigion yn nodi ac yn ymdrin yn glir â'r polisïau perthnasol yn y cynllun hwn, yn ogystal ag unrhyw ystyriaeth berthnasol arall, wrth geisio awdurdodiad neu ganiatâd, fel y bydd penderfynwyr yn gallu deall pa bolisïau sy'n berthnasol ac ym mha ffordd y mae'r cynnig yn gyson neu'n anghyson â nhw.

333. Dylai cynigwyr gyflwyno tystiolaeth i gyd-fynd â'u cynnig er mwyn galluogi penderfynwyr i ystyried yr effeithiau posib ar yr ardal forol yn ystod unrhyw gyfnod adeiladu, yn ogystal ag yn ystod unrhyw weithgareddau dilynol. Dylai hyn



DRAFT

ddangos sut gellid osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effaith negyddol. Dylai'r dystiolaeth fod yn gymesur i faint y cynnig ac unrhyw effaith ddichonol ar ddefnydd arall o'r môr ac ar yr ardal forol ei hun.

334. Dylid darparu tystiolaeth glir mewn cynigion am:
- yr ymgysylltu a gafwyd;
- gwrthdaro a chyfleoedd dichonol;
- y graddau y sicrhawyd cydweddu;
- a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol;
- cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen lle na ellir sicrhau cydweddu digonol.

335. Bydd yn bwysig bod cyflwynwyr cynigion yn ymgysylltu yn ystod y broses ymgeisio â defnyddwyr eraill y gall eu gweithgarwch arfaethedig effeithio arnynt, a'u bod yn dangos tystiolaeth glir o'r ymgysylltu hwnnw.

336. Dylai ymgeiswyr ymgysylltu'n gynnar ag awdurdodau cyhoeddus perthnasol, a all gynnwys Gwasanaeth Caniatáu CNC, BEIS / OGA ac Ystad y Goron a dylent hefyd ddefnyddio'r porth tystiolaeth cynllunio morol er mwyn:
- deall y defnydd presennol ac arfaethedig a defnydd dichonol yn y dyfodol;
- cael gwybod a yw trwyddedau, cytundebau neu geisiadau ar gyfer chwilio neu opsiynau wedi'u gwneud eisoes ar gyfer ardaloedd sy'n berthnasol i'w cynigion;
- nodi gwrthdaro a chyfleoedd dichonol;
- nodi cyfleoedd i osgoi, lleihau a/neu liniaru effeithiau niweidiol er mwyn sicrhau cydweddu;
- cael gwybod a yw cynigion yn gallu cydfodoli, a ellir adleoli'r gweithgarwch presennol neu ddod i gytundeb (ee cytundebau ar amser, lle neu ddigolledu er mwyn gallu cydfodoli).

337. Bydd pob parti'n gyfrifol am ddangos ei fod wedi cynnal deialog a'i fod wedi ceisio cydweithio i sicrhau'r manteision gorau i bob parti. Lle nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft ar sail diogelwch neu ddiogeledd, yna y datblygiad a ddiogelwyd a gaiff flaenoriaeth.

338. Dylid ystyried pob cynnig ar wahân.

## Canllawiau ar weithredu polisi cefnogi

339. Yn unol â **GEN_01**, mae rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy. Er mwyn ceisio sicrhau bod y sectorau mor gynaliadwy â phosibl a'u bod yn gwneud cyfraniad cymaint â phosibl at gyflawni nodau llesiant Cymru, mae'r penodau ar y rhan fwyaf o'r sectorau'n cynnwys "polisi cefnogi" sy'n cymell gweithgarwch parhaus yn y sector. Mewn rhai achosion, bydd polisi'n gymwys i ardal(oedd) daearyddol penodol ym moroedd Cymru, ee, mae polisïau cefnogi ar gyfer y

DRAFT

sectorau agregau a dyframaethu sy'n gymwys yn benodol i Ardal Adnoddau Strategol.

340. Mae polisïau cefnogi yn dilyn y fformat canlynol gan amlaf:
Anogir cyflwyno cynigion ar gyfer gweithgareddau [sector] mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio i ddeall cyfleoedd i wneud defnydd cynaliadwy o:

- Ardaloedd Adnoddau Strategol [sector];
- adnoddau naturiol ehangach sydd â photensial o ran [sector];
- er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r [sector] drwy gynllunio morol.

341. Mae polisïau cefnogi yn cael eu llunio i ddangos ymrwymiad i'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy, i nodi a yw'r sector yn cael ei hyrwyddo'n benodol mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol penodedig ac i bennu gofynion allweddol am gyfleoedd datblygu. Maent hefyd yn cydnabod yr angen i gydweithio er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd i alluogi sectorau i dyfu yn y dyfodol.

342. Amcan polisïau cefnogi yw rhoi sicrwydd a hyder busnes i weithredwyr sy'n dymuno:
- datblygu gweithgarwch newydd;
- ymestyn cyfnod neu gwmpas daearyddol gweithgarwch presennol; a/neu
- wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch yr ardaloedd lle mae Llywodraeth Cymru yn ffafrio datblygu er mwyn lleihau risg mewn penderfyniadau ar fuddsoddi a symleiddio prosesau ymgeisio.

343. Er mwyn cefnogi datblygu cynaliadwy yn ardal cynllun morol Cymru, anogir cyflwyno cynigion sy'n dangos yn benodol eu bod:
- yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru;
- yn gyson â'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy;
- yn economaidd hyfyw ac os oes modd yn hybu twf a chryfder yr economi ehangach;
- yn cefnogi llesiant cymunedau'r arfordir ac yn osgoi effeithiau niweidiol;
- yn defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal cydnerthedd ecosystemau a'r buddion a geir ohonynt, ac yn eu gwella os oes modd, ac yn osgoi effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd;
- na fyddant yn cyfyngu ar allu'r DU i fodloni gofynion mewn polisi a deddfwriaeth berthnasol;
- yn cydymffurfio â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol perthnasol yn y cynllun hwn;
- wedi'u lleoli o fewn Ardal Adnoddau Strategol ar gyfer y sector hwnnw;
- yn cyfrannu at gyflawni amcanion y cynllun a/neu amcan(ion) sector-benodol;
- yn cefnogi datblygiad y sector a/neu sectorau eraill, yn cynnwys drwy ddatblygu seilwaith;

DRAFT

- yn helpu i lenwi bylchau mewn tystiolaeth, yn enwedig y rheini y dangoswyd eu bod o bwysigrwydd strategol ar gyfer datblygu sectorau gan gynnwys helpu i ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol ymhellach;
- yn cefnogi datblygiad diwydiannau eilaidd a'r gadwyn gyflenwi ehangach;
- yn cydymffurfio â pholisïau diogelu perthnasol yr holl sectorau er mwyn lleihau effeithiau niweidiol ar ddefnyddwyr eraill a mathau eraill o ddefnydd yn yr amgylchedd morol;
- yn cydweddu â gweithgarwch presennol, gweithgarwch arfaethedig a gweithgarwch dichonol yn y dyfodol yn y sector ac mewn sectorau eraill;
- yn cydgysylltu â gweithgareddau presennol neu arfaethedig a chynrychiolwyr a rhanddeiliaid sectorau perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn cydweddu a chydfodoli i'r graddau mwyaf posibl, yn gwneud y defnydd gorau posibl o ofod morol ac yn dod â buddion cyffredin (ee defnyddio cychod a chyfleusterau eraill ar y cyd);
- yn darparu tystiolaeth i helpu i ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol ymhellach;
- yn cefnogi ymchwil strategol, gymwysedig er mwyn datblygu technoleg;
- yn cefnogi camau i ddatblygu cyngor a chanllawiau cymwysedig i helpu i weithredu'r cynllun hwn;
- yn helpu i ddatblygu a hyrwyddo arbenigedd, ymchwil a datblygu yng Nghymru.

344. Dylai awdurdodau cyhoeddus geisio awdurdodi cynigion sy'n gyson â'r uchod lle bo modd. Cefnogir gweithgareddau cydweddol a chydfodoli a dylid eu hyrwyddo lle bo modd i sicrhau'r defnydd gorau posibl o ofod morol ac adnoddau morol. Dylid bob amser ystyried unrhyw gyfle i ddefnyddio gofod neu adnoddau'n olynol lle gellir ymgymryd ag un gweithgarwch o flaen un arall a fyddai wedyn yn gallu sterileiddio adnodd; er enghraifft, cloddio agregau cyn datblygu safle gwaredu.

345. Dylai cynigion ddarparu digon o dystiolaeth i hwyluso penderfyniadau gan awdurdodau cyhoeddus perthnasol. Bydd maint y dystiolaeth sydd ei hangen yn gymesur â graddfa'r gweithgarwch arfaethedig [gweler **Cymhwyso'r cynllun hwn a'i bolisïau mewn ffordd gymesur**].

346. Lle mae Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer dau neu ragor o sectorau'n gorgyffwrdd ac, felly, lle mae mwy nag un polisi cefnogi yn gymwys, dylid ystyried yn ofalus wrth ddod i benderfyniad yr effaith ddichonol o ddatblygiadau mewn un sector ar ddatblygiadau dichonol yn y dyfodol mewn sector(au) eraill. Dylai penderfynwyr fantoli'r buddion cymharol yn y cynnig yn erbyn defnydd dichonol yn y dyfodol yng nghyd-destun amcanion y cynllun hwn. Yn yr un modd, os byddai awdurdodi cynnig yn effeithio ar weithgareddau yn yr un sector yn y dyfodol, dylid ystyried y buddion cymharol a'r effeithiau niweidiol a geir o'r gweithgarwch arfaethedig ac o weithgareddau dichonol yn y dyfodol. Darparwyd canllawiau ar asesu effeithiau cadarnhaol a negyddol o bob gweithgarwch isod [gweler **Polisïau diogelu a chanllawiau ar eu gweithredu**].

DRAFT

## Cael gwell dealltwriaeth o Ardaloedd Adnoddau Strategol

347. Mae'n bwysig bod awdurdodau cyhoeddus ac awdurdodau cynghorol perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, yn cydweithio i gael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd yn y dyfodol ac yn cyfrannu at fireinio Ardaloedd Adnoddau Strategol drwy'r broses cynllunio morol.

348. Lle nad yw Ardaloedd Adnoddau Strategol wedi'u dynodi ar gyfer sector penodol yn y cynllun hwn neu lle mae angen rhagor o dystiolaeth i gael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd a chyfyngiadau mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol ar lefel leol, cefnogir mentrau cydweithredol newydd ar gyfer cynllunio strategol mewn sectorau sy'n gallu cyfrannu at gynllunio morol pellach. Bydd hyn yn galw am gydweithio rhwng cyrff cyhoeddus perthnasol, diwydiant, a rhanddeiliaid. Y ffordd orau o sicrhau gweithgarwch o'r fath yw drwy fentrau a gynlluniwyd yn strategol i helpu i gael gwell dealltwriaeth o ardaloedd lle ceir cyfleoedd yn y dyfodol.

## Canllawiau ar weithredu polisi diogelu

349. Er mwyn sicrhau bod datblygu'n gynaliadwy, mae un neu ragor o bolisïau diogelu ar gyfer pob sector sy'n hyrwyddo cydweddu ac yn atal effeithiau niweidiol diangen ar ddefnyddwyr eraill a mathau eraill o ddefnydd yn yr amgylchedd morol.

350. Mae polisïau diogelu yn dilyn y fformat canlynol gan amlaf:
Ni ddylid awdurdodi cynigion sy'n effeithio ar weithgareddau [sector] presennol, arfaethedig neu weithgareddau a fydd yn ddichonol yn y dyfodol oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw

351. O dan y polisïau diogelu, mae'n ofynnol bod cynigion ar gyfer gweithgareddau newydd yn ystyried y graddau y gallent gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar weithgareddau presennol neu arfaethedig eraill ac, mewn rhai achosion, ar weithgareddau dichonol yn y dyfodol hefyd, yn yr un sector ac mewn sectorau eraill. Dylid osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau niweidiol a nodir lle bo modd.

352. Mae'r polisïau diogelu ar gyfer sector penodol yn gymwys i gynigion ar gyfer gweithgareddau yn y sector hwnnw ac yn yr HOLL SECTORAU ERAILL.



DRAFT

353. Mae polisïau diogelu wedi'u llunio i roi sicrwydd a hyder busnes i weithredwyr:

- sy'n ymgymryd â gweithgarwch sefydledig a/neu awdurdodedig;
- sydd wedi cyflwyno cais i ymgymryd â gweithgarwch trwyddedig;
- y dyrannwyd ardal(oedd) iddynt i ddatblygu eu sector (ee ardaloedd chwilio neu opsiwn) ac sydd wrthi'n cynnal ymchwil neu'n pennu nodweddion safleoedd er mwyn mireinio eu cais am drwydded mewn ardal nad yw'n fwy na'r hyn sydd ei angen i gwrdd ag anghenion eu sector; a/neu
- sy'n cefnogi polisi gofodol y cynllun hwn ar gyfer sectorau mewn ardaloedd a ddynodwyd yn Ardaloedd Adnoddau Strategol.

354. Gwelir yn aml eisoes fod cynigion newydd yn ystyried y graddau y maent yn ymwneud â defnydd dichonol yn y dyfodol ar gyfer eu sector eu hunain a sectorau eraill. Felly, mae'r polisïau diogelu yn y cynllun hwn yn sicrhau bod hyn yn digwydd a hynny ar bwynt priodol. O ganlyniad i hyn, ni fydd polisïau diogelu yn gosod baich ar y rheini sy'n cynnig prosiectau ond fe fyddant yn sicrhau eu bod yn ystyried ac yn cyflwyno eu cynnig yng nghyd-destun y defnydd dichonol yn y dyfodol o'r ardal y maent yn cynnig gweithredu ynddi.

355. Bydd yn bwysig bod yr holl sectorau y mae cynnig yn effeithio arnynt yn cael eu hysbysu am weithgareddau ac amserlenni datblygwyr cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu datblygu mesurau i leihau'r effaith a sicrhau'r buddion cyffredin mwyaf posibl. Er mwyn cyflawni hyn, gellir datblygu strategaethau ymgysylltu â sectorau morol yn y cyfnod cynllunio a strategaethau lliniaru ar gyfer sectorau yn y cyfnod asesu ac ymgeisio ar gyfer prosiectau.

### Sicrhau cydweddu

356. Rhoddir anogaeth gryf i ymgymryd â gweithgareddau cydweddol, hy rhai nad ydynt yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar weithgareddau eraill ac sydd hyd yn oed yn gallu arwain at synergeddau cadarnhaol. Mae'r polisïau diogelu yn cefnogi cydfodolaeth gweithgareddau lle mae hyn yn ymarferol bosibl. Dylai cynigion geisio cydfodoli â'r datblygiad sydd wedi'i ddiogelu neu'r datblygiad dichonol er budd cyffredin i'r ddau ohonynt. Mae cyfrifoldeb gan bob parti i ddangos ei fod wedi cynnal deialog a'i fod wedi ceisio cydweithio er y fantais orau i'r ddwy ochr.

357. Mae effeithiau niweidiol arwyddocaol yn gallu cynnwys effeithiau ar integredd a chwmpas neu hyfywedd economaidd y gweithgarwch neu weithgarwch dichonol yn y dyfodol, neu ei allu i ddarparu buddion cymdeithasol ehangach. Gall effeithiau niweidiol fod yn uniongyrchol a hawdd eu deall (ee adeiladu piblinell neu osod cebl o fewn Ardal Adnoddau Strategol sector arall) neu'n llai amlwg ac yn llai



DRAFT

hawdd eu hasesu, ond yr un mor bwysig (ee dadleoli gweithgareddau pysgota, morgludo neu dwristiaeth a hamdden).

358. O dan bolisïau diogelu, mae'n ofynnol bod yr effeithiau niweidiol dichonol o gynnig ar sectorau eraill, yn nhrefn blaenoriaeth, yn cael eu hosgoi, eu lleihau neu eu lliniaru i'r graddau mwyaf posibl.

359. Rhai dulliau posibl o osgoi effeithiau niweidiol yw ystyried dewisiadau yn lle'r gweithgarwch newydd, yn cynnwys newidiadau yn lleoliadau neu amseriad y gweithgarwch newydd sy'n llai pwysig ar gyfer sector y gweithgarwch presennol fel y byddant yn cael effaith net lai ar sector y gweithgarwch presennol.

360. **Rhai dulliau posibl o leihau effeithiau niweidiol yw** ystyried sut y gallai'r gweithgarwch newydd gydweddu â'r gweithgarwch presennol a newid ôl troed daearyddol neu amserol y gweithgarwch newydd i leihau'r effaith ar y gweithgarwch presennol, neu ddefnyddio technolegau newydd i leihau rhychwant a/neu ddifrifoldeb yr effaith.

361. **Rhai dulliau posibl o liniaru effeithiau niweidiol yw** atgyweirio ac adfer, diogelu a chyfnewid, cael consensws rhwng gweithredwyr, neu agor ardaloedd newydd ar gyfer y gweithgarwch presennol.

## Dadleoli

362. Mewn rhai achosion, mae perygl i weithgareddau presennol gael eu dadleoli gan weithgarwch newydd. Ceir dadleoli pan fydd gweithgarwch yn cael ei symud (mewn amser neu ofod) o ganlyniad i gyflwyno gweithgarwch arall neu ei effaith. Gall yr effeithiau o ddadleoli fod yn economaidd, yn gymdeithasol neu'n amgylcheddol, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn barhaol neu dros dro, ac yn gronnol. Gall olygu na fydd y gweithgarwch yn gallu digwydd bellach ar sail (fasnachol) hyfyw os nad yw ardal gyfagos arall ar gael nad yw'n cael ei defnyddio, ee ar gyfer nifer mawr o weithgareddau pysgota.

363. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol fod yn ymwybodol o'r amcan o gynnal neu gynyddu cynnyrch y sector, felly dylent geisio sicrhau na fydd colled net o gynhyrchiant y sector. Wrth wneud hynny, dylid ystyried y raddfa a'r cyfle i adleoli gweithrediadau unigol a graddfa unrhyw golled a geir pan wneir penderfyniad eithriadol, a'r gallu i ddigolledu. Dylai cynigion ddarparu tystiolaeth ar gyfer cynnal asesiad o leoliadau addas eraill a'r costau net a'r goblygiadau i amcanion y cynllun hwn o ganlyniad i ailsefydlu neu derfynu'r busnes.

364. Wrth bennu lleoliadau addas ar gyfer gweithgarwch newydd neu weithgarwch a ddadleolwyd, bydd angen ystyried y nodweddion lleol hefyd gan gynnwys y gallu i barhau â'r busnes a'r gallu i gynnal cadwynau cyflenwi.

365. Lle mae gweithgarwch penodol fel pysgota wedi digwydd mewn ardal am gyfnod hir, gall fod yn nodwedd gryf yn hunaniaeth y gymuned honno a'i chymeriad neilltuol a gall fod yn fwy arwyddocaol nag mewn ardaloedd eraill. Eu hunaniaeth



DRAFT

gryf a'u cymeriad neilltuol sy'n gwneud yr ardaloedd hyn yn wahanol ac yn ddeniadol ar gyfer ymweld, byw, gweithio a gwneud busnes, ac mae hyn yn sbarduno gweithgarwch economaidd. Felly byddai dadleoli'n gallu cael effaith fwy niweidiol nag sy'n amlwg ar yr olwg gyntaf.

366. Yn achos polisïau diogelu sy'n ymwneud â dadleoli gweithgareddau presennol:

367. **Rhai dulliau posibl o osgoi effeithiau niweidiol o ddadleoli yw** symud y gweithgarwch newydd – efallai y bydd opsiynau o ran lle ag amser ar gyfer cydfodoli.

368. **Rhai dulliau posibl o leihau effeithiau niweidiol o ddadleoli yw** cyflawni'r gwaith mewn cyfnod byrrach/mwy cyfleus, neu leihau nifer y llongau ar y safle er mwyn cyfyngu anghyfleustra (ee rhwystrau, sŵn).

369. **Rhai dulliau posibl o liniaru effeithiau niweidiol o ddadleoli yw** cael consensws rhwng gweithredwyr, agor ardaloedd newydd ar gyfer y gweithgarwch presennol.

370. Fel arfer, ni ddylai gweithgareddau newydd sy'n debygol o gael effaith niweidiol arwyddocaol ar hyfywedd gweithgarwch presennol neu arfaethedig, neu ar weithgarwch dichonol mewn Ardal Adnoddau Strategol yn y dyfodol, gael blaenoriaeth dros y gweithgarwch presennol neu arfaethedig, neu dros weithgarwch dichonol mewn Ardal Adnoddau Strategol yn y dyfodol, oni bai fod eu cynigwyr yn gallu cyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol ar sail tystiolaeth dros fwrw ymlaen â nhw neu fod amgylchiadau eithriadol.

## Cyflwyno achos dros fwrw ymlaen

371. Mewn achos dros fwrw ymlaen â chynnig, dylid dangos y bydd y gweithgarwch newydd, er nad yw'n cydweddu â gweithgarwch presennol neu arfaethedig, neu weithgarwch dichonol mewn Ardal Adnoddau Strategol yn y dyfodol, yn gwneud mwy o gyfraniad at ei gilydd at gyflawni nodau llesiant Cymru. Mewn geiriau eraill, mae'r buddion cyffredinol o'r gweithgarwch a gynigir yn fwy na'r anfanteision y mae'n eu hachosi i ddatblygiadau presennol neu arfaethedig neu i ddatblygu dichonol yn y dyfodol ac i'r defnydd o'r amgylchedd morol.

372. Ym mhob achos a gyflwynir, dylid nodi:
- pwysigrwydd strategol y gweithgarwch newydd a pham y dylid ei ffafrio yn lle'r defnydd presennol neu arfaethedig o'r ardal neu'r defnydd dichonol ohoni yn y dyfodol;
- y graddau y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar amcanion y sector a ddiogelir;
- y graddau y mae'r sector a ddiogelir yn flaenoriaeth yn y cynllun hwn a'r graddau y bydd ei amcanion yn cael eu cyflawni neu'n debygol o gael eu cyflawni, neu y gallent gael eu niweidio, os derbynnir y cais.
- pwysigrwydd strategol y cynnig yng nghyd-destun polisi cenedlaethol (Datganiadau Polisi Cenedlaethol, polisi arall sydd wedi'i ddatgan gan



DRAFT

Lywodraeth, y DPM a chynllunio perthnasol ar gyfer y tir a'r môr), gan gynnwys a yw'n ymwneud â datblygu sector y credir ei fod o bwysigrwydd neilltuol yn y cynllun hwn;

- y graddau y byddai'r cynnig, os caiff ei dderbyn, yn cefnogi amcanion y cynllun [Tabl X], amcanion sector-benodol [gweler y penodau ar sectorau penodol] a nodau llesiant Cymru;
- y graddau y mae'r cynnig yn cydweddu â'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy;
- yr effaith net ar yr amgylchedd ac ar ddefnyddwyr eraill;
- lefelau'r gyflogaeth a ddarperir;
- gwerth y gweithgarwch sydd ar y safle eisoes oherwydd ei brinder, o'i gymharu â dewisiadau eraill
- yr agweddau ymarferol, y cyfleoedd a'r costau sydd ynglŷn â newid lleoliad y gweithgarwch presennol neu arfaethedig;
- nad oes dim neu nemor ddim lleoliadau eraill ar gyfer y datblygiad newydd a gynigir (gan fod lleoliadau eraill yn creu mathau eraill neu fathau tebyg o wrthdaro);
- bod tystiolaeth wedi dod i law sy'n dangos bod yr ardal dan sylw yn anaddas ar gyfer gweithgarwch y sector y mae Ardal Adnoddau Strategol wedi'i phennu ar ei gyfer.

373. Gellir cynnwys hefyd mewn unrhyw achos dros fwrw ymlaen â chynnig ystyriaethau ynghylch:

- Lle mae'r cynnig yn ymwneud ag ardal sydd o fewn Ardal Adnoddau Strategol sector arall, nad oes unrhyw gynlluniau rhagweladwy ar gyfer ymgymryd â gweithgarwch y sector hwnnw; er enghraifft, bod ceisiadau blaenorol am drwydded wedi'u gwrthod ac felly bod datblygu'n annhebygol;
- na fyddai'r datblygiad yn cyfyngu neu'n achosi rhwystr mawr rhag datblygu'r safle neu gael mynediad iddo yn y dyfodol

374. Dylai ymgeiswyr ddarparu digon o wybodaeth i ganiatáu i benderfynwyr wneud eu penderfyniadau'n unol â deddfwriaeth a rheoliadau

375. Wrth wneud penderfyniad, dylai'r awdurdod cyhoeddus gyfeirio at unrhyw ganllawiau neu ddatganiad Gweinidogol ysgrifenedig a wneir o bryd i'w gilydd a nodi a yw unrhyw gytundeb digolledu wedi'i wneud mewn egwyddor rhwng buddiannau yn y sectorau dan sylw.

376. Ni ellir rhagnodi enghreifftiau posibl a allai alw am gyflwyno achos dros fwrw ymlaen â chynnig gan y byddai'r rhain mor amrywiol, yn ymwneud â lleoliadau a datblygiadau penodol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau mewn polisi cyfredol. Er enghraifft, gellid gosod cebl telathrebu drwy ardal lle rhoddwyd trwydded agregau mewn Ardal Adnoddau Strategol os yw digon o'r adnoddau agregau ar gael mewn mannau eraill neu gellid ei symud i'r ochr fel bod modd parhau i gloddio'r agregau, neu gellid cytuno i symud y gweithrediadau ar ôl derbyn digollediad (ee i dalu'r costau am ddatblygu safle newydd o dan drwydded agregau yn y cyffiniau.

DRAFT

## Amgylchiadau eithriadol

377. Gellir cael **amgylchiadau eithriadol** lle byddai cynigion ar gyfer datblygiad newydd yn gallu cael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar weithgareddau presennol ac arfaethedig neu weithgareddau dichonol yn y dyfodol ond lle byddent yn briodol, er hynny, o dan bolisïau diogelu**.**

378. Amgylchiadau eithriadol yw sefyllfaoedd lle:
- er gwaethaf effeithiau niweidiol y cynnig newydd ar weithgareddau presennol neu arfaethedig, neu weithgareddau dichonol yn y dyfodol mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol; ac
- er gwaethaf y ffaith nad yw buddion cyffredinol y gweithgarwch newydd yn fwy na'r anfanteision (hy ni ellir cyflwyno achos dros fwrw ymlaen â'r gweithgarwch newydd fel y nodwyd uchod);
- mae un neu ragor o sbardunau strategol sy'n cynnwys targedau penodol sy'n ei gwneud yn hanfodol bod y gweithgarwch yn digwydd.

379. Mae amgylchiadau eithriadol yn gallu cynnwys amgylchiadau lle mae'r budd economaidd neu gymdeithasol sydd i'w gael o'r gweithgarwch a gynigir yn fwy o lawer na'r hyn a gollir. Enghreifftiau o gynigion a all arwain at gefnogi cais am newid defnydd yw:
- Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol;
- datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2015/16
- datblygiadau sy'n hanfodol i gwrdd â gofynion rheoleiddio

380. Mewn rhai achosion, dylid cymryd bod yr angen am weithgareddau newydd wedi'i brofi, ee lle mae angen clir mewn polisi strategol am seilwaith newydd o fath penodol, neu lle mae cefnogaeth bendant i ddatblygiadau ar dir yn bennaf mewn cynllun neu ddatganiad polisi strategol perthnasol ar ddefnydd tir ond bod y rhain yn cynnwys elfen sydd angen ei hawdurdodi mewn perthynas ag ardal y cynllun hwn.

381. Ni ellir rhagnodi enghreifftiau posibl a allai alw am gyflwyno achos dros ystyried amgylchiadau eithriadol gan y byddai'r rhain mor amrywiol, yn ymwneud â lleoliadau a datblygiadau penodol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau mewn polisi cyfredol. Ar y cyfan, mae cynigion a all arwain at gefnogi newid defnydd yn rhai ar gyfer datblygiadau mawr sy'n cael eu hystyried yn rhai o bwysigrwydd cenedlaethol, er y gellir cael cynigion llai yn ôl natur a graddfa'r defnydd presennol. Er enghraifft, gallai datblygiad olew a nwy ddadleoli sianel morgludo er mwyn echdynnu'r cyfran fwyaf posibl o ased olew os mai hwn yw'r unig leoliad dichonadwy i gloddio ffynnon, ond lle gellir symud y llwybr mordwyo yn ddiogel; neu lle y gellid gwrthod datblygu fferm bysgod (gan effeithio ar y gallu i gyrraedd targedau dyframaethu) oherwydd yr angen i gloddio sianel mordwyo ddyfnach i alluogi llongau mwy i gludo nwy naturiol hylifedig i borthladd er mwyn datblygu gorsaf bŵer.

DRAFT

### Ystyriaethau diogelu ar ôl rhoi caniatâd

382. Lle mae tystiolaeth glir o effeithiau niweidiol arwyddocaol nas rhagwelwyd o ganlyniad i weithgarwch newydd ar weithgareddau presennol neu arfaethedig mewn ardaloedd lle rhoddwyd neu lle y gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad neu les Ystad y Goron, dylai'r awdurdod trwyddedu roi ystyriaeth ar frys i ofyn am leihau neu derfynu'r gweithgarwch newydd a gweithio gyda'r datblygwr i ddatblygu cynlluniau priodol ar gyfer monitro, rheoli a lliniaru cyn ailddechrau'r gweithgarwch.

DRAFFT

## Agregau

### Cyflwyniad

383. Yn y cynllun hwn, mae'r sector agregau yn cynnwys gweithgareddau sy'n echdynnu agregau, fel tywod a graean o wely'r môr, i'w defnyddio fel deunyddiau adeiladu, ar gyfer adfer tir neu ailgyflenwi traethau (ail-lenwi/maethu). Nid yw'n cynnwys symud agregau at ddibenion penodol y tu allan i ardal adnoddau (ee yn ystod cyfnod adeiladu prosiectau, tywod rhynglanw wedi'i chwythu gan y gwynt neu ar gyfer rhai cynlluniau ailgyflenwi traethau).

384. Ceir dyddodion agregau sy'n fasnachol hyfyw mewn ardaloedd gofodol ar wahân o ganlyniad i brosesau daearegol. Mae adnoddau agregau morol wedi'u dosbarthu'n eang yn holl ddyfroedd Cymru. Yn hanesyddol, fodd bynnag, cafwyd y rhan fwyaf o weithgareddau echdynnu ym Môr Hafren, Aber Hafren ac oddi ar lannau Gogledd Cymru. Mae agregau morol yn chwarae rhan strategol bwysig yn y cyflenwad cenedlaethol a lleol o agregau a ddefnyddir yn bennaf mewn prosiectau adeiladu. Tywod a graean morol oedd oddeutu 47% o gyfanswm y cyflenwad o dywod a graean a werthwyd yng Nghymru yn 2009[23]. Yn ne-ddwyrain Cymru, deunydd a garthwyd o'r môr oedd mwy na 96% o'r holl dywod a graean a gynhyrchwyd dros y cyfnod rhwng 2001 a 2010

385. Gan fod agregau morol yn adnodd cyfyngedig, mae'n bwysig bod echdynnu (a'r gyfradd defnyddio) yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Er bod cloddio'n gallu achosi amrywiaeth o effeithiau, at ei gilydd mae cloddio yn y môr yn gallu dod â manteision economaidd ac amgylcheddol pendant o'i gymharu â chloddio ar dir. Mae'r sector yn gwneud cyfraniad pwysig i economi Cymru gan ddarparu cyflogaeth uniongyrchol a chyflogaeth eilaidd mewn gweithgareddau ategol, yn cynnwys adeiladu ac atgyweirio llongau, prosesu agregau ar lanfeydd, cludo a gweithgynhyrchu cynhyrchion o agregau morol. Mae'n weithgarwch hollbwysig ar gyfer adeiladu a chynnal seilwaith sy'n hanfodol i'n llesiant economaidd a chymdeithasol ac mae'n cefnogi datblygu cynaliadwy.

DRAFT

[23] (BGS 2011)

### Cyfraniad agregau i'r economi

Mae'r wybodaeth economaidd am y sector agregau morol yng Nghymru yn dod o fwy nag un ffynhonnell, felly mae angen ystyried gwybodaeth ar wahanol lefelau ac ar gyfer gweithgareddau gwahanol, rhwng y cloddio a'r defnydd terfynol. Ar lefel y DU, mae 11 o gwmnïau cloddio'n cyflogi 640 o staff yn uniongyrchol ac yn rhedeg 28 o longau carthu sydd â gwerth amnewid o £1 miliwn. Yng Nghymru, mae 13 o lanfeydd ar gyfer agregau morol.

Mae'r ffigurau canlynol am Werth Ychwanegol Gros, busnesau a swyddi cyflogedig yn y sector agregau morol yng Nghymru wedi'u seilio ar ddiffiniad y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol o'r gweithgarwch cynradd o gloddio deunyddiau a'r gweithgarwch eilaidd o werthu mwynau.

**Gwerth Ychwanegol Gros yn y Sector Morol yng Nghymru, £ miliwn**[24]

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mwynau | 5 | 28 | 27 | 10 | 16 |

**Busnesau yn y Sector Morol yng Nghymru**[25]

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwynau | 80 | 75 | 75 | 80 | 75 | 70 |

**Swyddi cyflogedig yn y Sector Morol yng Nghymru**[26]

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mwynau | 500 | 400 | 500 | 500 | 600 |

Fodd bynnag, nid yw pwysigrwydd economaidd y diwydiant i'w briodoli i werth y cynnyrch a nifer y bobl a gyflogir yn unig. Rhaid ystyried hefyd y rhan y mae'n ei chwarae fel cyflenwr deunyddiau crai hanfodol ar gyfer adeiladu. Er enghraifft, ar lefel y DU yn 2005:

- Cyfanswm gwerth y cynnyrch adeiladu oedd £107 biliwn am waith atgyweirio a chynnal a £59.4 biliwn am waith newydd.
- Y Gwerth Ychwanegol Gros am weithgynhyrchu cynhyrchion concrit ar gyfer adeiladu oedd £1,130 miliwn (668 o gwmnïau gyda 23,000 o gyflogeion) a £555 miliwn ar gyfer gweithgynhyrchu concrit parod (192 o gwmnïau gydag 8,000 o gyflogeion).
- Ar gyfer yr un flwyddyn, gwerth y cynnyrch adeiladu yng Nghymru oedd £4,228 miliwn (4% o'r cyfanswm ar gyfer Cymru a Lloegr) (nid yw hyn yn cynnwys deunydd a laniwyd yng Nghymru ond a ddefnyddiwyd ar gyfer adeiladu mewn mannau eraill).

[24] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Busnes Blynyddol, Cyfrifon Rhanbarthol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

[25] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Busnes Rhyngadrannol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

[26] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr o Fusnesau a'r Arolwg Cyflogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)



DRAFT

## Y rhyngweithio presennol a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol â sectorau eraill

386. Mae potensial da yn y diwydiant agregau ar gyfer rhannu gofod â sectorau eraill ar yr amod bod hyblygrwydd ar gael ar gyfer penderfynu ar leoliad ac amseriad gweithgareddau cloddio. Wrth gynnig cefnogaeth i'r diwydiant agregau, mae'n bwysig ystyried y goblygiadau posibl o hynny i sectorau eraill. O dan y weithdrefn drwyddedu, mae'n ofynnol bod cynigion newydd am safleoedd carthu agregau yn lleihau eu heffeithiau ar weithgareddau presennol neu arfaethedig mewn sectorau eraill.

387. Er y bydd rhai sectorau'n gallu cydfodoli â gweithgarwch agregau, ee pysgota, morgludo a thwristiaeth a hamdden, rhaid ystyried y risg o wrthdaro (diogelwch a pherygl o lygredd) a'r goblygiadau o ran costau i sectorau eraill mewn cynigion penodol. Dylid gwneud trefniadau ar gyfer cydgysylltu â sectorau allweddol lle bo angen, ee y Weinyddiaeth Amddiffyn, morgludo a physgota. Yn benodol, dylid cefnogi cydgysylltu rhwng y sector agregau a'r sector pysgota (ee penodi swyddog cyswllt neu gysylltydd pysgodfeydd).

388. Mae gweithgarwch carthu agregau yn gallu datguddio deunydd o ddiddordeb hanesyddol, neu ei godi i wyneb y môr. Mae'r diwydiant yn awyddus i gadw treftadaeth forol a gwella dealltwriaeth ohoni ac mae wedi datblygu codau ymarfer gyda buddiannau archeolegol, yn cynnwys Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC).

389. Mae nifer o sectorau a all gael effaith niweidiol ar y sector agregau, yn enwedig y rheini sy'n gosod adeiladweithiau sefydlog neu barhaol, fel ceblau a gweithfeydd ynni adnewyddadwy, sy'n debygol o gyfyngu neu atal (hy sterileiddio) gwaith cloddio agregau yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd gweithgarwch y Weinyddiaeth Amddiffyn mewn ardaloedd sefydledig yn anghydweddu â gweithgarwch carthu agregau rheolaidd, er mai ychydig o orgyffwrdd gofodol a geir rhwng y ddau fath o weithgarwch ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, mae perygl o halogi yn gysylltiedig â gweithrediadau carthu, o ganlyniad i godi llygryddion o waddodion mewn daliant, ac mae goblygiadau o hynny i sectorau fel dyframaethu.

390. Bydd yn bwysig bod y sector agregau a sectorau eraill yn ystyried opsiynau cynllunio strategol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf cynaliadwy posibl. Er enghraifft, gall fod yn bosibl datblygu ynni carbon isel mewn ardal ar ôl cloddio adnoddau agregau yn gyntaf. Wrth wneud penderfyniadau ar awdurdodi, bydd angen i awdurdodau cyhoeddus perthnasol fod yn ymwybodol o'r angen i wneud penderfyniadau amserol i roi'r gallu i ddefnyddio'r adnodd yn y ffordd orau posibl.

## Rhyngweithio ag ecosystemau

391. Mae diwydiant agregau morol y DU yn cael ei reoleiddio'n ofalus i leihau'r effeithiau o garthu ar ecosystemau. Nodir nodweddion cadwraeth neu



DRAFT

nodweddion arwyddocaol mewn ecosystemau yn gynnar a sicrheir eu bod yn cael eu diogelu'n briodol drwy raglen briodol o liniaru a monitro parhaus. Mae hyn yn sail i'r arolygon llinell sylfaen a chyn cloddio cynhwysfawr ar gyfer pysgodfeydd, ecoleg gwaelod y môr, archeoleg a nodweddion eraill ar wely'r môr sy'n rhan annatod o'r broses ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a chaniatáu datblygiadau.

392. Mae'r cynefinoedd ar waelod y môr yn nyfroedd Cymru sy'n addas ar gyfer carthu yn cynnwys tywod mân a bras yn bennaf (nid graean). Ar y cyfan, mae'r rhain yn gynefinoedd cymharol symudol ac unffurf sy'n cynnal amrywiaeth o anifeiliaid morol nodweddiadol sydd hefyd yn darparu buddion ecosystem amrywiol ee maent yn darparu mannau bwydo a silfeydd pwysig ar gyfer pysgod (fel eu bod hefyd o ddiddordeb i'r sector pysgota) ac yn darparu ffynhonnell bwyd bwysig ar gyfer anifeiliaid ysglyfaethus fel adar, morloi a morfilod.

393. Fel arfer, bydd y broses carthu'n tynnu'r lefel uchaf o waddod, ac mae hyn hefyd yn tynnu'r crynodiadau cysylltiedig ar waelod y môr. Dangoswyd bod ardaloedd a garthwyd fel hyn yn ymadfer dros amser, yn ôl yr amodau ar safleoedd penodol a graddfa, dwysedd ac amseriad yr aflonyddu. Gall cynefinoedd sensitif cyfagos fod yn agored i effeithiau gorchuddio lle mae solidau wedi'u codi mewn daliant. Er y gall ardaloedd trwyddedig fod yn gymharol fawr, mae'r arwynebedd sy'n cael ei drin gan long garthu yn ystod carthu yn gymharol fach ac arwahanol, ac mae hyn yn cyfyngu ar raddfa ac arwyddocâd yr effeithiau uniongyrchol.

394. Gellir cael effeithiau cronnol hefyd o ganlyniad i'r effeithiau ffisegol cyfunol sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod nifer o safleoedd carthu o fewn un ardal. Bydd yr effeithiau o gloddio agregau hefyd yn gallu gweithio ar y cyd ag effeithiau sy'n codi o weithgareddau eraill. Bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth roi trwydded forol ar gyfer carthu. Felly bydd yr effeithiau ar ecosystemau o drwyddedau carthu unigol yn gyfyngedig fel arfer o ran graddfa a pharhad o'u hystyried ar eu pen eu hunain a hefyd, gan amlaf, o'u hystyried ar y cyd â gweithgareddau eraill (hy eu heffeithiau cronnol).

395. Mae datblygu Asesiadau Amgylcheddol Rhanbarthol Agregau Morol (MAREAs) yn y DU yn gam allweddol ymlaen o ran deall yr effeithiau cronnol ac ar y cyd o garthu mewn ardaloedd gwelyau môr rhanbarthol. Mae'r broses hon yn ystyried effeithiau cronnol ac yn darparu cyd-destun rhanbarthol ar gyfer asesu ceisiadau am drwyddedau carthu yn fwy manwl ar ôl hynny.

## Y dyfodol

396. Y disgwyl yw mai'r brif ffynhonnell o hyd ar gyfer cyflenwadau o dywod a graean yng Nghymru fydd agregau a godir o'r môr, o'i chymharu â ffynonellau eraill – deunyddiau eildro ac agregau wedi'u cloddio ar dir neu wedi'u mewnforio yn bennaf. Oherwydd maint yr adnoddau sydd ar gael, eu hagosrwydd i farchnadoedd a'r ddarpariaeth o seilwaith, credir bod y cronfeydd trwyddedig presennol ym Môr Hafren, Aber Hafren ac oddi ar lannau Gogledd Cymru yn debygol o ddarparu ar gyfer lefel dda o gyflenwi i gwrdd â'r galw hysbys dros

gyfnod y cynllun. Mae cysylltiad agos rhwng y galw am ddeunyddiau agregau morol a'r sector adeiladu a'r economi ehangach. Mae'n debygol y bydd prosiectau seilwaith ar raddfa fawr fel porthladdoedd, ffyrdd, gorsafoedd pŵer niwclear newydd a rhai datblygiadau ynni adnewyddadwy yn dylanwadu'n fawr ar y galw. Bydd galw'n codi hefyd o'r angen am amddiffynfeydd peiriannu meddal (fel prosiectau ailgyflenwi traethau) ac am amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol, y gellir cael cynnydd yn y galw amdanynt o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd.

397. Mae ardaloedd a all gynnwys adnoddau agregau hyfyw wedi'u dynodi oddi ar lannau Gorllewin Cymru, ac yn enwedig oddi ar lannau Gogledd Cymru. Rhagwelir y bydd y rhain yn gallu darparu cyflenwad am o leiaf 50 mlynedd pellach er bod y farchnad ar gyfer yr adnodd hwn yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

## Y newid yn yr hinsawdd

398. Byddai mwy o stormydd sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd yn gallu effeithio ar argaeledd adnoddau mewn mannau sy'n agored i effaith tonnau ar y glannau, a hefyd ar y gallu i weithredu llongau carthu.

399. Mae cynnydd yn lefel y môr a mwy o stormydd yn dwysáu erydu ar yr arfordir ac yn creu mwy o angen am waith adfer a diogelu. Mae hyn yn cynyddu'r galw am agregau ar gyfer cynlluniau ailgyflenwi traethau gan fod y rhain yn opsiwn cost-effeithiol ar gyfer diogelu'r arfordir (gan fod modd caffael deunyddiau a'u gosod drwy un gweithrediad).

## Anghenion allweddol am dystiolaeth

400. Mae rhaglen Cronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau Morol wedi rhoi gwell dealltwriaeth o lawer i ni o bob math o bynciau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a threftadaeth. Mae rhai o'r allbynnau hyn wedi arwain yn syth at newidiadau yn y ffordd o asesu a rheoli'r diwydiant agregau morol, a bydd eraill yn arwain at fuddion tymor hwy. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd lle mae angen o hyd am well dealltwriaeth mewn perthynas â chynllunio morol, yn cynnwys:

:

- gwell dealltwriaeth o adnoddau a chronfeydd agregau, yn enwedig yn y môr mawr ac yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru;
- mawr ac yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru;
- gwell dealltwriaeth o brosesau ffisegol / gwaddodol yn Aber Hafren – yn uwch na'r parth dargyfeiredd gwaddod;
- monitro mwy cost-effeithiol o effaith cloddio agregau ar ecoleg gwely'r môr (gan ddefnyddio monitro rhanbarthol ar gyfansoddiad gwaddodion yn brocsi dros samplu ar waelod y môr).



DRAFT

## Llywodraethu

401. Mae'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gweithgareddau cloddio agregau wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru yn rhanbarth glannau'r cynllun. Mae gweithgareddau cloddio agregau yn cael eu rheoli o dan drwydded forol a roddir gan Wasanaeth Caniatáu CNC ar ran Gweinidogion Cymru. Dylid rhoi ystyriaeth neilltuol i weithgareddau yn yr ardaloedd trawsffiniol ym Mae Lerpwl a Môr Hafren er mwyn sicrhau cynllunio a phenderfynu cyson ac i gyfansymio anghenion sydd wedi'u nodi mewn cynlluniau perthnasol ar gyfer y tir. Lle mae ceisiadau am drwydded yn pontio'r ffin, bydd Gwasanaeth Caniatáu CNC ac MMO yn cydweithio a'r naill neu'r llall yn arwain. Lle bo'n ymarferol, bydd amodau trwydded yn debyg ond mae'n bosibl y bydd achosion lle mae polisïau datganoledig yn arwain at wahaniaethau.

402. Mae'r awdurdodau penderfynu a chynghori allweddol yn cynnwys: Llywodraeth Cymru, CNC (polisi a thrwyddedu), Ystad y Goron (fel rheolwr gwely'r môr), Cefas, Awdurdodau Lleol; ac mewn ardaloedd trawsffiniol / y môr mawr hefyd MMO, Defra, NE a'r JNCC (y tu hwnt i 12mf), yn unol â'r cyngor gan y diwydiant, gan gynnwys Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain (BMAPA).

403. Mae Ystad y Goron yn cynnal proses tendro i alluogi datblygwyr sydd â diddordeb i gynnig am hawliau i chwilio gwely'r môr am adnoddau agregau sy'n fasnachol hyfyw (yr "ardal chwilio"). Yn dilyn hynny, rhoddir "Cytundeb chwilio ac opsiwn" cyfyngol am hyd at 5 mlynedd, sy'n caniatáu amser i chwilio a rhoi prawf ar yr adnoddau, cadarnhau ardal cais a chyflwyno cais am drwydded forol. Ar ôl rhoi trwydded forol, bydd yr ardal a drwyddedwyd yn dod o dan gytundeb cynhyrchu gydag Ystad y Goron, a bydd gweddill yr ardal chwilio ac opsiwn yn cael ei ildio.

404. Bydd Canllaw Arferion Da Ystad y Goron / BMAPA "Extraction by Dredging of Aggregates from England's Seabed"[27] (diwygiwyd 2017) o gymorth i gyflawni polisi agregau morol

405. Mae CBHC yn awyddus i sicrhau bod yr arferion gorau yng nghyswllt asedau amgylcheddol hanesyddol yn cael eu mabwysiadu yn nyfroedd Cymru er mwyn sicrhau bod y swm mwyaf posibl o wybodaeth ddefnyddiol yn cael ei gasglu a'i ddarparu gan y cyfundrefnau monitro y cytunir i'w gweithredu er mwyn asesu'r effaith ar safleoedd archeolegol o fewn ardaloedd cloddio agregau ac yn eu cyffiniau drwy'r broses trwyddedu. Datblygwyd nifer o godau ymarfer a phrotocolau[28] ac mae'r rhain yn gymwys i weithgareddau carthu yn ogystal â gwaredu

[27] http://www.bmapa.org/documents/BMAPA_TCE_Good_Practice_Guidance_04.2017.pdf

[28] http://www.wessexarch.co.uk/projects/marine/bmapa/arch-interest.html;



DRAFT

## Amcan y sector

| | |
|---|---|
| Parhau i ddefnyddio adnoddau agregau morol ar y gyfradd ac yn y lleoliadau sydd orau i gwrdd â'n hanghenion yn awr ac yn y dyfodol drwy sicrhau darpariaeth ar gyfer cronfeydd digonol drwy drwyddedau tymor hir.. | |

## Polisi'r sector agregau a chanllawiau ar weithredu

## Canllawiau ar weithredu

406. Mae polisi'r sector agregau yn gymwys i ranbarth y glannau a'r rhanbarth môr mawr yn ardal y cynllun.

407. Diffiniadau:
Yn y cynllun hwn, defnyddir y termau canlynold:

- Adnodd[29]: Amcangyfrif o gyfaint yr agreg sydd ar gael mewn ardal ar sail gwybodaeth ddaearyddol benodol (gweler y Mapiau Ardaloedd Adnoddau)
- Cronfa: Cyfaint yr agreg a drwyddedwyd y caniateir ei gloddio o fewn cyfnod y drwydded.
- "tunelledd a ddygwyd ymlaen": Y tunelledd yn y dyraniad trwyddedig sydd heb ei gloddio mewn un cyfnod o 12 mis o dan y drwydded y gellir ei godi yn y cyfnod dilynol o 12 mis, ar yr amod bod y rheoleiddiwr a'r perchennog mwynau yn cymeradwyo hynny. Mewn unrhyw gais a wneir, dylid nodi, asesu a llwyr gyfiawnhau'r gofyniad am ddwyn rhan gyfyngedig o'r tunelledd ymlaen .

408. Cyhoeddwyd Polisi Dros Dro Llywodraeth Cymru ar Garthu Agregau Morol yn 2004 yn sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau am drwydded yn rhanbarth Môr Hafren gan nad oedd cyfundrefn drwyddedu statudol mewn grym bryd hynny. Mae'r Polisi Dros Dro wedi'i adolygu ochr yn ochr â datblygu'r cynllun hwn er mwyn adlewyrchu'r rheolaethau ychwanegol a gyflwynir o dan broses ymgeisio a thrwyddedu morol. Mae'r cynllun hwn yn darparu polisi cynllunio morol strategol ar gyfer rheoli adnoddau agregau yn nyfroedd Cymru; caiff y Polisi Dros Dro ei dynnu'n ôl ar adeg mabwysiadu'r cynllun hwn.

409. Mae'n hanfodol cael cyflenwad digonol a pharhaus o agregau i gwrdd â'r galw am adeiladu yn yr amgylchedd adeiledig ac, mewn llawer achos, mae agregau morol

DRAFT

https://www.scribd.com/document/2174360/Annex-to-the-Protocol-Guidance-on-the-use-of-the-Protocol-for-Reporting-Finds-of-Archaeological-Interest-in-Relation-to-Aircraft-Crash-Sites-at-Sea

[29] http://www.bmapa.org/documents/BMAPA_Glossary.pdf

yn adnodd priodol a hyfyw. Mae'r DPM yn cydnabod bod agregau morol yn cyfrannu at ddiogelu ffynonellau ynni ac at ddatblygu economaidd drwy ddarparu deunydd llenwi ar gyfer prosiectau seilwaith mawr ar yr arfordir. Er y dylid ymchwilio i ffynonellau eraill i gyflenwi agregau mân addas, ac er y bydd deunyddiau eildro yn cael eu defnyddio o hyd, parheir i ddibynnu ar y defnydd o agregau morol yng Nghymru ar gyfer prosiectau adeiladu ac (yn ôl y galw) ar gyfer prosiectau cyfalaf a maethu traethau hyd y gellir rhag-weld a thrwy gydol oes y cynllun hwn.

410. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol gefnogi gweithgareddau i gloddio agregau morol lle mae hyn yn gyson â'r polisïau eraill yn y cynllun hwn. Ar yr un pryd, dylid cydnabod bod agregau morol yn ddeunydd naturiol morol cyfyngedig ac, yn yr un modd ag adnoddau naturiol eraill, fod angen rheoli'r broses cloddio (a'r gyfradd defnyddio) yn gynaliadwy.

411. Bydd angen rhoi sylw i'r defnydd terfynol arfaethedig o agregau o ansawdd da a gloddiwyd ynghyd â'r posibilrwydd o ddefnyddio deunyddiau eraill yn eu lle er mwyn cwrdd â'r angen wrth benderfynu ar geisiadau am drwydded forol i garthu agregau.

412. Dylai penderfynwyr barhau i helpu'r diwydiant i fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau mewn mannau sydd oddi wrth leoliadau mwy sensitif ac ymhellach o'r glannau (lle bynnag y bo'n briodol) gan fod yn ymwybodol o'r angen ac o'r gofyn i sicrhau cyflenwad parhaus i gwrdd â'r galw. Dylai Llywodraeth Cymru, Ystad y Goron, diwydiant a CNC gydweithio i sicrhau bod digon o gronfeydd ar gael i'w trwyddedu ar gyfer carthu yn y dyfodol, er mwyn helpu i gwrdd â galwadau amrywiol mewn marchnadoedd cyfnewidiol a chyda digon o hyblygrwydd a gallu i gwrdd ag anghenion prosiectau cyfalaf a chynlluniau ailgyflenwi traethau sy'n fwy anodd eu rhag-weld. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod cronfeydd ar gael ar gyfer carthu trwyddedig at ddibenion adeiladu arferol ar gyfer o leiaf 10 i 15 mlynedd. Gellir cyflawni hyn ar sail ranbarthol.

413. Mewn ceisiadau am ardaloedd trwyddedu newydd neu am gloddio tunelledd mwy mewn ardaloedd a drwyddedwyd eisoes, bydd angen dangos yn glir yr angen am gloddio'r adnoddau ychwanegol o dan y drwydded.

414. Mae agregau'n nwyddau swmpus lle mae costau cludo, hyfywedd prosiectau ac allyriadau carbon cysylltiedig yn sbarduno'r angen i gasglu agregau'n agos i'r man y maent yn cael eu defnyddio. Er bod adnoddau agregau ar gael yn y môr mawr ac y dylid eu defnyddio lle bynnag y bo modd, parheir i ddefnyddio ffynonellau sy'n gymharol agos i fan y galw lle mae hynny'n briodol. Dylid dal y ddysgl yn wastad rhwng cefnogi'r defnydd o adnoddau agregau ymhellach o'r glannau a chyfyngiadau ymarferol sy'n gysylltiedig â chloddio a chludo. Rhagwelir y bydd y defnydd o adnoddau agregau a gloddir yn y môr mawr yn bwysig iawn ar gyfer cyflenwi agregau i brosesau seilwaith mawr. Rhoddir ffafriaeth i gloddio agregau sydd ymhellach o'r glannau.



DRAFT

415. Cymerir camau i osgoi defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar gyfradd amhriodol drwy osod capiau mewn polisi ar y tunelleddau a ganiateir, lle bo'n briodol, gan sicrhau cyflenwad hirdymor o'r adnodd agregau drwy hynny heb danseilio cydnerthedd ecosystemau. Gall unrhyw derfyn o'r fath fod yn ddarostyngedig i ddarpariaeth sydd wedi'i hasesu a'i chyfiawnhau ar gyfer dwyn ymlaen tunelledd bach a gellir adolygu'r terfyn o bryd i'w gilydd a gellir ei osod a'i ddiweddaru drwy ddatganiad ysgrifenedig y Cabinet rhwng adolygiadau o'r cynllun hwn.

416. Adolygir polisi ar agregau morol yn rhan o'r cylch adolygu cynllunio morol. Os bydd tystiolaeth yn dangos bod angen addasu'r dull rheoli cyfredol, yna bydd polisi'n cael ei ddiweddaru. Lle bo hynny'n berthnasol, dylai trwyddedau morol gynnwys gofynion am fonitro i sicrhau bod dealltwriaeth briodol o effeithiau perthnasol ar ecosystemau sydd wedi'u rhagfynegi mewn cynnig a bod hyn yn cael ei ystyried gan reolwyr wrth wneud penderfyniadau, gan sicrhau bod y dull o reoli'n addasol, yn rhagofalus ac wedi'i seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a thystiolaeth wyddonol gadarn.

417. Drwy wneud hyn, gellir awdurdodi trwyddedau tymor hwy ar raddfa briodol wrth i ni wella ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng y defnydd o adnoddau a chydnerthedd ecosystemau.

418. Fel arfer, rhoddir trwyddedau am gyfnod o 15 mlynedd a bydd canlyniadau o fonitro'n cael eu hadolygu bob pum mlynedd. Fodd bynnag, bydd trwyddedau a geisir mewn ardaloedd newydd neu mewn ardaloedd sensitif, a bennwyd drwy'r asesiad o effeithiau yn y broses ymgeisio, yn cael eu rhoi am gyfnod o bum mlynedd fel arfer. Dylid defnyddio dull rhagofalus sy'n galw am ddigon o wybodaeth a thystiolaeth i hwyluso a chyfrannu at benderfyniadau ar gynigion, gan gynnwys ystyriaeth i unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dwyn tunelleddau ymlaen.

419. Os bydd anghenion am agregau morol ar raddfa fawr ar gyfer prosiectau mawr ar gyfer adeiladu seilwaith neu faethu traethau na ellir eu diwallu o'r adnoddau trwyddedig sydd ar gael, bydd angen cael yr adnoddau agregau angenrheidiol drwy wneud cais am drwydded forol ar ffurf cais newydd neu gais am gynyddu'r cyflenwad o dan geisiadau sydd eisoes wedi'u derbyn.

420. O dan yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r Astudiaeth o'r Effaith Arfordirol, bydd angen rhoi ystyriaeth mewn cynigion ar gyfer carthu agregau i'r newid yn yr hinsawdd a rhagfynegiadau gan lywodraeth o gynnydd yn lefel y môr a hinsawdd tonnau er mwyn dangos na fyddant yn cynyddu'r perygl o lifogydd neu'n cael effaith annerbyniol ar draethau a'r gallu i ddiogelu'r arfordir.

421. Dylai diwydiant, cyrff cynghorol a rheoleiddwyr ystyried datblygu canllawiau neu god ymarfer penodol i Gymru i hwyluso ceisiadau cynaliadwy a phenderfyniadau.

422. **Mae'r [Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau] yn gymwys.**

423. Dylid ystyried y polisïau ar sectorau yn y cynllun hwn ochr yn ochr â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol sydd yn y cynllun hwn, nodau llesiant Cymru ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn bwysig bod y broses ymgeisio am awdurdodiad yn cymhwyso'r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy'n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau eraill lle maent wedi'u pennu). Dylid darparu tystiolaeth sy'n ymwneud â pholisïau perthnasol i hwyluso penderfyniadau. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn gosod canllawiau ar gyfer cynigion a phenderfyniadau (ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill); nid ydynt yn dileu'r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol. Oherwydd hynny, ni ddylid rhagdybio y bydd cais o fewn Ardal Adnoddau Strategol y sector dan sylw yn llwyddiannus. Yn yr un modd, ni fydd rhagdybiaeth yn erbyn gweithgareddau gan y sector y tu allan i Ardaloedd Adnoddau Strategol a bennwyd.

## Polisi cefnogi

**AGG_01: Agregau (cefnogi)**
Anogir cyflwyno cynigion ar gyfer codi agregau mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol o fewn unrhyw gyfyngiadau ar dunelledd a ganiateir sydd wedi'u diffinio ar gyfer yr ardal honno.
Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio i ddeall cyfleoedd i wneud defnydd cynaliadwy o:

- Ardaloedd Adnoddau Strategol agregau;
- adnoddau naturiol agregau morol ehangach;

er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector agregau drwy gynllunio morol.

## Canllawiau ar weithredu polisi cefnogi

424. Mae'r polisi hwn yn ceisio cynnal ffynhonnell ddigonol a pharhaus o adnoddau addas yn gymharol agos i'r man defnyddio.

425. Mae Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer agregau wedi'u datblygu yn dilyn adolygiad o'r Polisi Dros Dro ar Garthu Agregau Morol. Wrth ystyried lleoliadau adnoddau a thrwyddedau agregau presennol, rhoddir blaenoriaeth (ar ôl ystyried cyfyngiadau mewn modd boddhaol) i leoli ardaloedd trwyddedig newydd mewn ardaloedd yn y môr mawr os yw'n bosibl. Mae'r Ardal Adnoddau Strategol hefyd yn adlewyrchu hyfywedd economaidd, agosrwydd i gyfleusterau porthladd addas a natur y defnydd o agregau, ee mae'r defnydd o longau yn hytrach na chludiant ffyrdd yn lleihau'r ôl troed carbon yn sylweddol. Mae ffiniau'r Ardal Adnoddau Strategol ym Môr Hafren yn adlewyrchu ffiniau'r celloedd gwaddodion a

DRAFT

sensitifrwydd amgylcheddol ynghyd â ffiniau parth Cymru. Mae'r Ardal Adnoddau Strategol yng Ngogledd Cymru yn adlewyrchu agosrwydd yr ardal sydd wedi'i thrwyddedu eisoes i ffermydd gwynt ar ffin parth Cymru.

426. Mae **AGG_01** yn caniatáu diffinio terfynau ar dunelleddau a ganiateir ar gyfer ardal benodol. Ar ôl bodloni meini prawf cynaliadwyedd, a chynnal yr asesiadau sydd eu hangen drwy'r prosesau penderfynu, caniateir cloddio dim mwy na 800,000 tunnell (heb gynnwys tunelleddau a ddygwyd ymlaen o dan y drwydded) o agregau y flwyddyn o dan drwydded o ddyfroedd Cymru yn Aber Hafren (map sector wedi'i fewnosod o Ardal B). Er mwyn sicrhau dull ymaddasol o reoli'r adnodd ac o sicrhau datblygu cynaliadwy, gellir adolygu'r terfyn hwn o bryd i'w gilydd a gellir ei ddiweddaru drwy ddatganiad ysgrifenedig y Cabinet. Gellir cyflwyno a/neu ddiwygio terfynau eraill drwy ddatganiad ysgrifenedig Gweinidogol a'u cynnwys wedyn mewn unrhyw ddiwygiad i'r cynllun hwn. Ym mhob achos, wrth bennu neu ddiwygio capiau ar dunelleddau a ganiateir, dylid ymgysylltu ac ymgynghori'n llawn â phartïon cysylltiedig cyn gwneud unrhyw ddatganiad. Bydd unrhyw Ddatganiad y Cabinet a wneir yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau.

427. Wrth ystyried cynnig a mantoli unrhyw effeithiau niweidiol dichonol yn erbyn y buddion o'r cynnig hwnnw, dylai penderfynwyr ystyried:

- datganiadau Gweinidogol sy'n ymwneud â chapiau ar dunelleddau;
- ai arwynebedd y cais yw'r lleiaf sydd ei angen i sicrhau'r tunelledd arfaethedig er mwyn sicrhau bod yr arwynebedd cysylltiedig o wely'r môr yr effeithir arno mor fach â phosibl;
- y graddau y mae'n briodol dwyn tunelledd ymlaen o'r flwyddyn galendr flaenorol;
- cynnwys y Polisi Dros Dro ar Garthu Agregau Morol (2004) a dynnwyd yn ôl a'r dystiolaeth a ystyriwyd ar ei gyfer fel sylfaen dystiolaeth gyd-destunol i bolisi'r cynllun hwn.

428. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol fantoli'r buddion o gyflenwi agregau o fannau sy'n agos i'r lan yng nghyswllt llai o symudiadau trafnidiaeth ac ystyriaethau ymarferol sy'n cyfyngu'r sector, yn erbyn y costau a chyfyngiadau amgylcheddol dichonol ehangach o weithgarwch yn agos i'r.

429. Rhagwelir y bydd y defnydd o adnoddau agregau yn y môr mawr yn bwysig wrth gyflenwi agregau ar gyfer prosiectau seilwaith mawr. Mae trwyddedau cloddio mwy sy'n para am gyfnod hirach yn fwyaf tebygol o fod yn briodol yn y môr mawr ac, yn ôl y lleoliad a sensitifrwydd amgylcheddol, gall y gofynion monitro ac adrodd ar eu cyfer fod yn llai beichus.

430. Mae llongau'n chwarae rhan hanfodol mewn cludo agregau i borthladdoedd a harbyrau lle cânt eu glanio a'u storio i'w cludo ymlaen ar dir i'r man ar gyfer y defnydd terfynol ohonynt. Mae angen diogelu glanfeydd fel y gellir parhau i gyrraedd marchnadoedd lleol a dylai awdurdodau cynllunio arfordirol a



DRAFT

phorthladdoedd roi sylw i anghenion y diwydiant agregau a sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer cyfleusterau glanfeydd priodol a seilwaith cysylltiedig mor agos â phosibl i ardaloedd lle mae galw am agregau.

431. Anogir datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i ymdrin â bylchau allweddol mewn tystiolaeth a chael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd i sicrhau twf cynaliadwy yn y sector gan gynnwys mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.

432. Wrth **baratoi cynigion sy'n gysylltiedig ag agregau, dylai datblygwyr gymhwyso'r polisïau diogelu perthnasol ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn**.

## Polisïau diogelu

433. Ym mhob cynnig (yn cynnwys cynigion newydd gan y sector agregau) a all effeithio ar weithgareddau agregau presennol neu arfaethedig neu rai dichonol yn y dyfodol mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol, dylid cymhwyso'r polisïau canlynol ar gyfer diogelu agregau.

**AGG_02: Agregau (diogelu)**
Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am drwydded forol a chytundeb cynhyrchu ar gyfer codi agregau oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch agregau sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

**AGG_03: Agregau (diogelu)**
Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle mae cytundeb chwilio neu opsiwn wedi'i gynnig neu wedi'i wneud ar gyfer codi agregau oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch agregau sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw

DRAFT

**AGG_04: Agregau (diogelu)**
Dylai cynigion a all effeithio ar Ardaloedd Adnoddau Strategol ddangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a) yn osgoi effeithiau niweidiol ar weithgareddau dichonol i godi agregau yn yr ardaloedd hynny; a/neu
b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau; a

dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw lle nad yw (a-c) yn bosibl.

## Canllawiau ar weithredu polisi diogelu

434. Mae'r polisïau diogelu hyn yn helpu i reoli'r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol neu arfaethedig neu rai dichonol yn y dyfodol gan y sector agregau.

435. Dim ond lle mae dyddodion masnachol hyfyw o dywod a graean y gellir cloddio agregau morol hy mewn ardaloedd gofodol ar wahân a ffurfiwyd amser maith yn ôl gan brosesau daearegol. Felly mae'n bwysig bod yr adnoddau hyn yn cael eu diogelu'n briodol rhag gweithgareddau eraill yn y môr a all beryglu'r defnydd ohonynt yn y dyfodol. Pwrpas y polisïau diogelu yw sicrhau bod ystyriaeth briodol

yn cael ei rhoi i raddau'r effeithiau ar gloddio agregau yn awr ac yn y dyfodol (hy i atal sterileiddio neu halogi adnoddau).

436. Mae Ardal Adnoddau eang wedi'i phennu sy'n dangos lle mae adnoddau agregau yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol, fel y gwelir yn y map sector (Ffigur 14) . Nid yw polisi diogelu uniongyrchol wedi'i bennu ar gyfer yr ardaloedd hyn gan nad ydynt yn debygol o gael eu datblygu yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Fodd bynnag, yn y tymor hwy (ee ymhen 50 mlynedd), mae'n bosibl y bydd rhai ardaloedd yn cael eu datblygu neu eu defnyddio os bydd prosiect cyfalaf mawr neu brosiect ailgyflenwi traeth yn digwydd yn y lleoliad hwnnw neu mewn cyfleusterau glanio gerllaw. Er mwyn lleihau'r perygl o sterileiddio'r adnodd hwn yn barhaol heb ddisgwyl hynny, lle cynigir awdurdodi datblygiad mewn Ardal Adnoddau, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus perthnasol hysbysu CNC, Llywodraeth Cymru ac Ystad y Goron (a fydd, fel perchennog tir, yn gallu cydgysylltu â'r diwydiant agregau) i'w galluogi i gynnal deialog â'r datblygwr sy'n cydnabod eu priod anghenion; gyda'r bwriad o osgoi sterileiddio adnoddau agregau'n barhaol lle bo hynny ymarferol ac yn economaidd briodol.

437. Yn rhan o'n dull rhagweithiol o hwyluso'r broses cynllunio, anogir datblygwyr i ymgysylltu â'i gilydd yn gynnar. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddangos sut y rhoddwyd sylw i effeithiau dichonol yn y dyfodol. Er enghraifft, byddai gweithredwr ceblau yn gallu egluro ei fod yn gosod cebl arall yn agos i'r un gwreiddiol er mwyn osgoi sterileiddio yn y dyfodol, neu byddai gweithredwr fferm wynt neu weithredwr olew a nwy yn gallu datgomisiynu ardal fel ei bod ar gael ar gyfer cloddio agregau yn y dyfodol.

438. Mae polisïau **AGG_02 a 03** yn gymwys i ardaloedd cynhyrchu ac ardaloedd ar gyfer ceisiadau ac maent yn adlewyrchu'r buddsoddiad a'r hyder/ymrwymiad cysylltiedig sydd eu hangen ar weithredwr er mwyn buddsoddi rhagor yn ei ased. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gytundeb rhwng Ystad y Goron a chwmnïau carthu sy'n rhoi hwyliau unigryw i gloddio tywod a/neu raean am gyfnod diffiniedig.

439. Yn **AGG_02**, mae "gwnaed cais" yn y cyd-destun hwn yn golygu bod cais am opsiwn cyfyngol wedi'i dderbyn yn amodol gan Ystad y Goron neu'r perchennog tir cyn hysbysebu trwydded forol a gwneud cais ffurfiol amdani. Er mwyn cael trwydded cynhyrchu agregau gan Ystad y Goron, bydd cwmnïau sydd wedi llwyddo yn y broses tendro yn gorfod cael trwydded forol oddi wrth Wasanaeth Caniatáu CNC (a hynny'n cynnwys gwneud Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol). Ar ôl rhoi trwydded forol, bydd Ystad y Goron yn rhoi Cytundeb Cynhyrchu i'r ymgeisydd.

440. O dan bolisi **AGG_02**, mewn cynigion sy'n gorgyffwrdd ag ardaloedd lle rhoddwyd caniatâd neu les bydd angen dangos eu bod yn gallu cydfodoli'n llwyddiannus â'r sector agregau oni bai fod achos wedi'i gyflwyno i fwrw ymlaen o dan amgylchiadau eithriadol. Mae natur ystyriaethau o'r fath wedi'i hegluro yn yr adran [**Cyflwyniad i'r penodau ar sectorau**].

441. Gall amgylchiadau eithriadol gynnwys amgylchiadau lle mae'r budd economaidd neu gymdeithasol sydd i'w gael o'r gweithgarwch arfaethedig yn fwy o lawer na'r



DRAFT

hyn a gollir. Mewn cynigion sy'n gofyn am gymeradwyaeth ar sail amgylchiadau eithriadol, dylid cyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol wedi'i seilio ar dystiolaeth o blaid bwrw ymlaen, hy graddau'r effaith niweidiol bosibl ar yr ardal honno os derbynnir y cais, y posibilrwydd o sterileiddio adnoddau a'u pwysigrwydd o ran cwrdd ag amcanion y sector agregau a blaenoriaethau'r cynllun.

442. Mewn cynigion sy'n gwneud cais am ymgymryd â gweithgareddau yn yr ardaloedd hyn, dylid dangos eu bod yn cydweddu â gweithgareddau presennol. Gall hyn olygu darparu tystiolaeth nad yw'r ardal yr effeithir arni'n cynnwys agregau, neu wneud addasiadau amserol neu ofodol i osgoi neu leihau'r effaith. Er enghraifft, gellid caniatáu gweithgareddau pysgota a morgludo mewn ardaloedd cloddio agregau ond mae'n bosibl y byddai angen dadleoli'r gweithgareddau hyn dros dro yn ystod cyfnodau pan yw agregau'n cael eu cloddio. Hwylusir hyn drwy wneud trefniadau priodol ar gyfer cydgysylltu rhwng y diwydiannau. Gellid caniatáu datblygu adeiladweithiau sefydlog ar ôl cwblhau'r gwaith o gloddio agregau yn yr ardal, neu gellid caniatáu cloddio agregau ar ôl datgomisiynu prosiect arall.

443. Mae **AGG_03** yn adlewyrchu'r broses ar gyfer pennu ardaloedd ar gyfer chwilio am agregau ac ardaloedd a gynigir gan Ystad y Goron ar gyfer archwilio gwely'r môr a mireinio'r ardal ymhellach am hyfywedd masnachol. Yn y cyd-destun hwn, mae "wedi'i gynnig neu wedi'i wneud" yn golygu bod cais am les i archwilio'r ardal ymhellach wedi'i wneud neu ei dderbyn yn amodol gan Ystad y Goron neu'r perchennog tir.

444. Mae **AGG_04** yn pennu Ardaloedd Adnoddau Strategol a all fod yn bwysig yn y dyfodol ar gyfer cloddio agregau. Mae'r ardaloedd hyn yn adlewyrchu'r adnoddau agregau sy'n debygol o fod ar gael ac maent yn agos i seilwaith ategol lle ceir ardaloedd trwyddedig ac ardaloedd chwilio / opsiwn yn barod.

445. Mewn cynigion ar gyfer caniatâd i weithgareddau newydd mewn ardaloedd chwilio / opsiwn agregau neu Ardaloedd Adnoddau Strategol agregau neu mewn ardaloedd sy'n effeithio ar yr ardaloedd hynny, bydd angen dangos eu bod yn gallu cydfodoli â gweithgareddau codi agregau neu, os na allant, rhaid iddynt roi cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen (lle nad yw (a-c) yn bosibl).


446. Wrth ystyried cynnig i fwrw ymlaen a mantoli unrhyw effeithiau niweidiol dichonol yn erbyn y buddion mewn cynnig o'r fath, dylai penderfynwyr ystyried:

- y graddau y mae achos wedi'i wneud dros ystyried amgylchiadau eithriadol;
- pwysigrwydd strategol y cynnig (ee ei fod yn gyson â pholisïau'r cynllun hwn ac yn cefnogi amcanion y cynllun);
- y graddau y byddai'r cynnig, os caiff ei dderbyn, yn helpu'r sector hwnnw i gwrdd â'i amcanion ei hun;
- y graddau y byddai effaith niweidiol ar amcanion a pholisi'r sector agregau;
- Yr effaith net ar yr amgylchedd ac ar ddefnyddwyr eraill.



DRAFT

## Ffigur 14: Map polisi – Agregau



## Dyframaethu

### Cyflwyniad

447. Dyframaethu yw magu neu dyfu organeddau dyfrol (pysgod asgellog, pysgod cregyn ac algâu, yn cynnwys porthiant i'w cynnal). Mae'n cynnwys cynhyrchu anifeiliaid at ddibenion masnachol uniongyrchol (ee bwyd môr i'w fwyta gan bobl neu anifeiliaid, cynhyrchion fferyllol, neu algâu ar gyfer gwrtaith neu gynhyrchu ynni) neu ar gyfer ailstocio a gwella poblogaethau gwyllt. Mae moramaethu yn gangen arbenigol o ddyframaethu sy'n ymwneud â magu organeddau morol yn y môr agored, mewn rhan o'r môr sydd wedi'i hamgáu, neu mewn tanciau, pyllau neu redfeydd sy'n llawn o ddŵr môr. Mae dau fath sylfaenol o fusnes dyframaethu ar y môr: (1) gwely'r môr – lle cynhyrchir ar wely'r môr, un ai drwy ddulliau "llai dwys" (ee magu cregyn gleision heb derfyn penodedig) neu ddulliau "dwys" ar adeiladweithiau gosod (ee mewn bagiau ar drestlau); a (2) colofn ddŵr (ar y wyneb) – gyda rafftiau arnofiol neu raffau ar fwiau wedi'u clymu wrth wely'r môr.

448. Rhai o'r gweithgareddau sy'n cynnal dyframaethu yw prosesu, dosbarthu a gwerthu pysgod a physgod cregyn i'w bwyta, gweithgynhyrchu porthiant parod a gwaith arbenigol ar gyfer adeiladu ffermydd pysgod a gosod offer ynddynt. Fel arfer, bydd angen seilwaith ychwanegol ar dir i gynnal dyframaethu morol, ee cyfleusterau puro a phrosesu, storfeydd, a chludiant. Mae Systemau Dyframaethu Ailgylchredeg ar y tir yn gallu cyfrannu at dyfu'r sector, gan fod llai o gyfyngiadau ar eu lleoli. Mae systemau pwmpio i'r lan yn llai hyblyg ac mae angen lleoliadau o fath penodol ar yr arfordir ar eu cyfer.

449. Yn draddodiadol, mae dyframaethu masnachol yng Nghymru wedi canolbwyntio ar fagu pysgod cregyn, sef cregyn gleision yn bennaf, o dan reolaeth. Oherwydd maint y cregyn gleision a gynhyrchir drwy feithrin ar wely'r môr yn ardaloedd Gorchymyn Pysgodfa Unigol Afon Menai, Cymru sy'n cynhyrchu'r mwyaf o bysgod cregyn yn y DU: amcangyfrifwyd bod 8,376t wedi'u cynhyrchu yn 2011 (2011 -2014 – cyfartaledd o 7840t) a'u gwerth yn £5,740,050. Cynhyrchir meintiau bach o Wystrys y Môr Tawel hefyd. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cregyn gleision wedi'u cynhyrchu drwy eu tyfu ar raffau yn Noc y Frenhines, Abertawe a sefydlwyd prosiect ym Mae Abertawe i hyrwyddo a rheoli Wystrys Brodorol gyda'r bwriad o ailsefydlu pysgodfa. Mae maint y pysgod asgellog a gynhyrchir drwy ffermio yng Nghymru yn fach ar hyn o bryd ac mae hyn yn digwydd mewn cyfleusterau ar y tir yn unig. Yn y gorffennol, roedd ffermydd yn magu pysgod asgellog (sewin) mewn cewyll yn Aberdaugleddau.

450. Mae dyframaethu wedi'i bennu'n sector ar gyfer twf, o dan y cynllun hwn ac yn rhan o strategaethau Twf Glas ledled Ewrop. Gall dyframaethu helpu i gynnal twf economaidd cynaliadwy mewn cymunedau gwledig ac arfordirol yn ogystal â chyfrannu at ddiogelu'r cyflenwad bwyd. Bydd ein dull cadarnhaol o gynllunio ar gyfer dyframaethu yn helpu'r sector i wynebu heriau i dwf drwy egluro cyfleoedd yn y dyfodol, hwyluso cydweithio ac ymgysylltu a chefnogi a diogelu ardaloedd lle ceir cyfleoedd yn y dyfodol. Bydd cynllun cenedlaethol amlflwydd y DU ar gyfer dyframaethu hefyd yn cefnogi cyfleoedd am dwf yn y diwydiant.



DRAFT

### Cyfraniad dyframaethu i'r economi

Amcangyfrifwyd bod naw busnes mewn 13 o safleoedd yn ymgymryd â gweithgareddau dyframaethu yn Ardal Forol Cymru, gan gyflogi tua 23 o weithwyr Cyfwerth ag Amser Llawn yn uniongyrchol (Cefas 2012). Yr amcangyfrif o gyfanswm y Gwerth Ychwanegol Gros yn 2013-14 oedd £3,702,328 a rhagwelir y bydd yn £5,237,021 erbyn 2032-3[30].

## Y rhyngweithio presennol a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol â sectorau eraill

451. Mae angen amrywiaeth o gyfleusterau ar y lan ac yn y môr ar gyfer gweithgareddau dyframaethu, yn ôl eu math, ac felly byddant yn rhyngweithio â gwahanol fathau o ddefnyddwyr eraill y môr mewn gwahanol ffyrdd. Bydd y graddau y mae gweithgareddau dyframaethu a gweithgareddau defnyddwyr eraill yn effeithio ar ei gilydd yn dibynnu, er enghraifft, ar ôl troed pob gweithgarwch, y rhywogaeth sy'n cael ei ffermio ac a yw'r gweithgarwch ar wyneb y dŵr neu ar wely'r môr.

452. O ran effeithiau'r sector ar weithgareddau eraill, bydd rhai gweithrediadau dyframaethu yn y môr yn gallu effeithio ar bysgota masnachol. Yn benodol, mae dyframaethu ar wyneb y dŵr yn gallu amharu ar y gallu i fordwyo'n ddiogel, felly ni ellir ei gymeradwyo ar lwybrau mordwyo allweddol neu mewn lleoliadau dan gyfyngiadau. Fodd bynnag, fe ellir mordwyo'n ddiogel mewn ardaloedd lle mae pysgod yn cael eu magu ar waelod y môr ac, fel arfer, gellir dygymod ag unrhyw wrthdaro sy'n codi, ee o weithrediadau cynaeafu mewn llongau.

453. Gellir cael gwrthdaro â gweithgareddau twristiaeth a hamdden, yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau ar wyneb y dŵr ac yn y rhynglanw, gan gynnwys newidiadau lleol yn ansawdd dŵr, ymyrryd â mordwyo a mynediad ac effeithiau ar forweddau. Gwelir bod gweithgareddau dyframaethu yn digwydd gan amlaf mewn ardaloedd llai hygyrch sydd felly'n cael eu defnyddio'n llai aml ar gyfer hamdden a gallant gyfrannu at naws unigryw'r lle a chymeriad yr ardal. Mae dyframaethu'n cael effaith gadarnhaol drwy hybu gwelliant mewn ansawdd dŵr oherwydd yr angen am ddŵr glân ac mae hyn o fantais i ddyframaethu ac i weithgareddau eraill. Gall dyframaethu hybu twristiaeth leol drwy ddarparu bwyd môr o ansawdd da a gyrchwyd yn lleol.

454. Yn unol â'r dull o gynllunio cadarnhaol ar gyfer twf glas, dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer cydfodoli er mwyn datblygu dyframaethu yn y dyfodol. Gellir cael nifer o gyfleoedd yn enwedig mewn perthynas â datblygu dyframaethu ar y cyd â seilwaith ynni adnewyddadwy yn y môr (ee môr-lynnoedd llanw neu ynni gwynt ar

[30] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidence/wales-marine-evidence-report/?lang=cy

DRAFT

y môr). Ar y cyfan, fodd bynnag, mae ardaloedd lle gellir datblygu ynni ffrwd lanw ac ynni tonnau yn amgylchedd sy'n ffisegol anaddas ar gyfer dyframaethu.

455. Yn gyffredinol, nid yw gweithgareddau dyframaethu, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud ag adeiladweithiau ar y wyneb, yn cydweddu ag ardaloedd lle ceir gweithgareddau gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, oherwydd cyfyngiadau ar fynediad yn bennaf. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau ar raddfa fawr yn y sector olew a nwy yn digwydd yn y môr mawr felly nid ydynt yn debygol o ryngweithio â datblygiadau dyframaethu.

456. Mae'r effaith o sectorau eraill ar ddyframaethu yn gymharol gyfyngedig gan fod gweithrediadau dyframaethu fel arfer yn digwydd mewn ardaloedd cymharol fach, yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i'w hadleoli, ac yn aml gallant gydfodoli â sectorau eraill drwy gynllunio priodol.

457. Gellir cael effeithiau niweidiol oddi wrth sectorau eraill. Mae ansawdd dŵr da yn bwysig iawn ar gyfer gweithgareddau dyframaethu llwyddiannus. Ymysg yr effeithiau a all godi y mae aflonyddu o ganlyniad i gloddio agregau, carthu ar gyfer mordwyo, gollyngiadau i'r môr a gwaredu gwastraff yn y môr a chyflwyno rhywogaethau estron. Mae gweithgareddau o'r fath yn gallu amharu ar weithrediadau dyframaethu a dylid eu cynnwys mewn unrhyw ystyriaethau ynghylch gweithgareddau newydd.

### Rhyngweithio ag ecosystemau

458. Mae'r angen i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd yn ystyriaeth bwysig yng nghyd-destun y targedau ar gyfer twf yn y sector dyframaethu yng Nghymru. Yr her i'r diwydiant fydd ceisio tyfu a mwyhau gwerth ei weithgareddau gan leihau effeithiau ar ecosystemau. Mae dyframaethu yn sector amrywiol iawn, felly mae'r effeithiau dichonol ar yr amgylchedd yn amrywiol. Bydd dwysedd a math yr effeithiau'n dibynnu ar y rhywogaethau sy'n cael eu ffermio, dwysedd y cynhyrchu, dulliau cynaeafu a lleoliad.

459. Mae magu pysgod asgellog yn ddiwydiant dwys fel arfer sy'n galw am gyflenwad bwyd ychwanegol ac, felly, am fewnbynnu maethynnau a derbynnir bod hyn yn gallu arwain at ddiraddio amgylcheddol. Mewn cyferbyniad â hyn, mae ffermio pysgod cregyn fel arfer yn arwain at leihau maint net y maethynnau, a chredir yn gyffredinol ei fod yn cael llai o effaith ar gydnerthedd ecosystemau. Fodd bynnag, mae pob math o weithgareddau dyframaethu yn gallu newid gwely'r môr, achosi gorchuddio ffisegol a chronni deunydd organig. Mae lleihau maint net y maethynnau yn y golofn ddŵr yn gallu cael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gydnerthedd ecosystemau. Fe geir gweithrediadau helaeth ar safleoedd gwarchodedig yng Nghymru ac mae hyn yn dangos bod y sector yn gallu cydweddu â'r amgylchedd.

460. Ymysg yr effeithiau niweidiol dichonol eraill ar gydnerthedd ecosystemau o ganlyniad i ffermio pysgod cregyn y mae lleihau stociau brodorol o ganlyniad i gasglu silod gwyllt a chyflwyno rhywogaethau estron. Mae casglu silod gwyllt (a drosglwyddir ar gyfer tyfu a chynaeafu) yn broblem neilltuol o ran cynaliadwyedd



DRAFT

yng nghyswllt magu cregyn gleision er bod silod o'r fath yn cael eu colli'n aml yn ystod stormydd y gaeaf os na chânt eu casglu; byddai casglu anghynaliadwy yn gallu cael effeithiau ecolegol negyddol. Gellir ymdrin ag effeithiau drwy reoli a monitro o dan reoliadau. Yn ôl graddfa, dwysedd a chyfnod gweithredu'r busnes dan sylw, bydd dileu'r rhan fwyaf o fathau o ddatblygiad dyframaethu yn gallu peri i'r ecosystem fynd yn ôl i'w gyflwr naturiol dros amser.

461. Mae angen dŵr glân ac iach ar gyfer busnesau dyframaethu. Mae eu presenoldeb yn sbarduno camau i gynnal, gwella a monitro ansawdd dŵr gan gryfhau ecosystemau o ganlyniad. Gall dyframaethu gynnig cyfleoedd hefyd i adfer ecosystemau a hybu cydnerthedd ecosystemau, er enghraifft, drwy fagu wystrys brodorol (un o rywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU). Mae cregyn gleision yn gallu darparu cynefin ar gyfer rhywogaethau eraill yn ogystal â darparu bwyd i fywyd gwyllt. Felly gall dyframaethu gyfrannu'n gadarnhaol at gydnerthu ecosystemau.

## Y dyfodol

462. Mae cyfyngiadau ar bysgodfeydd gwyllt, newidiadau amgylcheddol, a'r cyfle i ddefnyddio dyframaethu i helpu i adfer rhywogaethau a chynefinoedd i gyfnerthu ecosystemau yn tanlinellu'r angen i gynyddu cynnyrch dyframaethu yn gynaliadwy. Gan fod y marchnadoedd rhyngwladol ar gyfer bwyd môr ar gynnydd, mae'r sector dyframaethu yng Nghymru mewn lle da i dyfu. Mae potensial ar gyfer twf yn y dyfodol mewn rhywogaethau sy'n cael eu magu eisoes drwy gynyddu'r gallu i gynhyrchu ac opsiynau ar gyfer prosesu sy'n ychwanegu gwerth. Mae wystrys, cregyn bylchog, cregyn cylchog a chlustiau môr yn rhywogaethau y gellid eu magu yn y dyfodol. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod gofod sylweddol yn y môr ar gyfer datblygu'r diwydiant dyframaethu pysgod cregyn yn enwedig, er bod yr ardaloedd sydd ar gael ger y glannau'n fwy cyfyngedig nag ardaloedd yn y môr mawr.

463. Mae rhai cyfleoedd i ddatblygu safleoedd ar gyfer cewyll yn y môr ar raddfa fawr. Yn yr un modd, mae potensial ar gyfer tyfu digon o algâu yn y môr mawr i sicrhau'r arbedion maint sydd eu hangen i gyflenwi biomas ar gyfer cynhyrchu ynni. Ceir cyfleoedd hefyd ar raddfa lai i dyfu algâu yn agosach i'r lan i gyflenwi'r diwydiant fferyllol, er enghraifft, neu ddiwydiannau sy'n gysylltiedig â bwyd. Mae cyflenwi cynhyrchion pwrpasol i'r diwydiant fferyllol yn faes sy'n tyfu nad yw ei raddfa na'i botensial yn hysbys ar hyn o bryd a dylid ymchwilio i hynny.

464. Mae cysylltiad agos rhwng tueddiadau yn y diwydiant a newidiadau mewn pysgodfeydd gwyllt, y buddsoddi sydd ar gael, y safleoedd sydd ar gael a gallu'r amgylchedd i'w gynnal. Byddai datblygu cyfleusterau i gynhyrchu pysgod asgellog ac algâu yn y môr mawr yn y dyfodol yn gallu arwain at gynhyrchu ar raddfa fawr yn y môr mawr yn y tymor hwy.

## Y newid yn yr hinsawdd

465. Gall newid hinsawdd effeithio ar ddyframaethu pysgod asgellog a physgod cregyn a gallai arwain at gyfleoedd ac effeithiau niweidiol yn y sector, ee:



DRAFT

- byddai cynnydd yn nhymheredd dŵr y môr yn gallu peri bod rhai ardaloedd yn fwy addas ar gyfer magu pysgod cregyn a physgod asgellog. I'r gwrthwyneb, gellid cael effaith niweidiol ar rywogaethau dŵr oer (fel pysgod o deulu'r eog);
- mae cynnydd mewn tymheredd hefyd yn gallu arwain at amrywiaeth o effeithiau ecolegol a ffisiolegol gan gynnwys mwy o glefydau pysgod, mwy o alw am ocsigen, gordyfiant niweidiol o algâu, a mwy o berygl o effeithiau o blâu a rhywogaethau estron goresgynnol;
- byddai asideiddio cefnforoedd yn gallu amharu ar ffurfio cregyn a chynhyrchu lafâu gwyllt ac ar gydnerthedd ecosystemau'n gyffredinol;
- mae cynnydd mewn glawiad a dŵr ffo yn gallu effeithio ar gymylogrwydd a llwythi maethynnau (gan arwain o bosibl at ordyfiant algâu) a byddai mwy o stormydd yn gallu achosi difrod i seilwaith a rhwystro mynediad at gyfleusterau a chynaeafu; a / neu,
- byddai unrhyw newidiadau yng ngweithrediadau a chydnerthedd ecosystemau yn gallu cael effeithiau pellgyrhaeddol ar ddyframaethu.

### Anghenion allweddol am dystiolaeth

466. Er bod gwaith ymchwil sylweddol wedi'i gyflawni eisoes, drwy gydweithio rhwng diwydiant a phrifysgolion yn bennaf (ee y sector cregyn gleision a Phrifysgol Bangor), bydd angen ymgymryd â rhagor o waith ymchwil yn enwedig mewn perthynas â chyfleoedd a phroblemau yng nghyswllt gweithgareddau dyframaethu yng nghyd-destun cydnerthedd ecolegol. Ar hyn o bryd, mae nifer y rhywogaethau sy'n cael eu meithrin drwy ddyframaethu yn gymharol fach a byddai'n fuddiol cael ymchwil i gyfleoedd i gael mwy o amrywiaeth. Ymysg y bylchau eraill yn y dystiolaeth y mae:

- deall effeithiau hirdymor y newid yn yr hinsawdd, yn cynnwys asideiddio cefnforoedd;
- deall cyfleoedd a phroblemau mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol dyframaethu gan gynnwys gallu'r amgylchedd i'w gynnal a chael gwybodaeth fwy manwl ar gyfer pennu ardaloedd lle mae cyfleoedd;
- darparu stociau o silod pysgod cregyn yn gynaliadwy;
- cyfleoedd ar gyfer cydfodoli a geir drwy osod gweithfeydd ynni yn y môr mawr;
- datblygu mathau newydd o borthiant cynaliadwy ar gyfer dyframaethu;
- cael gwell dealltwriaeth o wasanaethau ecosystem a ddarperir gan ddyframaethu.

### Llywodraethu

467. Mae rheoleiddio'r sector dyframaethu yn fater a ddatganolwyd yn rhanbarth y glannau yn y cynllun.

468. Ceir llawer math o ddatblygiadau dyframaethu ar wahanol raddfeydd, a rhoddir caniatâd ar eu cyfer drwy nifer o ffyrdd o ymgeisio. Ymhlith yr awdurdodau cyhoeddus allweddol y mae Llywodraeth Cymru, CNC, yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod (FHI) (Cefas), Ystad y Goron, Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr,



DRAFT

Seafish Wales a Chymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA), FHI ac Awdurdodau Lleol hefyd yn ymwneud â dosbarthu ardaloedd sy'n dod o dan reoliadau iechyd cyhoeddus ar gyfer gwerthu molysgiaid dwygragennog yn fasnachol neu ardystio safleoedd cysylltiedig a symud pysgod cregyn. Mae'n bosibl y bydd ceisiadau trawsffiniol neu'r rheini sydd ymhellach na 12mf o'r lan yn gofyn hefyd am gynnwys Awdurdodau Gwarchod Pysgodfeydd y Glannau, MMO, NE ac EA mewn perthynas â rheoleiddio neu gynghori.

469. Y prif awdurdodau cyhoeddus sydd â rôl rheoleiddio, cynghori neu reoli yw:
- hawliau gwely'r môr (o fewn 12mf) a hawliau arfordirol[31] (lle bo angen) oddi wrth Ystad y Goron neu berchnogion tir eraill; er enghraifft, ar gyfer magu ar rafftiau neu fwiau;
- yr Awdurdod Lleol ar gyfer safleoedd sydd, er enghraifft, yn pecynnu neu'n prosesu cynnyrch;
- Cofrestru gyda'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod (FHI) yn Cefas yn Fusnes Cynhyrchu Dyframaeth (cymeradwyo safleoedd, etc) ac ar gyfer rheoli clefydau pysgod a phlâu;
- Gwasanaeth Caniatáu CNC, un ai i gael trwydded forol ar gyfer datblygiadau magu pysgod asgellog neu - gan fod gweithgareddau dyframaethu pysgod cregyn wedi'i eithrio rhag y gofyniad am drwydded forol - hysbysiad esemptio (gellir esemptio safleoedd pysgod cregyn ar yr amod nad yw'r adeiladwaith dyframaethu yn rhwystro neu'n peryglu mordwyo neu nad yw'n riff gwneuthuredig);
- Gweinidogion Cymru wrth roi Gorchmynion Pysgodfa Unigol ar gyfer pysgod cregyn;
- caniatâd rhyddhau o reoliadau neu ganiatâd codi dŵr ar gyfer safleoedd os ydynt yn cael eu gweinyddu gan CNC;
- awdurdodau porthladd neu harbwr statudol.

470. Rhai sefydliadau sydd â buddiant mewn dosbarthu ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn yw:
- FSA sy'n gyfrifol am gynnal arolygon a dosbarthu ardaloedd cynhyrchu molysgiaid dwygragennog (ar y cyd ag Awdurdodau Lleol a'r FHI);
- CNC sy'n gyfrifol am ddynodi ardaloedd gwarchodedig dŵr pysgod cregyn;
- Dŵr Cymru sydd â buddiant mewn cynigion a all effeithio ar wasanaethau dŵr a charthffosiaeth.

471. Rhaid i gynhyrchion pysgod fod yn ddiogel i'w bwyta (yn enwedig molysgiaid dwygragennog) a rhaid iddynt fod yn rhydd oddi wrth blâu a chlefydau wrth eu cludo. Mae hyn yn galw am archwilio gan y cyrff rheoleiddio perthnasol.

472. Mae rheoleiddio ar gyfer sefydlu datblygiad dyframaethu yn dibynnu ar natur y gweithgarwch a gall fod yn ofynnol cael nifer o wahanol ganiatadau a thrwyddedau, yn ôl y math o weithrediad a'i leoliad. Er enghraifft, er mwyn gosod adeiladweithiau, rhaid dilyn trefniadau caniatáu ar wahân, pa un a ydynt yn gyfan

[31] Nid ar gyfer magu pysgod cregyn ar waelod y môr oni bai fod angen mynediad



DRAFT

gwbl ar dir (RAS), ar y blaendraeth ac yn gollwng i'r môr neu'n gyfan gwbl yn y môr. Ar ddechrau cam cwmpasu'r prosiect, dylai ymgeiswyr gysylltu â Gwasanaeth Caniatáu CNC neu awdurdodau cyhoeddus perthnasol eraill i gael cyngor.

473. Yn aml, bydd angen seilwaith ychwanegol ar dir ar gyfer dyframaethu morol, ee cyfleusterau puro a phrosesu, mannau storio a chludiant, a bydd yn rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer y rhain gan Awdurdod Lleol.

474. Er mwyn sicrhau hawliau pysgota ar gyfer pysgodfa pysgod cregyn naturiol neu fferm pysgod cregyn, rhaid cael Gorchymyn Pysgodfa Unigol (GPU). Mae GPU yn rhoi hawliau unigryw o fewn ardal benodedig ar gyfer: pysgota neu lusgrwydo pysgod cregyn penodol; symud neu ddyddodi pysgod cregyn penodol; creu a chynnal gwelyau pysgod cregyn; a lesio neu drosglwyddo'r bysgodfa pysgod cregyn. Ar ôl rhoi hawliau o'r fath, ni fydd hawl gan y cyhoedd i bysgota yn yr ardal honno wedyn. Er mwyn sicrhau hawliau rheoli, rhaid cael Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa (GRhP) sy'n rhoi hawliau i wneud rheoliadau ar gyfer y bysgodfa (ee dyroddi trwyddedau pysgota neu wahardd rhywun sydd heb drwydded) – gweler yr adran Pysgodfeydd. Er mwyn sicrhau GPU neu GRhP, rhaid cael caniatâd gan unrhyw un sydd â'r hawl i bysgodfa a/neu hawl i ymgymryd ag unrhyw weithgarwch arall (ee chwaraeon neu weithgareddau hamdden) yn yr ardal benodedig.

475. Mae potensial neilltuol yn y rhannau isaf o aberoedd i ddatblygu dyframaethu ar gyfer molysgiaid dwygragennog yn y rhynglanw neu'n agos i'r parth isforlannol. Gan fod ffiniau gweinyddol yn croesi Aberoedd Dyfrdwy a Hafren, bydd yn bwysig iawn bod awdurdodau cyhoeddus yn cydgysylltu i rannu gweinyddiaeth, gorfodaeth a thystiolaeth er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu. Mewn lleoliadau eraill ar y glannau, rhaid i awdurdodau cyhoeddus ystyried yr effeithiau dichonol ar ddatblygiadau eraill ar yr arfordir, gan gynnwys morweddau, o ganlyniad i ddatblygu dyframaethu ac unrhyw weithgareddau atodol y mae angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer.

## Amcan y Sector

Dyblu ei gynnyrch erbyn 2020, a chynyddu ei gynnyrch ymhellach dros gyfnod y cynllun hwn. Yn benodol, erbyn 2020, cynyddu cynnyrch:

- Pysgod asgellog morol i 2,000 o dunelli (761 o dunelli yn 2012)
- Pysgod cregyn, yn enwedig cregyn gleision, i 16,000 o dunelli (o 8,376 o dunelli yn 2012)[32]

[32] http://gov.wales/docs/drah/publications/131127-marine-and-fisheries-strategic-action-plan-cy.pdf



DRAFT

## Polisi'r sector dyframaethu a chanllawiau ar weithredu

476. Mae polisi'r sector dyframaethu yn gymwys i ranbarth y glannau a'r rhanbarth môr mawr yn ardal y cynllun. Fodd bynnag, ni chafwyd ceisiadau ar gyfer y rhanbarth môr mawr hyd yn hyn.

477. Nodir yn y DPM fod diogelu'r cyflenwad bwyd yn amcan gan Weinyddiaethau'r DU. Mae dyframaethu yn gwneud cyfraniad pwysig a chynyddol at hyn ac mae hyn yn tanlinellu'r angen i edrych yn gadarnhaol ar gynllunio ar gyfer twf yn y sector hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu dyframaethu mewn ffordd gynaliadwy, gan ddiogelu cydnerthedd ecosystemau ac adnoddau naturiol morol. Wrth geisio gwireddu'r uchelgais hwn, mae Llywodraeth Cymru am weld dyblu cynnyrch dyframaethu pysgod cregyn a physgod asgellog erbyn 2020 drwy gynllunio cadarnhaol a mentrau cysylltiedig sy'n cynnwys symleiddio gweithdrefnau gweinyddol, gwneud gwell defnydd o fecanweithiau ariannu a datblygu cydweithio effeithiol rhwng diwydiant a chyrff ymchwil. Mae gweithredu cydgysylltiedig ar lefel leol rhwng cynhyrchwyr, awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau ymchwil, cymdeithasau, a sefydliadau addysg a hyfforddi yn gallu helpu i hyrwyddo gweithgareddau ac economïau lleol a chwrdd â'r galw cynyddol am gynhyrchion dyfrol lleol sydd wedi'u cynhyrchu'n gynaliadwy.

478. Cefnogir twf y sector drwy feithrin gallu, arloesi a chydweithio rhwng diwydiant a chanolfannau ymchwil academaidd. Mae'r diwydiant dyframaethu yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyfrannu at ddatblygu polisi. Bydd y grŵp hwn a phrosesau ymgysylltu ehangach yn cyfrannu at bennu ein dull o gefnogi'r sector.

479. Er mwyn cyflawni amcan y sector, bydd angen cael dealltwriaeth glir o'r mathau o ddyframaethu sy'n fwyaf tebygol o helpu i wireddu uchelgeisiau am dwf yn y dyfodol. Wrth ddarparu cyfeiriad ar gyfer cyfleoedd mewn dyframaethu yn y dyfodol, dylid ystyried rhywogaethau neu dechnolegau sy'n gallu darparu buddion ehangach. Mae cynllun cenedlaethol amlflwydd y DU ar gyfer datblygu dyframaethu cynaliadwy yn disgrifio sut y bydd llywodraeth y DU yn hybu twf mewn dyframaethu.

480. Dylai penderfynwyr barhau i helpu'r diwydiant i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu'r diwydiant, drwy ddefnyddio adnoddau sydd heb fod mewn lleoliadau mwy sensitif[33] ac sydd ymhellach o'r lan (lle bynnag y bo'n briodol) gan fod yn ymwybodol o gyfyngiadau ymarferol. Dylid cael cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Ystad y Goron, diwydiant a CNC i sicrhau cefnogaeth i weithgarwch yn y dyfodol, er mwyn helpu i gyrraedd targedau mewn polisi ar gyfer twf. Anogir y diwydiant i ddatblygu cynlluniau ymarferol, dichonadwy i ehangu gweithgarwch.

481. Er mwyn iddynt fod yn economaidd hyfyw, mae angen lleoli busnesau dyframaethu sy'n gweithredu ar raddfa fach mewn ardaloedd addas ar y glannau. Gall adeiladweithiau mwy fod yn ddigon mawr i weithredu yn y môr mawr, o fewn

[33] Mae sensitifrwydd ardal benodol yn dibynnu ar natur unrhyw weithrediad penodol



DRAFT

12mf i'r lan yn ôl pob tebyg, ond nid oes adeiladweithiau o'r fath yn nyfroedd Cymru ar hyn o bryd.

482. Ar ôl cael cais, bydd Gweinidogion Cymru yn dyroddi Gorchymyn Pysgodfa Unigol (GPU) i roi perchenogaeth dros bysgod cregyn a fegir ar arwynebeddau o wely'r môr sydd wedi'u lesio (oddi wrth Ystad y Goron fel arfer). Os yw ardal y GPU o fewn neu'n agos i safleoedd a ddynodwyd i ddibenion cadwraeth forol, yna rhaid i'r ymgeisydd gynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol. Wrth roi GPU, bydd Llywodraeth Cymru yn gosod amodau sy'n adlewyrchu canlyniad yr asesiad amgylcheddol ac yn goruchwylio camau i'w fonitro i sicrhau na fydd rhoi'r GPU y debygol o gael effaith niweidiol arwyddocaol ar y nodweddion a ddynodwyd ar unrhyw safle cadwraeth.

483. Er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector a'i annog i fuddsoddi, bydd Gorchmynion yn cael eu rhoi fel arfer am gyfnod o 28 mlynedd o leiaf gan eu hadolygu bob saith mlynedd lle bo'n briodol. Yn achos ceisiadau mewn ardaloedd sensitif iawn, a bennwyd yn ystod y broses ymgeisio, neu lle mae llai o sicrwydd, neu lle defnyddir dull graddol o weithredu a monitro ar gyfer datblygu, mae'n bosibl y rhoddir GPU am gyfnod byrrach ac y bydd y gofynion ar gyfer ei fonitro'n fwy trwyadl. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi awdurdodiadau a Gorchmynion am gyfnodau hirach mewn ardaloedd llai sensitif.

484. **Mae'r [Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau] yn gymwys.**

485. Dylid ystyried y polisïau ar sectorau yn y cynllun hwn ochr yn ochr â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol sydd yn y cynllun hwn, nodau llesiant Cymru ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn bwysig bod y broses ymgeisio am awdurdodiad yn cymhwyso'r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy'n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau eraill lle maent wedi'u pennu). Dylid darparu tystiolaeth sy'n ymwneud â pholisïau perthnasol i hwyluso penderfyniadau. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn gosod canllawiau ar gyfer cynigion a phenderfyniadau (ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill); nid ydynt yn dileu'r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol. Oherwydd hynny, ni ddylid rhagdybio y bydd cais o fewn Ardal Adnoddau Strategol y sector dan sylw yn llwyddiannus. Yn yr un modd, ni fydd rhagdybiaeth yn erbyn gweithgareddau gan y sector y tu allan i Ardaloedd Adnoddau Strategol a bennwyd.

DRAFT

## Polisi cefnogi

> **AQU_01: Dyframaethu (cefnogi)**
>
> Anogir cyflwyno cynigion am weithgareddau dyframaethu mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.
> Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio i ddeall cyfleoedd i wneud defnydd cynaliadwy o:
>
> - Ardaloedd Adnoddau Strategol dyframaethu; ac
> - adnoddau naturiol ehangach sydd â photensial ar gyfer dyframaethu;
>
> er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector dyframaethu drwy gynllunio morol

## Canllawiau ar weithredu polisi cefnogi

486. Mae'r polisi hwn yn ceisio cefnogi camau i ddatblygu gweithgareddau dyframaethu newydd ac amrywiol a thwf y diwydiant dyframaethu yng Nghymru.

487. Rhoddir anogaeth gryf i gyflwyno cynigion dyframaethu lle gellir dangos eu bod:
- wedi'u lleoli o fewn Ardal Adnoddau Strategol;
- yn defnyddio adeiladweithiau sefydlog presennol neu arfaethedig fel datblygiadau ynni adnewyddadwy, gan wneud y defnydd gorau posibl o ofod morol;
- yn cydweddu'n dda â chymeriad lleol yr ardal neu yn ei wella gan gynnwys treftadaeth, tirweddau a'r forwedd;
- yn cydgysylltu â gweithgareddau presennol neu arfaethedig i rannu'r defnydd o longau a chyfleusterau eraill, gan leihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr, lleihau costau rhedeg a chynyddu hyfywedd economaidd y gweithgarwch;
- yn cefnogi camau i ddatblygu diwydiannau bwyd môr lleol er mwyn dod â swyddi a hybu twristiaeth i hyrwyddo llesiant cymunedau ar yr arfordir.

488. Defnyddiwyd adroddiad i Lywodraeth Cymru "A spatial assessment of the potential for aquaculture in Welsh waters" (2015) ynghyd â gwybodaeth a gafwyd gan ddiwydiant a sefydliadau academaidd i bennu Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer magu pysgod cregyn ar wely'r môr ac yn y golofn ddŵr. Ystyriwyd dau gategori o weithrediadau dyframaethu: y rheini sy'n ymwneud ag adeiladweithiau ar wyneb y môr neu wely'r môr a'r rheini sy'n galw am ddefnydd helaeth o wely'r môr yn unig. Mae Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cynnig amodau addas ar gyfer dyframaethu ac, oherwydd hynny, y rhain yw'r ardaloedd lle mae cyfleoedd yn fwyaf tebygol o godi i ddatblygu dyframaethu ar wely'r môr neu yn y golofn ddŵr. Mae mathau eraill o ddefnydd gan bobl, ee morgludo, hefyd yn cael eu



DRAFT

hystyried yn gyfyngiad, yn ôl y dull dyframaethu sydd dan sylw. Mae Ardaloedd Adnoddau Strategol yn adlewyrchu amodau sy'n debygol o gynnal math penodol o ddyframaethu a chyfyngiadau "caled" perthnasol ond ni allant adlewyrchu'r nifer mawr o ystyriaethau ymarferol ar lefel leol.

489. Pennwyd Ardal Adnoddau ehangach o lawer, heb bolisi cysylltiedig yn y cynllun, lle mae'n ymddangos bod yr amodau arferol hefyd yn creu potensial i gynnal y diwydiant ond y credir ei bod yn llai tebygol o gael ei datblygu hyd y gellir rhag-weld.

490. Mewn gwirionedd, er mwyn cyflawni amcan y sector i ddyblu cynnyrch erbyn 2020 a thyfu'r sector ar ôl hynny, dim ond cyfran fach iawn o'r Ardaloedd Adnoddau Strategol y byddai angen ei datblygu. Felly mae'r Ardaloedd Adnoddau Strategol dyframaethu yn y cynllun hwn yn ardaloedd chwilio eang y gellid datblygu oddi mewn iddynt. Bydd gwaith ymchwil a chydweithio yn gallu ein helpu i fireinio ein dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer dyframaethu ar lefel leol. Caiff yr Ardaloedd Adnoddau Strategol eu mireinio dros amser wrth i ragor o wybodaeth ddod i law am y cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y diwydiant dyframaethu ac wrth i dechnolegau ddatblygu.

491. Y bwriad wrth bennu ardaloedd sy'n addas ar gyfer cynhyrchu rhagor drwy ddyframaethu yw helpu i ehangu'r mathau o weithgarwch a geir ar hyn o bryd a hefyd cynyddu amrywiaeth y rhywogaethau a fegir gan gynnwys pysgod cregyn, pysgod asgellog ac algâu a helpu'r sector i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Drwy weithio mewn partneriaeth â busnesau, llywodraeth a sefydliadau academaidd yng Nghymru, bydd y diwydiant dyframaethu yn helpu i weithredu'r cynllun hwn, gan nodi ardaloedd morol sy'n addas ar gyfer rhagor o weithgareddau dyframaethu, cyfleoedd i gynyddu cynhyrchiant ac amrywiaeth y rhywogaethau a fegir.

492. Mae ardaloedd awdurdodau harbwr statudol yn Aberdaugleddau a Chaergybi wedi'u cynnwys mewn Ardaloedd Adnoddau ac, ar raddfa leol ym mhob map, mae rhannau o bob ardal Harbwr wedi'u cynnwys mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer dyframaethu ar wely'r môr neu yn y golofn ddŵr. Porthladd Ymddiriedolaeth yw Aberdaugleddau a phorthladd preifat yw Caergybi, a rhoddwyd cylch gwaith i'r ddau ohonynt ar gyfer hyrwyddo dyframaethu o fewn eu ffiniau lle mae hyn yn cydweddu â gweithgareddau eraill y maent yn eu rheoli. Anogir datblygwyr i ymgysylltu ag awdurdodau porthladd lle maent yn gweld potensial ar gyfer dyframaethu mewn ardaloedd porthladd. Yn yr un modd, dylai awdurdodau porthladd ystyried defnydd o'r fath yng nghyd-destun eu cylch gwaith, eu cynlluniau datblygu a chynnwys y cynllun hwn yn gyffredinol.

493. Rhoddir anogaeth i ddatblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i ymdrin â bylchau allweddol mewn tystiolaeth a chael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd i sicrhau twf cynaliadwy yn y sector gan gynnwys mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.

DRAFT

494. Yn achos rhai datblygiadau dyframaethu, yn enwedig busnesau sy'n gweithredu ar wely'r môr a busnesau ar raddfa fach, bydd cyfle da i gydfodoli â sectorau eraill yn yr un ardal. Mewn gwirionedd, mae gwrthdaro'n llai tebygol o godi nag y gellid disgwyl o ystyried bod yr Ardaloedd Adnoddau Strategol a bennwyd yn y cynllun hwn yn gymharol fawr. Dylai awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo'r defnydd gorau posibl o ofod morol drwy gydfodoli lle bynnag y bo modd.

495. Nid yw'r nodweddion sydd eu hangen i gynnal cyfleusterau ar gyfer meithrin pysgod asgellog ac algâu yn y môr mawr wedi'u diffinio'n ddigon da eto i roi'r gallu i bennu ardaloedd lle mae potensial mawr. Mae'n bosibl y byddai prosiectau dyframaethu ar raddfa fach yn gallu gweithredu mewn llawer man yn nyfroedd glannau Cymru ac nid yw'n ymarferol eu mapio na dyrannu gofod ar eu cyfer ar hyn o bryd.
Drwy gynnal deialog â chynrychiolwyr y sector, gellir cyflwyno cynigion sy'n gwneud rhagor i gefnogi a hyrwyddo gweithgareddau dyframaethu cynaliadwy gan gynnwys:

- defnyddio cynlluniau cymorth grant, er enghraifft, i ddarparu cymorth ar gyfer technegau meithrin sy'n datblygu neu gynnal asesiadau amgylcheddol a deall a lliniaru risg i fusnesau (ee amrywiadau mewn ansawdd dŵr);
- mentrau sy'n sicrhau bod gweithgareddau dyframaethu yn cydfodoli'n well;
- mentrau sy'n hybu cydweithio ee gyda'r diwydiant pysgota wrth gasglu silod cregyn gleision a ffermio cefnforoedd;
- mentrau sy'n hybu amrywiaethu priodol mewn dyframaethu, yn helpu i nodi mannau gwerthu a chynhyrchion newydd ar gyfer y farchnad a chyfleoedd i brosesu yng Nghymru, a phob un ohonynt yn gwneud y sector yn fwy cadarn a phroffidiol;
- mentrau sy'n helpu i adnabod safleoedd addas ar gyfer dyframaethu, adnabod perchenogion tir a symleiddio'r broses ymgeisio;
- mentrau sy'n hybu dyframaethu cynaliadwy fel achredu gan yr MSC;

496. **Wrth baratoi cynigion sy'n gysylltiedig â dyframaethu, dylai datblygwyr gymhwyso'r polisïau diogelu perthnasol ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn.**

### Polisïau diogelu

497. Ym mhob cynnig (yn cynnwys cynigion newydd gan y sector dyframaethu) a all effeithio ar weithgareddau dyframaethu presennol neu arfaethedig neu rai dichonol yn y dyfodol mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol, dylid cymhwyso'r polisïau canlynol ar gyfer diogelu dyframaethu.

**AQU_02: Dyframaethu (diogelu)**
Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle:

- rhoddwyd neu y gwnaed cais ffurfiol am orchymyn pysgodfa unigol neu hawliau cynhyrchu ar gyfer dyframaethu;
- mae cytundeb ffurfiol a gofnodwyd wedi'i wneud rhwng perchennog gwely'r môr a gweithredwr dyframaethu; neu
- lle gwnaed neu lle gwnaed cais am gofrestriad Busnes Cynhyrchu Dyframaethol,

oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch dyframaethu sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

**AQU_03: Dyframaethu (diogelu)**
Dylai cynigion a all effeithio ar Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer dyframaethu ddangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a) yn osgoi effeithiau niweidiol ar weithgareddau dyframaethu dichonol yn y dyfodol yn yr ardaloedd hynny; a/neu
b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau; a

dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw lle nad yw (a-c) yn bosibl.

## Canllawiau ar weithredu polisi diogelu

498. Mae'r polisïau diogelu hyn yn helpu i reoli'r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol neu arfaethedig neu rai dichonol yn y dyfodol gan y sector dyframaethu. Yn unol â'n dull cynllunio

cadarnhaol, mae polisïau **AQU_02** ac **AQU_03** wedi'u bwriadu i roi'r gallu i barhau â dyframaethu lle mae awdurdodiadau wedi'u rhoi neu'n cael eu sicrhau neu i fanteisio ar gyfleoedd newydd mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.

499. Mae polisi **AQU_02** yn diogelu buddsoddiadau ac yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ar gyfer gweithrediadau cyfredol. Bydd yn gymwys lle mae cytundeb ffurfiol wedi'i wneud ar gyfer trwydded forol a/neu Orchymyn Pysgodfa Unigol (GPU ar gyfer pysgod cregyn) neu gyda pherchennog gwely'r môr (Ystad y Goron fel arfer). Yn achos prosesau y mae'n ofynnol eu hysbysebu, bydd y polisi'n dod i rym wrth ddechrau eu hysbysebu i'r cyhoedd. Bydd derbyn cofrestriad Busnes Cynhyrchu Dyframaethu, neu wneud cais am gofrestriad o'r fath a'r ffaith bod trwyddedau neu ganiatadau eraill wedi'u rhoi yn cadarnhau statws y busnes dyframaethu i ddibenion y polisi hwn.

500. Ystyr "gwnaed cais ffurfiol" yw bod cais wedi'i wneud i Weinidogion Cymru am GPU a'i fod wedi'i hysbysebu, neu fod hawliau dros wely'r môr wedi'u rhoi (lle ceir cystadlu rhwng partïon sydd â diddordeb yn yr un lleoliad a bod ceisiadau wedi'u cyflwyno ar wahân am GPU, defnyddir y dulliau arferol i benderfynu). Ar y cam hwn, dylid diffinio ffiniau'r ardal y gwneir cais amdani'n fanwl ac, wrth ddisgwyl y canlyniad i ymatebion i unrhyw hysbyseb ffurfiol, dylent aros yn weddol sefydlog.

501. Nid yw presenoldeb gweithrediadau dyframaethu presennol yn rhwystr rhag caniatáu gweithgareddau newydd o reidrwydd os gellir dangos bod y gweithgarwch newydd yn cydweddu. Er mwyn gwneud hynny, dylid cynnwys asesiad mewn cynigion newydd o'r effeithiau niweidiol dichonol ar y gweithrediad dyframaethu a'r gweithrediadau sy'n dibynnu arno. Rhai effeithiau niweidiol posibl yw newidiadau yn ansawdd neu dymheredd y dŵr sy'n arwain at gynhyrchiant is neu ansawdd is mewn cynnyrch; effeithiau ar barhad busnes neu seilwaith; mwy o glefydau; neu rwystrau ffisegol sy'n arwain at fwy o gostau, amser neu ymdrech ee i gael mynediad i'r safle neu i gynaeafu.

502. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd cyfle i adleoli'r gweithrediad dyframaethu sefydledig er ei bod yn cael ei gydnabod y bydd hyn yn golygu mynd i gostau. Bydd yn bwysig bod awdurdodau cyhoeddus perthnasol, wrth ystyried cynnig a all ddadleoli neu ymyrryd â gweithgareddau datblygiad dyframaethu, yn ystyried graddau'r effaith niweidiol (yn cynnwys ymyrraeth â busnes), a'r cyfleoedd a'r costau o adleoli'r gweithrediad (ac a gafwyd cytundeb rhwng y gwahanol bartïon). Yn achos unrhyw gynigion newydd ar gyfer gweithgareddau a fydd yn galw am adleoli datblygiad dyframaethu presennol, dylid darparu tystiolaeth ar gyfer cynnal asesiad o leoliadau addas eraill ac o'r costau net a'r goblygiadau i amcanion y cynllun hwn o ailsefydlu neu derfynu'r busnes

503. Mae polisi **AQU_03** yn diogelu Ardaloedd Adnoddau Strategol lle mae adnoddau addas ar gyfer cynhyrchu pysgod cregyn drwy ddyframaethu yn y golofn ddŵr neu ar wely'r môr ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol. Cyn awdurdodi cynnig, dylai penderfynwyr ystyried effeithiau cymharol y cynnig ar y potensial ar gyfer cynhyrchu drwy ddyframaethu mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol yn y dyfodol. Er bod yr Ardaloedd Adnoddau Strategol dyframaethu yn fawr, ystyriaeth bwysig wrth gymhwyso'r polisi hwn yw mai dim ond cyfran fach o ardal ofodol yr



DRAFT

Ardaloedd Adnoddau Strategol y bydd angen ei datblygu i gyflawni amcan y sector. Yn wir, mae gweithgareddau dyframaethu newydd ar unrhyw raddfa yn gallu cynnig her ac ni ellir rhag-weld cyfradd neu natur y twf yn y sector yn y dyfodol. Felly ni ddylid ystyried bod Ardaloedd Adnoddau Strategol dyframaethu yn rhai lle gwaherddir sectorau eraill.

504. Lle nodwyd bod potensial gan ardal mewn Ardal Adnoddau Strategol i gynnig nifer o fuddion, ar ben cynhyrchu uniongyrchol drwy ddyframaethu, ee cyfrannu at gyflawni amcanion cadwraeth natur fel adfer rhywogaethau penodol a all ddarparu gwasanaethau ecosystem sylweddol (ee wystrys brodorol), yna dylid rhoi mwy o amddiffyniad i'r ardal honno.

505. Mewn cynigion gan sectorau eraill mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol dyframaethu, neu gynigion sy'n effeithio arnynt, bydd angen dangos eu bod yn gallu cydfodoli'n ddiogel â'r datblygiad dyframaethu neu, os nad ydynt yn gallu, bydd angen rhoi cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw (lle nad yw (a-c) yn bosibl). Rhai amgylchiadau lle y gellid bodloni (b) yw lle mae'r cynnig yn cael ei symud i ardal sy'n llai ffafriol ar gyfer dyframaethu (ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael), neu lle y cynigir bod dyframaethu'n cydfodoli â'r gweithgarwch a gynigiwyd. Mewn perthynas ag (c), ffyrdd posibl o liniaru yw dulliau i ymdrin ag effeithiau niweidiol fel technegau i wrthweithio newidiadau niweidiol mewn ansawdd dŵr. Mewn unrhyw achos a gyflwynir i fwrw ymlaen â'r cynnig yn y lleoliad hwnnw, gellir hefyd cynnwys ystyriaethau ynghylch:

- nad oes cynlluniau hysbys neu ragweladwy i ddatblygu dyframaethu neu, ee, bod ceisiadau blaenorol am drwydded wedi'u gwrthod ac felly bod datblygu'n annhebygol;
- bod tystiolaeth wedi dod i law sy'n dangos bod yr ardal sy'n destun diddordeb yn anaddas ar gyfer dyframaethu;
- na fyddai cais ar gyfer datblygiad dyframaethu yn debygol o lwyddo beth bynnag;
- na fyddai'r datblygiad a gynigir yn rhwystr mawr i'r gweithgarwch dyframaethu; neu
- y gellir dadlau bod caniatáu'r datblygiad yn bwysicach na diogelu'r adnodd dyframaethu o ran ei gyfraniad at gyflawni nodau llesiant Cymru.

506. Rhaid cymhwyso'r prawf o ystyried a yw datblygiad dyframaethu mewn Ardal Adnoddau Strategol yn debygol o ddigwydd ar y sail ei fod yn asesiad ymarferol; nid oes disgwyl i'r datblygwr gynnal astudiaeth lawn o ddichonoldeb dyframaethu.

507. Wrth fantoli unrhyw effeithiau niweidiol dichonol ar y defnydd dichonol o'r Ardal Adnoddau Strategol ar gyfer dyframaethu yn y dyfodol yn erbyn y buddion o gynnig arall, dylai penderfynwyr ystyried y canlynol:

- pwysigrwydd strategol y cynnig ee ei fod yn gyson â Datganiad Polisi Cenedlaethol, DPM neu fod y sector yn neilltuol o bwysig yn y Cynllun hwn;
- y graddau y byddai'r cynnig, o'i dderbyn, yn helpu'r sector i gyflawni amcanion y cynllun hwn;
- y graddau y byddai effaith niweidiol ar amcanion y cynllun hwn ar gyfer dyframaethu;


DRAFT

- lleoliadau eraill neu fod lleoliadau eraill yn creu mathau tebyg neu fathau eraill o wrthdaro;
- cyfleoedd i sicrhau datblygu cynaliadwy mewn gwahanol ardaloedd a'r effaith net ar yr amgylchedd ac ar ddefnyddwyr eraill.

508. Fodd bynnag, er mai bwriad y polisi yw cefnogi twf mewn dyframaethu, dylai datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus gydnabod hefyd ei bod yn debygol na fydd angen ond cynnydd bach yn ôl troed y diwydiant i gyflawni amcan y sector. Oherwydd rhychwant gofodol mawr yr Ardaloedd Adnoddau Strategol dyframaethu a bennwyd, mae'n debygol y bydd gweithgareddau eraill yn gallu cydfodoli'n rhwydd, gan sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran cynllunio a chyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru.

DRAFFT

## Ffigur 15: Map polisi - Dyframaethu



## Amddiffyn

### Cyflwyniad

509. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gyfrifol am amddiffyn a sicrhau diogelwch gwladol pobl y Deyrnas Unedig a'i Thiriogaethau Tramor ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnwys y Llynges Frenhinol, y Fyddin Brydeinig, yr Awyrlu Brenhinol a lluoedd wrth gefn fel Milwyr Cynorthwyol y Llynges Frenhinol (y lluoedd arfog).

510. Er nad oes canolfannau llynges mawr yng Nghymru, mae'r lluoedd arfog yn gwneud defnydd helaeth o arfordiroedd a moroedd Cymru at nifer o ddibenion gwahanol sy'n ymwneud ag amddiffyn, yn cynnwys defnydd cyfyngol o ardaloedd penodol ar amseroedd neilltuol ar gyfer hyfforddi, profi a gwerthuso a gweithrediadau sy'n cynnwys:
   - cynorthwyo llongau, awyrennau a buddiannau mordwyol;
   - cynnal ymarferiadau hyfforddi milwrol;
   - rhedeg meysydd profi a gwerthuso a chyfleusterau, yn cynnwys meysydd tanio taflegrau a meysydd ar gyfer profi systemau awyrennau di-griw a cherbydau di-griw ar wyneb y dŵr ac o dan ddŵr.

511. Mae ardaloedd ymarfer milwrol yn cwmpasu 11,453 $km^2$ (37%) o arwynebedd Parth Cymru. Yn ogystal â hyn, mae'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn, sy'n cynnal yr ystad amddiffyn ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn, yn rheoli nifer o gyfleusterau ar yr arfordir, fel Ardal Hyfforddi Castellmartin a safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhentywyn. Mae goblygiadau yn hynny i'r gwaith cyffredinol o reoli'r ardal forol.

DRAFT

### Cyfraniad amddiffyn i'r economi

Mewn rhai lleoliadau ar yr arfordir, y Weinyddiaeth Amddiffyn yw'r prif gyflogwr yn y rhanbarth ac felly mae ei chyfraniad at lesiant economaidd a chymdeithasol y gymuned arfordirol leol yn bwysig.

Gwariant y sector cyhoeddus – Amddiffyn – Cyfanswm y gwariant yng Nghymru (£miliwn)[34]

| 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| 1,910 | 1,872 | 1,755 | 1,752 | 1.747 |

Amddiffyn – Cyfanswm y gwariant: Cymru a'r DU 2014-15

| £miliwn (Cymru) | % o gyfanswm y gwariant (Cymru) | £miliwn (Y DU) | % o gyfanswm y gwariant (Y DU) | Cymru fel % o'r DU |
|---|---|---|---|---|
| 1,747 | 4.6% | 36,484 | 4.9% | 4.8% |

## Y rhyngweithio presennol a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol â sectorau eraill

512. Am fod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn bresennol mewn rhannau helaeth o ddyfroedd Cymru ac oherwydd amrywiaeth ei gweithgareddau, mae'n rhyngweithio â nifer o ddefnyddwyr/sectorau morol eraill. Mae cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn atal datblygu rhai mathau o seilwaith gosod, ee ar gyfer olew a nwy, ynni adnewyddadwy a rhai gweithgareddau dyframaethu. Fodd bynnag, fe ellir caniatáu gweithgareddau mordwyo dros dro, fel pysgota, morgludo a chychod masnachol a hamdden yn ardaloedd y Weinyddiaeth Amddiffyn o dan gyfyngiadau amser yn ystod cyfnodau gweithredu a hyfforddi.

513. Yn ogystal â hyn, mae datblygiadau tyrbin gwynt yn gallu effeithio ar weithrediad systemau radar felly bydd y rhain yn galw am ystyriaeth ofalus a chydgysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Fodd bynnag, mae mesurau lliniaru technegol fel ystyriaethau dylunio a marciau mordwyo yn gallu bod o gymorth i ddelio â rhai o'r materion hyn o dan rai amgylchiadau.

## Rhyngweithio ag ecosystemau

514. Drwy gyfyngu datblygiadau penodol, ceir lefelau is o lawer o weithgarwch dynol mewn rhannau helaeth o ddyfroedd y glannau o ganlyniad i bresenoldeb y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae ardaloedd caeedig yn amddiffyn cynefinoedd ar

[34] Ffynhonnell: http://sites.cardiff.ac.uk/wgc/files/2016/04/Government-Expenditure-and-Revenue-Wales-2016.pdf



DRAFT

wely'r môr rhag aflonyddu i ryw raddau gan gyfrannu drwy hynny at gynnal cydnerthedd ecosystemau morol ehangach.

515. Mae gweithgareddau cysylltiedig ag amddiffyn hefyd yn gallu peri rhai risgiau i'r amgylchedd naturiol a hanesyddol. Yn benodol, mae rhai mathau o weithgarwch sonar a'r defnydd o ffrwydron byw yn gallu effeithio ar rywogaethau morol, a hynny'n cynnwys aflonyddu ar ymddygiad ac, yn yr achosion gwaethaf, marwolaethau. Fodd bynnag, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd ac mae'n cynnal trefniadau rheoli i sicrhau bod effeithiau negyddol yn cael eu hosgoi lle bynnag y bo modd. Polisi'r Weinyddiaeth Amddiffyn yw sicrhau bod ystyriaethau ynghylch yr amgylchedd naturiol yn cael eu llwyr integreiddio â gofynion ar gyfer gweithrediadau a hyfforddiant a materion diogelwch. Mae targedau ac amcanion strategol y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer bioamrywiaeth wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Gweithredu'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar Ddatblygu Cynaliadwy a'r Datganiad Strategol ar Fioamrywiaeth ar gyfer ystad y Weinyddiaeth Amddiffyn.

516. Lle mae esemptiadau a rhanddirymiadau ar gyfer amddiffyn o ddeddfwriaeth ar ddiogelu'r amgylchedd, polisi'r Weinyddiaeth Amddiffyn yw cynnal safonau sydd, hyd y gellir sicrhau'n rhesymol, yn gystal o leiaf â'r rheini sy'n ofynnol yn neddfwriaeth y DU.

### Y dyfodol

517. Parheir i ddefnyddio moroedd Cymru ar gyfer gweithgareddau amddiffyn, gan gynnwys agweddau sy'n ymwneud â phrofi a gwerthuso, er mwyn cynnal effeithiolrwydd y gweithrediadau ym mhob rhan o ddyfroedd y DU.

### Y newid yn yr hinsawdd

518. Er bod y newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar gyfleusterau sy'n eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ei hasedau a'i gweithrediadau yn nyfroedd Cymru, bydd y sector yn cyflwyno mesurau ymaddasu fel y bo'n briodol i ymdrin â'r heriau hyn. Mae ymaddasu gan y sector hwn yn fater a gadwyd gan Lywodraeth y DU. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gosod targed ar gyfer lleihau ei defnydd o danwyddau ffosil 18% erbyn 2020/21 (o'i gymharu â'r llinell sylfaen yn 2009/10) yn unol â thargedau ehangach ar gyfer lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

### Anghenion allweddol am dystiolaeth

519. Lleoli a dylunio tyrbinau gwynt yn y môr mawr (a gweithfeydd ynni adnewyddadwy eraill) neu'r defnydd o dechnoleg i osgoi effeithiau niweidiol ar fuddiannau amddiffyn gan gynnwys ymyrraeth anodd ei thrin â systemau radar amddiffyn. Bydd angen i unrhyw weithfeydd ynni adnewyddadwy yn nyfroedd Cymru gael eu hadolygu gan dîm Diogelu'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Bydd angen i'r holl weithgareddau neu ddatblygiadau morol a gynigir yn ardaloedd ymarfer y Weinyddiaeth Amddiffyn (PEXA) gael eu clirio gan dîm Diogelu'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

DRAFT

## Llywodraethu

520. Mae rheoleiddio gweithgareddau amddiffyn yn fater a gadwyd yn ôl.

521. Mae'r prif awdurdodau penderfynu a chynghori yn cynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn, CNC, MMO a Llywodraeth Cymru.

## Amcan y sector

| | |
|---|---|
| Cyfrannu at amddiffyn y wlad drwy sicrhau na fydd amharu ar weithgareddau Amddiffyn a Diogelwch Gwladol. | |

## Polisi'r sector amddiffyn a chanllawiau ar weithredu

522. Mae polisi'r sector amddiffyn yn gymwys i ranbarth y glannau a'r rhanbarth môr mawr yn ardal y cynllun.

523. Mae gallu'r Weinyddiaeth Amddiffyn i amddiffyn y wlad yn brif ystyriaeth a rhaid sicrhau na fydd gweithgareddau a datblygiadau morol yn amharu ar fuddiannau amddiffyn strategol. Mae'r DPM yn cydnabod bod angen i'r Weinyddiaeth Amddiffyn gynnal a defnyddio'r gallu gweithredol i ddarparu amddiffyniad a diogelwch i'r DU. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cymryd rhan yn y broses o baratoi cynlluniau datblygu daearol a morol er mwyn sicrhau ystyriaeth briodol i fuddiannau'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Yn ogystal â hyn, ymgynghorir â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar drwyddedu cynigion a all wrthdaro â buddiannau amddiffyn ac ni roddir caniatâd oni bai fod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'i bodloni na fydd y cynnig yn peri risg annerbyniol i fuddiannau amddiffyn a diogelwch gwladol.

524. **Dylid ystyried y polisïau ar sectorau yn y cynllun hwn ochr yn ochr â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol sydd yn y cynllun hwn**, nodau llesiant Cymru ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn bwysig bod y broses ymgeisio am awdurdodiad yn cymhwyso'r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy'n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau eraill lle maent wedi'u pennu). Dylid darparu tystiolaeth sy'n ymwneud â pholisïau perthnasol i hwyluso penderfyniadau. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn gosod canllawiau ar gyfer cynigion a phenderfyniadau (ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill); nid ydynt yn dileu'r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol.

525. **Wrth baratoi cynigion sy'n gysylltiedig ag amddiffyn, dylai datblygwyr gymhwyso'r polisïau diogelu perthnasol ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn.**

DRAFT

## Polisi diogelu

526. Yn yr holl gynigion a all effeithio ar weithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, dylid cymhwyso'r polisïau diogelu canlynol ar gyfer y sector amddiffyn.

**DEF_01: Amddiffyn (diogelu)**
Mae cynigion:

- a all effeithio ar Ardaloedd Perygl, Ardaloedd Ymarfer neu fuddiannau amddiffyn strategol y Weinyddiaeth Amddiffyn; a/neu
- a all ymyrryd â chyfleusterau cyfathrebu, gwyliadwriaeth a llywio sydd eu hangen ar gyfer amddiffyn a diogelwch gwladol;

i'w hawdurdodi gyda chytundeb y Weinyddiaeth Amddiffyn yn unig.

DRAFT

## Gweithredu polisi diogelu

527. Mae'r polisi diogelu hwn yn helpu i reoli'r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol ac arfaethedig a gweithgareddau dichonol yn y dyfodol gan y sector amddiffyn. Pwrpas y polisi hwn yw hyrwyddo Cymru ddiogel a chadarn lle mae'r lluoedd arfog yn gallu cyflawni eu dyletswyddau er mwyn amddiffyn a diogelu'r wlad. Mae'n gwneud polisi cenedlaethol presennol yn fwy eglur (Adran 164 o'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r DPM). Gan fod amrywiaeth o weithgareddau amddiffyn i'w cael mewn rhannau helaeth o ddyfroedd Cymru, mae'r sector amddiffyn yn rhyngweithio â nifer o ddefnyddwyr morol eraill. Mae'r polisi hwn yn helpu i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi mewn cynigion newydd gan sectorau eraill i'w heffeithiau unigol a chronnol dichonol ar weithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar dir a môr a'u bod yn osgoi neu'n lleihau ymyrraeth. Mae'n diogelu gweithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn rhag ymyrraeth gan ddefnyddwyr eraill a mathau eraill o ddefnydd yn yr amgylchedd morol yn ogystal â gwarchod defnyddwyr rhag peryglon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'n glir bod gweithgareddau sy'n amddiffyn y wlad yn cyfrannu at ddiogelwch a llesiant ei thrigolion ond mae'n amlwg bod peryglon yn gysylltiedig â'r gweithrediadau mewn meysydd tanio i'r rheini sy'n ceisio gwneud eu gwaith ar gyrion yr ardaloedd hyn neu, yn wir, oddi mewn iddynt, hyd yn oed pan na fyddant yn weithredol. Mae sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'u marcio'n glir ar siartiau mordwyo ac maent yn cwmpasu rhannau helaeth o ddyfroedd Cymru a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn.

528. Rhaid sicrhau nad yw gweithgareddau a datblygiadau morol yn amharu ar fuddiannau amddiffyn strategol, yn cynnwys systemau cyfathrebu a mordwyo, nac yn cyfyngu'r defnydd o Ardaloedd Perygl ac Ymarfer dynodedig. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad neu fath o ddefnydd sydd ar ei ben ei hun neu ar y cyd yn rhwystro neu'n atal gweithgareddau amddiffyn fel arall. Er enghraifft, gall rhai gweithgareddau ac adeiladweithiau sefydlog fod yn anghydweddol â gweithgareddau amddiffyn, yn enwedig o fewn Ardaloedd Perygl Tanio

dynodedig. Mae datblygu seilwaith newydd, fel hwnnw ar gyfer y sector olew a nwy ac ynni adnewyddadwy ar y môr gan gynnwys ynni'r gwynt, tonnau a'r llanw, yn gallu arwain at broblemau mordwyo a'r posibilrwydd o amharu ar weithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Yn ogystal â hyn, mae rhai gweithfeydd fel tyrbinau gwynt yn gallu effeithio ar weithgarwch radar sy'n angenrheidiol ar gyfer amddiffyn y wlad.


529. Mae'n bosibl y bydd angen diogelu ardaloedd ychwanegol hefyd. Er enghraifft, mae parthau diogelu ar gyfer rhai cyfleusterau ar y glannau fel meysydd glanio, safleoedd trosglwyddyddion a storfeydd ffrwydron sy'n ymestyn dros yr ardal forol er mwyn rheoleiddio datblygu a all effeithio fel arall ar effeithiolrwydd eu gweithrediadau. Gellir cyfyngu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwely'r môr, fel arferion pysgota penodol, mewn ardaloedd sydd wedi'u defnyddio yn y gorffennol fel safleoedd dympio arfau rhyfel (gweler carthu a gwaredu). Mae tri safle hanesyddol hysbys lle mae arfau rhyfel wedi'u gwaredu oddi ar lannau Aberdaugleddau ac mewn ardaloedd eraill yng nghyffiniau Cilfach Tywyn. Mae ardaloedd o'r fath wedi'u cofnodi'n fanwl ar siartiau'r Morlys ac ar borth cynllunio morol Llywodraeth Cymru.

530. Mae'r polisi hwn yn cydnabod bod rhai gweithgareddau'n gallu cydweddu â gweithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Nid yw meysydd tanio milwrol yn cael eu defnyddio drwy'r amser a, lle bo'n briodol, caniateir gweithgareddau eraill os ydynt yn gyson â gofynion gweithredol. Gellir gosod cyfyngiadau amser ar weithgareddau a ganiateir. Er enghraifft, gellid caniatáu gweithgareddau fel pysgota, mordwyo a defnyddio cychod hamdden yn ystod cyfnodau pan nad yw ardaloedd yn cael eu defnyddio gan y lluoedd arfog, ond gellid gosod cyfyngiadau amser arnynt yn ystod cyfnodau hyfforddi a gweithrediadau. Mae'r sector pysgota a'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cytuno ar god ymddygiad sy'n ceisio datrys anghydfodau sy'n codi o weithgareddau gan y ddwy ochr.

531. Ymgynghorir â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar bob cais am drwyddedu datblygiad arfaethedig yn y môr a all wrthdaro â buddiannau amddiffyn. Dylid hysbysu'r Weinyddiaeth Amddiffyn am gynigion ar gyfer datblygu a defnyddio yn gynnar yn y broses. Ni roddir caniatâd cynllunio, trwydded forol neu fath arall o ganiatâd oni bai fod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'i bodloni na fydd y cynnig yn peri risg annerbyniol i amddiffyn a diogelwch gwladol. Fodd bynnag, os yw'n bosibl, ceisir sicrhau mesurau lliniaru i ymdrin ag unrhyw effeithiau niweidiol a nodwyd er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn cydweddu a bod modd bwrw ymlaen ag ef.

DRAFT

## Ffigur 16: Map polisi – Amddiffyn



## Carthu a gwaredu

### Cyflwyniad

532. Mae carthu a gwaredu yn cynnwys symud deunydd o un ardal o wely'r môr ac adleoli'r deunydd a gloddiwyd mewn man arall i'w waredu. Mae'r rhan fwyaf o garthu a gwaredu morol yn cael ei chyflawni ar gyfer mordwyo llongau a datblygu porthladdoedd sydd eisoes yn bod a rhai a ddatblygir yn y dyfodol, er bod modd ei gyflawni hefyd i hwyluso gwaith arall yn y môr ee creu seiliau tanddwr neu amddiffyn rhag llifogydd. Yn hyn o beth, mae'n wahanol i garthu agregau sy'n cael ei gyflawni'n bennaf er mwyn cael deunydd a fydd yn adnodd economaidd.

533. Mae carthu'n hanfodol ar gyfer datblygu cymdeithasol ac economaidd, gan ei fod yn ategu'r gwaith o adeiladu a chynnal llawer o'r seilwaith arfordirol y mae ein llesiant yn dibynnu arno. Mae'r sector porthladdoedd a morgludo yn ddibynnol iawn ar garthu a gwaredu ar gyfer mordwyo llongau'n ddiogel drwy sianeli cyfyng. Felly mae'n cael ei ystyried yn weithgarwch hanfodol ar gyfer gweithrediad effeithlon y sector porthladdoedd a morgludo [gweler **Porthladdoedd a Morgludo**] ac mae'n hybu ac yn ategu sectorau eraill o bob math yn ei dro.

534. Gall gweithgareddau carthu morol gynnwys:

- Carthu cyfalaf (gwaith newydd neu ardaloedd sydd heb eu carthu'n gymharol ddiweddar, o fewn y deng mlynedd diwethaf fel arfer) sef helaethu neu ddyfnhau sianeli ac ardaloedd porthladd presennol neu greu rhai newydd, i ganiatáu mynediad gan longau mwy fel arfer, darparu cyfnodau llanw hirach neu ddarparu mannau pasio mewn sianeli cul. Mae gwaith cyfalaf hefyd yn cynnwys carthu i ddibenion peirianyddol fel torri ffosydd ar gyfer pibellau neu geblau, symud deunydd sy'n anaddas ar gyfer sylfeini neu orlwythi o agregau, twneli tiwbiau tanddwr, neu i ddibenion hydrolig i gynyddu'r llif mewn dyfrffordd.
- Carthu cynnal yw cynnal sianeli, angorfeydd neu adeiladweithiau etc. yn rheolaidd dros y tymor hir yn eu dimensiynau bwriedig, i wrthweithio gwaddodi neu newidiadau mewn morffoleg. Cyflawnir gwaith carthu mordwyol o'r math hwn o fewn ardaloedd dynodedig Awdurdod Harbwr Statudol (AHS) [gweler **Porthladdoedd a Morgludo**, Ffigur 21b], harbyrau llai a marinâu, a sianeli dynesu – a'r lleoliadau ac amseriadau'r gwaith yn dibynnu ar angen. Mae'r AHS yn cadw cofnodion o leoliadau gweithgareddau carthu ac o'r mannau gwaredu.
- Carthu amgylcheddol a gyflawnir i gryfhau ecosystemau mewn gwahanol ffyrdd. Gellir defnyddio deunyddiau a garthwyd i greu neu adfer cynefinoedd, neu ar gyfer cynlluniau ailgyflenwi traethau sydd wedi'u bwriadu i atal neu leihau'r tebygolrwydd o erydu neu lifogydd. Mae maethu traethau yn ddull "peiriannu meddal" sy'n gweithio gyda natur ac sy'n ddewis pwysig yn lle dulliau sy'n cynnwys adeiladweithiau sydd yn aml yn fwy drud . Enghraifft arall yw mentrau ar gyfer symud gwaddodion halogedig a fydd yn gwella ansawdd dŵr ac yn cryfhau ecosystemau. Mae'n bosibl i garthu amgylcheddol ar raddfa fawr gynnig nifer o fuddion i gymunedau ac ecosystemau arfordirol.

DRAFT

535. Mae gwaredu deunydd a garthwyd (o garthu mordwyol neu amgylcheddol) yn cynnwys dyddodi i ddibenion llesol (ee maethu traethau) a safleoedd gwaredu yn y môr mewn ardaloedd trwyddedig o wely'r môr. Gall y deunydd a garthwyd fod yn adnodd gwerthfawr a rhoddir blaenoriaeth, lle bynnag y bo modd, i ailddefnyddio'r deunydd i gynnal ecosystemau cydnerth, fel deunydd adeiladu mewn prosiectau, mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd, i adfer tir ac i faethu traethau. Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol ei waredu ar dir.

536. Gellir dyddodi'r deunydd yn y môr mewn lleoliadau diffiniedig mewn ardaloedd trwyddedig o wely'r môr yn unig. Gall safleoedd gwaredu fod yn rhai sy'n agored (ac un ai'n weithredol neu'n segur (hy heb gymryd deunydd am 5 mlynedd)) neu wedi cau (hy heb eu defnyddio am >10 mlynedd). Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd safleoedd wedi'u cau un ai am fod gweithgareddau gwaredu wedi dod i ben neu am fod safleoedd newydd wedi'u sefydlu sydd ymhellach o'r lan fel arfer. Wrth bennu safleoedd gwaredu newydd, dilynir proses pennu nodweddion sy'n ystyried nodweddion amgylcheddol a dichonolrwydd economaidd a gweithredol. Ar gyfartaledd, rhwng 2010 a 2015 gwaredwyd 1.73mt (amrediad: 1.43 – 1.98mt) o ddeunydd carthu sych mewn safleoedd gwaredu trwyddedig o gwmpas glannau Cymru

### Cyfraniad carthu a gwaredu i'r economi

Mae'r sector carthu a gwaredu yn gyflogwr cymharol fach ac mae'r gwerthoedd a briodolir iddo'n uniongyrchol yn fach. Prif bwysigrwydd y gweithgarwch yw ei berthynas â'r sector porthladdoedd a morgludo, gan y byddai gweithrediadau'r sector hwnnw wedi'u cyfyngu'n fawr oni bai am waith carthu a gwaredu. Mae'r galw mwyaf am waredu morol yn codi o ganlyniad i weithrediadau carthu morol, er bod enghreifftiau eraill sy'n llai cyffredin (ee gwaredu cregyn moch yng Ngheinewydd) lle mae gwaredu yn y môr yn rhoi budd economaidd i fusnesau o'i gymharu â dewisiadau mwy drud.

Mae'r llongau sy'n cyflawni'r gwaith carthu yn ymwneud yn aml hefyd â gweithrediadau gwaredu. Nifer bach sy'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol yn unswydd i gyflawni'r gwaith hwn. Yn ogystal â hynny, mae gweithrediadau carthu'n cael eu cyflawni'n gyfnodol ac yn cael eu cynllunio ymlaen llaw, felly mae'r nifer bach o longau pwrpasol sydd dan sylw yn rhannu gwaith mewn rhannau eraill o'r DU fel ei bod yn anodd priodoli gwerthoedd yn uniongyrchol i Gymru.

Mae Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru wedi cyfrifo mai Gwerth Ychwanegol Gros y sector carthu a gwaredu oedd £872,209 ar gyfer 2013/14 ac wedi rhagamcanu Gwerth Ychwanegol Gros o £1,282,070 ar gyfer 2032/33 (mae carthu yn cynnwys gwaredu yn y môr). Y tunelledd sy'n cael ei waredu yn y môr bob blwyddyn ar gyfartaledd yw 1.73mt.

DRAFT

## Y rhyngweithio presennol a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol â sectorau eraill

537. Mae carthu a gwaredu yn hanfodol i sicrhau mynediad mordwyol diogel ac effeithlon i borthladdoedd, harbyrau a rhai marinâu; mae cydberthynas yn aml rhwng gweithgareddau yn y sectorau hyn, ee mae ehangu porthladd yn aml yn galw am garthu cyfalaf. Mae carthu a gwaredu yn cynnal datblygu economaidd a chymdeithasol, yn bennaf drwy ategu'r gweithgareddau mordwyol sy'n gysylltiedig â nifer o sectorau gan gynnwys sectorau porthladdoedd a morgludo, twristiaeth a hamdden, agregau, pysgota, dyframaethu ac ynni'r môr. Fodd bynnag, o ran gweithgareddau o ddydd i ddydd, mae gweithrediadau carthu a gwaredu cyfnodol ar gyfer cynnal yn cael effaith fach iawn ar y rhan fwyaf o sectorau eraill gan ei fod yn weithgarwch achlysurol sy'n parhau am gyfnodau byr.

538. Mae effeithiau lleol sy'n gysylltiedig ag ecosystemau yn gallu creu goblygiadau i sectorau eraill ee mewn cysylltiad â dosbarthiad ac argaeledd pysgod a gweithgarwch dyframaethu. Gellir cael rhyngweithio â gweithgareddau carthu agregau (lle gall ansawdd yr adnodd ddirywio drwy halogi gan rwbel o garthu), a seilwaith sy'n gysylltiedig â cheblau, piblinellau ac ynni adnewyddadwy yn y môr mawr a bydd hyn yn cael ei ystyried drwy'r prosesau trwyddedu perthnasol. Bydd gweithgareddau carthu ger y lan yn gallu cael effaith dros dro ar gyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden. Gall gwaith cyfalaf fod yn fwy dwys yn ôl natur y datblygiad cysylltiedig ac felly gall arwain at fwy o ryngweithio â sectorau.

539. Mae gweithgarwch carthu yn gallu datguddio deunydd o ddiddordeb hanesyddol neu ddod ag ef i wyneb y môr. Mae'r diwydiant yn awyddus i gadw treftadaeth forol a gwella dealltwriaeth ac mae wedi datblygu codau ymarfer ar y cyd â buddiannau archeolegol (gweler yr adran Agregau) a gellir gweithredu system monitro drwy'r broses trwyddedu.

540. Gall safleoedd gwaredu ryngweithio â nifer o sectorau gwahanol ond mae hyn yn gymharol gyfyngedig gan fod eu hôl troed yn fach fel arfer ac am fod nifer y safleoedd gwaredu gweithredol yn nyfroedd Cymru yn fach. Nid yw safleoedd dympio ffrwydron ar gael ar gyfer gwaredu ond mae eu presenoldeb yn gallu cyfyngu'r defnydd o ofod morol gan sectorau eraill felly gall hyn fod yn ystyriaeth bwysig.

## Rhyngweithio ag ecosystemau

541. Gellir cael cysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol a gweithgareddau carthu (cloddio, cludo a gwaredu). Mae gweithrediadau carthu yn achosi aflonyddu lleol ar wely'r môr yn y man gweithredu. Bydd yr effaith o weithrediadau carthu ar ecosystemau'n dibynnu i raddau helaeth ar gyfansoddiad a lleoliad y gwaddod; bydd yr effeithiau o weithrediadau gwaredu yn dibynnu ar natur y deunydd a waredir, lleoliad a nodweddion y safle gwaredu ac unrhyw fesurau lliniaru sydd ar waith. Mae deunydd o wely'r môr yn gallu cael ei ddal yn y dŵr a'i wasgaru'n fwy eang yn ôl cyfansoddiad y gwaddod ac amodau amgylcheddol. Gellir cael metelau a/neu halogion eraill mewn gwaddod a garthir, yn ôl hanes diwydiannol y safle, a bydd y rhain yn cael eu symud yn y rwbel carthu neu gallent gael eu hysgogi a chreu effeithiau lleol ar ecosystemau.

542. Gall yr effeithiau ar gydnerthedd ecosystemau fod yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn rhai tymor byr neu dymor hir a gallant gynnwys effeithiau ar y canlynol, ymysg pethau eraill:
    - ansawdd dŵr, ee crynodiadau mwy o solidau mewn dŵr a'r posibilrwydd o ryddhau halogion wrth garthu neu waredu; trwytholchi halogion o safleoedd gwaredu;
    - cynefinoedd a rhywogaethau, ee gwella neu greu cynefinoedd, symud neu ddinistrio benthos, gorchuddio; a / neu
    - bathymetreg neu dopograffeg a phrosesau ffisegol, ee tonnau, cerhyntau, neu ddraenio ac felly erydu a gwaddodi.

543. Mewn rhai ardaloedd, mae carthu a gwaredu rwbel yn gallu aflonyddu'n fawr ar gymunedau ar waelod y môr ac felly ar gydnerthedd ecosystemau. Fodd bynnag, mae astudiaethau wedi dangos bod cymunedau'n gallu ymadfer ar ôl gwaredu deunydd a garthwyd, a bod amgylcheddau dan fwy o straen yn ymadfer yn gynt nag ardaloedd cymharol ddi-straen fel arfer. Dylid ystyried natur yr amgylchedd ffisegol ar y cyd â statws (a rôl) y cymunedau cysylltiedig ar waelod y môr wrth bennu gallu'r ecosystem i wrthsefyll effeithiau dichonol.

544. Er bod cynlluniau ail-lenwi yn y rhynglanw yn gallu rhoi buddion hirdymor, yn cynnwys gwella a diogelu'r amgylchedd, mae'r weithred o osod deunydd ar ben cynefinoedd rhynglanw presennol yn gallu achosi'r un effeithiau tymor byr ag a welir ym mhob gweithrediad gwaredu, a'r rheini'n gysylltiedig fel arfer â gorchuddio a dal mwy o solidau mewn dŵr.

## Y dyfodol

545. Mae maint y deunydd a garthir sy'n cael ei waredu yn y môr wedi aros yn gymharol gyson dros yr 20 mlynedd diwethaf a gwelwyd gostyngiad bach yn y duedd wrth i weithredwyr geisio lleihau costau rheolaidd. Mae cysylltiad uniongyrchol gan amlaf rhwng yr angen am waredu deunydd a garthir yn y môr a gweithgarwch y sector porthladdoedd, a bydd pen draw i allu gweithredwyr i leihau eu hanghenion am garthu cynnal. Oherwydd hyn, ynghyd â'r cynnydd ym maint a dyfnder llongau a'r cyfleoedd i ehangu porthladdoedd, mae'n ymddangos yn debygol y bydd lefel y carthu cynnal yn parhau neu'n codi i raddau cymharol fach. Yn gyffredinol, mae carthu a gwaredu yn cael ei ystyried yn swyddogaeth barhaus lle nad oes fawr o angen am ehangu helaeth neu welliant technolegol. Rhaid i'r ddarpariaeth ar gyfer mordwyo gadw'n wastad ag anghenion morgludiant er mwyn hybu a chynnal economïau lleol, cenedlaethol a rhanbarthol.

## Y newid yn yr hinsawdd

546. Byddai'r newid yn yr hinsawdd yn gallu arwain at fwy o stormydd, llifogydd ac erydu arfordirol, a fyddai'n gallu arwain yn eu tro at newid y llwythi gwaddodion a dosbarthiad gwaddodion mewn aberoedd ac ardaloedd arfordirol: gallai hyn alw am newidiadau mewn gweithgarwch carthu a gwaredu.

DRAFT

## Anghenion allweddol am dystiolaeth

547. Nodi cyfleoedd i leihau'r anghenion am waredu, a mwyhau'r defnydd llesol o ddeunydd/rwbel a gloddir.

## Llywodraethu

548. Mae rheoleiddio carthu a gwaredu yn fater a ddatganolwyd yn rhanbarth y glannau yn y cynllun, lle mae'r holl weithgarwch carthu a gwaredu yn digwydd ar hyn o bryd.

549. Mae'r prif awdurdodau penderfynu a chynghori'n cynnwys: Llywodraeth Cymru, CNC, Ystad y Goron, Awdurdodau Harbwr Statudol; Cefas; JNCC (ymhellach na 12mf o'r lan).

550. O dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, er mwyn ymgymryd â gweithrediadau carthu a gwaredu, mae'n ofynnol cael trwydded forol gan Wasanaeth Caniatáu CNC. Wrth ystyried cais am drwydded, rhoddir sylw i amrywiaeth o faterion a gosodir amodau perthnasol a phriodol er mwyn lleihau effeithiau ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae rhai Awdurdodau Harbwr Statudol wedi'u hesemptio o dan adran 75 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir os ydynt yn arfer pwerau i ganiatáu eu gweithrediadau eu hunain ar gyfer carthu mordwyol neu waredu neu garthu deunyddiau o dan Ddeddf Leol neu Ddeddf Harbyrau 1964 (fel y'i diwygiwyd). Lle mae gweithrediad carthu penodol neu waredu deunydd a garthwyd wedi'i awdurdodi eisoes gan ddeddfwriaeth o'r fath, nid yw'n ofynnol iddynt gael trwydded forol hefyd ar gyfer carthu (neu waredu os yw'r awdurdodau perthnasol wedi'u bodloni nad yw'r deunydd yn wastraff peryglus) o fewn ardal awdurdodaeth y Gorchymyn Harbwr perthnasol. Ym mhob achos arall, mae'n ofynnol cael trwydded forol ar gyfer carthu a gwaredu yn y môr, lle bydd yr Awdurdod Harbwr Statudol yn datgelu lleoliad y gweithrediadau carthu a chyfansoddiad y deunydd a garthir. Mae'r broses o benderfynu ar drwydded forol ar gyfer carthu a/neu waredu yn ddull effeithiol o asesu'r effeithiau dichonol ar yr amgylchedd o ganlyniad i garthu a gwaredu deunydd a garthwyd yn y môr.

551. Bydd penderfyniadau ar addasrwydd deunydd a garthwyd i'w ailddefnyddio neu ei waredu yn y môr yn ddarostyngedig i asesiad rheoleiddio er mwyn lleihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, iechyd dynol a mathau cyfreithlon o ddefnydd o'r môr. Gwneir asesiadau er mwyn pennu nodweddion ffisegol, cemegol a biolegol y deunydd a garthir yn ei ffynhonnell ac ar y safle ar gyfer ei ailddefnyddio neu ei waredu.

552. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau carthu yn digwydd mewn ardaloedd cymharol fas ger y glannau tra bydd gweithrediadau gwaredu yn digwydd ymhellach o'r lan. Lle bo'n briodol, rhaid iddynt ystyried goblygiadau trawsffiniol, yn enwedig ym Môr Hafren ac Aber Dyfrdwy, lle mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn dilyn y llinell ganol.

553. Darparwyd canllawiau sy'n rheoli gweithrediadau gwaredu yn y môr o dan Gonfensiynau Oslo a Pharis (OSPAR) a Llundain. O dan y rhain, mae llofnodwyr (yn cynnwys Cymru fel rhan o'r datganiadau gan y DU) yn darparu adroddiadau

DRAFT

blynyddol am leoliadau a meintiau deunydd a garthwyd sydd wedi'i waredu yn y môr a manylion unrhyw halogion cemegol yn y deunydd a garthwyd. O dan Gonfensiwn OSPAR, mae'n ofynnol adrodd am drwyddedau a roddwyd a meintiau deunydd a garthwyd sydd wedi'u dyddodi, ynghyd â'r halogion cysylltiedig, a lleoliadau'r safleoedd gwaredu. Mae Cefas yn casglu data ar gyfer y DU oddi wrth Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ac yn eu cyflwyno i Gomisiwn OSPAR ar ran y DU.

## Amcan y Sector

| | |
|---|---|
| Cynnal mynediad mordwyol diogel ac effeithiol ar gyfer llongau, cychod pysgota a hamdden a hybu twf yn y dyfodol a chynnydd yng nghyfleusterau porthladdoedd a meintiau llongau gan hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy gorau posibl o ddeunydd a garthwyd a sicrhau bod cyfleusterau digonol ar gael ar gyfer gwaredu deunydd. | |

## Polisi'r sector carthu a gwaredu a chanllawiau ar weithredu

554. Mae polisi'r sector carthu a gwaredu yn gymwys i ranbarth y glannau a'r rhanbarth môr mawr yn ardal y cynllun. Fodd bynnag, nid oes unrhyw weithgarwch carthu neu waredu yn y rhanbarth môr mawr ar hyn o bryd.

555. Mae'r DPM yn cydnabod bod carthu a gwaredu yn hanfodol i sicrhau bod y sector porthladdoedd a morgludo yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r maes hwn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rhoddir anogaeth i wneud defnydd llesol o ddeunydd a garthwyd.

556. Rhoddir anogaeth i wneud defnydd llesol o ddeunydd a garthwyd. Yn unol â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, dylai awdurdodau perthnasol gymhwyso'r hierarchaeth gwastraff. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod ymgeisydd am drwydded forol yn rhoi sylw i argaeledd ymarferol dulliau amgen o waredu neu drin deunydd (heblaw ei waredu yn y môr) wrth benderfynu a roddir trwydded. Felly rhaid dangos mewn ceisiadau am waredu pob math o wastraff (yn cynnwys deunydd a garthwyd) neu ddeunydd arall fod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i'r opsiynau yn yr hierarchaeth rheoli gwastraff a gytunwyd yn rhyngwladol ar gyfer gwaredu yn y môr. Dylid gwerthuso'r holl opsiynau ar gyfer ailddefnyddio deunydd a garthwyd mewn ffordd lesol ym mhob cynnig. Mae dichonolrwydd y gweithrediad yn ystyriaeth bwysig wrth asesu'r potensial ar gyfer ffyrdd llesol o ddefnyddio deunydd. Ni ddylid gwaredu gwastraff yn y môr os oes dewis diogel ac ymarferol arall.

557. Mae'n bosibl y bydd modd gwaredu deunydd o fewn y system y mae wedi codi ohoni ac mai hwn fydd yr ateb gorau posibl. Mae systemau sy'n cludo gwaddodion morol yn cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau naturiol a'u gweithrediadau priodol. Dylid parchu eu rôl mewn prosesau arfordirol lle bynnag y

DRAFT

bo modd a dylid ystyried ffyrdd cynaliadwy o adleoli deunyddiau a gloddiwyd fel dewis cyntaf.

558. Wrth ddewis safleoedd newydd ar gyfer gwaredu, dylid sicrhau na fydd y broses o ddyddodi deunyddiau'n ymyrryd i raddau arwyddocaol â mathau masnachol ac economaidd cyfreithlon o ddefnydd o'r amgylchedd morol, neu'n lleihau eu gwerth, neu'n arwain at effeithiau niweidiol arwyddocaol ar gydnerthedd ecosystemau.

559. Mae Confensiwn OSPAR a Phrotocol Llundain yn darparu canllawiau cydategol ar gyfer rheoli gweithrediadau carthu deunyddiau, yn cynnwys pennu nodweddion y deunydd, penderfynu ar ffyrdd eraill o'i ddefnyddio, dewis safleoedd gwaredu, asesu effeithiau dichonol ar yr amgylchedd a monitro. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol osod amodau priodol ar drwyddedau i sicrhau bod gwaddodion yn cael eu dadansoddi'n ddigon aml i gydymffurfio â gofynion OSPAR. Dylid samplu gwaddodion bob 3 blynedd oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dangos y dylid gwneud fel arall.

560. Wrth ystyried opsiynau addas ar gyfer rheoli, yr opsiwn a ffefrir fel arfer yw cadw'r deunydd a garthwyd o fewn y system y cododd ohoni, os yw gwneud hynny'n ymarferol o safbwynt amgylcheddol, technegol, cymdeithasol ac economaidd. Yr ardaloedd a ffefrir ar gyfer gwaredu yw'r rheini sydd â hanes hir o'u defnyddio a/neu'r rheini y pennwyd bod eu nodweddion yn addas ar gyfer gwaredu deunydd a garthwyd yn unol â Phennod 6 o'r canllawiau ar asesu deunydd a garthwyd[35] (*"Waste Assessment Guidelines under the London Convention and Protocol: 2014 edition"*). Drwy leihau'r pellter rhwng lleoliadau carthu a lleoliadau ailddefnyddio/gwaredu, gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd a hybu datblygu cynaliadwy.

561. Dylid pennu gweithdrefnau ymgeisio newydd ar gyfer safleoedd gwaredu a gaewyd ac nid ydynt wedi'u nodi i ddibenion y cynllun hwn.

562. Bydd angen i gynigion am waredu deunydd nas carthwyd yn yr ardal forol (ee gwastraff pysgod) gael eu hystyried yn ofalus gan awdurdodau cyhoeddus. Ni ddylid cefnogi gweithgareddau gwaredu newydd oni bai fod modd dangos mewn ceisiadau amdanynt nad oes opsiwn arall ar gyfer defnyddio'r deunydd gwastraff, bod modd pennu safle addas ar gyfer gwaredu yn y môr (drwy astudiaeth sy'n pennu nodweddion y safle) ac nad ydynt yn groes i'r amcanion a pholisïau eraill yn y cynllun hwn.

563. **Mae'r [Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau] yn gymwys.**

564. Dylid ystyried y polisïau ar sectorau yn y cynllun hwn ochr yn ochr â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol sydd yn y cynllun hwn, nodau llesiant Cymru ac

---

[35] *Waste Assessment Guidelines under the London Convention and Protocol: 2014 edition,* http://www.imo.org/Publications/Pages/Home.aspx); the OSPAR Guidelines for the Management of Dredged Material at Sea – Agreement 2014-06, www.ospar.org/documents?d=34060



DRAFT

egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn bwysig bod y broses ymgeisio am awdurdodiad yn cymhwyso'r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy'n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau eraill lle maent wedi'u pennu). Dylid darparu tystiolaeth sy'n ymwneud â pholisïau perthnasol i hwyluso penderfyniadau. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn gosod canllawiau ar gyfer cynigion a phenderfyniadau (ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill); nid ydynt yn dileu'r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol.

## Polisi cefnogi

| **D&D_01: Carthu a gwaredu (cefnogi)** |
|---|
| Anogir cyflwyno cynigion sy'n cadw sianeli mordwyadwy a mynediad hirdymor i safleoedd agored ar y môr ar gyfer gwaredu deunydd priodol. |

## Canllawiau ar weithredu polisi cefnogi

565. Mae polisi **D&D_01** yn ceisio rhoi hyder i'r sector porthladdoedd a morgludo y gellir sefydlu sianeli mordwyadwy priodol a'u cynnal fel eu bod yn addas. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol gydweithio i sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer mynediad i borthladdoedd a safleoedd gwaredu. Dylid ystyried sicrhau awdurdodiadau tymor hwy ar gyfer gweithgareddau carthu cynnal lle gellir darparu tystiolaeth ddigonol i ddangos bod gweithrediadau rheolaidd yn gynaliadwy.

566. Lle rhagwelir effeithiau a all achosi niwed arwyddocaol, dylid rhoi technegau rheoli ar waith, lle bo modd, i ddelio â phroblemau dichonol. Ar ôl hynny, bydd angen pennu a gweithredu mesurau ymarferol a chost-effeithiol ar gyfer cydbwyso neu liniaru unrhyw effeithiau gweddilliol. O gael arferion rheoli a mesurau lliniaru effeithiol, gwelir yn aml fod modd lleihau effeithiau a fyddai'n gallu bygwth hyfywedd cynllun neu fenter benodol fel arall i lefel dderbyniol, neu eu hosgoi'n gyfan gwbl.

567. Anogir datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i dyfu'r sector mewn ffordd gynaliadwy.

568. **Wrth baratoi cynigion sy'n gysylltiedig â charthu a gwaredu, dylai datblygwyr gymhwyso'r polisïau diogelu perthnasol ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn.**

DRAFT

## Polisïau diogelu

Ym mhob cynnig (yn cynnwys cynigion newydd gan y sector carthu a gwaredu) a all effeithio ar weithgareddau carthu a gwaredu presennol neu arfaethedig neu rai dichonol yn y dyfodol, dylid cymhwyso'r polisïau canlynol ar gyfer diogelu carthu a gwaredu.

**D&D_02: Carthu a gwaredu (diogelu)**
Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad ar gyfer:

- carthu ar gyfer mordwyo; neu
- waredu deunydd a garthwyd yn y môr;
-

oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch carthu neu waredu sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

DRAFT

**D&D_03: Carthu a gwaredu (diogelu)**
Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd sy'n cael eu harchwilio ar gyfer carthu cyfalaf neu bennu nodweddion safleoedd gwaredu oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch agregau sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar yr ardaloedd sy'n cael eu harchwilio; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.


## Canllawiau ar weithredu polisïau diogelu

569. Mae’r polisïau diogelu hyn yn helpu i reoli’r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol neu arfaethedig neu rai dichonol yn y dyfodol gan y sector carthu a gwaredu. Mae polisi **D&D_02** yn darparu amddiffyniad i safleoedd carthu (ac felly i ardaloedd sy’n bwysig ar gyfer mynediad gan drafnidiaeth) a safleoedd gwaredu sydd wedi’u dynodi neu y gwnaed cais ffurfiol amdanynt. Mae polisi **D&D_03** yn cynnig amddiffyniad lle mae gwaith archwilio’n cael ei wneud i bennu nodweddion y safle cyn gwneud cais. Ym mhob achos, mae’r polisi’n cydnabod y gwaith a’r buddsoddi sydd eu hangen i bennu safleoedd priodol a gwneud cais am drwydded gan fod y broses hon yn gallu bod yn hir a chostus i ddatblygwyr, yn enwedig lle nad oes llawer o opsiynau eraill. Mae polisïau’n diogelu’r sector drwy sicrhau, lle bynnag y bo modd, na fydd cynigion yn cael effeithiau niweidiol ar weithgareddau carthu a gwaredu neu y bydd yr effeithiau hynny’n cael eu lleihau neu eu lliniaru’n effeithiol.

570. Gellir delio ag effeithiau drwy osod cyfyngiadau amser ar fynediad yn ystod gwaith carthu neu waredu, a thrwy gladdu neu newid llwybrau seilwaith (ee ceblau, piblinellau) i osgoi rhyngweithio â gweithrediadau carthu a gwaredu.

DRAFT

## Ffigur 17: Map polisi – Carthu a gwaredu



## Ynni – Carbon isel

### Cyflwyniad

571. Mae'r sector hwn yn ymwneud â cynhyrchu ynni adnewyddadwy morol (o'r gwynt, tonnau a'r llanw) a gweithgarwch cysylltiedig. Ni ellir anwybyddu'r angen parhaus am gyflenwad ynni a'r angen i newid i economi carbon isel; rhaid rheoli ein defnydd o ynni'n ofalus ond mae'n glir nad yw'r galw'n debygol o leihau'n sylweddol hyd y gellir rhag-weld. Felly mae Cymru wedi ymrwymo i droi'n economi carbon isel gynaliadwy.

572. Mae'r adnoddau ynni morol o gwmpas Cymru yn cynnig cyfle unigryw i gynhyrchu meintiau sylweddol o ynni adnewyddadwy gan sefydlu marchnadoedd newydd a darparu swyddi newydd. Ein nod yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru drwy sicrhau bod y newid i economi carbon isel yn cyfrannu at greu dyfodol sy'n fwy cyfoethog, yn fwy cydnerth ac yn gynaliadwy. Drwy gynhyrchu mwy o ynni drwy dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel, cyfrennir at ddiogelu'r cyflenwad ynni, lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr, cynnal cydnerthedd ecosystemau a sbarduno buddsoddi mewn swyddi a busnesau. Mae rhan bwysig i'w chwarae gan gynllunio morol drwy helpu i sicrhau seilwaith newydd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel.

573. Mae gan Gymru adnoddau naturiol ar gyfer cynhyrchu ynni morol sy'n sylweddol ac yn cael eu hailgyflenwi'n gyson. Os cânt eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy, bydd ein hadnoddau helaeth ar gyfer ynni'r gwynt, tonnau a'r llanw yn gallu chwarae rhan bwysig mewn cwrdd ag anghenion ynni cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Nodwyd bod potensial sylweddol am dwf cynaliadwy yn y sector ynni adnewyddadwy morol (carbon isel) yn ystod oes y cynllun hwn ac felly mae'n flaenoriaeth strategol ar gyfer cynllunio morol.

574. Ar hyn o bryd, ynni gwynt ar y môr yw'r ffynhonnell fwyaf o drydan adnewyddadwy morol yng Nghymru ond mae technolegau ynni'r tonnau a'r llanw hefyd yn cynnig potensial sylweddol yn y tymor canolig a hir. Mae'r parthau arddangos a ddyfarnwyd i ddatblygwyr gan Ystad y Goron oddi ar lannau de sir Benfro (ynni'r tonnau) a gorllewin Ynys Môn (ynni ffrwd lanw) yn cynnig cyfle da i ddatblygwyr ddefnyddio, mireinio ac arddangos eu technolegau cyn ehangu prosiectau i ardaloedd adnoddau ehangach ar raddfa fasnachol, os bydd eu profion yn llwyddiannus. Mae'r gweithgarwch presennol a'r potensial yng Nghymru yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Gwynt ar y Môr:** | Ceir adnoddau gwynt helaeth iawn yng Nghymru a all fod yn addas. Mae tri datblygiad ynni gwynt ar y môr ar raddfa fasnachol yng Ngogledd Cymru sy'n cynhyrchu cyfanswm o 726 MW **[Ffigur 18c].** |
| **Amrediad Llanw:** | Ceir amrediad llanw sylweddol yn nyfroedd Cymru sy'n Adnodd naturiol o bwysigrwydd strategol. Mae nifer o gysyniadau dechreuol ar gyfer môr-lynnoedd llanw ar |



DRAFT

wahanol gamau yn y broses o ystyried eu dichonolrwydd o gwmpas arfordir Cymru, yn cynnwys cynnig rhwng Caerdydd a Chasnewydd sydd ar gam cynllunio cyn ymgeisio ffurfiol a chynnig ffurfiol ar gyfer Morlyn Llanw Bae Abertawe.

**Ffrwd Lanw:** Mae adnoddau ffrwd lanw sylweddol mewn nifer o rannau o ddyfroedd glannau Cymru, yn bennaf lle mae llifau dŵr wedi'u cyfyngu, ee o gwmpas pentiroedd ar yr arfordir. Sefydlwyd parth arddangos oddi ar lannau Ynys Môn ac mae nifer o brosiectau cyfnod arddangos wedi cyrraedd y cam cynllunio neu ddatblygu.

**Tonnau:** Ceir adnoddau tonnau helaeth, yn enwedig ar arfordir agored de-orllewin Cymru, ar y glannau ac yn y môr mawr. Er bod hyn yn cynnig cyfle sylweddol, mae technoleg ynni tonnau mewn cyfnod cynnar yn ei datblygiad. Sefydlwyd parth arddangos oddi ar lannau sir Benfro.

**Niwclear:** Er bod ynni carbon isel yn cynnwys ynni niwclear, mae'r rhan fwyaf o'r datblygu ar ei gyfer ar y tir ac mae'n cael ei gynllunio ar y sail honno. Mae'r seilwaith ar gyfer rhai gorsafoedd pŵer niwclear arfordirol yn yr amgylchedd morol. Roedd Gorsaf Pŵer Niwclear Wylfa (490 MW ar y mwyaf) yn Ynys Môn yn gweithredu rhwng 1971 a 2016 ac mae'n bosibl y caiff gorsaf bŵer newydd ei hadeiladu yn Wylfa yn y dyfodol.

### Cyfraniad ynni carbon isel morol i'r economi

Gwerth Ychwanegol Gros ynni carbon isel morol ar gyfer 2013/14 yw £127,181,650, ac mae 1149 o bobl wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y sector a 862 ychwanegol wedi'u cyflogi'n anuniongyrchol ganddo.

Ym Mawrth 2015, cyhoeddodd Marine Energy Pembrokeshire[36] yr allbynnau o arolwg o gyfraniad economaidd y sector ynni morol yng Nghymru, ar gyfer ynni tonnau, ffrwd lanw ac amrediad llanw. Roedd hyn yn dangos bod datblygwyr technolegau a phrosiectau wedi gwario £34.5 miliwn, gan greu 99 o flynyddoedd cyflogaeth person (neu 174 ar ôl cynnwys ymchwil academaidd yng Nghymru). Mae'r ffigurau'n awgrymu bod pob £10 miliwn a fuddsoddir mewn ynni tonnau a ffrwd lanw yn creu Gwerth Ychwanegol Gros yng Nghymru o £2.5 miliwn a 75 o flynyddoedd cyflogaeth person (ar ôl cynnwys effeithiau uniongyrchol ac effeithiau ar y gadwyn gyflenwi ac aelwydydd).

## Y rhyngweithio presennol a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol â sectorau eraill

575. Mae natur y rhyngweithio rhwng y diwydiant ynni carbon isel morol a defnyddwyr eraill y môr yn dibynnu ar y math o ddyfais, ei maint a'i lleoliad a nodweddion gweithgareddau morol eraill. Gall y rhyngweithio fod yn gadarnhaol neu'n negyddol. Disgwylir rhyngweithio cadarnhaol sylweddol â gweithgareddau gweithgynhyrchu, adeiladu, cynnal a phorthladdoedd a harbyrau. Yng Nghymru ceir porthladdoedd môr dwfn mewn lleoliadau strategol a sylfaen gweithgynhyrchu sefydledig sy'n cefnogi twf y sector.

576. Byddai datblygu ynni adnewyddadwy morol yn gallu effeithio ar sectorau morol allweddol, yn cynnwys mordwyo (pob math o gychod a llongau), pysgota, agregau, y Weinyddiaeth Amddiffyn ac olew a nwy. Mae'n bosibl hefyd y ceir rhyngweithio â gweithgareddau twristiaeth a hamdden a dyframaethu, yn ôl y math o dechnoleg. Os cynigir datblygiadau ynni o fewn ardaloedd y Weinyddiaeth Amddiffyn, gallent wynebu cyfyngiadau yn ôl natur y dyfeisiau a'r defnydd penodedig o barth y Weinyddiaeth Amddiffyn, ee ymyrraeth gan dyrbinau gwynt â radar a chyfathrebu. Datblygiadau ynni gwynt ar y môr, tonnau a llanw a fyddai'n fwyaf tebygol o achosi rhyngweithio allweddol y byddai angen ei ystyried yng nghyswllt morgludo, pysgota, y Weinyddiaeth Amddiffyn ac ardaloedd adnoddau dichonol ar gyfer agregau.

577. Os sefydlir môr-lynnoedd llanw, byddent yn brosiectau ar raddfa fawr mewn dyfroedd ger y glannau a gallent ryngweithio'n helaeth â nifer o sectorau eraill. Byddai môr-lynnoedd llanw yn newid natur yr ardal ac felly'r defnydd dichonol

[36] http://www.marineenergywales.co.uk/wp-content/uploads/2016/03/Marine-Energy-in-Wales-Investment-Jobs-Supply-Chain-2015-m.pdf

DRAFT

ohoni yn y dyfodol. Gallent gyfyngu ar weithgareddau sefydledig yn ogystal â rhwystro cyfleoedd newydd. Byddent hefyd yn gallu ategu / hyrwyddo gweithgareddau sefydledig a hwyluso cyfleoedd newydd. Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng ardaloedd dichonol ar gyfer môr-lynnoedd llanw ac Ardal Adnoddau Strategol ynni ffrwd lanw de Cymru, lle mae astudiaethau'n awgrymu y byddai defnyddio un dechnoleg yn cau allan y llall; bydd yn werth ymgymryd â gwaith ymchwilio a dadansoddi pellach ar y posibilrwydd o gydfodoli.

578. Gellir datblygu strategaethau ar gyfer sectorau morol yn y cam cynllunio a strategaethau lliniaru ar gyfer sectorau yn y cam asesu ac ymgeisio ar gyfer prosiectau er mwyn sicrhau bod yr holl sectorau yr effeithir arnynt yn dod i wybod am weithgareddau ac amserlenni datblygwyr o fewn cyfnodau priodol. Bydd hyn yn galluogi cynllunio gweithgareddau mewn sectorau eraill i leihau effeithiau i'r graddau mwyaf posibl a sicrhau'r manteision mwyaf posibl i bob sector.

579. Bydd yn bwysig sicrhau cydlyniant rhwng prosesau cynllunio a chaniatáu ar dir a môr ac mewn perthynas â cheblau trydan ar raddfa ehangach er mwyn sicrhau bod digon o allu i gysylltu technolegau newydd â'r grid.

### Rhyngweithio ag ecosystemau

580. Gellir cael nifer o wahanol ganlyniadau yng nghyswllt cydnerthedd ecosystemau morol drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy morol, a cheir effeithiau ar wahanol raddfeydd yn ôl y math o ddatblygiad a'i leoliad.  Ar lefel eang, bydd prosiectau sy'n hyrwyddo datgarboneiddio yn cyfrannu at gydnerthu ecosystemau ehangach drwy helpu i liniaru effeithiau ar ecosystemau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

581. Mae gweithgareddau adeiladu a datgomisiynu yn debygol o achosi aflonyddu ffisegol sylweddol yn yr amgylchedd lleol a bydd goblygiadau tymor byr a hir. Mae arwyddocâd unrhyw effeithiau a geir yn debygol o ddibynnu ar raddfa a pharhad yr aflonyddu ac ar sefydlogrwydd a chydnerthedd yr ecosystem yr effeithir arni. Gall organeddau symudol gael eu dadleoli ac mae'n bosibl y byddant yn gallu symud i leoliad arall os oes cynefinoedd tebyg gerllaw.

582. Yn ôl natur yr adeiladwaith, byddai cynefinoedd newydd sy'n cael eu creu gan adeiladweithiau lled-barhaol ar wely'r môr yn gallu cryfhau ecosystemau drwy gynnal cynefinoedd neu rywogaethau penodol neu arwain at effeithiau negyddol ee drwy hwyluso ymlediad rhywogaethau estron.

583. Wrth eu gweithredu, bydd technolegau ynni adnewyddadwy morol yn echdynnu ynni a gallai hyn effeithio ar uchder tonnau neu ar gerhyntau yn yr ardal a pheri newidiadau o ran cludo gwaddodion. Mae'n bosibl y ceir effeithiau ehangach ar ecosystemau o ganlyniad i ddatblygiadau ar raddfa fawr. Gellir cael effeithiau ychwanegol ar rywogaethau penodol o ganlyniad i sŵn tanddwr, allyrru meysydd electromagnetig a gwrthdaro â gweithfeydd neu eu hosgoi. Bydd angen rhoi sylw



DRAFT

penodol i effeithiau cronnol wrth i nifer y gweithfeydd gynyddu yn ardal y cynllun ac mewn ardaloedd cyfagos.

584. Gellir cael effeithiau helaeth mewn perthynas â'r gweithgareddau gosod ac adeiladu ar raddfa fawr sy'n gysylltiedig â chynlluniau ynni adnewyddadwy morol mawr a bydd angen osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau o'r fath.

## Y dyfodol

585. Mae'r cynllun hwn yn cydnabod y gallem weld newid arwyddocaol yn y defnydd o foroedd Cymru yn ystod oes y cynllun hwn, yn enwedig o ganlyniad i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Yn Fframwaith Strategol Ynni Adnewyddadwy'r Môr [37] Llywodraeth Cymru, tynnwyd sylw at gyfleoedd ymarferol i ddefnyddio adnoddau ynni'r môr a disgrifiwyd senario sydd â photensial i sicrhau cyflenwad o 6.4GW drwy ddatblygu ynni tonnau ac ynni ffrwd lanw. Fodd bynnag, un cyfyngiad allweddol ar ddatblygu mewn rhai lleoliadau gwledig yw'r gallu i wneud cysylltiadau ychwanegol â'r grid trydan. Mae rhan allweddol i'w chwarae gan y sector cyfan mewn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy gyfrannu'n sylweddol at gyflenwi ynni yn y dyfodol.

586. Yn y dyfodol ceir cyfle i wneud defnydd helaeth o ragor o adnoddau ynni gwynt ar y môr er na chafwyd cynnydd hyd yn hyn ar safleoedd a archwiliwyd yn ystod Cylch 3 oddi ar lannau gogledd Ynys Môn (Rhiannon) ac ym Môr Hafren (Atlantic Array), wedi i ddatblygwyr nodi rhesymau technegol ac ariannol. Er na phennwyd Ardal Adnoddau Strategol eto ar gyfer ynni'r gwynt am fod yr adnoddau hyn mor eang ac nad oes dealltwriaeth lwyr o'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau eto, nid yw hyn yn golygu na ellir cyflwyno prosiectau. Bydd Ystad y Goron, datblygwyr a llywodraeth yn gweithio i ddeall cyfleoedd yn y dyfodol, yn enwedig yn y môr mawr, o fewn technolegau sy'n datblygu (fel adeiladweithiau arnofiol a sefydlog) sy'n hyfyw o safbwynt technegol ac economaidd. Mae [Ffigur 18(b)] yn dangos canlyniadau posibl ar lefel uchel o fodelau cychwynnol y gellir eu hystyried ymhellach (hynny yw, nid yw'n cynnwys ystyriaethau cymdeithasol, economaidd nac amgylcheddol). Mae technolegau ffrwd lanw yn debygol o ganolbwyntio ar ddyfeisiau arddangos ar raddfa fach yn y lleoliadau gorau, yn cynnwys y parth arddangos, dros y 5-10 mlynedd nesaf, gan eu defnyddio ar raddfa fwy wedyn mewn ardaloedd adnoddau ehangach. Nid yw technolegau ynni tonnau wedi'u datblygu i'r un graddau ac mae'n bosibl y cymerir mwy o amser i'w rhoi ar waith yn fasnachol wrth ddilyn dull tebyg o weithredu – dyfeisiau profi ar raddfa lai i gynnig prawf o gysyniad ac araeau ar raddfa fwy wedyn y tu allan i'r parth arddangos.

587. Mae Môr Hafren (yn cynnwys Aber Hafren) a Gogledd Cymru yn ffynhonnell strategol bwysig o ynni adnewyddadwy. Tra cafwyd gwerthuso ar dechnoleg morgloddiau am nifer o flynyddoedd, mae technoleg newydd môr-lynnoedd llanw yn cynnig cyfle newydd i elwa o'n hadnoddau amrediad llanw. Mae nifer o gynigion ar gyfer môr-lynnoedd ar wahanol gamau yn y broses o brofi cysyniad o gwmpas arfordir De a Gogledd Cymru. Mae prosiectau amrediad llanw yn cwmpasu ardaloedd eang ac felly'n galw am gynnal astudiaethau manwl o

---

[37] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/renewable/marine/framework/?lang=cy

ddichonolrwydd ac o effeithiau amgylcheddol ond mae'r rhain hefyd yn cynnig potensial ar gyfer cyfraniadau lleol a chenedlaethol sylweddol at lesiant tymor hir.

588. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod gan ynni niwclear ran i'w chwarae yn y cymysgedd ynni yn y dyfodol, er mwyn darparu cyflenwad trydan sy'n ddibynadwy, yn sicr ac yn amrywiol. Penderfynir ar brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol gan y Comisiwn Cynllunio.

## Y newid yn yr hinsawdd

589. Mae nodau llesiant Cymru yn cydnabod bod yr achos dros weithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn glir ac yn hanfodol i sicrhau ffyniant a chydnerthedd ein cymunedau yn y dyfodol. Mae rhan allweddol i'w chwarae gan ynni carbon isel morol mewn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a sicrhau economi carbon isel gynaliadwy. Mae technolegau newydd yn datblygu'n gyflym a byddant yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatgarboneiddio prosesau cynhyrchu trydan.

590. Gall y newid yn yr hinsawdd arwain at newidiadau ar ffurf tywydd eithafol a allai greu amodau anodd ar gyfer gweithredu gweithfeydd ar y môr. Mae effeithiau o'r newid yn yr hinsawdd ar seilwaith ynni yn debygol o godi o fwy o stormydd (ee newidiadau mewn tonnau a cherhyntau) a all arwain at fwy o erydu ac anawsterau wrth weithredu a chynnal gweithfeydd. Mae'n bosibl y bydd gweithfeydd cysylltiedig ar y tir yn fwy agored i'r perygl o lifogydd arfordirol.

591. O ran adnoddau, gallai'r newidiadau mewn tonnau ac yn y llanw a'r gwynt olygu bod mwy o ffynonellau ar gyfer cynhyrchu ynni ar gyfer cynhyrchu trydan, er bod cryn ansicrwydd yn hyn o beth ar hyn o bryd.

592. O'u dylunio'n briodol, byddai môr-lynnoedd llanw a morgloddiau sy'n agos i'r arfordir yn gallu lleihau'r effeithiau mwy o stormydd a chynnydd yn lefel y môr yn y dyfodol ar ardaloedd cyfagos ar yr arfordir.

## Anghenion allweddol am dystiolaeth

593. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio drwy Gyd-raglen y Diwydiant Ynni Adnewyddadwy Alltraeth (ORJIP) i ymdrin â bylchau mewn tystiolaeth a chyfleoedd ymarferol eraill i gefnogi'r sector. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi mentrau ymchwil a datblygu sy'n darparu cyfleoedd strategol i ddatblygu a hyrwyddo arbenigedd yng Nghymru ac i gael gwell dealltwriaeth o'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd yng nghyswllt datblygu a defnyddio ynni carbon isel a fydd yn hwyluso twf y sector. Mae'r anghenion allweddol am dystiolaeth ar gyfer y sector, mewn perthynas â chynllunio morol, yn cynnwys:

- rhyngweithio rhwng dyfeisiau a rhywogaethau symudol, yn cynnwys pysgod, yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu;
- cyfleoedd i droswyr ynni llanw tanddwr gydfodoli â morgludo masnachol, ee bydd yn ofynnol i ddatblygwyr gasglu data am nifer o newidynnau, yn cynnwys



DRAFT

dyfnder cychod a llongau, dyfnderoedd dŵr ac amrywiadau llanwol i hwyluso penderfyniadau ar achosion penodol;
- rhyngweithio a mesurau lliniaru rhwng technolegau amrediad llanw a rhywogaethau mudol, megis pysgod ac adar;
- y potensial i gydfodoli a chydleoli â môr-lynnoedd ynni llanw i wneud y defnydd gorau posibl o ofod;
- cyfleoedd i gydleoli technolegau ynni'r gwynt a dyframaethu;
- effeithiau maes hydrolegol ehangach o gynlluniau amrediad llanw ar systemau llanwol a dynameg arfordirol;
- y gallu i gynnal technolegau ynni adnewyddadwy ar lefel leol, lefel Cymru a lefel ranbarthol (ee moroedd Iwerddon);
- addasrwydd amodau daearegol / geomorffolegol ar gyfer gosod dyfeisiau ynni;
- cyfleoedd a chyfyngiadau o ran cysylltu â'r grid a chyfleoedd i storio ynni.

## Llywodraethu

594. Mae polisi ynni ar raddfa fawr (yn cynnwys ynni niwclear) yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU yn bennaf yn rhanbarth y glannau a rhanbarth môr mawr y cynllun. Mae'n ofynnol cael caniatâd gan yr MMO ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy alltraeth o fwy nag 1MW ac mae datblygiadau o fwy na 100MW yn cael eu hystyried yn Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP). Fodd bynnag, bydd polisi a'r trothwy ar gyfer caniatáu datblygiadau ynni carbon isel gan Weinidogion Cymru yn cael eu codi i gynnwys prosiectau o 350MW ar ôl pasio Deddf Cymru 2017. Datblygir y gyfundrefn ganiatáu ar gyfer y pwerau newydd drwy ymgynghori â rhanddeiliaid.

595. Mae adran 39 o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar ganiatâd cynllunio ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni hyd at ac yn cynnwys rhai 350MW yn nyfroedd tiriogaethol Cymru (hyd at derfyn Parth Cymru tua'r môr).

596. Bydd adran 42 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ganiatáu llinellau trydan uwchben os ydynt yn:
- 132 Cilofolt (KV) neu'n llai,
- yn gysylltiedig â gorsaf cynhyrchu ynni a ddatganolwyd yng Nghymru (un sydd â gallu cynhyrchu o 350MW neu lai, neu unrhyw orsaf cynhyrchu ynni'r gwynt ar dir).

597. Mae adran 41 yn galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â datgan parthau diogelwch o gwmpas gweithrediadau adeiladu neu ddatgomisiynu gorsafoedd cynhyrchu ynni a ddatganolwyd. Lle mae gorsaf cynhyrchu ynni a ddatganolwyd yn cael ei heangu y tu hwnt i derfyn Parth Cymru tua'r môr, neu lle mae cynnig i wneud hynny, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y swyddogaethau mewn perthynas â datgan parthau diogelwch ar gyfer y rhan honno o'r orsaf gynhyrchu, oni bai fod Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno mai Gweinidogion Cymru a ddylai wneud hynny.

598. Mewn llawer achos, ceir adeiladweithiau ategol ar y tir yn gysylltiedig â chynhyrchu ynni adnewyddadwy alltraeth y bydd angen cael caniatâd cynllunio ar

DRAFT

eu cyfer. Dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod penderfyniadau ynghylch yr adeiladweithiau ategol hyn yn cael eu gwneud mewn ffordd amserol.

599. Yn achos datblygiadau o >350 MW, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y DU (BEIS) i sicrhau bod buddiannau Cymru a'r DU yn gytûn. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â National Grid ac eraill i sicrhau bod y grid cyflenwi yn rhoi cyfleoedd i gysylltu datblygiadau yn y dyfodol.

600. Mae'r prif awdurdodau penderfynu a chynghori yn cynnwys: Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Seilwaith Busnes, Gweinidogion Cymru, CNC, Ystad y Goron, MMO, a'r Arolygiaeth Gynllunio. Ni ellir cyflwyno datblygiadau ynni'r môr oni bai fod y seilwaith angenrheidiol ar gael ar dir, felly mae awdurdodau eraill yn chwarae rhan allweddol ee Awdurdodau Lleol a National Grid.

601. Datganiadau Polisi Cenedlaethol trosfwaol Llywodraeth y DU ar gyfer Ynni (EN-1) ac Ynni Adnewyddadwy (EN-3) yw'r brif sail i benderfyniadau ar geisiadau am brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae EN-3 yn ymdrin ag ynni gwynt ar y môr yn unig (nid technolegau ynni tonnau, ffrwd lanw nac amrediad llanw). Os bydd Datganiadau Polisi Cenedlaethol ychwanegol yn cael eu darparu yn y dyfodol ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol (ee môr-lynnoedd llanw), y Datganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol fydd y brif sail i benderfyniadau ar gynigion. Dylid ystyried y cynllun hwn mewn unrhyw gais neu broses penderfynu, gan gynnwys ei ystyried ochr yn ochr â Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol.

602. Oherwydd graddfa prosiectau môr-lynnoedd llanw, maent yn debygol o gael eu hystyried yn Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio'r DU a byddai pob penderfyniad ar brosiect penodol yn cael ei wneud o fewn y fframwaith hwn, ochr yn ochr ag unrhyw awdurdodiadau a fydd yn ofynnol, er enghraifft, trwydded forol. Os bydd Datganiad Polisi Cenedlaethol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer môr-lynnoedd llanw, hwn wedyn fyddai'r prif gyd-destun polisi ar gyfer penderfynu ar y prosiect. Gan y byddai angen sicrhau nifer o ganiatadau ar gyfer cynlluniau morlyn llanw ar lefel y DU a Chymru ac ar lefel leol, dylid manteisio ar gyfleoedd i alinio prosesau ymgeisio ac awdurdodi lle bo modd.

603. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector ynni niwclear yn enwedig datblygu ar safleoedd presennol fel Wylfa Newydd. Er bod ynni niwclear yn ffordd bwysig o gyflenwi ynni yng Nghymru, nid yw wedi'i ystyried yn helaeth yn y cynllun hwn gan fod y rhan fwyaf o benderfyniadau strategol yn cael eu gwneud ar lefel y DU ac yn dilyn y Datganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol. Er hynny, mae cynhyrchu ynni niwclear ar yr arfordir yn berthnasol i gynllunio morol lle mae rhai mathau o seilwaith ee glanfeydd, mewnfeydd ac allfeydd dŵr oeri yn is na'r marc penllanw, ac wrth reoleiddio gollyngiadau sy'n cael eu hystyried gan Weinidogion Cymru.

604. Mae proses Asesiad Amgylcheddol Strategol y DU o Gynhyrchu Ynni ar y Môr (OESEA) yn ystyried ac yn cyfrannu i benderfyniadau ar gynlluniau a rhaglenni ar

DRAFT

gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni ar y môr dichonol yn y dyfodol ar lefel y DU (yn cynnwys ynni adnewyddadwy, olew a nwy a chyfleoedd i storio carbon deuocsid). Mae'r broses OESEA yn ystyried adnoddau cynhyrchu ynni ar y môr y DU yng nghyd-destun materion amgylcheddol. Mae'n broses gynllunio ar gyfer sector strategol sy'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru a'i chyflawni gan BEIS. Mae Asesiadau Amgylcheddol Strategol 1-7 (2001 – 2008), a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer Cylch 2 ynni gwynt ar y môr (2003) ac Asesiadau Amgylcheddol Strategol mwy diweddar o Gynhyrchu Ynni ar y Môr (2009, 2014 a 2016) wedi gwneud nifer o argymhellion ar brosesau a chasgliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd ehangach, a rheoliadau a rheolaethau eraill.

605. Bydd angen edrych o safbwynt strategol ar unrhyw ddatblygiadau ynni dichonol mewn ardaloedd trawsffiniol fel y rhai ym Môr Hafren ac yng Ngogledd Cymru. Mewn llawer achos, mae graddfa fawr y cynigion yn golygu bod penderfyniadau wedi'u cadw'n ôl ac yn cael eu gwneud ar y cyd gan lywodraeth gan sicrhau cysondeb. Lle cyflwynir cynigion ar gyfer datblygu yn y môr mawr (fel y gwnaed ar gyfer ffermydd gwynt ar y môr yng Nghylch 3), yna bydd y broses ymgeisio'n galw am gydgysylltu ag awdurdodau mewn gwledydd eraill (fel y gwnaed ag Ynys Manaw ar gyfer cynigion i'r gogledd o Ynys Môn). Mae Partneriaeth Aber Hafren wedi chwarae rhan bwysig drwy gasglu tystiolaeth a thrafod opsiynau polisi gyda phartïon cysylltiedig yn Aber Hafren, yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â datblygiadau ynni dichonol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth Bartneriaeth Aber Hafren[38].

## Amcan y sectorau

Cyfrannu'n sylweddol at ddatgarboneiddio ein heconomi ac at dwf glas drwy gynyddu maint yr ynni môr carbon isel a gynhyrchir, drwy'r canlynol:

- Helpu i ddatblygu ac arddangos technolegau ynni tonnau a ffrwd lanw dros y 5-10 mlynedd nesaf;
- Cynyddu (lle bo'n briodol) nifer y dyfeisiau cynhyrchu sy'n cael eu defnyddio mewn datblygiadau ar raddfa fasnachol dros y 10-20 mlynedd nesaf;
- Cefnogi (lle bo'n briodol) datblygu masnachol pellach ar dechnolegau ynni gwynt ar y môr a môr-lynnoedd llanw dros y 5-10 mlynedd nesaf gan fanteisio ar unrhyw fecanweithiau ariannol ffafriol Llywodraeth y DU o dan y Contract Gwahaniaeth;
- Hyrwyddo camau i gasglu tystiolaeth a chynnal ymchwil ar gyfer datblygu amrediad y llanw er mwyn hybu datblygu cynaliadwy a'r defnydd o dechnoleg;
- Cefnogi'r sector ynni niwclear.

DRAFT

[38] http://www.severnestuarypartnership.org.uk/sep/strategy/15-16/;

http://www.severnestuarypartnership.org.uk/sep/resouces/state-of-the-severn-estuary/

| | |
|---|---|
| Datblygu Cymru’n esiampl ar gyfer defnyddio technoleg ynni adnewyddadwy’r môr drwy ddatblygu’r sylfaen sgiliau a gwybodaeth dechnegol sy’n hanfodol i gynnal twf y diwydiant dros yr 20 mlynedd nesaf. | |

## Polisi’r sector Ynni – Carbon Isel a chanllawiau ar weithredu

606. Mae polisi’r sector ynni carbon isel yn gymwys i ranbarth y glannau a’r rhanbarth môr mawr yn ardal y cynllun.

607. Mae’r DPM yn cydnabod bod cyflenwad ynni dibynadwy, cynaliadwy a fforddiadwy yn hanfodol bwysig i sicrhau llesiant economaidd a chymdeithasol y DU. Mae Gweinidogion Cymru wedi sefydlu targed cyfreithiol rwymol ar gyfer lleihau allyriadau er mwyn ymateb i effeithiau’r newid yn yr hinsawdd. Mae’n bwysig bod awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn helpu’r Llywodraeth i sicrhau cyflenwad trydan dibynadwy, amrywiol a fforddiadwy. Mae Llywodraeth Cymru am weld ynni adnewyddadwy’r môr yn cyfrannu fwyfwy at y cymysgedd ynni.

608. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried dewisiadau yn lle’r angen i ddefnyddio technolegau ynni adnewyddadwy’r môr ar raddfa fawr ac wedi dod i’r casgliad, er y bydd cyfleoedd fel rhai i leihau’r galw, cefnogi technolegau eraill a hybu cysylltedd ehangach yn bwysig o ran cyfrannu at liniaru effeithiau newid hinsawdd, fod angen strategol i ddatblygu’r gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy’r môr. Gwireddir y potensial sydd yn adnoddau ynni adnewyddadwy morol Cymru mewn ffordd gynaliadwy drwy ddefnyddio technolegau adnewyddadwy ar gyfer arddangos ar raddfa fasnachol. Mae’r cynllun hwn yn ceisio amlhau cyfleoedd priodol i sicrhau dulliau ynni môr carbon isel cynaliadwy drwy fframwaith cynllunio cadarnhaol Llywodraeth Cymru ar gyfer newid i economi carbon isel.

609. Felly mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo’n gadarn i wireddu’r potensial i gynhyrchu ynni yn nyfroedd Cymru a byddwn yn parhau i ddod ag arbenigwyr at ei gilydd o bob rhan o lywodraeth, diwydiant a sefydliadau academaidd i ganolbwyntio ar gyflawni prosiectau ynni’r môr yn nyfroedd Cymru. Rydym o blaid defnyddio dyfeisiau ynni adnewyddadwy morol o bob math mewn ffordd gynaliadwy er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth a hybu twf y sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo hefyd i ddatblygu Cymru’n esiampl o ffyrdd o ddefnyddio technoleg ynni adnewyddadwy, sgiliau a gwybodaeth yn sector ynni adnewyddadwy’r môr .

610. Mae Cymru eisoes yn allforio mwy o drydan nag y mae’n ei fewnforio ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella ar hyn o fewn cyflenwad amrywiol drwy

DRAFT

sbarduno'r defnydd o ddyfeisiau er mwyn cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy o'n hamgylchedd morol. Mae'r cynllun hwn yn nodi bod technolegau ynni carbon isel morol yn faes a fydd yn cael blaenoriaeth ar gyfer sicrhau twf yn y dyfodol yng Nghymru ac yn cydnabod ei bod yn debygol y ceir newidiadau arwyddocaol yn ein defnydd o'n hardal forol drwy eu defnyddio.

611. Rydym am annog pobl yng Nghymru i reoli eu hanghenion ynni eu hunain. Ein gweledigaeth yw y bydd pob cymuned a busnes yn defnyddio trydan a gwres a gynhyrchwyd yn lleol, o amrywiaeth o weithfeydd ynni adnewyddadwy, yn cynnwys rhai yn y môr, i gyflenwi'r galw lleol a lleihau dibyniaeth ar gynhyrchu canolog. Er mwyn elwa o'r newid i ynni adnewyddadwy, rydym hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu Cymru yn esiampl o'r defnydd o dechnoleg ynni adnewyddadwy, sgiliau a gwybodaeth yn sector ynni adnewyddadwy'r môr.

612. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf cynaliadwy yn yr holl sectorau ynni môr: ynni'r gwynt, ffrwd lanw, amrediad llanw a thonnau. Rydym am gynyddu'r cyfraniad gan adnoddau ynni morol at gynhyrchu trydan yn gynaliadwy a chyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod Cymru'n gallu manteisio ar gyfleoedd yn y farchnad fyd-eang. Mae gwahanol dechnolegau ar gamau gwahanol yn eu datblygiad a bydd angen gwahanol fathau o gymorth ar eu cyfer; mae technolegau ynni'r llanw a thonnau ar gam cynnar yn eu datblygiad ac mae'n bosibl y bydd yn cymryd amser i'r technolegau hyn gael eu defnyddio ar raddfa fawr.

613. Mae môr-lynnoedd llanw yn fath cwbl newydd o weithgarwch o bwysigrwydd strategol sy'n galw am ystyriaeth ofalus. Yn ystod oes y cynllun hwn, mae'n bosibl y bydd môr-lynnoedd llanw yn cael eu defnyddio ar raddfa fawr o gwmpas arfordir Cymru. Gallai Morlyn Llanw Bae Abertawe, os yw'n llwyddo i gael y caniatadau angenrheidiol ac yn symud ymlaen, fod yn brosiect braenaru ar gyfer datblygu strategol a chynaliadwy yn y sector newydd hwn. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried a oes achos strategol dros gynnwys môr-lynnoedd llanw fel rhan o gymysgedd ynni y DU a gallai bennu polisi cenedlaethol ar gyfer y sector hwn.

614. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi technoleg môr-lynnoedd llanw mewn egwyddor a bydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu polisi mewn meysydd sydd heb eu datganoli a chynllunio ar gyfer datblygu môr-lynnoedd llanw yn nyfroedd Cymru yn y dyfodol. Oherwydd pwysigrwydd strategol adnoddau amrediad llanw o gwmpas glannau Cymru, mae'r cynllun hwn yn cynnwys cefnogaeth polisi Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i brosiectau môr-lynnoedd llanw cynaliadwy a pholisi sy'n diogelu'r adnoddau hyn drwy bennu Ardal Adnoddau Strategol eang y gellir ei defnyddio yn y dyfodol wrth i'r diwydiant ddatblygu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai natur a maint rhai o'r datblygiadau morol cynaliadwy hyn gael effaith niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd ac yn naturiol byddai hynny'n cael ei ystyried wrth wneud penderfyniad. Nid yw Llywodraeth Cymru yn annog datblygiadau nad ydynt yn cydymffurfio a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

DRAFT

615. Nid oes disgwyl y bydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol sy'n cael eu dynodi ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn yn cyfyngu nac yn rhwystro camau i ddatblygu prosiectau môr-lynnoedd llanw, lle mae polisi cenedlaethol yn galw am hynny, oherwydd eu pwysigrwydd strategol ar gyfer cyflawni nodau'r DU ar ynni a newid hinsawdd.

616. Mae polisïau'r cynllun o blaid cydfodoli rhwng gweithgareddau lle mae hyn yn ymarferol. Rydym yn annog y potensial mewn cydfodoli rhwng dyframaethu a gweithgareddau ynni gwynt ar y môr a môr-lynnoedd llanw, a dylid ymchwilio i hyn. Disgwylir i bob parti ddangos ei fod wedi cynnal deialog ac wedi ceisio cydweithio i sicrhau'r manteision gorau i bob parti.

617. Mae ynni gwynt yn dechnoleg ynni brofedig a strategol bwysig ac mae'r costau am ei defnyddio'n gostwng yn gyflym, gan ei wneud yn opsiwn hyfyw a deniadol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ardal cynllun Cymru. Mae cyfleoedd sylweddol ar gyfer rhagor o weithgareddau ynni gwynt ar raddfa fawr ar y môr yn nyfroedd Cymru oherwydd maint yr adnoddau hyfyw dichonol, natur ddaearyddol gwely'r môr, a'r technolegau sy'n datblygu. Rhoddir cryn gefnogaeth i ragor o ddatblygiadau ynni gwynt ar y môr cynaliadwy, yn cynnwys ymestyn prosiectau presennol.

618. Mae cyflawni amcan y sector yn golygu datblygu'r dystiolaeth am yr effeithiau dichonol a'r cyfleoedd ar gyfer technolegau gwahanol yn y sector hwn. Mae'r Cyd-brosiect Diwydiant Ynni Adnewyddadwy Alltraeth (ORJIP) Ocean Energy, grŵp cydweithredol sy'n ceisio lleihau'r risgiau wrth roi caniatâd ar gyfer prosiectau ynni tonnau, ffrwd lanw ac amrediad llanw, wedi llunio dogfen Forward Look sy'n nodi bylchau mewn tystiolaeth y dylid rhoi blaenoriaeth i'w llenwi[39]. Mae'r ddogfen yn nodi'r bylchau mewn tystiolaeth a'r anghenion am dystiolaeth y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt ar gyfer y sectorau ynni tonnau, ffrwd lanw ac amrediad llanw, er mwyn delio â materion allweddol yn y broses caniatáu. Mae'r anghenion tystiolaeth yn cynnwys tystiolaeth yn ymwneud â derbynyddion a llwybrau effaith penodol, yn ogystal â'r rheini sy'n ymwneud â phrosesau rheoleiddio a chaniatáu.

619. **Mae'r [Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau] yn gymwys.**

620. Dylid ystyried y polisïau ar sectorau yn y cynllun hwn ochr yn ochr â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol sydd yn y cynllun hwn, nodau llesiant Cymru ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn bwysig bod y broses ymgeisio am awdurdodiad yn cymhwyso'r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy'n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau eraill lle maent wedi'u pennu). Dylid darparu tystiolaeth sy'n ymwneud â pholisïau perthnasol i hwyluso penderfyniadau. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn gosod canllawiau ar gyfer cynigion a phenderfyniadau (ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill); nid ydynt yn dileu'r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol. Oherwydd hynny, ni ddylid rhagdybio y bydd cais o fewn Ardal Adnoddau

---

[39] http://www.orjip.org.uk/documents

DRAFT

Strategol y sector dan sylw yn llwyddiannus. Yn yr un modd, nid yw gweithgarwch gan y sector yn cael ei atal y tu allan i Ardaloedd Adnoddau Strategol a bennwyd..

## Polisïau cefnogi

**ELC_01: Ynni carbon isel (cefnogi)**
Anogir cyflwyno cynigion ar gyfer pob math o gynhyrchu ynni adnewyddadwy morol (gwynt, llanw ac ynni'r tonnau) a'r seilwaith gysylltiedig, yn enwedig:
a) mewn parthau profi ac arddangos technoleg cyfatebol ar gyfer ynni tonnau, ynni ffrwd lanw ac ynni adnewyddadwy diffiniedig arall; a
b) mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer ynni tonnau, ynni ffrwd lanw ac ynni môr-lynnoedd llanw cyfatebol.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, mewn cysylltiad â'r sector a phartïon eraill â diddordeb, gydweithio er mwyn deall y cyfleoedd ar gyfer defnydd cynaliadwy o:
a) Ardaloedd Adnoddau Strategol ynni adnewyddadwy; a
b) adnoddau naturiol ehangach sy'n cynnig potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy;

er mwyn cefnogi twf cynaliadwy y sector ynni adnewyddadwy drwy gynllunio morol.

Er mwyn deall y cyfleoedd i ddatblygu **ynni gwynt ar y môr** yn y dyfodol, anogir cyflwyno cynigion sy'n cefnogi cynllunio strategol ar gyfer y sector. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio er mwyn:

- casglu tystiolaeth i ddeall cyfyngiadau amgylcheddol a chyfleoedd
- deall beth yw'r lleoliadau gorau posibl ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y môr ledled Cymru.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol drefnu i dystiolaeth berthnasol fod ar gael yn eang i gefnogi cynllunio a phenderfynu.

## Polisi cefnogi Canllawiau ar weithredu

621. Mae polisi **ELC_01** yn cymell datblygu gweithgareddau ynni adnewyddadwy mewn ardaloedd penodol ac yn ceisio sicrhau bod potensial yr ardal ar gyfer cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn cael ei wireddu (yn unol â thargedau ynni a newid hinsawdd), gan roi sylw dyledus i ystyriaethau perthnasol yng nghyswllt effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a chronnol. Mae'r polisi'n

berthnasol i'r holl dechnolegau y pennwyd parthau arddangos neu Ardaloedd Adnoddau Strategol ar eu cyfer (Ffigur 18 a). Wrth bennu Ardaloedd Adnoddau Strategol, ystyriwyd lleoliad yr ardaloedd adnoddau eang ac ardaloedd y gellir eu datblygu yn ystod cyfnod y cynllun. Yn ogystal â hyn, ystyriwyd y rhyngweithio dichonol â defnyddwyr allweddol eraill ym mhob Ardal Adnoddau Strategol ee yr Ardal Adnoddau Strategol morgludo ac Amddiffyn a chyfyngiadau eraill.

622. Ni ddiffiniwyd Ardal Adnoddau Strategol ar gyfer ynni gwynt ar y môr gan fod proses ar waith i bennu ardaloedd sy'n hyfyw o safbwynt ymarferol ac economaidd. Nid yw hyn yn golygu nad oes angen datblygiadau gwynt ar y môr neu nad ydynt yn debygol o ddigwydd. Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a diwydiant i gydweithio i gael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd i'r dyfodol ar gyfer datblygiadau newydd gan weithio drwy'r Asesiad Amgylcheddol Strategol o gynhyrchu ynni ar y môr a chydag Ystad y Goron. Gan gofio'r anghenion o ran adnoddau a pholisi ar gyfer mwy o gynhyrchu adnewyddadwy, mae cyfle da iawn yn ardal y cynllun ar gyfer datblygiadau gwynt ar y môr a chaiff y rhain eu hannog dros oes y cynllun hwn. Rydym yn hybu cyfleoedd ar gyfer ymestyn datblygiadau presennol a chyflwyno safleoedd newydd. Mae enghraifft o gyfle cynnar sydd wedi'i fodelu yn Ffigur 18b ac mae map o'r ardal adnoddau gwynt yn Ffigur 18c.

623. Yn ymarferol, bydd unrhyw Ardaloedd Adnoddau Strategol ychwanegol ar gyfer ynni adnewyddadwy yn cael eu pennu a'u mireinio drwy gyfuniad o brosesau sector-benodol, megis newidiadau mewn hyfywedd economaidd, Asesiad Amgylcheddol Strategol parhaus Llywodraeth y DU o Gynhyrchu Ynni ar y Môr, newidiadau mewn technoleg sy'n lleihau cyfyngiadau ar ddatblygu ac adolygiadau o'r cynllun hwn. Amcan polisi **ELC_01** ar y cyd â **GEN_02** ac **SCI_01** yw hybu arloesi a helpu i egluro cyfyngiadau a chyfleoedd i ddatblygwyr a buddsoddwyr.

624. Mae potensial da mewn cynigion ar gyfer ynni adnewyddadwy'r môr i gyfrannu'n helaeth at gyflawni nifer o amcanion economaidd a chymdeithasol yn y cynllun hwn a dylid hybu twf cynaliadwy'r sector drwy wneud y canlynol:

- datblygu, lleoli a buddsoddi mewn busnesau ynni adnewyddadwy'r môr a chymunedau cyfagos;
- hyfforddi a chyflogi pobl a busnesau ar gyfer y gwaith o gynllunio, adeiladu, cynnal a chyflenwi deunyddiau ar gyfer cyfarpar a seilwaith;
- datblygu a defnyddio seilwaith presennol (ee porthladdoedd) ar gyfer adeiladu a chynnal;
- cefnogi gweithgareddau ymchwil a datblygu er mwyn llenwi bylchau mewn tystiolaeth a hwyluso'r broses o ganiatáu prosiectau;
- gwneud y defnydd gorau posibl o ofod morol drwy hybu nifer o weithgareddau sy'n gallu cydfodoli, ee cynnig am morlyn llanw yn cefnogi nifer o wahanol weithgareddau ychwanegol fel dyframaethu a hamdden dŵr;
- arwain ar ddatblygu sector ynni morol cystadleuol yng Nghymru drwy helpu busnesau, sefydliadau academaidd a'r sector cyhoeddus i gydweithio;
- elwa o brofiad a gwybodaeth sefydliadau fel Ynni Môr Cymru a Sefydliad Ymchwil Carbon Isel i ddatblygu arbenigedd a thechnolegau;
- cymryd camau rhagweithiol i ddarparu gwybodaeth a chanllawiau manwl ar gyfleoedd datblygu;

- galluogi darparwyr hyfforddiant i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen yn y gweithlu i gynnal y sector;
- trefn o roi caniatâd ar lefel Cymru a'r DU (yn ôl maint a lleoliad y datblygiad) sy'n rhoi cydbwysedd priodol rhwng cynaliadwyedd a datblygiad.

625. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Ystad y Goron, CNC, diwydiant ac eraill i bennu a lesio parthau profi ac arddangos ynni'r tonnau ac ynni'r llanw i reolwyr trydydd parti sy'n gyfrifol am waith i baratoi safleoedd ac am is-osod rhannau o'r parthau arddangos i ddatblygwyr er mwyn cael mwy o wybodaeth a dealltwriaeth am risgiau, cyfleoedd a galluoedd. Dylid hyrwyddo a hwyluso'r parthau arddangos hyn a'r dyraniad dangosol o Ardaloedd Adnoddau Strategol yn y cynllun hwn drwy ddull ymaddasol o benderfynu sy'n seiliedig ar risg. Dylid rhoi ystyriaeth mewn cynigion i gyfleoedd i gydweithio er mwyn hyrwyddo'r parthau arddangos a'u gwneud yn fwy deniadol ar gyfer datblygu, ee drwy ymgymryd â gweithgarwch paratoi fel archwilio, gosod seilwaith neu geisio caniatâd ymlaen llaw ar lefel y parth. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol gymell a chefnogi gweithgarwch rhagweithiol, strategol i alluogi'r sector i ddatblygu.

626. Dylid dangos yn glir mewn cynigion ar gyfer datblygiadau ynni carbon isel morol sut y bydd y cynnig yn ategu'r polisïau ehangach yn y cynllun hwn ac, yn benodol, sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni targedau newid hinsawdd ac at economi Cymru ac yn darparu buddion i gymunedau lleol ar yr arfordir, gan bwyso a mesur effeithiau amgylcheddol morol ar yr un pryd.

627. Dylai CNC ystyried darparu canllawiau a chyngor ar yr adnoddau naturiol allweddol a'r cyfleoedd a chyfyngiadau dichonol sy'n gysylltiedig ag ardaloedd a bennwyd ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol (parthau arddangos ac Ardaloedd Adnoddau Strategol) er mwyn helpu i adnabod cyfleoedd gan sicrhau dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

628. Mae technoleg newydd y môr-lynnoedd llanw yn cynnig cyfleoedd newydd i harneisio'r amrediad llanw ac mae nifer o gynigion ar gyfer môr-lynnoedd o gwmpas morlin Cymru. Oherwydd eu natur, mae prosiectau amrediad llanw yn cwmpasu ardaloedd eang a gallant gynnig buddion lleol a chenedlaethol sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi technolegau sy'n gallu elwa o'r adnoddau ynni hyn mewn ffordd gynaliadwy ac yn ystyried canlyniad yr HRA o bolisïau'r cynllun er mwyn helpu i gyfarwyddo ceisiadau yn y dyfodol am ddatblygiad priodol. Rydym yn credu y bydd hyn o fudd hirdymor i fuddiannau busnes, cymunedau a'r amgylchedd. Er bod y polisi hwn yn ymwneud ag ardal y cynllun yn unig, bydd yn bwysig ystyried goblygiadau trawsffiniol prosiectau o'r fath ar raddfa sydd hefyd yn rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw oblygiadau ar gyfer cynllunio a thrwyddedu yn nyfroedd Lloegr.

629. Gall graddfa prosiect penodol fod yn ffactor o bwys. Bydd gweithfa ar raddfa fach yn gallu cael effeithiau lleol iawn, tra bydd prosiectau sydd mewn nifer o leoliadau yn galw am ystyried parhad ac amlder achoswyr straen dros ardal ehangach er mwyn deall yr effeithiau ar gydnerthedd ecosystemau.

630. Mae Ardal Adnoddau môr-lynnoedd llanw wedi'i datblygu [Ffigur 18d] ar sail nifer bach o baramedrau (hy amrediad llanw a dyfnder dŵr). Mae Ardal Adnoddau

DRAFT

Strategol wedi'i sefydlu o fewn yr Ardal Adnoddau ehangach hon sydd â pholisi cefnogol cyffredinol a pholisi diogelu cryfach. Disgwylir y bydd cefnogaeth polisi pellach yn datblygu wrth i ni feithrin dealltwriaeth o'r goblygiadau amgylcheddol o fôr-lynnoedd (yn unigol ac ar y cyd) a sut y gellir lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd (yn cynnwys drwy ddarparu trefniadau cydbwyso digonol). Mae'r HRA ar lefel y cynllun yn ceisio cyfrannu at y ddealltwriaeth hon.

631. Oherwydd graddfa môr-lynnoedd llanw a'u hagosrwydd i gymunedau arfordirol, dylid rhoi ystyriaeth ofalus mewn polisi a chynllunio i'r ffordd o sicrhau buddion lleol ychwanegol a gwaddol hirdymor. Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i brosiectau gyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni nodau llesiant Cymru.

632. Drwy gydweithio a chynnal deialog yn gynnar rhwng datblygwyr a defnyddwyr/sectorau morol eraill, dylid hwyluso camau i ddatblygu cynlluniau sy'n rhoi buddion lluosog, ee dylid hefyd ystyried y cyfle sy'n codi mewn cynlluniau o'r fath i ddarparu buddion o ran amddiffyn yr arfordir, i sicrhau'r defnydd gorau posibl o adnoddau naturiol, i leihau gwrthdaro, ee er mwyn cael mynediad diogel i borthladdoedd a gwneud cyfraniad cadarnhaol net at ddatblygu cynaliadwy, ee drwy ddyframaethu.

633. Yn ogystal â'r gefnogaeth polisi ar gyfer ynni adnewyddadwy morol a nodir yn y cynllun hwn, dylai penderfyniadau ar ganiatâd ar gyfer prosiectau unigol fod yn seiliedig ar yr holl ystyriaethau perthnasol (yn ogystal â'r cynllun hwn) adeg gwneud y penderfyniad. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y gallai Llywodraeth y DU ddewis roi sylw i'r ystyriaethau polisi a nodir yn y cynllun hwn wrth wneud penderfyniadau ynghylch rhoi caniatâd a phenderfyniadau am y cynllun strategol, yn enwedig bod Llywodraeth Cymru wedi pennu angen strategol brys am dwf sylweddol yn sector ynni'r môr ac mewn cynhyrchu trydan yng Nghymru.

634. Mae Llywodraeth Cymru yn tybio y dylid cefnogi cynigion ar gyfer ynni adnewyddadwy'r môr sy'n cydymffurfio â'r polisïau yn y cynllun hwn, yn enwedig ei phwyslais ar gynigion ynni carbon isel ac ystyriaethau perthnasol eraill.

635. Mae'n anochel y ceir rhai effeithiau niweidiol o ganlyniad i ddatblygu seilwaith ar raddfa fawr. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn pwyso a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol wrth ddod i benderfyniad, a allai gynnwys bodloni eu hunain bod sylw priodol wedi'i roi i unrhyw effeithiau niweidiol wrth gwmpasu a dylunio'r prosiect a bod cyfleoedd i liniaru effeithiau wedi'u hystyried yn drwyadl.

636. Bydd rhai effeithiau gweddilliol na ellir eu hosgoi. Cyfrifoldeb y cynigydd yw nodi effeithiau o'r fath ac amlinellu'r opsiynau a ystyriwyd er mwyn eu hosgoi neu eu lliniaru. Wrth ystyried cynnig a mantoli unrhyw effeithiau niweidiol dichonol yn erbyn y buddion o gynnig o'r fath, gall y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ystyried y canlynol hefyd:

DRAFT

- Y polisïau uchod ar gyfer y sector, yn cynnwys yr awydd i gynhyrchu mwy o drydan carbon isel yng Nghymru fel y bydd yn allforio mwy o drydan nag y mae'n ei fewnforio drwy gyflenwad amrywiol.
- Ei fanteision dichonol gan gynnwys ei gyfraniad at greu sector ynni morol sy'n gweithredu ar raddfa fasnachol yng Nghymru ac at gyflawni nodau llesiant Cymru yng nghyd-destun y polisïau eraill yn y cynllun hwn.
- Ei effaith niweidiol ddichonol ar yr amgylchedd ac ar ddefnyddwyr eraill gan gynnwys unrhyw effeithiau hirdymor arwyddocaol ar gynaliadwyedd adnoddau naturiol ac unrhyw fesurau i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol.
- Ei bod yn anochel y bydd rhai elfennau ansicr yn nyluniad y prosiect ac y dylid darparu ar gyfer y rhain lle bo modd a'i bod yn bosibl y bydd angen cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn y caniatâd lle y bydd cyfleoedd o bosibl i reoli risg drwy brosesau caniatáu ymaddasol fel dull gweithredu a monitro (os cytunir bod hynny'n briodol ar gyfer y safle, y dechnoleg, y paramedr(au) sydd angen eu monitro a mesurau rheoli i osgoi effeithiau negyddol arwyddocaol).

637. Bydd y buddion ac effeithiau niweidiol dichonol o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn amrywio'n fawr, yn ôl y math o dechnoleg, er enghraifft, a'u maint, eu strwythur a'u lleoliad daearyddol, a natur gweithgareddau morol eraill neu nodweddion amgylcheddol.

638. Oherwydd graddfa ac arwyddocâd dichonol y sector môr-lynnoedd llanw, gellir datblygu polisi Llywodraeth sector-benodol, strategol i lywio datblygiad y sector.

639. Anogir datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i ymdrin â bylchau allweddol mewn tystiolaeth a chael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd i sicrhau twf cynaliadwy'r sector gan gynnwys hynny mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.

640. Lle byddai prosiect yn sterileiddio adnodd naturiol yn Ardal Adnoddau Strategol sector arall, ee agregau, dylid ystyried y defnydd olynol o'r ardal; cael y buddion mwyaf posibl o'r adnodd agregau cyn colli'r cyfle i'w ddefnyddio.

641. **Wrth baratoi cynigion sy'n gysylltiedig ag ynni carbon isel, dylai datblygwyr gymhwyso'r polisïau diogelu perthnasol ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn.**

## Polisïau diogelu

642. Ym mhob cynnig (yn cynnwys cynigion newydd gan y sector ynni carbon isel) a all effeithio ar weithgareddau ynni carbon isel presennol neu arfaethedig neu rai dichonol yn y dyfodol mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol, dylid cymhwyso'r polisïau canlynol ar gyfer diogelu ynni carbon isel.

**ELC_02: Ynni carbon isel (diogelu)**
Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle rhoddwyd neu lle

DRAFT

gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch ynni adnewyddadwy sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

**ELC_03: Ynni carbon isel (diogelu)**
Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle mae cytundeb chwilio neu opsiwn wedi'i gynnig neu wedi'i wneud ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn cynnwys rhai ar gyfer ardaloedd arddangos, oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch arfaethedig. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

**ELC_04: Ynni carbon isel (diogelu)**

Dylai cynigion a all effeithio ar Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer ynni adnewyddadwy (yn cynnwys y rheini sydd ym mhroses asesiadau amgylcheddol strategol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni ar y môr) ddangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a) yn osgoi effeithiau niweidiol ar weithgareddau ynni adnewyddadwy dichonol yn y dyfodol yn yr ardaloedd hynny; a/neu
b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau; a

dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen lle nad yw (a-

c) yn bosibl.

## Canllawiau ar weithredu polisi diogelu

643. Mae'r polisïau diogelu hyn yn helpu i reoli'r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol neu arfaethedig neu rai dichonol yn y dyfodol gan y sector ynni carbon isel, yn cynnwys seilwaith ynni gwynt, tonnau a môr-lynnoedd llanw, ceblau rhwng araeau a cheblau allforio, parthau diogelwch ac unrhyw ddeunyddiau a gaiff eu gosod ar wely'r môr sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ynni carbon isel. Maent yn cydnabod bod angen alinio polisi cynllunio a phenderfynu ar gyfer sectorau eraill yn yr ardal forol â'n gweledigaeth ar gyfer amcanion ynni'r môr yn y dyfodol.

644. Mae'n bwysig diogelu mynediad at leoliadau penodol mewn perthynas ag adnoddau ynni adnewyddadwy'r môr y gall fod angen i gymdeithas eu defnyddio yn y dyfodol er mwyn cynhyrchu ynni carbon isel.

645. O dan bolisi **ELC_02**, bydd angen dangos mewn cynigion sy'n gorgyffwrdd ag ardaloedd lle rhoddwyd caniatâd neu awdurdodiad eu bod yn gallu cydfodoli'n ddiogel â gweithgareddau cynhyrchu ynni carbon isel oni bai eu bod, yn anarferol, yn cyflwyno achos dros fwrw ymlaen o dan amgylchiadau eithriadol. Mae hyn yn helpu i nodi partïon sydd â diddordeb mewn defnyddio / datblygu'r un ardaloedd ac i hwyluso trafodaeth rhyngddynt a'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol ar y cyfle cynharaf er mwyn adnabod cyfyngiadau a chyfleoedd i gydfodoli.

646. Gall amgylchiadau eithriadol gynnwys amgylchiadau lle mae'r budd economaidd neu gymdeithasol sydd i'w gael o'r gweithgarwch a gynigir yn fwy o lawer na'r hyn a gollir. Os gwneir cais am ganiatâd ar gyfer cynnig ar sail amgylchiadau eithriadol, dylid cyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer bwrw ymlaen. Yn benodol, mewn perthynas â'r polisïau ar ynni carbon isel yn y cynllun hwn, bydd yr ystyriaethau canlynol yn berthnasol yn yr achos a gyflwynir:

- Datganiadau Polisi Cenedlaethol trosfwaol Llywodraeth y DU ar gyfer Ynni (EN-1) ac Ynni Adnewyddadwy (EN-3) ac unrhyw Ddatganiad Polisi Cenedlaethol neu bolisi Llywodraeth arall sy'n berthnasol;
- bod y sector hwn yn faes y mae'r Cynllun yn rhoi blaenoriaeth iddo ac y bydd penderfynwyr yn ystyried y graddau y byddai'r cynnig yn cyflawni neu'n gallu tanseilio amcanion y sector ynni carbon isel;
- Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru a fydd, ar ôl ei fabwysiadu, yn cymryd lle'r Cynllun Gofodol Cymru presennol.

647. Mae polisïau **ELC_02** ac **ELC_03** yn ymwneud ag ardaloedd sy'n cael eu hystyried drwy'r Asesiad Amgylcheddol Strategol o Gynhyrchu Ynni ar y Môr a/neu'n cael eu dynodi yn y Cynllun hwn yn ardaloedd priodol i'w harchwilio ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy gan gynnwys parthau arddangos ynni a safleoedd profi y mae BEIS, Ystad y Goron, CNC a Llywodraeth Cymru wedi nodi

DRAFT

eu bod yn strategol bwysig ond na roddwyd trwydded eto i roi hawliau unigryw i'w defnyddio.

648. Mae ardaloedd lle mae cytundebau archwilio neu opsiwn wedi'u gwneud neu ardaloedd a gynigiwyd i'w lesio yn cynnwys y rheini ar gyfer:
- prosiectau ynni adnewyddadwy'r môr yn y parthau profi ac arddangos ynni tonnau a ffrwd lanw;
- prosiectau ynni tonnau neu ffrwd lanw ar raddfa fasnachol mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol;
- ffermydd gwynt ar raddfa fasnachol neu weithgarwch arfaethedig ar gyfer ynni ffrwd lanw;
- seilwaith sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r uchod

649. Mae polisi **ELC_04** yn ymwneud ag ardaloedd sy'n cynnwys adnoddau addas ar gyfer archwilio a chynhyrchu ynni adnewyddadwy (gweler Ffigurau 18 a) ac c)), yn cynnwys y rheini sydd wedi'u hystyried yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol o Gynhyrchu Ynni ar y Môr ond na chychwynnwyd cylch trwyddedu neu lesio ffurfiol ar eu cyfer.


650. Mewn cynigion ar gyfer caniatadau mewn ardaloedd ynni carbon isel (ardaloedd archwilio ac opsiwn, parthau arddangos neu Ardaloedd Adnoddau Strategol) neu mewn cynigion sy'n effeithio ar ardaloedd o'r fath, bydd angen dangos eu bod yn gallu cydfodoli'n ddiogel â gweithgareddau cynhyrchu ynni adnewyddadwy neu, os na allant, bydd angen rhoi cyfiawnhad clir ar argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen (lle nad yw (a-c) yn bosibl).

651. Mae polisi diogelu **ELC_04** hefyd yn ymdrin â'r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau dichonol ar gyfer môr-lynnoedd llanw yn y dyfodol ac mae'n ceisio sicrhau bod yr adnodd yn cael ei ddiogelu ar gyfer defnydd cynaliadwy dichonol yn y dyfodol.


652. Mewn cynigion ar gyfer caniatâd mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol ynni adnewyddadwy, neu mewn cynigion sy'n effeithio ar ardaloedd o'r fath, bydd angen dangos eu bod yn gallu cydfodoli'n ddiogel â'r sector neu, os na allant, bydd angen iddynt roi cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen (lle nad yw (a-c) yn bosibl). Mae amgylchiadau lle gellid (a) osgoi effeithiau niweidiol yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth i ddangos bod ardal y cynnig yn anaddas ar gyfer môr-lynnoedd llanw. Mae amgylchiadau lle gellid bodloni amod (b) yn cynnwys symud y cynnig i ardal sy'n llai ffafriol ar gyfer môr-lynnoedd llanw (ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael), neu gynnig cydfodoli.

DRAFT


## Ffigur 18(a): Ynni tonnau a ffrwd lanw (Ardal Adnoddau Strategol)




**Ffigur 18(b): Asesiad cynnar o’r ardal adnoddau gwynt ar gyfer mathau (sylfeini) ffermydd gwynt.**



## Ffigur 18(c): Map polisi – Ynni gwynt a safleoedd ffermydd gwynt



## Ffigur 18(d): Map polisi – Ardal Adnoddau Strategol Amrediad Llanw



## Ynni – Olew a nwy (yn cynnwys dadlwytho a storio nwy a dal a storio carbon deuocsid)

### Cyflwyniad

653. Mae ynni olew a nwy yn cynnwys chwilio am adnoddau olew a nwy, eu datblygu a'u cynhyrchu. Ystyr chwilio yw chwilio am adnoddau olew a nwy gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnolegau yn cynnwys mesur seismig, ailbrosesu data seismig a gafwyd eisoes, a drilio a phrofi ffynhonnau i ganfod a rhoi prawf ar adnoddau masnachol hyfyw. Ystyr cynhyrchu yw echdynnu'r adnoddau hyn o faes olew a nwy a bennwyd gan ddefnyddio llwyfannau cynhyrchu sefydlog, llongau cynhyrchu a storio arnofiol neu seilwaith tanfor sydd wedi'i gysylltu â gweithfeydd presennol neu wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r lan, a'r cynhyrchion yn cael eu hallforio drwy biblinellau neu ar longau.

654. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i newid i system ynni carbon isel ond yn cydnabod y bydd y newid hwn yn un graddol. Yn y cyfamser, bydd adnoddau tanwyddau ffosil (yn cynnwys olew a nwy) ac opsiynau chwilio ar gyfer dal a storio carbon deuocsid gwastraff mewn ffurfiannau daearegol yn chwarae rhan bwysig o hyd yn y cymysgedd ynni. O'u rheoli'n ddarbodus, mae buddsoddiadau mewn olew a nwy a'r refeniw mawr y maent yn ei gynhyrchu yn gallu helpu i gyrraedd nodau datblygu cynaliadwy a chyfrannu'n sylweddol at lesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol wrth i ni gymryd camau i ddatgarboneiddio ein heconomi. Ystyriaethau allweddol wrth i ni barhau i ddibynnu ar danwyddau ffosil yw'r newid yn yr hinsawdd, diogelu ffynonellau ynni, cost ynni i fusnesau a defnyddwyr a'r effaith ar yr amgylchedd.

655. Roedd olew a nwy alltraeth a echdynnwyd o sgafell gyfandirol y DU yn 2008 wedi ateb tua dwy ran o dair o'r galw am ffynonellau ynni cynradd (91% o'r galw am olew a 73% o'r galw am nwy)[40]. Mae datblygu olew a nwy hefyd yn ffynhonnell gyflogaeth bwysig, mae'n darparu cemegion gwerthfawr ar gyfer gweithgynhyrchu nwyddau ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at refeniw treth.

656. Ychydig o waith chwilio a chynhyrchu confensiynol ar gyfer olew a nwy a geir yn nyfroedd Cymru ar hyn o bryd. Roedd 28[ain] Cylch Trwyddedu Olew a Nwy Llywodraeth y DU yn cynnwys blociau trwyddedig yn Rhanbarthau Cynllunio Morol Cymru ond nid oedd y diweddaraf (y 29[ain] Cylch) yn cynnwys unrhyw flociau yn nyfroedd Cymru. Mae cyfyngiadau ar nifer o'r blociau ym Mae Ceredigion am eu bod o fewn meysydd hyfforddi a/neu ardaloedd perygl y Weinyddiaeth Amddiffyn ac maent wedi'u hepgor o gylchoedd trwyddedu ar hyn o bryd oherwydd ffactorau amgylcheddol sensitif.

657. Mae cyfleusterau ategol ar dir yn cynnwys:

[40] http://oilandgasuk.co.uk/wp-content/uploads/2015/05/EC006.pdf

- Terfynfa Nwy y Parlwr Du sy’n prosesu nwy a gaiff ei allforio o feysydd nwy Bae Lerpwl drwy biblinell ar dir ac o dan y môr i’r orsaf bŵer tyrbinau nwy cylch cyfun (CCGT) yng Nghei Connah;
- dwy derfynfa Nwy Naturiol Hylifedig a nifer o burfeydd olew yn Aberdaugleddau sy’n chwarae rhan strategol bwysig yn sector ynni’r DU. Mewnforir nwy naturiol hylifedig ar longau i borthladd Aberdaugleddau ac mae hwn yn weithgarwch economaidd pwysig sy’n cyfrannu at gynhyrchu trydan;
- gorsafoedd pŵer confensiynol mewn lleoliadau arfordirol: Aberddawan (CCGT[41] – 1555 MW); Penfro (CCGT – 2000 MW); Aber-wysg (llosgi glo – 240 MW); Cei Connah (CCGT – 1420 MW); Glannau Dyfrdwy (CCGT – 500 MW) a’r orsaf bŵer arfaethedig yn Aber-nedd (CCGT).
- Mae gorsaf bŵer niwclear Hinkley B yn weithredol ar lannau deheuol Môr Hafren, ac mae gorsafoedd Oldbury a Berkley yn cael eu datgomisiynu. Mae gorsaf bŵer niwclear newydd yn cael ei hadeiladu yn Hinkley C, a bwriedir adeiladu gweithfa CCGT yn Avonmouth - Seabank3.

658. Er mai ychydig o chwilio am olew a nwy a gafwyd yng Nghymru hyd yn hyn, nwy yw’r brif ffynhonnell ar gyfer cynhyrchu trydan ac fe’i defnyddir i gynhyrchu bron 50% o’r trydan yng Nghymru. Mae’r defnydd o lo ac ynni niwclear wedi lleihau’n raddol wrth ddatgomisiynu gweithfeydd cynhyrchu (ee Trawsfynydd) er bod cynlluniau i godi gorsaf niwclear Wylfa Newydd yn lle Wylfa A. Mae nwy yn ffynhonnell ynni hyblyg, ddibynadwy ac ymatebol sy’n cynhyrchu llai o allyriadau na thanwyddau ffosil eraill a bydd yn chwarae rhan allweddol yn y newid i system ynni carbon isel.

DRAFT

[41] Tyrbin nwy cylch cyfun (CCGT) – cyfuniad o dyrbin sy’n rhedeg ar nwy a thyrbin ager

## Cyfraniad olew a nwy i'r economi

**Gwerth Ychwanegol Gros yn y Sector Morol yng Nghymru, £ miliwn[42]**

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Olew a Nwy | 457 | 642 | 748 | 702 | 173 |

**Busnesau yn y Sector Morol yng Nghymru[43]**

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Olew a Nwy | 20 | 15 | 15 | 15 | 10 | 15 |

**Swyddi cyflogedig yn y Sector Morol yng Nghymru[44]**

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Olew a Nwy | 1,300 | 1,000 | 300 | 1,300 | 800 |

Yn ystod 2013, roedd tua 59 miliwn o dunelli o draffig nwyddau wedi mynd drwy borthladdoedd Cymru, sef 12 y cant o holl draffig porthladdoedd y DU. Roedd y rhan fwyaf ohono (tua 71 y cant) yn nwyddau swmpus hylifedig (cynhyrchion olew hylif, olew crai a nwy hylifedig yn bennaf).

## Y rhyngweithio presennol a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol â sectorau eraill

659. Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau yn y sector olew a nwy yn y dyfodol yn galw am gael mynediad i'r un ardal o wely'r môr neu o wyneb y môr ag ar gyfer gweithgareddau eraill. Bydd y rhyngweithio â defnyddwyr eraill y môr yn amrywio yn ôl technoleg, lleoliad a dwyster defnydd y gweithgareddau morol eraill. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y canlyniadau i hyn yn fach oherwydd lleoliad presennol y buddiannau olew a nwy yn y môr, ôl troed bach y seilwaith chwilio a chynhyrchu olew a nwy a pharhad byr y gweithgareddau chwilio a gyflawnir, ee arolygon seismig rhanbarthol neu safle-benodol a gweithrediadau drilio. Felly bydd gweithgareddau eraill yn gallu parhau'n agos i ffin allanol y clustogfeydd diogelwch.

660. Gan amlaf, bydd y chwilio cychwynnol am olew a nwy yn cael ei gyflawni gan longau archwilio seismig ond ychydig o ryngweithio a geir fel arfer rhwng y gwaith

[42] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Busnes Blynyddol, Cyfrifon Rhanbarthol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

[43] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Busnes Rhyngadrannol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

[44] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr o Fusnesau a'r Arolwg Cyflogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)



DRAFT

chwilio hwn a defnyddwyr eraill y môr er bod gweithgareddau mewn dyfroedd sy’n agos i’r lan yn gallu ymyrryd yn sylweddol â gweithrediadau pysgota, a bydd yn hollbwysig cydgysylltu ar hyn.

661. Fel arfer bydd yr arwynebedd o wely’r môr sy’n cael archwilio drwy haparolwg seismig neu sy’n dod o dan drwydded gynhyrchu ar y môr yn eithaf mawr er mwyn rhoi cyfle rhesymol i ddod o hyd i gronfeydd. Fodd bynnag, mae’r cronfeydd yn debygol o fod o fewn ardal lai o lawer, felly bydd ôl troed unrhyw seilwaith ar gyfer drilio neu gynhyrchu yn gymharol fach ac mae’n bosibl mai dim ond effaith fach a gaiff ar ddefnyddwyr eraill y môr.

662. Er hynny, mae’n bosibl y bydd gweithgareddau yn y sector olew a nwy yn y dyfodol yn galw am gael mynediad i’r un ardal o wely’r môr ag ar gyfer gweithgareddau eraill. Oherwydd ei bwysigrwydd strategol cenedlaethol a’i ôl troed cymharol fach, ychydig o ddiwydiannau eraill a fydd yn effeithio ar y sector olew a nwy. Yn ystod y camau trwyddedu a chaniatáu, bydd effeithiau’r sector olew a nwy ar ddefnyddwyr eraill (ac effeithiau defnyddwyr eraill ar y sector olew a nwy) yn cael eu hystyried drwy’r prosesau ymgeisio. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y prosesau’n ystyried anghenion defnyddwyr eraill ac yn mantoli’r rhain yn erbyn y rheidrwydd economaidd i adfer cymaint â phosibl o adnoddau olew a nwy.

663. Gall gweithgareddau’r Weinyddiaeth Amddiffyn fod yn gyfyngiad penodol ar y diwydiant:

- ym meysydd hyfforddi’r Weinyddiaeth Amddiffyn (gall yr Awdurdod Olew a Nwy (OGA) osod amodau arbennig ar eu cyfer mewn trwyddedau ar gyfer ardaloedd sy’n gorgyffwrdd yn rhannol neu’n llwyr);
- yn ardaloedd Perygl y Weinyddiaeth Amddiffyn sy’n cael eu gwarchod gan is-ddeddf sy’n rhoi hawliau i’r Weinyddiaeth Amddiffyn mewn perthynas â gwrthod presenoldeb a gweithgareddau personau a chychod a llongau, yn cynnwys gweithfeydd olew a nwy. Er y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cydweithio â chwmnïau olew a nwy i’w galluogi i chwilio a datblygu lle mae’r gweithgareddau hynny’n dderbyniol ganddi, ni ellir rhagdybio y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cytuno o reidrwydd i dderbyn gweithrediadau neu bresenoldeb cyfleusterau mewn lleoliad penodol, o fewn ardal o’r fath, neu ar amser penodol.

664. Mae rhannau helaeth o’r dyfroedd sy’n agos i lannau Cymru yn rhan o ardaloedd dynodedig y Weinyddiaeth Amddiffyn [gweler Ffigur 16]. Mae presenoldeb ardaloedd y Weinyddiaeth Amddiffyn ynghyd â ffactorau amgylcheddol sensitif wedi dylanwadu’n fawr ar nifer y blociau a gynigiwyd hyd yn hyn i’w datblygu ar gyfer olew a nwy ee ym Mae Ceredigion mae rhai blociau wedi’u hepgor o gylchoedd trwyddedu oherwydd ffactorau amgylcheddol sensitif ac mae amodau wedi’u gosod ar drwyddedau ar gyfer blociau eraill sy’n ymwneud â chyfyngiadau’r Weinyddiaeth Amddiffyn[45] ).

[45] https://ogauthority.maps.arcgis.com/apps/webappviewer/index.html?id=adbe5a796f5c41c68fc762ea137a682e

665. Oherwydd natur y broses echdynnu olew a nwy (ardaloedd chwilio eang ond effaith fach ar ddefnyddwyr eraill, a gweithrediadau drilio a chynhyrchu wedyn mewn ardaloedd cymharol fach lle mae angen amddiffyn y seilwaith cysylltiedig yn drwyadl), bydd effaith y sector ar ddefnyddwyr eraill y môr yn fach. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y canlyniad i unrhyw ryngweithio'n fach oherwydd ôl troed bach y seilwaith cynhyrchu olew a nwy. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gall y canlyniad fod yn wahanol, ee lle mae un o ddefnyddwyr eraill gwely'r môr wedi cael les i redeg fferm wynt. Lle y cytunwyd ar les ar gyfer gweithgarwch sydd wedi'i gydleoli, mae'n bosibl y bydd gofyniad am negodi rhwng y partïon cysylltiedig (gweler canllawiau Llywodraeth y DU, 2014[46]).

666. O dan y broses ymgeisio ar gyfer prosiectau, bydd yr Awdurdod Olew a Nwy (OGA) a'r Rheoleiddiwr Petrolewm Alltraeth ar gyfer yr Amgylchedd a Datgomisiynu (OPRED) yn sicrhau bod datblygwyr yn ymgynghori â defnyddwyr eraill y môr er mwyn ystyried eu rhyngweithio â'i gilydd a cheisio lleihau neu liniaru eu heffeithiau. O ganlyniad i hyn, bydd seilwaith olew a nwy ar y wyneb yn cael ei leoli fel arfer y tu allan i'r ardaloedd sefydledig ar gyfer morgludo ac ardaloedd y Weinyddiaeth Amddiffyn a bydd cyrff perthnasol yn cael eu hysbysu am seilwaith ar wely'r môr. Mae'r broses ganiatáu ar gyfer lleoli seilwaith a reoleiddir gan OPRED yn nodi peryglon sydd wedi'u hachosi gan y seilwaith a bydd siartiau mordwyo a physgota yn cael eu diweddaru drwy gydweithio ag UKHO, MCA a Seafish.

## Rhyngweithio ag ecosystemau

667. Mae cynhyrchu olew a nwy yn gallu arwain at nifer o wahanol bwysau dichonol ar yr amgylchedd. Bydd effeithiau'r rhain ar gydnerthedd ecosystemau yn dibynnu ar leoliad, parhad, dwysedd ac amseriad y gweithgareddau. Ymhlith y rhain mae sŵn sy'n cael ei greu wrth chwilio (ee arolygon seismig), a gweithgareddau cynhyrchu (ee drilio) a datgomisiynu (er nad oes tystiolaeth bod sŵn arferol o gynhyrchu a datgomisiynu yn cael effaith niweidiol); halogi dŵr a gwaddodion yn lleol gan gemegion neu olew ac addasu cynefinoedd o ganlyniad i osod seilwaith sefydlog.

668. Mae'r system ar gyfer diogelu'r amgylchedd alltraeth yn cwmpasu datblygiadau olew a nwy drwy gydol eu cylch bywyd, o'r cais am drwydded ar y dechrau hyd at ddatgomisiynu'r cyfleusterau'n derfynol. Mae'r holl weithgareddau a all effeithio ar yr amgylchedd yn cael eu hasesu'n ofalus, ac mae gweithgareddau'n cael eu rheoli drwy roi trwyddedau, caniatadau a mathau eraill o awdurdodiad. Bydd ystyriaethau amgylcheddol (yn enwedig mewn perthynas â mesurau i ddiogelu rhywogaethau o adar a morfilod) yn gallu arwain at osod cyfyngiadau ar weithgareddau penodol fel gwaith seismig neu ddrilio, mewn cyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn pan yw'r rhywogaethau'n fwyaf agored i niwed. Mae system arolygu a gorfodi effeithiol ar waith hefyd i gadarnhau cydymffurfiaeth â'r amodau mewn awdurdodiadau amgylcheddol a gymeradwywyd.

---

46 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/318704/Crown_Estate_Lease_Independent_Valuer_Guidance.pdf

DRAFT

## Y dyfodol

669. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod targed cyfreithiol ar gyfer lleihau allyriadau 80% o leiaf erbyn 2050 ac yn rhoi Gweinidogion Cymru o dan Ddyletswydd i osod cyfres o gyllidebau carbon a thargedau interim (ar gyfer 2020, 2030 a 2040), a fydd yn sicr o greu goblygiadau ar gyfer datblygu'r sector yn y dyfodol. Er bod nwy yn bwysig ar gyfer newid i system carbon isel, mae'n annhebygol o fod yn sail i economi ynni Cymru yn y tymor hir os na chymerir camau i liniaru'r effeithiau amgylcheddol, ee drwy ddal a storio carbon. Mae'r cyfleoedd i ehangu'r defnydd o ddulliau dal a storio carbon yn brin ar hyn o bryd oherwydd daeareg Cymru a'r ffaith nad oes cronfeydd olew a nwy gwag ar gael ar hyn o bryd sy'n addas ar gyfer hyn. Os bydd cyfle i ddatblygu'n codi yn ystod cyfnod y cynllun hwn, mae hynny'n debygol o fod yng Ngogledd Cymru, mewn cysylltiad â'r defnydd posibl o gronfeydd nwy Bae Lerpwl. Mae gorsaf bŵer Aberddawan yn rhedeg cyfleuster dal a storio carbon rhagbrofol ar dir sy'n werth miliynau o bunnoedd, ac mae nifer o sefydliadau'n ymchwilio i ymdrechion pellach i ddatblygu'r diwydiant dal a storio carbon yng Nghymru. Nid oes unrhyw gynnig wedi'i wneud yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer dal a storio carbon ond bydd y genhedlaeth nesaf o dechnoleg ar gyfer dal carbon, "Carbon Water Exchange" a ddatblygwyd gan Future Environmental Technologies (FET), yn cael ei threialu mewn uned Gwres a Phŵer Cyfunedig yng ngwaith gweithgynhyrchu Solutia yng Nghasnewydd.

670. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu mewn ffordd ragofalus mewn perthynas â nwy anghonfensiynol (ee nwy siâl) ac yn credu bod angen ystyried yr holl faterion sy'n codi yn ofalus, gan gynnwys effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â'i ddatblygu. Ar hyn o bryd, mae gwaith sy'n ymwneud â chwilio am gronfeydd nwy siâl a'r posibilrwydd o'u datblygu yn digwydd ar dir yn bennaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gweithgareddau chwilio ar y môr yn ddichonadwy os bydd y ffactorau daearegol ac economaidd perthnasol yn ffafriol.

## Y newid yn yr hinsawdd

671. Mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynnwys stormydd a thonnau eithafol a all amharu ar adeiladweithiau morol o bob math (ee llwyfannau olew a nwy, a seilwaith cysylltu) ac ar y gallu i weithio'n ddiogel o longau ar y môr (yn cynnwys gweithgarwch chwilio). Gall hyn effeithio ar benderfyniadau sy'n golygu dewis rhwng gosod adeiladweithiau sefydlog a sefydlu gorsafoedd dadlwytho, storio a chynhyrchu arnofiol (FPSO) er bod dyfnder dŵr a hyd oes y datblygiad yn ystyriaethau pwysicach.

672. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen troi oddi wrth ddefnyddio ynni seiliedig ar danwyddau ffosil at fuddsoddi mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy ac arbed mwy o ynni er mwyn cyrraedd targedau ar allyriadau ac ymdrin ag effeithiau newid hinsawdd.

## Anghenion allweddol am dystiolaeth

673. Mae angen ymgymryd â gwaith chwilio ychwanegol er mwyn canfod a fydd ffynonellau nwy brodorol yn gallu cyfrannu at y cymysgedd ynni yn y dyfodol a



DRAFT

dod â budd i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Asesiad Amgylcheddol Strategol y DU o Gynhyrchu Ynni ar y Môr (OESEA) sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer penderfynu ar fesurau diogelu amgylcheddol a datblygu cynaliadwy ar gyfer trwyddedu gweithrediadau olew a nwy a datblygiadau cynhyrchu ynni ar y môr eraill, yn cynnwys ffynonellau adnewyddadwy a storio nwy a charbon deuocsid

## Llywodraethu

674. Mae cyfrifoldeb dros reoli gweithrediadau chwilio ac echdynnu olew a nwy yn fater a gadwyd gan mwyaf ac mae'r rheoliadau trwyddedu yn cael eu gweinyddu gan yr Awdurdod Olew a Nwy (OGA) a'r rheoliadau amgylcheddol gan y Rheoleiddiwr Petrolewm Alltraeth ar gyfer yr Amgylchedd a Datgomisiynu (OPRED). Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros bolisi ynni'r DU.

675. Mae'r prif awdurdodau penderfynu a chynghori mewn perthynas â rhanbarthau cynllunio morol Cymru yn cynnwys: yr Awdurdod Olew a Nwy (OGA), sy'n un o Gwmnïau Llywodraeth; yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ei hun; yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE); Ystad y Goron, Llywodraeth Cymru a CNC a'r JNCC.

676. Er bod polisi ar ynni olew a nwy i Gymru yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU yn bennaf, mae'n hanfodol cael cydweithio yn yr holl feysydd polisi galluogi sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i wireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar ynni. Mae Llywodraeth Cymru yn credu mai hi sydd yn y lle gorau i gysoni dyheadau ynni Cymru ag anghenion ein cymunedau a'n hamgylchedd naturiol. Felly byddwn yn parhau i geisio pwerau llawn dros brosesau caniatáu ynni (ac eithrio ynni niwclear) ac i geisio sicrhau'r mecanweithiau sydd eu hangen i sbarduno'r technolegau sy'n addas i Gymru.

677. Mae'r Awdurdod Olew a Nwy yn dyroddi Trwyddedau Chwilio yn y Môr sy'n rhoi hawliau i chwilio'n unig (nid cynhyrchu). Hawliau sydd heb fod yn unigryw yw'r rhain, ac maent yn cwmpasu'r holl arwynebedd sydd y tu allan i ardaloedd unrhyw drwyddedau cynhyrchu sydd mewn grym ar y pryd. Mae Trwyddedau Chwilio yn caniatáu i gontractwyr arolygon seismig gasglu data i'w gwerthu yn hytrach na manteisio ar adnoddau daearegol eu hunain, ac yn caniatáu i ddeiliaid trwyddedau cynhyrchu ymgymryd â gwaith chwilio y tu allan i'r ardaloedd y maent yn dal hawliau unigryw arnynt.

678. Caiff trwyddedau cynhyrchu yn y môr eu dyroddi gan yr Awdurdod Olew a Nwy yn ystod cylchoedd trwyddedu Olew a Nwy Alltraeth rheolaidd (y diweddaraf oedd y 29ain cylch) i gwmni (neu i grŵp o gwmnïau). Gall yr Awdurdod Olew a Nwy gynnal Cylchoedd Trwyddedu Atodol hefyd ac mae hefyd yn bosibl cyflwyno ceisiadau unigol y tu allan i'r cylchoedd trwyddedu. Mae'n rhoi hawliau unigryw i'r trwyddedai i chwilio am, drilio am, a chynhyrchu olew a nwy crai o fewn ardal benodedig. Bydd trwyddedeion yn ceisio cael sicrwydd o'r hawl unigryw hon cyn

gwneud y buddsoddiadau sydd eu hangen i chwilio am feysydd olew a nwy ac ystyried y posibilrwydd o'u datblygu.

679. Ar ôl dyroddi'r drwydded cynhyrchu i'r gweithredwr, bydd yn ofynnol iddo ymgymryd â'r rhaglen waith sydd wedi'i phennu yn y cais, a all gynnwys drilio ffynnon/ffynhonnau i ganfod y potensial ar gyfer echdynnu hydrocarbonau. Os deuir o hyd i gronfeydd economaidd hyfyw, rhaid cyflwyno cynllun datblygu maes i'r Awdurdod Olew a Nwy i'w gymeradwyo a chael Caniatâd Cynhyrchu. Bydd y dogfennau amgylcheddol i gynnal y broses hon yn cael eu cyflwyno i OPRED a fydd yn penderfynu ar y cais.

680. Yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw'r broses ar gyfer arfarnu mesurau diogelu amgylcheddol a datblygu cynaliadwy a'u hystyried mewn penderfyniadau ynghylch cynlluniau a rhaglenni Llywodraeth (ac eraill), fel cylchoedd trwyddedu olew a nwy a datblygiadau cynhyrchu ynni ar y môr eraill, yn cynnwys ynni adnewyddadwy a storio nwy a charbon deuocsid. Mae Llywodraeth y DU wedi cynnal cyfres o Asesiadau Amgylcheddol Strategol ar gyfer cynnal cylchoedd lesio a thrwyddedu (yn cynnwys yr holl gylchoedd trwyddedu olew a nwy alltraeth o'r 19eg Cylch yn 2001 hyd at y 29ain Cylch diweddaraf yn 2016). Mae proses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau Gweinidogol drwy ystyried y goblygiadau amgylcheddol o gynlluniau/rhaglenni arfaethedig. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ystyried mewn Asesiadau Amgylcheddol Strategol ar gyfer cynhyrchu ynni ar y môr a bydd yr asesiadau hynny hefyd yn cyfrannu at fersiynau o'r cynllun hwn yn y dyfodol.

681. Mae'r broses statudol o ymgeisio am ganiatâd datblygu a chynhyrchu yn galw am gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, sy'n cynnwys asesiad o effeithiau Cronnol. Mae'n bosibl y bydd gofyniad hefyd i gynnal asesiad o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar gyfer ceisiadau os ydynt o fewn Safle Morol Ewropeaidd neu os gallant effeithio ar safle o'r fath. Bydd trwyddedau amgylcheddol etc. a roddir wedyn yn gysylltiedig â gweithgareddau penodol.[47]

682. O dan y broses ymgeisio ar gyfer prosiectau, bydd yr Awdurdod Olew a Nwy ac OPRED yn sicrhau bod datblygwyr (hy gweithredwyr olew a nwy) yn ymgynghori â defnyddwyr eraill y môr i ystyried eu rhyngweithio â'i gilydd a cheisio osgoi, lleihau neu liniaru eu heffeithiau. Bydd yr ymgynghoriadau'n ymwneud â safleoedd a gweithgareddau penodol ond gallant gynnwys Llywodraeth Cymru, CNC a chynrychiolwyr y sectorau hynny sy'n gweithredu yn ardal y gweithgarwch neu ddatblygiad arfaethedig. Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o'r datblygiadau olew a nwy wedi digwydd hyd yn hyn mewn ardaloedd sydd ymhellach o'r lan lle mae nifer y defnyddwyr yn gymharol fach a'r rhyngweithio rhwng sectorau'n hawdd ei reoli. Ceir cydgysylltu ar draws ffiniau ag adrannau llywodraeth eraill o dan y broses ymgeisio, er enghraifft â Lloegr (ar draws y ffin rhwng Gogledd Cymru a Lloegr), ag Ynys Manaw, a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon.

---

[47] Mae rhagor o wybodaeth ar gael am reoliadau a chanllawiau amgylcheddol yn: https://www.gov.uk/guidance/oil-and-gas-offshore-environmental-legislation



DRAFT

683. Mae Dal a Storio Carbon (CCS) yn broses dri cham sy'n cynnwys: cipio carbon deuocsid o orsafoedd pŵer a ffynonellau diwydiannol eraill; ei gludo, drwy biblinellau fel arfer (er ei bod yn bosibl ei gludo ar y môr), i fannau storio; a'i storio'n ddiogel mewn safleoedd daearegol alltraeth fel ffurfiannau halwynog neu feysydd olew a nwy gwag. Nid yw CCS yn dechnoleg a brofwyd yn fasnachol eto lle mae'r Awdurdod Olew a Nwy a BEIS yn gyfrifol am y fframwaith trwyddedu, caniatáu a mesurau diogelu amgylcheddol.

## Amcan y sector

| | |
|---|---|
| Manteisio i'r graddau mwyaf posibl yn economaidd ar ddatblygu ac adfer adnoddau olew a nwy'r DU er mwyn darparu cyflenwad diogel a dibynadwy o danwyddau ffosil i fusnesau a defnyddwyr yng Nghymru a'r DU. | |

## Polisi'r sector olew a nwy a chanllawiau ar weithredu

684. Mae polisi'r sector olew a nwy yn gymwys i ranbarth y glannau a'r rhanbarth môr mawr yn ardal y cynllun.

685. Er bod maint y cynnyrch cynhenid yn lleihau dros y tymor hir, disgwylir y bydd olew a nwy o bwysigrwydd canolog o hyd wrth i'r wlad newid i economi carbon isel. Drwy gael cyflenwadau hydrocarbonau'r DU o ffynonellau cynhenid, ceir llai o ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd tramor gan ddiogelu ein cyflenwadau ynni ymhellach. Mae'r DPM yn nodi bod manteisio i'r graddau mwyaf posibl yn economaidd ar ddatblygu ac adfer adnoddau olew a nwy ar sail gynaliadwy yn flaenoriaeth yn strategaethau'r DU ar gyfer cyflenwadau ynni a diogelu ffynonellau ynni. Bydd angen chwilio ardaloedd newydd er mwyn darganfod adnoddau a rhoi'r gallu i gyflawni'r amcan o adfer y mwyaf posibl o adnoddau yn economaidd. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys amcan y flaenoriaeth Genedlaethol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith nad yw gweithgareddau chwilio yn rhwystr parhaol o reidrwydd i ddefnyddwyr eraill y môr a, hyd yn oed lle deuir o hyd i hydrocarbonau, fod yr ardal lle gwaherddir gweithgareddau eraill er mwyn darparu unrhyw gyfleusterau drilio neu gynhyrchu alltraeth sydd eu hangen yn gallu bod yn gymharol fach.

686. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni i Gymru sy'n rhoi'r buddion mwyaf posibl i'n heconomi a'n cymunedau, gan leihau'r effeithiau dichonol ar yr amgylchedd. Mae hyn yn rhan o nod Llywodraeth Cymru o ddilyn polisïau datblygu cynaliadwy sy'n sail i dwf a ffyniant yng Nghymru gan gydnabod pwysigrwydd ynni dibynadwy a fforddiadwy a rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol. Yn y tymor hir, mae datblygu cynaliadwy yn dibynnu ar y gallu i gael meintiau cynyddol o ynni o ffynonellau sy'n ddibynadwy, yn ddiogel ac yn amgylcheddol gadarn. Oherwydd hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i



DRAFT

leihau ein dibyniaeth ar ffynonellau ynni nad ydynt yn adnewyddadwy ac i newid i system ynni carbon isel.

687. Fodd bynnag, oherwydd yr heriau sy’n codi wrth ddiogelu ffynonellau ynni, bydd yn rhaid parhau i ddibynnu ar olew a nwy yn ystod y cyfnod hwn o newid. Er hynny, ceisir cyfleoedd i leihau allyriadau carbon o’r defnydd o olew a nwy. Bydd dal a storio carbon, os caiff ei fasnacholi’n llwyddiannus a’i gynnal gan fframwaith rheoleiddio priodol, yn elfen hanfodol yn nyfodol ein hynni yn y tymor canolig a hir. Gall gynnig ateb sy’n gyson â’r galwadau cyfredol, gan roi’r amser sydd ei angen i ddatblygu dulliau adnewyddadwy amgen.

688. Lle mae’n angenrheidiol defnyddio adnoddau nad ydynt yn adnewyddadwy fel nwy, dylid eu defnyddio mor effeithlon â phosibl. Mae strategaeth MER y DU[48] yn bolisi sy’n ceisio adfer yn economaidd y meintiau mwyaf posibl o adnoddau o gronfeydd y DU ac mae’n pennu gwahanol rwymedigaethau i ddatblygwyr a rheoleiddwyr sy’n cwmpasu pob agwedd ar chwilio a datblygu er mwyn adfer y gwerth mwyaf posibl o adnoddau. Mae Datganiadau Polisi Cenedlaethol trosfwaol ar Ynni hefyd yn berthnasol i weithgareddau’r cynllun, ac maent yn darparu polisi mewn perthynas â phrosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol.

689. Mae’r cynllun hwn yn ailddatgan polisi cenedlaethol ac felly nid yw’n gosod unrhyw feichiau newydd ar y diwydiant.

690. **Mae’r [Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau] yn gymwys.**

691. Dylid ystyried y polisïau ar sectorau yn y cynllun hwn ochr yn ochr â’r polisïau trawsbynciol cyffredinol sydd yn y cynllun hwn, nodau llesiant Cymru ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn bwysig bod y broses ymgeisio am awdurdodiad yn cymhwyso’r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy’n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau eraill lle maent wedi’u pennu). Dylid darparu tystiolaeth sy’n ymwneud â pholisïau perthnasol i hwyluso penderfyniadau. Mae’r polisïau yn y cynllun hwn yn gosod canllawiau ar gyfer cynigion a phenderfyniadau (ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill); nid ydynt yn dileu’r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol. Oherwydd hynny, ni ddylid rhagdybio y bydd cais o fewn Ardal Adnoddau Strategol y sector dan sylw yn llwyddiannus. Yn yr un modd, nid yw gweithgarwch gan y sector yn cael ei atal y tu allan i Ardaloedd Adnoddau Strategol a bennwyd.

48 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/509000/MER_UK_Strategy_FINAL.pdf

DRAFT

## Polisïau cefnogi

> **O&G_01: Olew a nwy (cefnogi)**
> Anogir cyflwyno cynigion sy'n mwyhau'r cyflenwad hirdymor o olew a nwy, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio'n llwyr â mesurau i ddiogelu'r amgylchedd sydd yn y prosesau statudol ar gyfer dyfarnu trwyddedau cynhyrchu a chymeradwyaethau a roddir wedyn ar gyfer gweithgareddau penodol.

> **O&G_02: Olew a nwy (cefnogi)**
> Anogir cyflwyno cynigion sy'n cefnogi datblygu hirdymor ar dechnoleg dal a storio carbon.

## Canllawiau ar weithredu polisi cefnogi

692. Mae polisi **O&G_01** yn cydnabod y rhan y bydd tanwyddau ffosil yn parhau i'w chwarae yn ystod cyfnod y cynllun hwn wrth newid i gymysgedd ynni carbon isel ac yn sicrhau bod cyflenwadau o adnoddau ynni na ellir eu hadnewyddu yn cael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl. Mae'r polisi'n cymell datblygu gweithgareddau olew a nwy o fewn dyfroedd cyfagos i Gymru.

693. Mae proses Asesiad Amgylcheddol Strategol y DU o Gynhyrchu Ynni ar y Môr yn cwmpasu ardaloedd (blociau) y gellir gwneud cais am drwyddedau cynhyrchu ar eu cyfer ac mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygu priodol ar gynhyrchu olew a nwy yn yr ardaloedd hyn. Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer Cynhyrchu Ynni ar y Môr wedi asesu goblygiadau amgylcheddol y cynllun/rhaglen arfaethedig, ee trwyddedu blociau penodol a'r gweithgareddau dichonol o ganlyniad i hynny er mwyn cyfrannu i benderfyniadau ar drwyddedu a lesio. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer Cynhyrchu Ynni ar y Môr yn dangos lleoliad yr adnoddau perthnasol. Felly, nid yw'r polisi yn y cynllun hwn yn ymwneud ag Ardal Adnoddau neu Ardal Adnoddau Strategol benodol.

694. Nod polisi **O&G_02** yw diogelu cyflenwadau ynni yn unol â pholisi ynni Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU ac amcanion y sector gan leihau allyriadau carbon. Dal a storio carbon (DSC) yw'r broses o ddal carbon deuocsid ($CO_2$) gwastraff o darddleoedd, fel gorsafoedd pŵer tanwydd ffosil, ei gludo i safle storio, a'i ddyddodi lle na fydd yn mynd i'r atmosffer. Mae Deddf Ynni 2008 yn darparu ar gyfer cyfundrefn drwyddedu sy'n rheoli'r dull o storio carbon deuocsid oddi ar y glannau. Mae'r Awdurdod Olew a Nwy yn goruchwylio'r trwyddedu ar gyfer storio carbon a'r gofrestr gyhoeddus storio carbon; mae BEIS yn goruchwylio'r polisi ac yn cefnogi datblygiad DSC yn y DU; ac mae OPRED yn asesu ac yn penderfynu ar y ceisiadau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â DSC.

695. Anogir datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd



DRAFT

rhan mewn cyfleoedd i ymdrin â bylchau allweddol mewn tystiolaeth a chael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy'r sector gan gynnwys o fewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.

696. **Wrth baratoi cynigion sy'n gysylltiedig ag olew a nwy, dylai datblygwyr gymhwyso'r polisïau diogelu perthnasol ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn.**

### Polisïau diogelu

697. Ym mhob cynnig (yn cynnwys cynigion newydd gan y sector olew a nwy) a all effeithio ar weithgareddau olew a nwy presennol neu arfaethedig neu rai dichonol yn y dyfodol, dylid cymhwyso'r polisïau canlynol ar gyfer diogelu olew a nwy.

**O&G_03: Olew a nwy (diogelu)**
Ni ddylid awdurdodi cynigion mewn ardaloedd lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd ar gyfer seilwaith olew a nwy oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Mewn amgylchiadau eithriadol, os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

**O&G_04: Olew a nwy (diogelu)**
Mewn cynigion a all effeithio ar weithgarwch dichonol yn y dyfodol mewn ardaloedd (blociau) a gynigir ar gyfer trwyddedu olew a nwy, dylid osgoi sterileiddio'r ardal honno ar gyfer echdynnu olew a nwy yn y dyfodol a dangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a) yn osgoi effeithiau niweidiol dichonol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) yn lleihau effeithiau dichonol lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) yn lliniaru effeithiau dichonol lle na ellir eu lleihau; a

dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen lle nad yw (a-c) yn bosibl.

## Canllawiau ar weithredu polisi diogelu

698. Mae'r polisïau diogelu hyn yn helpu i reoli'r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol ac arfaethedig a rhai dichonol yn y dyfodol yn y sector olew a nwy.

699. Mae polisïau diogelu olew a nwy yn gweithredu ar ddwy lefel: polisi cyffredinol iawn sy'n ymwneud â blociau a gynigir i'w trwyddedu, hy rhai sydd heb eu diystyru drwy broses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (**O&G_04**); a pholisi diogelu cryfach sy'n ymwneud yn fwy penodol ag ardaloedd lle cymeradwywyd (neu lle gwnaed cais am) ganiatâd cynhyrchu a datblygu ar gyfer olew a nwy, gan gynnwys unrhyw gymeradwyaethau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau penodol (**O&G_03**).

700. O dan bolisi **O&G_03**, mewn cynigion sy'n gorgyffwrdd ag ardaloedd lle rhoddwyd trwyddedau neu lle cymeradwywyd neu lle gwnaed cais am ddatblygiadau olew a nwy, bydd angen dangos eu bod yn gallu cydfodoli'n ddiogel â gweithgareddau ar gyfer chwilio am olew a nwy neu eu cynhyrchu oni bai, mewn achosion anarferol, eu bod yn cyflwyno achos dros fwrw ymlaen o dan amgylchiadau eithriadol [gweler **Cyflwyniad i'r penodau ar sectorau**]. Mae'r polisi hwn yn helpu i nodi partïon sydd â diddordeb mewn defnyddio / datblygu'r un ardaloedd ac i hwyluso trafodaeth rhyngddynt a'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol ar y cyfle cynharaf er mwyn adnabod cyfyngiadau a chyfleoedd i gydfodoli.

701. Mae polisi **O&G_03** yn gymwys i'r ardal lle mae seilwaith presennol neu arfaethedig, yn cynnwys pennau ffynhonnau, maniffoldiau, terfynfeydd a llwyfannau, piblinellau (yn cynnwys llwybrau allforio), ceblau, parthau diogelwch ac unrhyw ddeunyddiau a gaiff eu gosod ar wely'r môr. Bydd yn cynnwys unrhyw ardal wahardd o fewn cwmpas o 500m i weithfeydd sefydlog, fel y maent wedi'u diffinio mewn deddfwriaeth, ac ardal ragofal o fewn cwmpas o 250m i biblinellau a maniffoldiau.

702. Bydd y term "lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am" yn dod i rym pan fydd yr Awdurdod Olew a Nwy wedi cael cais neu wedi cytuno â'r datblygwr un ai ar ardal ddiffiniedig ar gyfer drilio ymchwiliol neu ar gynllun datblygu maes sy'n diffinio'r datblygiad gan gynnwys lleoliad y seilwaith.

703. Bydd angen rhoi sylw mewn unrhyw gynnig i'r ffaith y bydd y penderfynwyr yn ystyried pwysigrwydd yr ardal dan sylw o ran cwrdd ag amcanion y sector olew a nwy a'r graddau y bydd y cais yn effeithio ar y gofyniad hwnnw os caiff ei dderbyn.

704. Mewn cynigion sy'n gofyn am ganiatâd ar sail amgylchiadau eithriadol, dylid cyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol wedi'i seilio ar dystiolaeth dros fwrw ymlaen, gan ystyried er enghraifft:
   - Pwysigrwydd strategol y cynnig o ran cyflawni polisi llywodraeth yn unol ag unrhyw un o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol trosfwaol Llywodraeth y DU ac a yw'r cynnig yn ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2015/16 (gellir hefyd ystyried cynigion llai yn ôl natur y defnydd presennol).



DRAFT

- A yw'r sector a gefnogir yn sector lle rhoddir blaenoriaeth i dwf o dan y cynllun hwn ac y bydd penderfynwyr yn ystyried y graddau y bydd amcanion y sector neu amcanion strategol y cynllun yn cael eu cyflawni neu'n agored i effeithiau niweidiol os caiff y cais ei dderbyn.

705. Rhaid i'r penderfynwr gyfeirio at y DPM ac at unrhyw ganllawiau neu ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig sydd wedi'u dyroddi o bryd i'w gilydd ac a ddaethpwyd i unrhyw gytundeb digolledu mewn egwyddor rhwng buddiannau'r gwahanol sectorau.

706. O dan bolisi **O&G_04**, mewn cynigion o fewn blociau sydd wedi'u cynnig neu eu rhoi gan yr Awdurdod Olew a Nwy ar gyfer trwyddedu cynhyrchu yn y môr, bydd angen dangos eu bod yn gallu cydfodoli'n ddiogel â gweithgareddau echdynnu olew a nwy[49].

707. Bydd y term "cynigion a all effeithio ar weithgarwch dichonol yn y dyfodol mewn ardaloedd (blociau) a gynigir ar gyfer trwyddedu olew a nwy" yn dod i rym pan fydd yr Awdurdod Olew a Nwy wedi agor cylch trwyddedu, cylch trwyddedu atodol (a'r ceisiadau wedi cael eu gwneud) neu pan fydd cais wedi'i gyflwyno y tu allan i gylch trwyddedu. Mae proses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer Cynhyrchu Ynni ar y Môr yn ystyried y goblygiadau i'r amgylchedd ar raddfa eang o ganlyniad i weithgareddau chwilio a chynhyrchu mewn ardaloedd sydd o dan ystyriaeth a gall hefyd bennu ardaloedd sy'n anaddas i'w datblygu. Felly, ym mhob cynnig newydd, dylid ystyried cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol o Gynhyrchu Ynni ar y Môr ar gyfer yr ardal er mwyn canfod unrhyw wybodaeth ac argymhellion a all fod yn berthnasol i'r gweithgareddau a gynigir.

708. Ni phennwyd Ardaloedd Adnoddau penodol o dan y polisi hwn gan nad yw'n ymarferol diffinio maint y cronfeydd tanddaearol o olew a nwy a'r lleoliad(au) gorau ar gyfer drilio.


709. O dan bolisi **O&G_04**, bydd angen dangos mewn unrhyw gynigion newydd eu bod un ai'n gallu cydfodoli â gweithgareddau chwilio a chynhyrchu ar gyfer olew a nwy neu, os na allant, rhaid cyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen (lle nad yw (a-c) yn bosibl). Pwrpas y polisi hwn yw atal sterileiddio ardaloedd sydd o dan ystyriaeth ar gyfer olew a nwy a sicrhau bod unrhyw gynigion newydd mewn ardaloedd o'r fath yn cydweddu â'r sector olew a nwy.

710. Byddai unrhyw achos dros fwrw ymlaen yn y lleoliad hwnnw yn cael ei gyflwyno i'r penderfynwr perthnasol i'w ystyried drwy drafod â'r Awdurdod Olew a Nwy / OPRED cyn iddo roi unrhyw ganiatâd i ddatblygu.

---

[49] https://www.ogauthority.co.uk/licensing-consents/licensing-rounds/

## Ffigur 19: Map polisi – Olew a nwy (yn cynnwys gorsafoedd pŵer)



## Pysgodfeydd

### Cyflwyniad

711. Mae sector pysgota môr masnachol Cymru yn ddiwydiant amrywiol sy’n gweithredu ar draws rhanbarth y glannau a rhanbarth môr mawr y cynllun a cheir y rhan fwyaf o’i weithgareddau o fewn 6mf i’r glannau. Mae’r fflyd pysgota môr yn cynnwys cychod a llongau sy’n amrywio o ran eu maint, eu math a’u gwlad cofrestru, a busnesau cysylltiedig sy’n defnyddio gwahanol ddulliau pysgota sy’n adlewyrchu amrywiaeth y rhywogaethau a marchnadoedd sydd ar gael. Mae’r rhan fwyaf o gychod a llongau’n canolbwyntio ar rywogaethau sydd heb gwota sef, yn bennaf, cramenogion (ee cimychiaid, rhywogaethau o grancod), pysgod cregyn molysgaidd (ee cregyn bylchog, cregyn moch) a hefyd ar amrywiaeth o bysgod asgellog, yn enwedig draenogiaid y môr, lledod coch, lledod chwithig a morgathod. Y dulliau pysgota mwyaf cyffredin yw casglu â llaw, genweirio (yn cynnwys dal eogiaid a sewin), pysgota â llinyn hir, llusgrwydo, rhwydi gosod a rhwydi drifft, pysgota â chewyll (cimychiaid, crancod, cregyn moch a chorgimychiaid), treillrwydi trawst ac estyllod. Ceir sector genweirio hamdden môr llewyrchus hefyd yng Nghymru [gweler **Twristiaeth a Hamdden**].

712. Mae’r sector pysgota môr masnachol hefyd yn ymwneud â thrafod dalfeydd, ee dosbarthu, prosesu a gwerthu; adeiladu a chynnal cychod; a gweithgynhyrchu a chynnal neu atgyweirio offer pysgota. Mae’r sector pysgota yn cyfrannu mewn ffordd allweddol i gymunedau gwledig ar yr arfordir lle gall cyfleoedd am gyflogaeth fod yn gyfyngedig. Mae gwerth economaidd a chymdeithasol y sector yn cynnwys mwy na gwerth pysgod a cynhyrchion pysgodfeydd wrth eu gwerthu am y tro cyntaf neu’r sector gwasanaethau ehangach hy cyflenwadau, tanwydd, gêr môr a ffioedd porthladd. Mae cysylltiadau rhyngddo hefyd a diwylliant a threftadaeth sydd yn aml yn cyfoethogi hunaniaeth lleoliadau ar yr arfordir. Mae pysgod a physgod cregyn yn ffynhonnell protein bwysig, felly mae argaeledd y rhain yn gallu cyfrannu at greu Cymru iachach ac at ddiogelu ffynonellau bwyd.

713. Un o nodweddion neilltuol y sector pysgota yng Nghymru yw ei fod yn cynnwys busnesau bach yn bennaf sy’n gweithredu o’r glannau neu o gychod bach (<10m) mewn lleoliadau gwasgaredig ar yr arfordir. Mae cychod bach a gweithrediadau mewn lleoliadau sefydlog yn wynebu cyfyngiadau mawr ac felly’n agored i ymyrraeth a’r posibilrwydd o’u dadleoli gan amrywiaeth o ffactorau. Yn benodol, rhaid ystyried effeithiau’r canlynol, sydd yn aml yn gronnol ac yn rhyngweithio â’i gilydd:
- Tywydd (gall y cyfleoedd i bysgota fod yn brin fel bod angen i weithredwyr weithio yn y ffordd fwyaf hyblyg posibl);
- Llifau llanw cryf (mewn rhai lleoliadau ac ar y gorllanw ddwywaith y mis);
- Gweithgareddau sectorau eraill un ai drwy eu gweithrediadau uniongyrchol neu eu seilwaith gosod;
- Ardaloedd lle mae gwaharddiadau ym meysydd tanio’r Weinyddiaeth Amddiffyn, sy’n cwmpasu ardaloedd eang yng Nghymru;
- Ardaloedd Morol Gwarchodedig (ee i ddibenion gwarchod natur);
- Cyfyngiadau rheoli pysgodfeydd (ee cau ardaloedd neu eu cau dros gyfnod penodol / cyfyngiadau i helpu i reoli neu adfer stociau);



DRAFT

- Gweithgareddau pysgota eraill sy'n cystadlu fel presenoldeb offer sefydlog (cewyll neu rwydi) sy'n atal y defnydd o offer symudol (treillrwydi neu lusgrwydi).

714. Y nod wrth reoli pysgodfeydd yw darparu ar gyfer gweithgarwch pysgota cynaliadwy, hynny yw, cysoni gweithgarwch sy'n elwa o'r bysgodfa a gallu'r amgylchedd naturiol i'w ailgyflenwi ei hun ac felly darparu digon o gynhyrchion pysgodfa i gwrdd ag anghenion dynol am byth. Mae pysgodfeydd cynaliadwy wedi'u seilio ar sector pysgota hyfyw nad yw'n bygwth cydnerthedd poblogaethau o bysgod dros y tymor hir ac ar arferion pysgota nad ydynt yn amharu ar allu poblogaethau o bysgod i epilio a gallu stociau i ymadfer (hy defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn hybu cydnerthedd ecosystemau morol). Er mwyn sicrhau bod y sector pysgodfeydd yn gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, fel ei fod yn ffynhonnell bwyd iach, rhaid sicrhau bod y sector pysgota yn ddynamig ac yn rhoi safon byw deg i gymunedau pysgota. Mae ystyriaethau o ran diogelwch yn bwysig hefyd, gan fod galwedigaethau yn y sector pysgota yn beryglus iawn yn aml a'r risgiau o ddydd i ddydd yn sylweddol.

DRAFT

## Cyfraniad pysgodfeydd i'r economi

Yn 2013 roedd 731 o bysgotwyr (472 o bysgotwyr rheolaidd a 259 o rai rhan-amser) yng Nghymru, tua 6% o'r cyfanswm yn y DU. Mae hyn yn cymharu ag oddeutu 1,020 o bysgotwyr yng Nghymru yn 2012.

**Gwerth Ychwanegol Gros yn y Sector Morol yng Nghymru, £ miliwn**[50]

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pysgota | 35 | 30 | 30 | 26 | 35 |

**Busnesau yn y Sector Morol yng Nghymru**[51]

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pysgota | 280 | 280 | 280 | 280 | 275 | 280 |

**Swyddi cyflogedig yn y Sector Morol yng Nghymru**[52]

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pysgota | 800 | 400 | 700 | 700 | 900 |

Glaniwyd tua 13,285 o dunelli o bysgod a physgod cregyn yng Nghymru gan gychod a llongau o'r DU yn 2013, yn cynnwys 11,510 o dunelli o bysgod cregyn a 1,773 o dunelli o bysgod dyfnforol. Cyfanswm gwerth y glaniadau gan gychod a llongau o'r DU yng Nghymru oedd tua £16.5 miliwn yn 2013. Cafwyd tua 70% o hynny o bysgod cregyn.

Glaniwyd tua 4,335 o dunelli o bysgod cregyn gan gychod a llongau'r DU ym mhorthladd Caergybi yn 2013, a glaniwyd 2,123 o dunelli ym mhorthladd Saundersfoot a 1,647 o dunelli ym mhorthladd Aberdaugleddau, gyda glaniadau o tua 1,620 o dunelli o bysgod dyfnforol yn achos yr olaf. Cyfanswm gwerth y glaniadau yn y tri phorthladd hyn oedd £2.7 miliwn, £1.7 miliwn a £6.9 miliwn, yn y drefn honno.

Glaniwyd tua 7,640 o dunelli o bysgod gan Fflyd Cymru yn 2013, 6,927 o dunelli ohonynt yn bysgod cregyn a 712 o dunelli yn bysgod dyfnforol, gyda gostyngiad amlwg yng nghyfanswm maint y glaniadau yn 2013 o'i chymharu â blynyddoedd

DRAFT

[50] Manylion Pysgota, Dyframaethu a Phrosesu a Chadw, dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Busnes Blynyddol, Cyfrifon Rhanbarthol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

[51] Manylion Pysgota, Dyframaethu a Phrosesu a Chadw, dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Busnes Rhyngadrannol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

[52] Manylion Pysgota, Dyframaethu a Phrosesu a Chadw, dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr o Fusnesau a'r Arolwg Cyflogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

diweddar eraill. Roedd gwerth y glaniadau hyn yn is hefyd yn 2013, sef £9.7 miliwn.

Yn 2012, casglwyd cocos ac iddynt werth amcangyfrifedig o £3.3 miliwn yn aberoedd Cymru, o Afon Dyfrdwy a Chilfach Tywyn yn bennaf.

Pysgodfeydd graddfa fach (cychod 12m neu lai o hyd) sy'n cyfrannu fwyaf i economi Cymru o ran maint a gwerth. Yn 2014, roedd 466 o gychod pysgota wedi'u cofrestru yng Nghymru (426 yn llai na 10m o hyd a 40 yn fwy na 10m o hyd) a'r rheini'n gweithredu o tua 33 o harbyrau a mannau lansio ac yn cyflogi tua 850 o bysgotwyr masnachol yn uniongyrchol. Yn 2014, glaniwyd gwerth £2.8 miliwn (1,213 o dunelli) o bysgod a gwerth tua £12.0 miliwn (10,500 o dunelli) o bysgod cregyn yng Nghymru gan gychod a llongau o'r DU (cregyn bylchog, cregyn moch a chrancod/cimychiaid yn bennaf). Mae mwy na 90% o'r rhywogaethau cimychiaid a chrancod yn cael ei gludo'n fyw ar lorïau Vivier a'u gwerthu'n fyw yn Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal a'u cludo ar awyrennau i Tsieina a Hong Kong.

Yn 2015, gwerth yr allforion o fwyd môr o Gymru oedd £29.2 miliwn, 18% yn is na'r £35.6 miliwn yn 2014, yn rhannol oherwydd cryfder sterling. Sbaen oedd y prif gyrchfan ar 57%, wedyn De Korea ar 14%, yr Iseldiroedd ar 12% a Ffrainc ar 11%. Allforion o Gymru yw 22% o gyfanswm gwerth y bwyd môr a allforir o'r DU.

### Y rhyngweithio presennol a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol â sectorau eraill

715. Mae'r amgylchedd morol yn cael ei weld yn ased pysgodfeydd cyffredin sydd wedi'i seilio ar hawliau pysgodfeydd cyhoeddus ac mae'n cynnal cymysgedd mawr ac amrywiol o fuddiannau pysgodfeydd. Yn aml, mae gweithgareddau pysgota yn lleol iawn ac yn dibynnu ar ardal neu gynefin penodol ac felly bydd gweithgareddau morol eraill yn gallu ymyrryd â nhw neu eu hatal. Oherwydd ei ôl troed eang a gwasgaredig, mae'r ffactorau hyn yn peri bod y diwydiant pysgota, a chychod llai yn enwedig, yn agored iawn i ymyrraeth oddi wrth weithgareddau morol eraill ac yn aml nid yw ei ddadleoli'n barhaol i ardaloedd newydd yn ddewis dichonadwy.

716. Bydd gweithrediadau pysgodfeydd, yn ôl eu math, yn rhyngweithio â gweithgareddau gan wahanol ddefnyddwyr morol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gellir cael rhyngweithio helaeth rhwng buddiannau pysgodfeydd sefydledig a sectorau eraill oherwydd natur wasgarog gweithgareddau pysgota a'r ffaith eu bod yn dibynnu'n aml ar gynefinoedd silio a meithrin eang sy'n cynnal stociau cydnerth o bysgod .

717. Mae'r DPM yn tynnu sylw at werth pysgota masnachol i gymunedau lleol a'r ffaith bod gweithgareddau eraill yn gallu cael effaith bellgyrhaeddol ar bysgota. Ceir pryderon yn y sector pysgota y bydd gweithgareddau morol newydd a'r rheini sy'n datblygu yn gallu amharu ar wasanaethau ecosystemau ac arwain at ddadleoli gweithgareddau o feysydd pysgota. Gall gweithgareddau pysgota ryngweithio â gweithgareddau morol eraill, yn cynnwys cynhyrchu ynni, echdynnu agregau, carthu cyfalaf a mordwyol, gwaredu, meysydd tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn, llwybrau morgludo a mordwyo, ceblau, piblinellau, llwyfannau neu adeiladweithiau



DRAFT

eraill o dan y môr, a gall y gweithgareddau hyn ymyrryd â gweithgareddau pysgota neu eu hatal. Bydd cynigion ar gyfer datblygu newydd gan sectorau eraill yn gallu arwain at ddadleoli gweithgareddau o feysydd pysgota, newidiadau yn nosbarthiad yr adnodd, neu effeithiau dichonol ar feysydd silio neu feithrin sy'n cynnal stociau o bysgod. Ar wahân i ddadleoli, gellir cael effeithiau dichonol ar weithgareddau pysgota o weithfeydd sefydlog sy'n peri risg i fordwyo neu'n creu'r posibilrwydd o rwygo offer pysgota llusg gan arwain at ddifrod a all fod yn gostus a goblygiadau o ran diogelwch. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd am gydfodoli rhwng seilweithiau sefydlog a gweithgareddau pysgota.

718. Oherwydd eu natur wasgarog a symudol, mae gweithgareddau pysgota yn gallu effeithio ar sectorau eraill; mae dulliau pysgota ag offer symudol neu sefydlog yn gallu rhwystro llwybrau mordwyo ac ymyrryd â gweithgareddau carthu agregau a gweithgarwch y Weinyddiaeth Amddiffyn. Y ffordd orau o ddelio â'r materion hyn yw drwy ddulliau gwirfoddol a chydgysylltu effeithiol rhwng y gwahanol bartïon er ei bod yn bosibl y bydd yn angenrheidiol cyflwyno rheolaethau statudol weithiau, ee gwahardd pysgota mewn sianeli mordwyo dynodedig neu o gwmpas adeiladweithiau sy'n gysylltiedig ag olew.

719. Rhoddir anogaeth i gydfodolaeth rhwng gweithgareddau, yn cynnwys pysgota, yn y cynllun hwn. Yn aml, bydd gweithgareddau'n gallu cydfodoli drwy gydgysylltu effeithiol a mesurau rheoli ymarferol, ee pysgota yn ardaloedd y Weinyddiaeth Amddiffyn neu mewn ardaloedd sy'n cael eu harchwilio (ee ar gyfer echdynnu agregau neu olew a nwy) y gellir ei gyflawni ar amseroedd sy'n gyfleus i bob parti. Nid yw pob ardal yn gyfwerth ar gyfer pysgota, ac nid yw pob math o bysgota'n digwydd drwy'r flwyddyn; mae'r amrywiaeth ac amrywioldeb hwn yn cynnig cyfle da i gydfodoli.

720. Mae cyflenwi cynnyrch o ansawdd da i gymunedau lleol yn gallu hybu twristiaeth leol drwy ddarparu bwyd môr o ansawdd da a gafwyd yn lleol sy'n cyfrannu at hunaniaeth leol a chymeriad yr ardal. Mae'r sector pysgota yn darparu incwm i borthladdoedd a harbyrau ac mae ganddo hanes o gydweithio'n adeiladol â sectorau eraill i sicrhau canlyniadau synergeddol.

721. Mae difrod i feysydd pysgota a stociau'n gallu arwain at ganlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol arwyddocaol, fel colli swyddi, dadleoli gweithgarwch pysgota, a niwed i ecosystemau a chynhyrchiant ehangach. Yn ogystal â hyn, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau ar feysydd silio a meithrin ac ar gynefinoedd a llwybrau mudo cysylltiedig yn nhermau effeithiau dichonol ar gydnerthedd ecosystemau ehangach. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae adeiladweithiau ar wely'r môr yn gallu cysgodi a diogelu ecosystemau rhag effeithiau (gan gynnwys y rheini o bysgota).

### Rhyngweithio ag ecosystemau

722. Mae pysgod yn adnodd naturiol pwysig ac mae cyflwr pysgodfeydd Cymru yn arwydd o iechyd a chydnerthedd ecosystemau morol. Mae'n bwysig rheoli pysgodfeydd gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod stociau pysgod yn cael eu pysgota'n gynaliadwy ac yn aros yn iach a bod effeithiau dichonol ehangach ar yr amgylchedd o ganlyniad i bysgota yn cael eu hystyried.



DRAFT

723. Mae stociau pysgod yn adnodd adnewyddadwy lle bydd y gyfradd epilio yn pennu cyfradd cynhyrchu'r bysgodfa. Y nod wrth reoli pysgodfa yw darparu ar gyfer gweithgarwch pysgota cynaliadwy; hynny yw, cysoni gweithgarwch sy'n elwa o'r bysgodfa â gallu'r amgylchedd naturiol i'w ailgyflenwi ei hun ac felly darparu adnoddau digonol i gwrdd ag anghenion pobl heb danseilio cydnerthedd yr ecosystem. Er mwyn sicrhau bod pysgodfeydd yn gynaliadwy, rhaid cael sector pysgota hyfyw sy'n dilyn arferion pysgota sy'n cynnal stociau a'u cynhyrchiant dros y tymor hir, hy defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau morol.

724. Y Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf yw'r amcangyfrif o'r cynnyrch mwyaf y gellir ei gymryd yn gynaliadwy o stoc rhywogaeth dros gyfnod amhenodol gan ganiatáu i'r bysgodfa ei chynnal ei hun drwy hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu rhaglen ar gyfer monitro, rheoli a chadw gwyliadwriaeth ar weithgareddau pysgota môr i sicrhau bod stociau pysgod yn cael eu rheoli mewn ffordd ymaddasol er mwyn osgoi gorbysgota. Mewn pysgodfa amlrywogaeth (hy yn y rhan fwyaf o bysgodfeydd), wynebir her wrth geisio amlhau neu optimeiddio cynnyrch yr holl stociau yr un pryd. Mae sicrhau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf o rai stociau yng Nghymru yn un agwedd ar ennill Statws Amgylcheddol Da i'n moroedd o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

725. Mae pysgodfeydd yn gallu cael effeithiau niweidiol ar wahanol gydrannau o ecosystemau morol (ar wahân i ddileu rhywogaethau a dargedir). Os dilëir rhywogaethau sy'n ffynhonnell bwyd i rywogaethau eraill, gall hynny gael effeithiau ehangach ar y gadwyn fwyd; gall pysgod eraill a rhywogaethau o famaliaid morol gael eu dal yn ddamweiniol; gellir cael effeithiau ffisegol ar wely'r môr a chynefinoedd ar waelod y môr. Os na reolir effeithiau o'r fath yn briodol, gallant effeithio ar gynhyrchiant yr adnodd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy danseilio cydnerthedd ecosystemau.

726. Ceir pysgota masnachol eisoes mewn nifer o ardaloedd sydd â dynodiad amgylcheddol penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â CNC i werthuso'r effeithiau o bysgota ar nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn sicrhau bod safleoedd a warchodir yn cael eu diogelu a'u bod yn parhau i gynnal pysgodfeydd cynaliadwy a bod cydnerthedd ecosystemau ehangach yn cael ei ddiogelu.

## Y dyfodol

727. Mae nifer o stociau masnachol o bysgod asgellog yn cael eu rheoli ar hyn o bryd drwy gyfyngu mynediad a gosod terfynau dalfa ar gyfanswm y pwysau a ganiateir (cwotâu). Yn aml, gwneir defnydd llawn o'r cwotâu hyn fel nad oes fawr o gyfle i ehangu. Oherwydd yr hanes hir o bysgota, mae'n annhebygol y bydd ardaloedd newydd sydd heb eu pysgota yn dod i'r golwg. Wrth flaengynllunio dylid canolbwyntio ar gryfhau economi'r sector. Mae hyn yn dibynnu ar gyfleoedd i bysgota am rywogaethau sydd wedi'u tanddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy, yn cynnwys rhai pysgod asgellog a physgod dwygragennog, a chynyddu gwerth economaidd yr hyn sy'n cael ei ddal yn barod. Mae hefyd yn bosibl y bydd y sector yn gallu arallgyfeirio; gellir defnyddio cychod pysgota ar gyfer twristiaeth a hamdden, ymchwil a monitro ac i wasanaethu llongau ar rai adegau o'r flwyddyn.



DRAFT

728. Wrth chwilio am gyfleoedd i dyfu'r sector, dylid canolbwyntio ar wella systemau trafnidiaeth i gadw dalfeydd yn ffres a lleihau gwastraff, ochr yn ochr â mesurau sy'n ychwanegu gwerth yn hytrach na chynyddu dalfeydd. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd o ddefnyddio mecanweithiau presennol ee cwmnïau marchnata cydweithredol, yn ogystal â datblygu marchnadoedd newydd i gynhyrchion newydd, mwy o brosesu lleol a gwella cynhyrchion gyda logisteg fwy effeithiol, sydd i gyd yn lleihau costau ac yn gwella proffidioldeb.

729. Mae mentrau sy'n gwella cysylltedd yn y sector, yn sicrhau gwell stiwardiaeth ar yr amgylchedd arfordirol ac yn rhoi mwy o gyfrifoldeb rheoli i bysgotwyr ac yn gwella trefniadaeth a chynrychiolaeth y sector yn debygol o arwain at well cyfleoedd mewn pysgodfeydd yn y tymor hir drwy weithgareddau pysgota cynaliadwy, cynnal neu wella lefelau stociau ac ychwanegu gwerth.

## Y newid yn yr hinsawdd

730. Mae'r prif effeithiau tebygol o'r newid yn yr hinsawdd yn codi o newidiadau yn nhymheredd y môr sy'n dylanwadu ar gynhyrchiant rhywogaethau a'u dosbarthiad (ee penfras (rhywogaeth ogleddol) yn symud ymhellach i'r gogledd ac allan o ardal y cynllun; a'r fôr lawes a'r cranc heglog (rhywogaethau deheuol) yn ymsefydlu'n fwy yn ardal y cynllun), yn ogystal â'r effeithiau dichonol o stormydd amlach a mwy o ddŵr ffo. Yn y tymor hir, byddai asideiddio cefnforoedd yn gallu creu goblygiadau sylweddol i strwythurau a gweithrediadau ecosystemau morol.

731. Mae'n bosibl y bydd newidiadau yn nosbarthiad a chynhyrchiant rhywogaethau yn cynnig cyfleoedd mewn marchnadoedd newydd neu'n rhoi mwy o bwysau ar ddyraniadau cwota (yn lleol ac yn genedlaethol). Gellir cael effaith ar broffidioldeb o ganlyniad i newidiadau ym mhatrymau tywydd a mwy o stormydd yn ymyrryd â gweithgareddau, drwy ddifrodi offer pysgota neu rwystro mynediad at gyfleusterau prosesu a marchnadoedd. Mae'n bosibl y bydd angen mwy o hyblygrwydd ar ran pysgotwyr i symud rhwng meysydd pysgota er mwyn ymateb i effeithiau newid hinsawdd ar ddosbarthiad stociau ond byddai cyfyngiadau ymarferol yn gallu amharu ar y gallu i ymaddasu ar lefel y busnes unigol.

## Anghenion allweddol am dystiolaeth

732. Mae bylchau allweddol mewn tystiolaeth am y sector pysgodfeydd sy'n berthnasol i gynllunio morol yn cynnwys:
- Data gofodol da am weithgareddau pysgodfeydd a'u dalfeydd;
- Mae'r wybodaeth am gamau mewn cylchoedd bywyd yn well ar gyfer rhai rhywogaethau na'i gilydd, ee mae'r meysydd silio a meithrin ar gyfer rhai rhywogaethau wedi'u diffinio'n weddol dda ond mae llai o ddealltwriaeth am ardaloedd bwydo a mudo;
- Deall y goblygiadau o newidiadau mewn dulliau pysgota i stociau pysgod ac i'r amgylchedd a deall y rhyngweithio sydd rhyngddynt (ee er mwyn sicrhau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf);
- Deall opsiynau a gwerth dulliau rheoli neu lywodraethu gwahanol a all hwyluso penderfynu a buddsoddi effeithiol yn y tymor hir;
- Rhyngweithio economaidd-gymdeithasol a buddion cymunedol ehangach, yn cynnwys pysgodfeydd hamdden;



DRAFT

- Costau a gwerth ardaloedd morol gwarchodedig a'u manteision a'u rhyngweithio â physgodfeydd;
- Dod i ddeall sut  i sicrhau'r gwerth economaidd mwyaf o weithgareddau pysgota yn y tymor hir, heb danseilio cydnerthedd stociau neu ecosystemau;
- Cael gwell gwybodaeth am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar stociau pysgod ac ecosystemau;
- Deall yr opsiynau dichonol ar gyfer cydfodoli.

### Llywodraethu

733. Mae rheoleiddio'r sector pysgodfeydd yn faes a ddatganolwyd yn bennaf yn ardal y cynllun morol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n ddarostyngedig i ystyriaethau ynghylch Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE yn gyffredinol, ac yn benodol mynediad hanesyddol gan rai cychod a llongau o'r UE yn y parthau 6- 12 mf a >12 mf.

734. Mae'r prif awdurdodau penderfynu a chynghori yn cynnwys: yr UE, Llywodraeth Cymru, MMO, CNC, Cefas, a Seafish Wales. Yn ogystal â hyn, mae'r Asiantaeth Diogelwch Bwyd, yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod ac Awdurdodau Lleol yn ymwneud â dosbarthu mannau lle gwerthir molysgiaid dwygragennog yn fasnachol at ddibenion iechyd cyhoeddus neu ardystio mangreoedd a symudiadau pysgod cregyn sy'n gysylltiedig â hyn. Cydgysylltir yn uniongyrchol â'r sector pysgota drwy ei Gymdeithasau a thrwy'r Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru (WMFAG) sy'n darparu cyngor strategol i Lywodraeth Cymru.

735. Mae cyfyngiadau rheoli ar bysgodfeydd (ee ar feintiau pysgod, rheoli offer, gwahardd cychod a llongau a chau pysgodfeydd) yn gymwys i bob person sy'n cael pysgota. Gall pysgodfeydd molysgiaid dwygragennog fod yn amrywiol ac anrhagweladwy gan eu bod yn dibynnu ar silio cyfnodol sy'n gysylltiedig ag amodau amgylcheddol. Gellir rheoli pysgodfeydd cocos o dan Orchymyn Rheoleiddio (a wneir o dan Ddeddf Pysgodfeydd (Pysgod Cregyn) 1967) fel a wneir yng Nghilfach Tywyn ac Aber Afon Dyfrdwy lle rhoddir trwyddedau er mwyn rheoli gweithgareddau (gweler y wybodaeth am Orchmynion Pysgodfa Unigol yn yr adran ar Ddyframaethu).

736. Mae pysgota o fewn 6 mf ac ar y lan / mewn ardaloedd rhynglanw yn cael ei reoli'n llwyr gan Lywodraeth Cymru o dan ddeddfwriaeth Gymreig (Offeryn Statudol) a thu hwnt i 6 mf o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig (hyd at y terfyn yn y môr â gwledydd cyfagos sydd wedi'i ddiffinio gan Barth Pysgodfeydd Cymru) a thrwy gydymffurfio â hawliau mynediad o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

737. Gan fod pysgota'n weithgarwch mor eang, mae'n digwydd ym mhob ardal gan gynnwys y rheini sy'n cydffinio â gwledydd eraill.  Lle mae hynny'n digwydd, mae'n bwysig bod awdurdodau cyhoeddus yn cydgysylltu ar faterion gan gynnwys rhannu tystiolaeth, rheoli a gorfodi ar y cyd. Yn benodol, ceir cydgysylltu yn Aber Afon Dyfrdwy drwy grŵp rheoli (sy'n cynnwys Awdurdod Gwarchod Pysgodfeydd Glannau Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, MMO ac Asiantaeth yr Amgylchedd) a cheir cydgysylltu mwy cyffredinol ym Môr Hafren (MMO, Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Gwarchod Pysgodfeydd Glannau Dyfnaint a Hafren).  Yn Aber Afon Dyfrdwy, mae grŵp cydgysylltu (defnyddwyr) Pysgodfeydd

Môr wedi'i sefydlu hefyd, ac un arall ar gyfer gweithredu Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa Gocos Aber Afon Dyfrdwy sy'n cael ei reoli gan CNC. Yn gyffredinol, mae stociau o bysgod asgellog y môr mawr (yn cynnwys y rheini mewn dyfroedd sy'n agos i Weriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon ac Ynys Manaw) yn cael eu rheoli drwy gydgysylltu gan yr MMO a hynny'n aml drwy fecanweithiau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE (ee Cynghorau Ymgynghorol Pysgodfeydd Rhanbarthol) lle mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan. Fodd bynnag, cynhelir gweithrediadau gorfodi ar y cyd mewn pysgodfeydd o bryd i'w gilydd yn enwedig pan fo cudd-wybodaeth ar gael.

738. Yn wahanol i sectorau eraill, mae pysgota'n digwydd o dan hawl pysgodfa gyhoeddus ac o ganlyniad nid yw fel arfer yn cael ei "gydsynio" (hy yn cael ei ganiatáu neu ei drwyddedu), ond fe gaiff ei gyfyngu lle bo angen i gyflawni amcanion morol ehangach. Lle rhoddir trwydded neu ganiatâd (ee yn achos cychod a llongau pysgota masnachol neu bysgota am gocos), gellir cyfyngu niferoedd neu osod terfynau ar faint o bysgod a gymerir, rheoli amser neu le'r pysgota a'r offer a ddefnyddir. Fel arfer, rhoddir caniatâd o'r fath ar ôl cynnal asesiad, yn enwedig os yw'r pysgota'n digwydd ar safleoedd cadwraeth dynodedig.

### Amcan y Sector

| | |
|---|---|
| Cefnogi a diogelu sector pysgota amrywiol a phroffidiol yn cynnwys hyrwyddo pysgodfeydd lle mae dalfeydd yn gynaliadwy a sicrhau'r gwerth economaidd mwyaf posibl o'r pysgod a ddelir fel cyflenwad protein cynaliadwy. | |

### Polisi'r sector pysgodfeydd a chanllawiau ar weithredu

739. Mae polisi'r sector pysgodfeydd yn gymwys i ranbarth y glannau a'r rhanbarth môr mawr yn ardal y cynllun.

740. Mae'r DPM yn datgan: 'the UK has a long history of fishing in both inshore and offshore waters which the UK administrations wish to see continue'. Mae'n egluro y bydd y broses cynllunio morol yn galluogi 'the coexistence of compatible activities wherever possible' ac mae'n cefnogi camau i leihau gwrthdaro presennol a dichonol a hefyd i sicrhau'r cydweddu mwyaf posibl ac i gymell cydfodolaeth rhwng gweithgareddau.

741. Ar adeg datblygu'r cynllun, mae Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE yn cael effaith uniongyrchol ac yn darparu'r prif fframwaith ar gyfer rheoli stociau pysgod yn gynaliadwy yn nyfroedd yr UE gan gynnwys Cymru. Yn absenoldeb y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac wrth i'r DU dynnu allan o'r UE, mae'n debygol y bydd mesurau cyfatebol yn cael eu cyflwyno drwy fesurau cenedlaethol. Mae pysgota eisoes yn cael ei reoli ar y tir ac ym Mharth Cymru a bydd yn cael ei ystyried drwy'r broses hon.

DRAFT

742. Mae rheoli pysgodfeydd yn galw am bysgota stociau o bysgod a physgod cregyn yn gynaliadwy yn unol â'r gofynion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae rheolwyr pysgodfeydd cenedlaethol yn cydymffurfio â gofynion am ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd morol a warchodir a mesurau morol ehangach i ddiogelu ecosystemau morol.

743. Er mwyn sicrhau y bydd y sector pysgota yn hyfyw yn y tymor hir, dylai gweithgareddau pysgota gael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy hy dylai cyfranogwyr gysoni eu gweithgareddau pysgota ag argaeledd a sensitifrwydd y stociau pysgod, gan edrych i'r tymor hir, a pheidio â chael effaith niweidiol ar gydnerthedd ecosystemau ehangach. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ceisio sicrhau bod stociau'n cael eu rheoli ar lefel y Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf a bod cydnerthedd ecosystemau'n cael ei gynnal neu ei sicrhau. Er mwyn sicrhau bod pysgodfeydd yn gynaliadwy yn y tymor hir, parheir i ddibynnu ar set o fesurau rheoli pysgodfeydd a fydd yn rheoli ee mynediad i bysgodfeydd, dulliau pysgota (yn cynnwys maint y cwch neu long) neu faint lleiaf y pysgod a ddelir (yn cynnwys y Meintiau Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf). Pwrpas y rhain yw rheoli gweithgareddau pysgota er mwyn diogelu ecosystemau a gadael i boblogaethau pysgod epilio a, lle bo angen, gadael i stociau ymadfer. Mae mesurau hefyd sy'n ymwneud â marchnata pysgod a chynhyrchion pysgodfeydd ar dir sy'n gyson â mesurau ar gyfer y môr.

744. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynllunio'n gadarnhaol i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r sector pysgota. Dylid cefnogi cyfleoedd i arallgyfeirio a/neu gynyddu gwerth gweithgareddau a dalfeydd presennol a rhoddir anogaeth i gynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd. Mae dogfennau strategol perthnasol Llywodraeth Cymru yn cynnwys: Cynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd Cymru (2013)[53]; a Strategaeth Fwyd i Gymru (2010)[54]. Mae'n bwysig hefyd fod y dull o reoli pysgodfeydd yn adlewyrchu anghenion y sector hamdden gwerthfawr sydd â buddiant uniongyrchol yng nghyflwr stociau pysgod.

745. **Mae'r [Canllawiau generig ar weithredu polisi ar Sectorau] yn gymwys.**

746. Dylid ystyried y polisïau ar sectorau yn y cynllun hwn ochr yn ochr â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol sydd yn y cynllun hwn, nodau llesiant Cymru ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn bwysig bod y broses ymgeisio am awdurdodiad yn cymhwyso'r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy'n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau eraill lle maent wedi'u pennu). Dylid darparu tystiolaeth sy'n ymwneud â pholisïau perthnasol i hwyluso penderfyniadau. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn gosod canllawiau ar gyfer cynigion a phenderfyniadau (ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill); nid ydynt yn dileu'r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol.

---

[53] http://gov.wales/docs/drah/publications/131127-marine-and-fisheries-strategic-action-plan-cy.pdf

[54] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/foodanddrink/foodpolicyandstrategy/?lang=cy



DRAFT

## Polisi cefnogi

> **FIS_01: Pysgodfeydd (cefnogi)**
> Anogir cyflwyno cynigion sy'n cefnogi ac yn gwella gweithgareddau pysgota cynaliadwy.
> Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio er mwyn:
> - datblygu sylfaen dystiolaeth strategol i gael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd i ddatblygu pysgodfeydd yn gynaliadwy;
> - cefnogi camau i ddatblygu a mireinio Ardaloedd Adnoddau Strategol;
>
> er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector pysgodfeydd drwy gynllunio morol..

## Canllawiau ar weithredu polisi cefnogi

747. Mae'r polisi hwn yn ceisio cefnogi datblygu cynaliadwy yn y diwydiant pysgota. Er nad yw'r rhan fwyaf o weithgareddau pysgota yn cael eu rheoleiddio drwy'r system trwyddedu morol, dylai awdurdodau cyhoeddus roi ystyriaeth gadarnhaol i gyfleoedd i gefnogi'r sector, drwy drafod â chynrychiolwyr y sector. Rhai enghreifftiau o gynigion sy'n cefnogi ac yn hybu gweithgareddau pysgota cynaliadwy yw:

- defnyddio cynlluniau cymorth grant i ddarparu cymorth i addasu i gyfundrefnau amgylcheddol a rheoli pysgodfeydd;
- mentrau sy'n darparu ar gyfer cydfodoli gwell rhwng gweithgareddau ac sy'n lleihau'r risg o ddadleoli;
- mentrau sy'n hybu cydweithio;
- mentrau sy'n cymell pysgotwyr yn benodol i fod yn geidwaid adnoddau'r pysgodfeydd y maent yn dibynnu arnynt, yn cynnwys sefydlu cwmnïau cydweithredol a chymdeithas(au) pysgotwyr;
- mentrau sy'n hybu arallgyfeirio priodol mewn pysgodfeydd er mwyn cymryd rhywogaethau sy'n cael eu tanddefnyddio;
- mentrau sy'n cynyddu gwerth dalfeydd ac yn lleihau costau a gwastraff, yn cynnwys camau i hybu prosesu yng Nghymru, pob un yn ffordd o wella proffidioldeb y sector;
- mentrau i ddod o hyd i farchnadoedd domestig yn y sectorau manwerthu a lletygarwch;
- mentrau i ddod o hyd i farchnadoedd cynaliadwy o werth uwch mewn gwledydd tramor;
- mentrau sy'n hybu pysgota cynaliadwy fel achredu gan y Cyngor Stiwardiaeth Forol;



DRAFT

- mentrau sy'n hyrwyddo gwell dealltwriaeth o bysgodfeydd a'r amgylchedd;
- mentrau sy'n helpu i bennu Ardaloedd Adnoddau Strategol o bwysigrwydd strategol i'r sector pysgota;
- sefydlu pysgodfa gynaliadwy newydd gan dargedu rhywogaethau newydd.

748. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys polisi diogelu sy'n canolbwyntio ar ddadleoli sy'n cefnogi'r sector hwn. Fodd bynnag, mae argaeledd data am weithgareddau pysgota yn nyfroedd y glannau yn ffactor sy'n cyfyngu'r gallu i ddeall a dangos pwysigrwydd gwahanol feysydd pysgota ac i ddatblygu polisïau diogelu mwy penodol a gofodol ar gyfer pysgodfeydd drwy gynllunio morol. Mae polisi **FIS_01** yn annog y sector i gydweithio ag awdurdodau cyhoeddus perthnasol a phartïon cysylltiedig eraill i bennu meysydd pysgota pwysig fel y gellir eu hystyried mewn ffordd strategol a systematig sy'n cefnogi cydfodoli rhwng y sector pysgota a sectorau eraill. Dim ond drwy sicrhau cefnogaeth gan y sector y gellir dilyn y dull hwn o weithredu. Ni fydd mapio'r ardaloedd hyn yn golygu y bydd llai o gefnogaeth i'r sector drwy bolisi cynllunio mewn ardaloedd eraill lle mae pysgota'n digwydd, ond fe ddylai helpu i leihau gwrthdaro a gwella'r cydweddu yn yr ardaloedd sydd o'r pwysigrwydd strategol mwyaf i'r sector. Drwy sicrhau bod tystiolaeth o'r fath ar gael, bydd yn haws i sectorau eraill ystyried ac ymateb i fuddiannau pysgodfeydd wrth gynllunio ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol o dan y polisïau diogelu yn y cynllun hwn.

749. Anogir datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i ymdrin â bylchau allweddol mewn tystiolaeth a chael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy'r sector gan gynnwys o fewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.

750. **Wrth baratoi cynigion sy'n gysylltiedig â physgodfeydd, dylai datblygwyr gymhwyso'r polisïau diogelu perthnasol ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn.**

## Polisïau diogelu

751. Ym mhob cynnig (yn cynnwys cynigion newydd gan y sector pysgodfeydd) a all effeithio ar weithgareddau pysgodfeydd presennol, dylid cymhwyso'r polisïau canlynol ar gyfer diogelu pysgodfeydd.

**FIS_02: Pysgodfeydd (diogelu)**

Dylai cynigion a all ddadleoli gweithgareddau pysgota masnachol ddangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a) yn osgoi dadleoli'r gweithgareddau hynny; a/neu
b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau; a

dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen lle nad yw (a-c) yn bosibl.

DRAFT

**FIS_03: Pysgodfeydd (diogelu)**

Dylai cynigion a all effeithio ar ardaloedd pwysig ar gyfer bwydo, magu (yn cynnwys silio a meithrin) ac ymfudo neu ar gynefinoedd ar gyfer rhywogaethau allweddol o bwysigrwydd masnachol neu ecolegol ddangos sut maent, yn nhrefn blaenoriaeth:

a) yn osgoi effeithiau niweidiol ar yr ardaloedd hynny; a/neu
b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau; a

dylent gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen lle nad yw (a-c) yn bosibl.

## Canllawiau ar weithredu polisi diogelu

752. Mae'r polisïau diogelu hyn yn helpu i reoli'r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol y sector pysgodfeydd.

753. Mae polisïau diogelu yn gymwys i sectorau a all effeithio ar weithgareddau pysgota sefydledig (**FIS_02**) ac ar ardaloedd o bwysigrwydd ecolegol sy'n cynnal pysgodfeydd (**FIS_03**). Yn unol ag egwyddor cynllunio cadarnhaol, mae'r polisïau hyn yn ceisio rhoi'r gallu i weithgareddau sefydledig barhau a ffynnu lle bynnag y bo modd. Dylai awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cydfodoli, lle bynnag y bo modd, rhwng gweithgareddau pysgota sefydledig ac unrhyw gynigion newydd.

754. Os oes potensial mewn cynnig i effeithio ar bysgota masnachol neu ardaloedd sy'n ei gynnal, rhoddir anogaeth gryf i'r cynigydd ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid pysgodfeydd perthnasol wrth ffurfio cysyniad y cynnig a'i gynllunio a'i ddylunio. Ymhlith y rhanddeiliaid a all fod yn berthnasol y mae rheolwyr pysgodfeydd, pysgotwyr lleol, awdurdodau cyhoeddus perthnasol a sefydliadau cynhyrchwyr pysgod. Mewn rhai achosion, bydd cynigion yn cael effaith dros dro ar weithgareddau pysgota. Dylid pennu'r achosion hyn drwy ymgysylltu'n gynnar ac ymdrin â nhw drwy ddilyn y polisi ar gyfer osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau yn nhrefn blaenoriaeth.

755. Yn wahanol i longau mwy ag offer symudol sy'n pysgota mewn ardaloedd ehangach, nid yw'n hawdd adleoli cychod a llongau yn nyfroedd glannau Cymru i ardaloedd eraill, lle bydd y gofod sydd ar gael a'r cyfleoedd i gael dalfeydd yn debygol o fod yn brin, beth bynnag. Os bydd awdurdodau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau sy'n golygu bod rhaid dadleoli gweithgareddau, fel bod llongau neu gychod pysgota yn adleoli'n barhaol i ardaloedd eraill, mae adleoli o'r fath yn



DRAFT

annhebygol o fod yn ddewis dichonadwy i bysgotwyr unigol. Os ceir unrhyw fath o ymyrraeth â gweithgareddau pysgota, hyd yn oed dros dro, gall hynny effeithio ar hyfywedd ariannol busnesau bach mewn lleoliadau penodol. Gellir cael effeithiau cymdeithasol neu economaidd eraill yn gysylltiedig â dadleoli parhaol, ee bod meysydd newydd yn llai proffidiol i bysgotwyr, neu eu bod yn anaddas i'w pysgota gan rai cychod a/neu nad ydynt yn darparu'r cymysgedd o rywogaethau y mae'r modelau busnes presennol yn dibynnu arno. Bydd dadleoli hefyd yn gallu rhoi mwy o bwysau ar feysydd eraill lle mae gweithgareddau pysgota yn cael eu crynhoi, fel bod mwy o effaith ar stociau neu fwy o niwed i'r ecosystem. Felly, mae'r cynllun hwn yn darparu ar gyfer ystyried ffactorau sy'n peri bod y sector pysgota masnachol yng Nghymru yn sensitif iawn i effaith dadleoli, yn enwedig y perygl o ddadleoli parhaol.

756. O dan bolisi **FIS_02**, dylid rhoi sylw mewn cynigion i natur, dwysedd a gwerth gweithgarwch pysgota sefydledig yn ardal y datblygiad arfaethedig a'r goblygiadau o unrhyw ddadleoli tebygol ar weithgarwch pysgota, gan roi pwyslais ar weithgareddau o bwysigrwydd masnachol a pharhad unrhyw effeithiau. Dylid dehongli'r term 'gweithgareddau o bwysigrwydd masnachol' yn fras gan y bydd y stociau a'u hargaeledd masnachol yn amrywio (ee drwy osod cwotâu neu gyfyngiadau rheoli dros dro eraill ar bysgodfeydd). Dylid canolbwyntio ar y 12 prif rywogaeth o bysgod asgellog yn ôl pwysau neu werth, ac ar yr holl rywogaethau o bysgod cregyn sydd â gwerth masnachol gwirioneddol sy'n fwy na symiau nominal (enghreifftiau o rywogaethau o bwysigrwydd economaidd llai yw y lleden fwd, y lleden dywod, y rhan fwyaf o rywogaethau'r chwyrnwr, codyn Ebrill a'r bwgan dŵr, y gellir cael niferoedd mawr ohonynt mewn arolygon treillio gwyddonol ond sy'n llai pwysig o safbwynt masnachol).

757. Wrth ystyried dadleoli o dan bolisi **FIS_02**, dylai awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r canlynol hefyd:

- a yw'r effeithiau dadleoli dichonol o gynigion newydd yn rhai parhaol neu dros dro;
- yr effaith economaidd ddichonol (ee cynnydd mewn costau tanwydd neu amser ar y môr);
- a yw'n ymarferol adleoli cychod a llongau presennol
- effeithiau dadleoli ar stociau pysgod eraill ac ar gydnerthedd ecosystemau;
- effeithiau tebygol ar elfennau ar y tir sy'n dibynnu ar weithgareddau pysgota masnachol;
- yr effaith debygol ar gymunedau lleol.

758. Os oes potensial mewn cynnig i gael effaith niweidiol ar weithgareddau pysgota masnachol, dylai'r awdurdod cyhoeddus sicrhau bod y cynigydd yn dangos bod unrhyw effeithiau dichonol wedi'u hystyried a mesurau wedi'u cynnwys i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau o'r fath fel y bo'n briodol. Os nad yw'n bosibl osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau niweidiol, dylai'r cynigydd gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen drwy egluro sut mae'r budd i'r cyhoedd o'r cynnig yn fwy o lawer na'r effeithiau niweidiol.

759. Mae'n bosibl y bydd angen ymgysylltu â rhanbarthau cynllunio morol eraill mewn perthynas â dadleoli gweithgareddau pysgota er mwyn deall yr effeithiau dichonol.

DRAFT

760. Mae polisi **FIS_03** yn cydnabod bod y gallu i gynnal gweithgareddau pysgodfeydd yn galw am gynnal yr ecosystemau a chylchoedd bywyd pysgod y maent yn dibynnu arnynt. O dan y polisi hwn, dylai defnyddwyr eraill ystyried yr effeithiau niweidiol dichonol ar ardaloedd bwydo, epilio a mudo'r prif rywogaethau masnachol a rhywogaethau a warchodir ac amlinellu sut byddant yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru effeithiau dichonol. Mae rhywogaethau pwysig yn cynnwys y rheini sydd o bwysigrwydd masnachol, cadwraethol, ecolegol neu hamdden. Stociau pysgod pwysig yw'r rheini sydd o werth masnachol neu hamdden (gweler **FIS_02**) neu'r rheini a warchodir oherwydd eu gwerth cadwraethol ehangach o dan ddeddfwriaeth genedlaethol[55] neu ryngwladol.


761. Mae amrywiaeth o wybodaeth ddangosol ar gael ar borth cynllunio morol Llywodraeth Cymru ac oddi wrth ddiwydiant a rheoleiddwyr a fydd o gymorth i adnabod meysydd epilio / meithrin pwysig ac ardaloedd pysgota masnachol sefydledig a'u pwysigrwydd cymharol tebygol.

762. Mae polisi **FIS_03** yn helpu i gryfhau ecosystemau drwy ddarparu ar gyfer rhoi ystyriaeth ddyledus i ardaloedd sydd o bwysigrwydd ecolegol i nifer o rywogaethau o bysgod, ac i ffyrdd o warchod yr ardaloedd hynny. Mae'r ardaloedd hynny'n cynnwys y rheini sydd o bwysigrwydd masnachol a'r rheini y mae'r rhywogaethau hynny o bysgod yn dibynnu arnynt yn ecolegol. Mae'r mesurau hynny hefyd yn darparu buddion ehangach ar gyfer cydnerthedd ecolegol unrhyw rywogaethau a geir yn yr un lle â'r rhywogaethau hynny (ee organeddau môr-waelodol, adar môr, mamaliaid morol) a gynhelir gan yr ardaloedd neu gynefinoedd bwydo, epilio (yn cynnwys silio a meithrin) ac ymfudo hynny.


DRAFT

55 Rhywogaethau o'r Pwysigrwydd Pennaf, wedi'u rhestru o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.


## Ffigur 20(a): Map polisi – Gweithgareddau pysgota – Offer Symudol




## Ffigur 20(b): Map polisi – Gweithgareddau pysgota – Offer Statig



## Ffigur 20(c): Ardaloedd silio pysgod



## Ffigur 20(d): Ardaloedd meithrin pysgod



## Porthladdoedd a morgludo

### Cyflwyniad


763. Mae'r sector porthladdoedd a morgludo yn cynnwys adeiladu, gweithredu a chynnal porthladdoedd, harbyrau a therfynfeydd a marinâu er mwyn cynnal y gweithgareddau masnachol ac ategol sy'n gysylltiedig â morgludo llwythi a chludo teithwyr ar y môr, a gwaith sy'n gysylltiedig â diwydiannau ynni ar y môr (olew, nwy ac ynni adnewyddadwy). Mae porthladdoedd yn rhoi'r gallu i gysylltu trafnidiaeth y tir â thrafnidiaeth y môr. Mae'r sector yn hanfodol ar gyfer symud llwythi a phobl yn effeithiol o fewn rhwydweithiau neu gadwynau cyflenwi o fewn y DU a'r economi fyd-eang. Mae gweithgareddau'r sector yn cynnal nifer o sectorau eraill ac yn cynnal ac yn dibynnu ar amrywiaeth fawr o weithgareddau a gwasanaethau cysylltiedig, yn cynnwys adeiladu ac atgyweirio llongau, storio a warysau a galluoedd arbenigol sy'n ychwanegu gwerth at lwythi sy'n cael eu storio a'u trafod yn y porthladd. Mae nifer o borthladdoedd wedi dod yn lleoliad i glystyrau diwydiannol o gwmnïau preifat a all gystadlu â'i gilydd neu ategu ei gilydd fel cwsmeriaid a chyflenwyr mewn meysydd cynhyrchu a dosbarthu arbenigol.


764. Nodwyd bod potensial sylweddol yn y sector porthladdoedd a morgludo ar gyfer twf cynaliadwy dros gyfnod y cynllun hwn ac felly mae'n flaenoriaeth strategol ar gyfer cynllunio morol.

765. Ar hyn o bryd, ceir trafnidiaeth fasnachol drwy 14 o borthladdoedd yng Nghymru, sydd gyda'i gilydd yn trafod 11% o drafnidiaeth porthladdoedd y DU (2012); mae pob un o'r saith porthladd 'mawr' (Aberdaugleddau, Port Talbot, Caergybi, Abergwaun, Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd) yn trafod mwy nag 1 miliwn o dunelli o nwyddau y flwyddyn. Porthladd Aberdaugleddau yw'r mwyaf yng Nghymru o bell ffordd, gan ei fod yn trafod 74% o'r holl drafnidiaeth yng Nghymru a hwn yw'r porthladd swmp hylif mwyaf yn y DU. Mae porthladdoedd Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro yn cynnal cyswllt llongau fferi teithwyr hanfodol ag Iwerddon a ddefnyddiwyd gan 2.8 miliwn o deithwyr yn 2015. Oherwydd y drafnidiaeth hon a'r drafnidiaeth sy'n gysylltiedig ag ynni yn Aberdaugleddau, yr ardaloedd hyn yw'r dyfroedd prysuraf ar gyfer morgludo yn ardal y cynllun hwn. Mae porthladdoedd llai yng Nghymru'n gwasanaethu marchnadoedd allweddol penodol: mae porthladd Mostyn yn cynnal gwaith adeiladu a gwasanaethu ar gyfer ynni gwynt ar y môr ac yn allforio adenydd awyrennau (Airbus); mae porthladdoedd Casnewydd, Caerdydd, Port Talbot ac Abertawe yn trafod nwyddau sych a hylifol swmpus a rhywfaint o drafnidiaeth cynwysyddion, llwythi cyffredinol cymysg a gweithgareddau pysgota a hamdden sylweddol. Ceir cyfleusterau porthladd sylweddol hefyd ym Môr Hafren ym Mhorthladd Bryste (Avonmouth a Portbury) sydd â chysylltiadau â thraffyrdd a rheilffyrdd, a phorthladdoedd llai yn Sharpness a Bridgwater. Mae'r trwygyrch o lwythi yn y porthladdoedd hyn yn fwy amrywiol (yn cynnwys cerbydau modur) ac yn fwy nag ym mhorthladdoedd de Cymru gyda'i gilydd, ac mae hyn yn ychwanegu'n sylweddol at y drafnidiaeth morgludo yn y rhanbarth.

DRAFT

## Ffigur 21(a): Yr Holl Drafnidiaeth Nwyddau a Mathau o Lwythi



766. Mae pedwar model ar gyfer perchenogaeth gan awdurdod porthladd: ymddiriedolaeth, preifat, trefol ac amrywiol, ac mae pob un o'r rhain yn gweithredu mewn marchnadoedd cystadleuol a masnachol:

- Mae porthladdoedd ymddiriedolaeth, ee Awdurdod Porthladd Abertawe, yn gyrff statudol annibynnol sy'n cael eu rheoli gan fwrdd annibynnol, er eu bod yn atebol yn gyhoeddus i'w rhanddeiliaid. Rhaid i bob elw gael ei ailfuddsoddi ym muddiannau'r porthladd a'i randdeiliaid. Mae porthladdoedd ymddiriedolaeth yng Nghymru yn cynnwys Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau (porthladd ymddiriedolaeth mawr), Comisiynwyr Harbwr Castell-nedd, Comisiynwyr Harbwr Casnewydd, Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon a Chomisiynwyr Harbwr Saundersfoot.
- Mae porthladdoedd preifat, ee Caerdydd, yn cael eu gweithredu gan un cwmni neu gasgliad o gwmnïau sy'n berchen arnynt, ee y Barri, Caerdydd, Casnewydd, Port Talbot ac Abertawe (Associated British Ports); Caergybi ac Abergwaun (Stena Line) a Mostyn (annibynnol);
- Mae porthladdoedd trefol fel arfer yn harbyrau llai sy'n arbenigo mewn gweithgareddau hamdden a physgota ac yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol;
- Mae porthladdoedd amrywiol yn eiddo i sefydliadau eraill fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol a / neu'n cael eu rheoli ganddynt. Porthladdoedd llai yw'r rhain gan amlaf ac maent yn dod o dan yr un ddeddfwriaeth genedlaethol ar y cyfan.

767. Mae tua 41 o borthladdoedd a harbyrau yng Nghymru, 5 ohonynt yn borthladdoedd ymddiriedolaeth, 21 yn breifat / amrywiol ac 16 yn drefol. Mae'r rhain yn cynnwys nifer mawr o harbyrau a chyfleusterau a all fod o fewn ffiniau porthladdoedd ond sydd y tu allan iddynt yn fwy aml.

768. Y gweithgareddau morgludo a geir yn ardal y cynllun yw llongau nwyddau a theithwyr masnachol ar lwybrau mordwyo sefydledig; cychod a llongau llai sy'n mordwyo ardaloedd ehangach; a chymhorthion cysylltiedig ar gyfer mordwyo, fel goleudai, bwiau a chyfarpar telathrebu. Mae'r rhain, ynghyd ag ardaloedd fel angorfeydd a mannau byrddio peilotiaid, yn chwarae rhan hanfodol mewn hwyluso symudiadau trafnidiaeth fôr a'u diogelwch. Yn ogystal â hyn, mae nifer o lwybrau'r Sefydliad Morol Rhyngwladol (IMO) sy'n gweithredu fel ardaloedd Cynllun Gwahanu Trafnidiaeth (TSS) oddi ar lannau sir Benfro, gogledd Ynys Môn ac ym mae Lerpwl. Ceir ardaloedd trafnidiaeth prysurach o gwmpas y mynedfeydd i borthladdoedd ac o gwmpas pentiroedd (ee Ynys Môn a sir Benfro).

DRAFT

## Cyfraniad porthladdoedd a morgludo i'r economi

Mae'r sector porthladdoedd a morgludo yn cynnal tua 3,400 o swyddi sydd â chysylltiad uniongyrchol â phorthladdoedd yng Nghymru, gan gynnal bron 11,000 o swyddi mewn meysydd ehangach yn ogystal â chynnal rhannau hanfodol eraill o'r economi.

Cyfanswm y drafnidiaeth nwyddau drwy borthladdoedd Cymru oedd 54.6 miliwn tunne nwyddau: 36.5 Mt o nwyddau i mewn; a 18.1 Mt o nwyddau allan. Roedd porthladdoe wedi trafod 11% o gyfanswm trafnidiaeth porthladdoedd y DU o 501 Mt.

**Gwerth Ychwanegol Gros yn y Sector Morol yng Nghymru, £ miliwn**[56]

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trafnidiaeth Forol | 180 | 250 | 242 | 250 | 219 |

**Busnesau yn y Sector Morol yng Nghymru** [57]

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trafnidiaeth Forol | 180 | 185 | 175 | 185 | 195 | 195 |

**Swyddi cyflogedig yn y Sector Morol yng Nghymru** [58]

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trafnidiaeth Forol | 3,600 | 3,700 | 3,200 | 3,200 | 3,400 |

Cofnodwyd bod 9,079 o longau wedi cyrraedd porthladdoedd Cymru yn 2014 (tua 6% o'r nifer a gyrhaeddodd y DU); mae nifer y llongau a gyrhaeddodd wedi bod yn gymharol sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf. Llongau nwyddau (tanceri, Ro-Ro, llongau cynwysyddion a llongau nwyddau cyffredinol) oedd 8,511 o'r llongau a gyrhaeddodd borthladdoedd Cymru yn 2014. O'r rhain, roedd 4,821 yn llongau Ro-Ro (dwy ran o dair i borthladd Caergybi), roedd 2,110 yn danceri (i borthladd Aberdaugleddau yn bennaf), ac roedd tua 1,578 o longau nwyddau sych eraill (tua 43 y cant i borthladd Casnewydd). Roedd 28 o'r llongau a gyrhaeddodd borthladdoedd yng Nghymru yn 2014 wedi'u dynodi'n llongau Teithwyr.

DRAFT

[56] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Busnes Blynyddol, Cyfrifon Rhanbarthol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

[57] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Busnes Rhyngadrannol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

[58] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr o Fusnesau a'r Arolwg Cyflogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

O blith y llongau a gofnodwyd a ddaeth i Gymru, roedd tua hanner y tunelledd llwythi, sef 49.2 miliwn, i'w briodoli i danceri a oedd yn cyrraedd Aberdaugleddau, ac roedd 21.7 miliwn ohono'n gysylltiedig â llongau Ro-Ro yn cyrraedd Caergybi, a 15.7 miliwn â llongau nwyddau sych eraill yn cyrraedd porthladd Port Talbot.

Mae Aberdaugleddau yn un o brif borthladdoedd y DU yng nghyswllt nwyddau fel tanwydd swmpus, nwy hylifedig, olew crai a chynhyrchion olew, a chyfanswm y tunelledd i mewn ac allan yn 2014 oedd 34.3 miliwn o dunelli, sef tua 6.8 y cant o'r holl weithgarwch drwy borthladdoedd y DU. Mae Port Talbot hefyd yn cyflawni cyfran helaeth o'r gweithgarwch gan borthladdoedd yn y DU (yn ôl tunelledd) drwy drafod mwynau a glo, ac mae Casnewydd yn darparu ar gyfer trafnidiaeth sylweddol o gynhyrchion haearn a dur, a.

Un o rolau pwysicaf porthladdoedd Cymru yw darparu'r prif lwybr ar gyfer trafnidiaeth lorïau rhwng Iwerddon a Phrydain Fawr (a gweddill Ewrop). Mae bron tri chwarter y nwyddau a gludir mewn cerbydau nwyddau trwm o Iwerddon i Brydain Fawr ac i weddill yr UE yn mynd drwy Gymru, y rhan fwyaf ohonynt drwy Gaergybi.

## Y rhyngweithio presennol a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol â sectorau eraill

769. Mae seilwaith a gweithrediadau porthladdoedd yn gallu rhyngweithio mewn nifer o ffyrdd gwahanol â sectorau eraill. Mae porthladdoedd yn ategu amrywiaeth fawr o sectorau morol, ac yn cyflawni rôl hanfodol, ee mewn adeiladu a gwasanaethu gweithfeydd ynni ar y môr a chynnal terfynfeydd piblinellau olew a nwy. Mae porthladdoedd hefyd yn ategu'r diwydiant twristiaeth drwy ddarparu cyrchfannau bywiog ar y glannau yn ogystal â glanfeydd ar gyfer llongau fferi teithwyr, llongau mordeithio a gweithredwyr twristiaeth forol eraill ac yn cynnig cyfleusterau i ddefnyddwyr hamdden.

770. Ceir y gallu i weithredu ein porthladdoedd, harbyrau a marinâu drwy greu a chynnal sianeli, angorfeydd a dociau y gall fod angen eu carthu o bryd i'w gilydd. Ni fyddai mynediad diogel a pharhaus ar gyfer mordwyo yn bosibl heb waith carthu cynnal, ac mae carthu cyfalaf yn rhoi'r gallu i gynnal gweithgareddau newydd drwy greu sianeli ac angorfeydd newydd, dyfnach a lletach. Bydd hyn yn digwydd yn aml o fewn ffiniau porthladd sydd wedi'u pennu [gweler **Carthu a Gwaredu**].

771. Mae morgludo yn weithgarwch sy'n digwydd dros ardaloedd eang ond yn aml, mewn ardaloedd cyfyng, fe gyfyngir teithiau llongau mwy i sianeli mordwyo neu lwybrau tramwy (ee drwy fesurau pennu llwybrau'r IMO). Bydd llongau mawr hefyd yn treulio amser mewn lleoliadau penodedig (angorfeydd, mannau byrddio peilotiaid neu angorfeydd mewn porthladdoedd) pan fyddant yn nyfroedd y glannau. Y rhyngweithio dichonol mwyaf arwyddocaol a geir â llongau masnachol sy'n teithio yw hwnnw â gweithgareddau pysgota, agregau, twristiaeth a hamdden neu â seilwaith ynni adnewyddadwy. Cymhwysir gwahanol reoliadau a chanllawiau at y sector morgludo er mwyn rheoli rhyngweithio o'r fath yn ddiogel

gan gynnwys y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Diogelwch Bywyd ar y Môr (SOLAS 1974)[59]. Bydd y rhyngweithio â nifer o sectorau'n fach ei effaith a cheir cyfleoedd da i gydfodoli yn aml, ee mae morgludo a thechnolegau ffrwd lanw tanddwr yn gallu cydfodoli os darperir digon o ofod clirio o dan y cêl.

772. Bydd gweithgareddau mewn sectorau eraill yn gallu effeithio ar weithrediadau porthladdoedd a morgludo; mae rhwystrau'n gallu ymestyn pellter ac amser mordeithiau gan arwain at gostau ariannol a chostau cysylltiedig i'r amgylchedd (ee cynnydd mewn allyriadau) a phryderon ynghylch diogelwch, yn enwedig yn achos llongau teithwyr. Rhai o'r peryglon dichonol yw mwy o wrthdaro neu ddadleoli cychod a llongau o angorfeydd diogel: gall y goblygiadau o hynny fod yn ddifrifol ac felly dylid eu hosgoi. Mae awdurdodau porthladd yn arfer rheolaethau dros gychod a llongau er mwyn rheoli diogelwch a risgiau amgylcheddol a rhyngweithio o fewn eu hawdurdodaeth.

### Rhyngweithio ag ecosystemau

773. Gall nifer o wahanol effeithiau amgylcheddol godi o ganlyniad i ddefnyddio cychod a llongau a seilwaith ategol cysylltiedig. Gall cyfleusterau porthladd masnachol gael effaith hirdymor ar nifer o dderbynyddion amgylcheddol yn ôl natur a graddfa'r gweithgareddau a gyflawnir.

774. Yn aml, mae porthladdoedd arfordirol wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n bwysig o ran bioamrywiaeth, yn enwedig i adar a physgod, gan fod aberoedd ac ardaloedd ger y glannau yn feysydd meithrin i amrywiaeth o rywogaethau ac yn llwybrau ymfudo i eraill. Mae gweithgareddau porthladdoedd a morgludo yn gallu effeithio ar gydnerthedd ecosystemau mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, byddai'r gwaith adeiladu ar ddatblygiad porthladd yn gallu galw am garthu, dyddodi rwbel o waith carthu, adeiladu cyfleuster glanio o'r môr a mesurau i ddiogelu rhag llifogydd ac erydu morol: gallai'r rhain arwain at effeithiau uniongyrchol ar y morlin, ar wely'r môr ac ar gynefinoedd cysylltiedig. Yn ogystal â hyn, byddai newidiadau anuniongyrchol yn yr ecosystem yn gallu codi o ganlyniad i newidiadau mewn hydrodynameg leol.

775. Bydd nifer o gyfleoedd yn codi mewn cynigion ar gyfer datblygu i gynnwys nodweddion sy'n llesol i fioamrywiaeth wrth ddylunio er mwyn cryfhau ecosystemau. Wrth ystyried cynigion, dylai'r penderfynydd fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o'r fath mewn datblygiadau ac o'u cwmpas, gan osod gofynion neu wneud cytundebau cynllunio lle bo'n briodol i wella cynefinoedd presennol ac, os yw'n ymarferol, creu cynefinoedd newydd gwerthfawr.

DRAFT

---

[59] (ee Rheoliadau IMO ar Wrthdaro (COLREGS), Canllawiau Morol a roddwyd gan yr MCA, Hysbysiadau i Forwyr a roddwyd gan Trinity House)

SOLAS : http://www.imo.org/en/About/conventions/listofconventions/pages/international-convention-for-the-safety-of-life-at-sea-(solas),-1974.aspx

776. Mae gweithrediadau sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd a morgludo hefyd yn gallu effeithio ar gydnerthedd ecosystemau, yn ôl natur a graddfa'r ymyrraeth, ee:

- mae carthu i gynnal sianeli ac angorfeydd yn gallu effeithio ar gludiant gwaddodion sydd, yn ei dro, yn gallu effeithio ar ecosystemau gan gynnwys drwy ailsymud llygryddion;
- mae trafod a storio llwythi yn gallu achosi dŵr ffo, gorlifo, neu ollyngiadau, gan arwain at ddirywiad lleol yn ansawdd dŵr;
- gall symudiadau rheolaidd gan longau arwain at erydu cynefinoedd rhynglanw;
- gall llongau gyflwyno rhywogaethau estron sy'n gallu cael effeithiau pellgyrhaeddol ar ecosystemau;
- mae llygredd sŵn a golau yn gallu effeithio ar bysgod, adar a mamaliaid morol.

777. Lle mae effeithiau amgylcheddol wedi'u rhagfynegi, dylai'r ymgeisydd gynnwys mesurau lliniaru priodol yn rhan annatod o'r cynnig, yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Borthladdoedd. Er enghraifft, dylai'r ymgeisydd ddangos y bydd y cynnig, yn ystod y cyfnod adeiladu, yn ceisio sicrhau bod gweithgareddau wedi'u cyfyngu i'r arwynebeddau lleiaf sydd eu hangen i gyflawni'r gwaith; dilynir yr arferion gorau er mwyn sicrhau bod y perygl o niweidio neu aflonyddu ar rywogaethau neu gynefinoedd yn cael ei leihau i'r eithaf; a bydd cynefinoedd, lle bo'n ymarferol, yn cael eu hadfer ar ôl gorffen gwaith adeiladu.

## Y dyfodol

778. Bydd darparu digon o gapasiti ar gyfer porthladdoedd a morgludo yn parhau'n hanfodol wrth sicrhau twf economaidd cynaliadwy a bydd cysylltiad cryf o hyd rhwng hynny a chyflwr economi Cymru. Mae potensial gan borthladdoedd yng Nghymru i ehangu ac amrywiaethu eu gweithrediadau, gan chwarae mwy o ran mewn rhwydweithiau nwyddau rhyngfoddol. Rhwng 2007 a 2011, er gwaethaf yr hinsawdd economaidd anodd, roedd porthladdoedd wedi buddsoddi mwy na £1.4bn ac maent yn parhau i fuddsoddi. Mae'r cynllun hwn yn dynodi'r sector porthladdoedd a morgludo yn flaenoriaeth strategol ar gyfer twf parhaus yn y dyfodol.

779. Rhagwelwyd y bydd pwysigrwydd masnach y DU ar y môr yn cynyddu, er enghraifft o 37% mewn chwe blynedd, gan gyfrannu £700 biliwn i gynnyrch domestig gros y DU erbyn 2017[60]. Mae dogfennau perthnasol ar bolisi cynllunio cenedlaethol yn dangos lefel yr angen cenedlaethol cyffredinol am ddatblygu porthladdoedd ar sail rhagolygon ar gyfer porthladdoedd yng nghyd-destun sector sy'n cael ei arwain gan y farchnad ac mae hyn yn awgrymu bod cyfleoedd sylweddol am dwf mewn gwahanol borthladdoedd yng Nghymru.

780. Mae Porthladd Bryste wedi cael caniatâd datblygu i adeiladu porthladd dwfn yn Avonmouth i dderbyn llongau cynwysyddion mawr iawn o hyd at 400m o hyd a

[60] Astudiaeth gan RSA / CEBR yn 2012



DRAFT

18m o ddyfnder. Disgwylir am ystyriaeth gan gwmnïau masnachol i'r cynlluniau adeiladu.

781. Rhagwelir y bydd porthladdoedd yn chwarae rhan gynyddol bwysig wrth hybu twf y sector ynni adnewyddadwy, fel y bydd eu pwysigrwydd strategol yn cynyddu. Nodwyd mai Caergybi, Mostyn, Aberdaugleddau (yn cynnwys Doc Penfro), Port Talbot, Casnewydd ac Abertawe sydd yn y lle gorau i fanteisio ar gyfleoedd cystadleuol am dwf mewn ynni carbon isel, er nad yw hyn yn golygu na fydd porthladdoedd eraill yn gallu cyflawni rolau penodol.

782. Mae Llywodraeth Cymru am weld cynnydd mewn gweithgareddau morgludiant arfordirol drwy borthladdoedd Cymru er mwyn helpu i wneud y rhwydwaith cludo nwyddau'n fwy cynaliadwy yn ogystal â hybu twf economaidd a swyddi lleol. Bydd cyfleusterau i hwyluso ymweliadau gan longau mordeithio yn elfen gynyddol bwysig yng nghapasiti porthladdoedd Cymru a chredir bod buddsoddi yn y dyfodol mewn twristiaeth mordeithio yng Nghymru yn bwysig i ddiwydiant mordeithio'r DU gyfan. Mae cyfleoedd i ddatblygu cyfleusterau ar gyfer llongau mordeithio, yn enwedig yng Nghaergybi, Abertawe ac Aberdaugleddau.

783. Mae Uwchgynlluniau Porthladd yn rhoi golwg strategol i awdurdodau perthnasol ar gyfeiriadau posibl ar gyfer datblygu porthladdoedd yn y dyfodol. Mae'r tueddiadau presennol yn awgrymu'r canlynol:

- llongau mwy y bydd angen porthladdoedd mwy a sianeli mordwyo dyfnach/lletach ar eu cyfer;
- twf parhaus o 3% i 4% y flwyddyn ar gyfartaledd yn y sectorau llongau cynwysyddion a Ro-Ro;
- cyfleoedd i gynnwys prosesau sy'n ychwanegu gwerth fel gweithgynhyrchu, ee cynnal a gwasanaethu datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr, yn enwedig mewn porthladdoedd sy'n agos i ddatblygiadau;
- cynnydd yn y diwydiant llongau mordeithio sy'n cynnig cyfle amlwg i Gymru;
- cyfleoedd i wasanaethu'r diwydiant pysgota a'r diwydiant hamdden môr sy'n tyfu.

784. Fodd bynnag, mae'r sector porthladdoedd a morgludo yn sensitif i dueddiadau economaidd ac i weithgareddau sectorau eraill; mae amrywiadau o'r fath yn anodd eu rhag-weld.

### Y newid yn yr hinsawdd

785. Gall morgludo gyfrannu at y newid yn yr hinsawdd a bod yn agored i'w effeithiau. Mae morgludo yn gyfrifol am 10.6% o'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr o gludiant (o'i gymharu â 73.4% o ffyrdd; 12.6% o awyrennau ac 1.6% o reilffyrdd)[61]. Fodd bynnag, o'i gymharu â dulliau cludo eraill, morgludiant (ynghyd â thrafnidiaeth

[61] Data ar gyfer 2014 gan Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop



DRAFT

rheilffyrdd) yw un o'r dulliau mwyaf effeithlon o ran tanwydd i symud nwyddau swmpus.[62]

786. Byddai cynnydd yn lefel y môr, ymchwyddiadau storm ac amodau mwy eithafol ar y môr yn gallu difrodi neu ymyrryd â gweithgareddau porthladdoedd a morgludo gan gynnwys newid yr amser a dreulir a chyflymder y teithio ar y môr. Mae porthladdoedd y DU yn cydnabod yr ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd ac yn mantoli risg yn erbyn y gost o gymryd mesurau addasu.

787. Mae arolwg gan Bartneriaeth Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd ar y Môr (MCCIP) ar borthladdoedd a morgludo yn 2013[63] yn ymdrin â'r cyfraniad gan forgludo at y newid yn yr hinsawdd yn ogystal ag effeithiau newid hinsawdd ar y sector hwn. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau morgludo yn cael eu rheoleiddio gan fframwaith rheoli'r Sefydliad Morol Rhyngwladol o dan y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Atal Llygredd o Longau (MARPOL 73/78), sy'n cael ei orfodi yn y DU gan yr MCA. Yn ogystal â hyn, mae rhai awdurdodau porthladd wedi datblygu Cynlluniau Ymaddasu Newid Hinsawdd sy'n ystyried effaith y newid yn yr hinsawdd ar eu gweithrediadau a'u seilwaith[64].

## Anghenion allweddol am dystiolaeth

788. Mae'r anghenion allweddol am dystiolaeth ar gyfer y sector mewn perthynas â chynllunio morol yn cynnwys:

- pennu ym mhle y dylid buddsoddi i alluogi'r sector porthladdoedd i ffynnu;
- pennu llwybrau mordwyo ar gyfer y dyfodol;
- cael gwell dealltwriaeth o'r gadwyn gyflenwi;
- deall y cyfleoedd sydd ar gael yn y sector ynni
- deall cysylltedd trawsffiniol a sut i'w wella.

## Llywodraethu

789. Mae gwahaniaeth mawr rhwng y sector porthladdoedd a'r sector morgludo o ran trefniadau llywodraethu.

790. Mae polisi ar borthladdoedd, yn cynnwys gorchmynion harbwr a chadarnhau is-ddeddfau, yn cael ei ddatganoli i Gymru (ac eithrio porthladdoedd ymddiriedolaeth mawr y ceir un ohonynt yn unig yng Nghymru, sef Aberdaugleddau). Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol hefyd am nifer o swyddogaethau cysylltiedig (ee trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir). Mae'n ofynnol cael trwydded forol ar gyfer gwaith i newid seilwaith mewn porthladdoedd, harbyrau a marinâu neu i ddatblygu cyfleusterau newydd ynddynt o dan lefel y penllanw. Drwy ddatganoli pwerau mewn perthynas â phorthladdoedd, dylai cyfleoedd godi i wella'r ffordd o gynllunio porthladdoedd a datblygiadau ehangach yng Nghymru a'i chydgysylltu'n well.

---

[62] http://www.ics-shipping.org/docs/default-source/resources/environmental-protection/shipsandco2-cop21.pdf?sfvrsn=16

[63] Wright et al. 2013 http://www.mccip.org.uk/annual-report-card/2013/commercially-productive-seas/ports-and-shipping/

[64] (yn cynnwys MHPA, 2011)



DRAFT

Bydd datganoli hefyd yn gallu helpu i integreiddio porthladdoedd â strategaethau cysylltiedig ac ehangach ar gyfer twf economaidd a thrafnidiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Grŵp Porthladdoedd Cymru, sy'n cynrychioli'r gwahanol borthladdoedd yng Nghymru, a hefyd â phorthladdoedd unigol i amlhau'r cyfleoedd hyn.

791. Mae gweithrediadau porthladdoedd yn cael eu llywio gan amrywiaeth o gynlluniau a pholisi, yn cynnwys Datganiad Polisi Cenedlaethol y DU ar borthladdoedd, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (ar ôl ei fabwysiadu) a Polisi Cynllunio Cymru; Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Cenedlaethol a Rhanbarthol (2009); Nodyn Cyngor Technegol 18 ar Drafnidiaeth; ac, ar gyfer arfarnu, Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) (2008) lle mae'r arfarniad yn ymwneud â seilwaith neu wasanaethau trafnidiaeth a Chynlluniau Datblygu Lleol yr Awdurdodau Lleol.

*Porthladdoedd*

792. Mae mwyafrif y porthladdoedd yn Awdurdodau Harbwr Statudol (AHSau) sy'n gyfrifol am reoli a datblygu'r harbwr. Mae'r rhan fwyaf o'r porthladdoedd mawr hefyd yn Awdurdodau Harbwr Cymwys, hy yn arfer pwerau statudol ar gyfer mordwyo a pheilotiaid yn ogystal.

793. Cyn datganoli pwerau o dan Ddeddf Cymru 2017, y prif awdurdodau sy'n cyflawni rôl rheoleiddio mewn perthynas â phorthladdoedd a harbyrau ar hyn o bryd yw: Awdurdodau Harbwr Statudol a Chymwys, Llywodraeth Cymru (harbyrau pysgodfeydd), yr Adran Drafnidiaeth (DfT), Awdurdodau Lleol (awdurdodau cynllunio a harbyrau trefol) a CNC.

794. Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd[65] yn gosod safonau yn y DU ar gyfer gweithrediadau morol diogel mewn porthladdoedd a harbyrau gan gynnwys y dyletswyddau cyfreithiol sy'n gymwys. Mae dyletswyddau a phwerau statudol y porthladd yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth leol, sydd fel arfer yn cynnwys darpariaethau o Ddeddf Cyfrifoldebau Harbyrau, Dociau a Phierau 1847. Mae porthladdoedd yn ddarostyngedig hefyd i ddeddfwriaeth gyhoeddus gyffredinol fel Deddf Harbyrau 1964 (fel y'i diwygiwyd). Mae pwerau a chyfrifoldebau statudol gan y mwyafrif ohonynt ar gyfer diogelwch mordwyo a rheoli a chynnal harbyrau. Mae pwerau a chyfrifoldebau hefyd gan y rhan fwyaf o borthladdoedd lle ceir trafnidiaeth fasnachol mewn perthynas â pheilotiaeth (Deddf Peilotiaeth 1987).

795. Mae AHSau yn arfer ymreolaeth sylweddol dros ardal eu hawdurdodaeth, sydd yn aml yn cynnwys Hawliau Datblygu a Ganiateir. Maent yn gweithredu mewn amgylchedd cystadleuol yn annibynnol gan mwyaf ar unrhyw ystyriaethau trawsffiniol, er bod y drafnidiaeth mordwyo a grëir yn cael ei hystyried dros ardal eang. Defnyddir Gorchmynion Adolygu Harbwr i newid deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r trefniadau ar gyfer rheoli harbwr penodol. Mae Gorchmynion Grymuso Harbwr yn ymwneud yn bennaf ag adeiladu harbyrau newydd neu greu

[65] https://www.gov.uk/government/publications/port-marine-safety-code



DRAFT

awdurdodau harbwr sy'n gyfrifol am eu gwella, eu cynnal a'u rheoli. Mae rhai AHSau wedi'u hesemptio o dan adran 75 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ac yn arfer pwerau i ganiatáu eu gweithrediadau carthu mordwyol eu hunain o dan Ddeddf leol neu Ddeddf Harbyrau 1964 ac nid yw'n ofynnol iddynt gael trwydded forol ar gyfer carthu (na gwaredu os yw'r awdurdodau perthnasol wedi'u bodloni nad yw'r deunydd yn beryglus).

796. Mae'r cyfrifoldeb dros swyddogaethau penodol yn Neddf Harbyrau 1964 ar gyfer harbyrau pysgodfeydd llai yng Nghymru yn cael ei arfer gan Weinidogion Cymru.

*Morgludo*

797. Mae'r prif awdurdodau sydd â chyfrifoldeb dros fordwyo diogel ar gyfer morgludiant yn cynnwys: Awdurdodau Harbwr Statudol a Chymwys, Trinity House, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) a'r Adran Drafnidiaeth (yn cynnwys Rheolaeth Wladwriaethol dros Borthladdoedd), y gwladwriaethau y mae llongau wedi'u cofrestru ynddynt (yn y môr mawr).

798. Mae nifer mawr o longau'n mordwyo drwy ardaloedd trawsffiniol, yn enwedig yn rhannau uchaf Môr Hafren ac ardaloedd yn Afon Dyfrdwy / bae Lerpwl. Gall datblygiadau mewn ardaloedd cyfagos gael effaith ar fordwyo a rhaid i awdurdodau cyhoeddus ystyried y rhain cyn eu cymeradwyo.

799. Mae cyfraith forol ryngwladol ac yn enwedig Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS) yn darparu rhwymedigaethau mewn perthynas â hawliau tramwyo diniwed a rhyddid mordwyo drwy foroedd tiriogaethol. Ym mhob rhan o'r ardal forol, ceir cymhorthion mordwyo fel goleudai, bwiau a chyfarpar telathrebu sydd, ynghyd ag ardaloedd fel llwybrau IMO, angorfeydd a mannau byrddio peilotiaid, yn chwarae rhan hanfodol mewn cynnal diogelwch trafnidiaeth forol.

800. Mae rheoliadau sy'n llywodraethu morgludo yn dod o dan ddeddfwriaeth y DU a deddfwriaeth a chytundebau rhyngwladol gan gynnwys penderfyniadau a chonfensiynau a wnaed gan wahanol asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig, fel y Sefydliad Morol Rhyngwladol (IMO) a'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Mae'r protocolau a chonfensiynau hyn yn ymwneud â diogeledd, diogelwch, cyfreithiau'r môr ac atal llygredd. Mae llywodraeth a rheoleiddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod mesurau'n cael eu gweithredu. Y wladwriaeth lle mae llongau masnach wedi'u cofrestru sy'n bennaf cyfrifol am orfodi rheoliadau'r IMO mewn perthynas â diogelwch llongau, allyriadau a diogelu'r amgylchedd. Mae camau gorfodi gan y wladwriaeth lle cofrestrwyd y llong yn cael eu hategu gan Reolaeth Wladwriaethol dros Borthladdoedd, fel bod swyddogion mewn unrhyw wlad y mae llong yn ymweld â hi yn gallu archwilio llongau sydd wedi'u cofrestru mewn gwlad dramor i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion rhyngwladol. Gweinyddir y ddau yn y DU gan yr MCA.

801. Mae'r Rheoliadau Rhyngwladol ar gyfer Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr (COLREG) 1972, fel y'u diwygiwyd, wedi'u mabwysiadu gan yr IMO ac mae'r rhain yn pennu dulliau o reoli cychod a llongau sy'n hwylio'n agos i'w gilydd a'u symudiadau ger Cynlluniau Gwahanu Trafnidiaeth. Mae Cynlluniau Gwahanu Trafnidiaeth yn fesurau pennu llwybrau rhyngwladol a sefydlwyd gan yr IMO i wella diogelwch a

DRAFT

rheoleiddio trafnidiaeth mewn dyfrffyrdd cyfyng prysur, neu o gwmpas penrhynoedd.

## Amcan y sector

| | |
|---|---|
| Diogelu llwybrau morgludo sefydledig a hybu twf cynaliadwy yn y sector porthladdoedd a morgludo. | |

## Polisi'r sector porthladdoedd a morgludo a chanllawiau ar weithredu

DRAFT

802. Mae polisi'r sector porthladdoedd yn gymwys yn rhanbarth y glannau yn ardal y cynllun yn unig. Mae polisi'r sector morgludo yn gymwys yn rhanbarth y glannau a'r rhanbarth môr mawr yn ardal y cynllun.

803. Mae'r DPM yn cydnabod bod porthladdoedd a morgludo yn rhan annatod o economi'r DU, eu bod yn sianel bwysig ar gyfer mewnforion ac allforion y wlad a'u bod yn seilwaith trafnidiaeth allweddol rhwng tir a môr. Mae'r cynllun hwn yn pennu bod y sector porthladdoedd a morgludo yn flaenoriaeth ar gyfer twf yng Nghymru yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am weld datblygu porthladdoedd yn ffordd o sbarduno twf economaidd; yn hybu trafnidiaeth gynaliadwy gyda chysylltiadau mwy effeithlon ac yn ategu datblygu cynaliadwy. Ar hyn o bryd, mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Borthladdoedd[66] yn darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer penderfyniadau ar gynigion ar gyfer datblygiadau porthladd newydd (yn uwch na throthwyon penodol) yng Nghymru a Lloegr. Ni fydd hyn yn gymwys wedi i ddarpariaethau sy'n ymwneud â phorthladdoedd o dan Ddeddf Cymru 2017 gael eu gweithredu a'r bwriad yw eu rhoi mewn grym yn Ebrill 2018. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru a fydd yn pennu lle mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut bydd y system gynllunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol yn gallu cyflawni hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r sector porthladdoedd i sicrhau ei fod wedi'i integreiddio'n briodol yn y fframwaith.

804. Mae porthladdoedd Cymru yn chwarae rhan bwysig fel canolbwyntiau economaidd allweddol i ddiwydiannau'r môr (yn cynnwys dosbarthu a'r gadwyn gyflenwi) a sectorau ynni a thrafnidiaeth sy'n gysylltiedig.

805. Mae Llywodraeth Cymru am weld datblygu a chynnal cyfleusterau pwrpasol a deniadol mewn porthladdoedd, harbyrau a marinâu a fydd yn gallu ateb galwadau yn awr ac yn y dyfodol ar gyfer trafod nwyddau, nwyddau swmpus, teithwyr a

---

[66] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/3931/national-policy-statement-ports.pdf

gweithgareddau hamdden sy'n mynd i mewn ac allan o'r DU (yn cynnwys mynediad drwy fordwyo) er mwyn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan y sector at gyflawni nodau llesiant Cymru. Bydd cymorth a buddsoddi ar gyfer y cyfleusterau hyn yn gallu gwireddu'r potensial i hybu'r economi, yn uniongyrchol drwy wneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau ac yn anuniongyrchol drwy'r cyfleoedd a geir drwy wella seilwaith trafnidiaeth forol i sectorau eraill (yn genedlaethol ac yn rhyngwladol). Bydd hyn yn gallu troi Cymru'n lle deniadol ar gyfer busnesau, ymwelwyr a chludo nwyddau, a gall hybu twf economaidd lleol a swyddi.

806. Mae gan y rhan fwyaf o borthladdoedd ddaliadau tir sylweddol ac mae'r system gynllunio ar dir yn allweddol ar gyfer datblygu porthladdoedd yn y dyfodol. Bydd cydgysylltu rhwng cynllunio ar dir ac ar fôr yn bwysig er mwyn cynnal a hwyluso twf busnes mewn porthladdoedd a mentrau cysylltiedig. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ategu'r polisïau yn y cynllun hwn, gan ei wneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio yn cynllunio'n gadarnhaol i hyrwyddo'r defnydd o borthladdoedd drwy ddiogelu neu ddarparu mynediad iddynt a thrwy gadw neu ddarparu cyfleusterau priodol.

807. **Mae'r [Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau] yn gymwys.**

808. Dylid ystyried y polisïau ar sectorau yn y cynllun hwn ochr yn ochr â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol sydd yn y cynllun hwn, nodau llesiant Cymru ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn bwysig bod y broses ymgeisio am awdurdodiad yn cymhwyso'r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy'n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau eraill lle maent wedi'u pennu). Dylid darparu tystiolaeth sy'n ymwneud â pholisïau perthnasol i hwyluso penderfyniadau. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn gosod canllawiau ar gyfer cynigion a phenderfyniadau (ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill); nid ydynt yn dileu'r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol. Oherwydd hynny, ni ddylid rhagdybio y bydd cais o fewn Ardal Adnoddau Strategol y sector dan sylw yn llwyddiannus. Yn yr un modd, nid yw gweithgarwch gan y sector yn cael ei atal y tu allan i Ardaloedd Adnoddau Strategol a bennw.

DRAFT

## Polisïau cefnogi

**P&S_01: Porthladdoedd a morgludo (cefnogi)**
Anogir cyflwyno cynigion ar gyfer porthladdoedd, harbyrau a gweithgareddau morgludo mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio i ddeall y cyfleoedd i wneud defnydd cynaliadwy o Ardaloedd Adnoddau Strategol porthladdoedd a morgludo er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector porthladdoedd a morgludo drwy gynllunio morol

**P&S_02: Porthladdoedd a morgludo (cefnogi)**
Anogir cyflwyno cynigion sy'n darparu ar gyfer cynnal, atgyweirio, datblygu ac arallgyfeirio cyfleusterau porthladdoedd a harbyrau.

## Canllawiau ar weithredu polisi cefnogi

809. Nod y polisïau hyn yw hybu datblygu cynaliadwy yn seilwaith porthladdoedd ac yng ngweithrediadau porthladdoedd a morgludiant, gan gydnabod y cyfraniad hanfodol i economi Cymru a geir o fasnach ryngwladol a domestig, a rôl strategol porthladdoedd o ran cynnal sectorau morol eraill o bob math. Maent yn cydnabod bod angen sicrhau porthladdoedd diogel a bywiog sy'n cael eu cynnal yn dda. Pennwyd Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer porthladdoedd a morgludo sy'n adlewyrchu gweithgareddau presennol. Maent yn cynnwys porthladdoedd sefydledig a sianeli mordwyo atynt; parthau gwahanu trafnidiaeth a llwybrau mordwyo sy'n eu cysylltu yn ogystal ag ardaloedd sy'n bwysig i'r diwydiant fel mannau byrddio peilotiaid ac angorfeydd i longau.

810. Wrth benderfynu ar gais am ddatblygiad porthladdoedd, dylai'r penderfynydd dderbyn bod achos wedi'i gyflwyno dros gynyddu capasiti porthladdoedd er mwyn cwrdd â'r galw yn y dyfodol ac felly gwneud penderfyniadau a fydd yn gyson ag amcanion a pholisi Llywodraeth ar gyfer trafnidiaeth, yn cynnwys y Datganiad Polisi Cenedlaethol (yn achos porthladdoedd sy'n Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol), Polisi Cynllunio Cymru, cynlluniau lleol perthnasol a pholisïau'r cynllun hwn, a dylai fel y bo'n briodol:
- ddarparu ar gyfer y twf hirdymor a ragwelir ym meintiau mewnforion ac allforion nwyddau o bob math a gludir ar y môr;
- cefnogi camau i ddatblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy ar y môr;
- cynnig digon o gyfleusterau gwahanol mewn lleoliadau gwahanol i ddarparu ar gyfer y patrymau presennol a disgwyliedig mewn masnach, ymweliadau llongau a dosbarthu ar dir a hwyluso a hyrwyddo morgludo ar yr arfordir;
- sicrhau cystadlu effeithiol rhwng porthladdoedd a darparu cydnerthedd yn y seilwaith cenedlaethol;
- ystyried yn llawn y cyfraniad dichonol gan ddatblygiadau porthladd i economïau rhanbarthol a lleol;
- hybu twf drwy wella rhwydweithiau a chysylltiadau ar gyfer teithwyr a nwyddau, yn ogystal â sicrhau sector trafnidiaeth effeithlon a chystadleuol ar lefel genedlaethol a rhyngwladol;
- creu system drafnidiaeth lanach a gwyrddach drwy wella perfformiad amgylcheddol porthladdoedd a datblygiadau cysylltiedig, yn cynnwys trafnidiaeth, yn ogystal â chefnogi'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer technolegau gwyrdd;
- gwella diogelwch a diogeledd trafnidiaeth;
- sicrhau cynnydd yn y masnach drwy borthladdoedd Cymru, cryfhau'r rhwydwaith cludo nwyddau a hybu twristiaeth mewn porthladdoedd a marinâu (yn cynnwys ymweliadau gan longau mordeithio a phorthladdoedd glanio).

DRAFT

- cynyddu gweithgareddau morgludiant arfordirol[67] drwy borthladdoedd Cymru er mwyn helpu i wneud y rhwydwaith cludo nwyddau yn fwy cynaliadwy;
- hybu'r defnydd o borthladdoedd yng Nghymru ar gyfer ymweliadau gan longau mordeithio, a hyrwyddo twristiaeth yn ei borthladdoedd a marinâu yn unol â 'Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020'[68]
- hwyluso morgludiant arfordirol wrth hybu newid moddol o gludiant ar ffyrdd i forgludiant ar gyfer cludo nwyddau, er mwyn lleihau allyriadau carbon a rhyddhau capasiti ar ffyrdd a rheilffyrdd.
- hybu datblygu cynaliadwy mewn porthladdoedd i ddarparu ar gyfer y twf hirdymor a ragwelir ym meintiau allforion a mewnforion ar y môr gyda diwydiant porthladdoedd cystadleuol ac effeithlon sy'n gallu cwrdd ag anghenion mewnforwyr ac allforwyr yn gost-effeithiol ac amserol, gan gyfrannu at dwf a ffyniant economaidd tymor hir
- caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud ar sail ffactorau masnachol am ba bryd ac ym mhle y cynigir datblygiadau newydd gan y diwydiant porthladdoedd neu ddatblygwyr porthladdoedd wrth weithredu mewn amgylchedd marchnad rydd;
- sicrhau bod pob datblygiad arfaethedig yn bodloni'r cyfyngiadau ac amcanion cyfreithiol, amgylcheddol a chymdeithasol sy'n berthnasol, yn cynnwys y rheini sydd yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

811. Dylai awdurdodau cyhoeddus ragdybio o blaid caniatáu ceisiadau am ddatblygiadau porthladd o arwyddocâd cenedlaethol, yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Borthladdoedd[53]. Bydd rhagdybiaeth o'r fath yn gymwys **oni bai** fod unrhyw ofynion deddfwriaethol perthnasol neu bolisïau mewn Datganiad Polisi Cenedlaethol arall neu bolisïau eraill yn y cynllun hwn yn dangos y dylid gwrthod caniatâd.

812. Wrth ddatblygu porthladdoedd, rhaid ymateb i newidiadau yn y galw masnachol. Mae hyn yn galw am hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod capasiti porthladdoedd wedi'i leoli lle mae ei angen er mwyn sicrhau bod gweithrediadau porthladdoedd yn gydnerth a'u bod yn cystadlu'n effeithiol.

813. Lle mae Awdurdod Harbwr Statudol wedi cydweithio â rhanddeiliaid i lunio Cynllun Datblygu Porthladdoedd (CDP), dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried y CDP a'u disgrifiadau o ddatblygu yn y dyfodol fel ystyriaeth berthnasol er mwyn dangos y gefnogaeth i'r prosiect a'r angen amdano ar lefel leol.

814. Mae ymarferoldeb yn elfen hanfodol yn hyfywedd porthladdoedd, felly mae'n hollbwysig darparu ar gyfer atgyweirio ac ehangu cyfleusterau a seilwaith. Wrth i longau mawr gynyddu o ran maint, bydd mynediad i borthladdoedd, sy'n

[67] Diffiniad yr UE: *cludiant arfordirol yn cysylltu porthladdoedd Ewropeaidd â gwledydd cyfagos*

[68] http://wales.gov.uk/topics/tourism/developmentl1/partnershipforgrowth/?lang=cy

[53] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/3931/national-policy-statement-ports.pdf

dibynnu'n bennaf ar amodau llanw addas (neu waith carthu cyfalaf sylweddol) wedi'i gyfyngu fwyfwy. Bydd hyn yn peryglu gallu porthladdoedd Cymru i dderbyn y llongau hyn a manteisio ar gyfleoedd dichonol i ehangu mewn marchnadoedd perthnasol. Mae polisi ar garthu a gwaredu yn cymell darparu capasiti digonol i ateb y galw [gweler **Carthu a Gwaredu**].

815. Mae'n bwysig bod anghenion o ran mordwyo yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y dyfodol mewn gofynion sy'n pennu llwybrau mordwyo a llwybrau i osgoi tywydd gwael. Mae'r cyfle i fireinio Ardaloedd Adnoddau Strategol ym mholisi **P&S_01** drwy gynllunio morol yn cydnabod y posibilrwydd y bydd llwybrau mordwyo sefydledig ar gyfer llongau masnachol a theithwyr yn newid dros amser.

816. Dylai cynigion gydymffurfio â rheoliadau'r Sefydliad Morol Rhyngwladol (IMO) ar forgludo carbon isel a rheolaethau ar lygredd aer er mwyn rhoi sylw i allyriadau o lygryddion aer o longau a mesurau gorfodol i arbed ynni er mwyn lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr o forgludiant rhyngwladol. Tra bydd y sector morgludo yn cynhyrchu allyriadau sy'n mynd i'r awyr, bydd wedi'i rwymo'n gyfreithiol gan gytundeb rhyngwladol i leihau ei allyriadau $CO_2$, drwy fesurau technegol a gweithrediadol a fabwysiadwyd gan yr IMO a dylid dangos mewn cynigion lle y cymerir mesurau i wneud hynny.

817. Dylai cynigion geisio lleihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd a chryfhau ecosystemau lle bo'n briodol. Ceir nifer o gyfleoedd mewn cynigion i gynnwys nodweddion sy'n llesol i fioamrywiaeth drwy ddylunio da er mwyn cryfhau ecosystemau. Dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o'r fath mewn cynigion, o fewn datblygiadau ac o'u cwmpas, er mwyn gwella cynefinoedd presennol, lle bo'n ymarferol.

818. Mae dyletswydd ar Awdurdodau Harbwr Statudol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, yn cynnwys dyframaethu[69], o fewn ffiniau porthladdoedd lle mae hyn yn cydweddu â gweithgareddau eraill sydd o dan eu rheolaeth. Mae Awdurdodau Harbwr Statudol wedi'u dynodi'n awdurdodau cyhoeddus allweddol sydd â rhan mewn rheoleiddio, rheoli neu gynghori ar ddyframaethu. Dylent ystyried cefnogi defnydd dichonol ar gyfer dyframaethu yng nghyd-destun eu cylch gwaith [gweler **Dyframaethu**].

819. Anogir datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i ymdrin â bylchau allweddol mewn tystiolaeth a chael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy'r sector gan gynnwys o fewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.

---

[69] Mae rhai ardaloedd lle mae potensial o ran dyframaethu wedi'u dynodi'n Ardal Adnoddau ddichonol yn unig (yn hytrach nag Ardal Adnoddau Strategol) am eu bod o fewn ardaloedd Awdurdod Harbwr Statudol ac am y byddai'r ardaloedd lle mae defnydd dichonol yn dderbyniol, ee y tu allan i sianeli mordwyo, yn weddol fach. Mae rhannau o Aberdaugleddau a Chaergybi, a rhannau ychwanegol o Afon Menai o bosibl, yn rhai sydd o ddiddordeb neilltuol ar gyfer dyframaethu ar wely'r môr neu yn y golofn ddŵr.



DRAFT

820. **Wrth baratoi cynigion sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd a morgludo, dylai datblygwyr gymhwyso'r polisïau diogelu perthnasol ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn.**

## Polisi diogelu

821. Ym mhob cynnig (yn cynnwys cynigion newydd gan y sector porthladdoedd a morgludo) a all effeithio ar weithgareddau presennol neu arfaethedig neu rai dichonol yn y dyfodol gan y sector porthladdoedd a morgludo mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol, dylid cymhwyso'r polisïau canlynol ar gyfer diogelu porthladdoedd a morgludo.

**P&S_03: Porthladdoedd a morgludo (diogelu)**

Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer:

- llwybrau mordwyo masnachol sefydledig;
- ardaloedd byrddio peilotiaid ac angorfeydd masnachol; neu
- weithgareddau porthladdoedd, harbyrau a marinâu presennol a'u potensial ar gyfer ehangu yn y dyfodol;

yn cynnwys lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

## Canllawiau ar weithredu polisi diogelu

822. Mae mesurau presennol ar gyfer rheoli gweithgareddau a thrafnidiaeth wedi'u cynnwys mewn Ardal Adnoddau Strategol ar gyfer y sector hwn.

823. O dan bolisi **P&S_03**, mewn cynigion sy'n gorgyffwrdd ag Ardaloedd Adnoddau Strategol porthladdoedd a morgludo, bydd angen dangos eu bod yn gallu cydfodoli'n ddiogel, oni bai eu bod, yn anarferol, yn cyflwyno achos dros fwrw ymlaen o dan **amgylchiadau eithriadol**. Gall amgylchiadau eithriadol gynnwys amgylchiadau lle mae'r budd economaidd neu gymdeithasol a geir o'r gweithgarwch arfaethedig yn fwy o lawer na'r hyn a gollir. Os yw cynnig yn ceisio caniatâd ar sail amgylchiadau eithriadol, dylai gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol wedi'i seilio ar dystiolaeth dros fwrw ymlaen. Yn benodol, mewn

perthynas â'r polisïau ar borthladdoedd a morgludo yn y cynllun hwn, bydd angen ystyried y canlynol yn yr achos a gyflwynir:

- A yw'r datblygiad arfaethedig wedi'i gynnwys o fewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol trosfwaol Llywodraeth y DU neu Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol neu a yw'r datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2015/16 ond gall hefyd gynnwys cynigion llai yn ôl natur y defnydd presennol.
- A yw'r sector a gefnogir yn faes sy'n cael blaenoriaeth yn y cynllun hwn ac y bydd penderfynwyr yn ystyried y graddau y cyflawnir amcanion y sector ac amcanion strategol y cynllun, neu'r graddau yr amharir arnynt, os derbynnir y cais.

824. Mae'r polisi diogelu hwn yn helpu i reoli'r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol ac arfaethedig, a gweithgareddau dichonol yn y dyfodol, yn y sector porthladdoedd a morgludo. Mae'r polisi yn ceisio lleihau effeithiau negyddol ar weithgareddau morgludo, sicrhau rhyddid mordwyo a diogelwch mordwyol a ddarperir o dan gyfraith ryngwladol, a diogelu effeithlonrwydd a chydnerthedd gweithrediadau parhaus mewn porthladdoedd, yn cynnwys eu buddiannau economaidd. Mae'n gwneud hyn drwy sicrhau bod y datblygiad neu weithgareddau eraill a all gyfyngu porthladdoedd a morgludo, yn nhermau eu gweithrediadau presennol parhaus ac ymateb i gyfleoedd i ehangu yn y dyfodol a newidiadau dichonol mewn llwybrau mordwyo, yn cael eu hystyried a'u trafod wrth wneud penderfyniadau. Mae'r polisi yn cydnabod dynodiadau presennol ar gyfer mordwyo, a rhai a geir yn y dyfodol, gan dderbyn ei bod yn bosibl cydleoli morgludiant â nifer o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwely'r môr a gweithgareddau nad ydynt yn barhaol.

825. Dylid cymryd gweithgareddau presennol yn ganllaw rhesymol ar gyfer lleoli gweithgareddau yn y dyfodol, ond nid o reidrwydd o ran eu dwysedd yn y dyfodol.

826. Lle mae'r polisi yn cyfeirio at amgylchiadau "lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad …", mae hyn yn golygu unrhyw gais am drwydded forol neu i awdurdod lleol am ganiatâd cynllunio, fel arfer gan awdurdod harbwr mewn perthynas â gweithgarwch y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdano (neu'n gyfrifol amdano'n anuniongyrchol, ee carthu mordwyol).

827. Mewn cynigion ar gyfer gweithgareddau a datblygiadau morol, dylid ystyried eu heffeithiau dichonol ar seilwaith a gweithrediadau cychod a llongau, porthladdoedd, harbyrau a marinâu. Mae hyn yn cynnwys y graddau y bydd y gweithgarwch arfaethedig yn gallu ymyrryd â llwybrau morgludo presennol neu arfaethedig; â datblygu porthladdoedd a harbyrau neu gael mynediad iddynt a diogelwch mordwyol; a yw'r ymyrraeth yn debygol ac a ellir pennu dewisiadau eraill; a lle nad oes dewisiadau eraill rhesymol; ac effeithiolrwydd unrhyw fesurau i leihau neu liniaru effeithiau.

828. Mae peryglon dichonol i fordwyo a diogelwch mordwyol yn cynnwys ymyrryd â'r defnydd o lwybrau'r Sefydliad Morol Rhyngwladol (IMO); â gweithrediadau mewn sianeli a gynhelir neu mewn ardaloedd lle ceir gweithgarwch morgludo dwys (yn cynnwys cadw digon o ofod clirio o dan y cêl); a gweithrediadau cymhorthion mordwyo. Dylai cynigion ystyried eu heffeithiau ar sianeli dynesu diffiniedig ac

DRAFT

angorfeydd masnachol sy'n hanfodol ar gyfer gweithrediadau logistaidd mewn porthladdoedd a rhoi noddfa ddiogel i longau, yn ogystal ag ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer morgludiant yn fwy cyffredinol. Ni ddylid awdurdodi datblygiadau lle byddai hynny'n gallu amharu ar y defnydd o lwybrau'r Sefydliad Morol Rhyngwladol (IMO). O dan y Datganiad Polisi Cenedlaethol (A 2.6.161) ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy, ni ddylid rhoi caniatâd datblygu ar gyfer Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol '...in relation to the construction or extension of an offshore wind farm... [if] interference with the use of recognised sea lanes essential to international navigation is likely to be caused by the development'.

829. Mae'n bwysig bod cynigion yn ystyried dwysedd y gweithgarwch morgludo yn yr ardal dan sylw; y math(au) o gychod a llongau, a'u gallu i symud o gwmpas a'r risgiau sy'n gysylltiedig â mathau o lwythi; ymyrraeth â gweithgareddau morgludo; ac a yw'r effeithiau'n barhaol neu dros dro. Os bydd taith yn hirach, bydd hynny'n cynyddu costau tanwydd ac allyriadau, a gall effeithio hefyd ar amlder y teithiau sydd eu hangen. Byddai hyn yn ei dro yn gallu amharu ar lwyddiant economaidd rhai mathau o nwyddau neu ddylanwadu'n helaeth ar benderfyniadau am ba borthladdoedd a ddefnyddir. Dylid osgoi dadleoli gweithgareddau morgludo os yw'n bosibl.

830. Dylid ystyried seilwaith sefydlog ar wyneb y môr neu o dano a all ymyrryd i raddau arwyddocaol â'r gofod clirio o dan y cêl neu ei leihau mewn llwybrau mordwyo penodedig. Os yw'n bosibl y bydd cynnig yn effeithio ar ddiogelwch mordwyol, yna dylai'r cynigydd gyflwyno Asesiad o Risg Mordwyo yn unol â'r arferion gorau gan ddangos bod effeithiau dichonol ar ddiogelwch wedi'u hystyried a bod mesurau wedi'u cynnwys i'w hosgoi, eu lleihau neu eu lliniaru. Wrth asesu cynigion a all effeithio ar ddiogelwch mordwyol, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgynghori â'r awdurdodau perthnasol, fel yr MCA, Trinity House ac Awdurdodau Harbwr Statudol.


831. Yn gyffredinol, ni ddylid caniatáu ceisiadau os ydynt yn peri risg annerbyniol i fordwyo ar ôl ystyried yr holl fesurau posibl ar gyfer osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau.

832. Ni ddylai awdurdodau cyhoeddus roi caniatâd oni bai eu bod wedi'u bodloni na fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch mordwyol neu'n cael effaith annerbyniol ar weithgareddau morgludo a rhyddid mordwyo a'i fod yn cydymffurfio â chyfraith fôr genedlaethol a rhyngwladol.

833. Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau niweidiol, dylai'r cynigydd ddangos yn glir fod budd y cynnig i'r cyhoedd yn fwy o lawer na'r effeithiau niweidiol yng nghyd-destun cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru. Gan fod morgludiant a phorthladdoedd Cymru yn cyfrannu'n helaeth i'r economi, ni fydd dadleuon ar sail amgylchiadau eithriadol yn gyffredin a bydd angen eu hystyried yn ofalus.

DRAFT

## Ffigur 21(b): Map polisi – Porthladdoedd a morgludo (Ardal Adnoddau Strategol)



## Ceblau o dan y môr

### Cyflwyniad

834. Mae'r sector hwn yn cynnwys gosod, cynnal a datgomisiynu ceblau telathrebu a throsglwyddo trydan (pŵer) o dan y môr. Telathrebu yw trosglwyddo negeseuon ffôn, y rhyngrwyd a data i Gymru, o Gymru a thrwy Gymru. Mae ceblau ar gyfer trosglwyddo trydan yn nyfroedd Cymru yn creu grid pŵer yn y môr sy'n cysylltu gweithfeydd ynni (ee ffermydd gwynt ar y môr) â'r tir ac yn cysylltu â gridiau pŵer gwledydd eraill drwy ryng-gysylltwyr.

835. Mae'r DPM (3.7.1) yn nodi bod ceblau tanfor yn 'part of the backbone of the world's power, information and international telecommunications infrastructure, and are socially and economically crucial to the UK. Submarine telecommunication cables carry over 95% of the world's international traffic including telephone, internet and data, as well as many services for the UK's local communities, major utilities and industries. The transatlantic cables landing in the UK carry more than 70% of Europe's transatlantic internet traffic.' Mae trosglwyddo trydan yn hanfodol i fywyd modern a bydd ceblau pŵer yn gallu trosglwyddo 18 Gigawat o ffermydd gwynt ar y môr yn y DU erbyn 2020 gan gyfrannu'n sylweddol at lesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

836. Felly mae ceblau pŵer a thelathrebu tanfor o bwysigrwydd economaidd strategol cenedlaethol a rhyngwladol ac yn weithgareddau sy'n hanfodol i gynnal gweithgareddau mewn sectorau eraill sy'n dod o dan y cynllun hwn gan gynnwys dyheadau o ran Twf Glas.

837. Mae rhyng-gysylltydd o dan y môr rhwng Cymru a'r Alban (cebl Trans-European Network-Energy (TEN-E)) ac America (cebl Sub-Sea HVDC), a chysylltiad â Gweriniaeth Iwerddon (EirGrid East West Interconnector). Mae potensial ar gyfer rhagor o brosiectau grid alltraeth yn y dyfodol i gryfhau'r rhwydwaith trosglwyddo a helpu i drosglwyddo ynni ar draws ffiniau.

#### Cyfraniad ceblau o dan y môr i'r economi

Mae'n anodd cyfrifo gwerth economaidd y sector ceblau o dan y môr i Gymru ar sail y wybodaeth sydd ar gael[70]. Mae 97% o'r rhyngrwyd ryngwladol yn mynd drwy geblau o dan y môr. Bob blwyddyn, mae o leiaf £65 biliwn o weithgarwch economaidd y DU yn dibynnu ar y diwydiant ceblau o dan y môr:

- £62.8 biliwn y flwyddyn yn economi ddigidol y DU.
- £2.8 biliwn yn niwydiant trydan y DU.

[70] https://www.hud.ac.uk/news/2016/september/65bnofukeconomicactivityreliesonsubseacableindustry.php

DRAFT

## Y rhyngweithio presennol a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol â sectorau eraill

838. Mae ceblau rhyng-gysylltu a cheblau pŵer trydan yn hanfodol ar gyfer darparu ynni'r môr yn llwyddiannus. Yn fwy cyffredinol, mae ceblau telathrebu a phŵer o dan y môr yn hollbwysig i gynnal ein heconomi a'n ffordd o fyw, ac felly maent yn cynnal yr holl sectorau sydd yn y cynllun hwn yn anuniongyrchol.

839. Mae ceblau un ai'n cael eu gosod ar wely'r môr, eu gorchuddio dan gerrig neu eu claddu er mwyn diogelu'r ceblau a lleihau'r perygl o ryngweithio â gweithgareddau sectorau eraill. Mae gweithrediadau gosod a chynnal ceblau ar wyneb gwely'r môr yn gallu cael effaith dymor byr ar weithgareddau mordwyo (hy dadleoli/mwy o berygl o wrthdaro). Os bydd ceblau'n cael eu claddu neu eu diogelu, gall y gwaith bara'n hirach ac felly gall y posibilrwydd o ryngweithio fod yn fwy.

840. Gall rhyngweithio achosi difrod i'r cebl a / neu'r mecanwaith cysylltu gan beri colled economaidd i weithredwyr y ddau weithgarwch, a gall beryglu diogelwch pobl. Mae gwaith i atgyweirio difrod i geblau yn ddrud a gall ymyrryd yn sylweddol â gweithgareddau dosbarthu pŵer a thelathrebu. Mae'r DPM yn nodi bod gweithgarwch cynyddol yn ardal forol y DU yn golygu y gellir cael cynnydd yn nifer y digwyddiadau ac mae'n datgan 'marine planning has a role to play in coordinating marine activities to ensure both the safety of these installations and safe access to them for maintenance purposes'.

841. Mae ceblau'n weithfeydd sefydlog ac, ar ôl eu gosod ar wely'r môr neu eu claddu o dano, gallant ryngweithio â gweithgareddau eraill sy'n dod i gysylltiad â gwely'r môr, ee pysgota â llusgrwydi neu gêr llusg ar wely'r môr, carthu agregau, angori llongau a gweithgareddau ar gyfer gosod ceblau eraill neu biblinellau (olew, nwy neu wastraff).

- Gweithgarwch Pysgota: Mae'r prif effeithiau o osod ceblau ar weithgarwch pysgota masnachol yn ymwneud â chyfyngiadau ar fynediad i feysydd pysgota neu rwygo offer pysgota, sy'n gallu arwain at lai o elw a/neu gostau uwch i'r diwydiant pysgota. Mae'r risg o hynny yng Nghymru yn fach gan fod y rhan fwyaf o'r fflyd bysgota yn gychod llai nad ydynt yn defnyddio llusgrwydi neu gêr llusg. Fodd bynnag, mae cychod mwy sy'n defnyddio gêr llusg yn gweithredu ymhellach na 6mf mewn ardaloedd lle mae'n hysbys bod ceblau'n bresennol (yn enwedig yng ngogledd a de-orllewin Cymru).
- Carthu agregau: Nid yw'r gweithgarwch presennol yn digwydd yn yr un mannau â choridorau ceblau, er y gall y sefyllfa hon newid yn y dyfodol os defnyddir ardaloedd agregau sydd ymhellach o'r lan ym Môr Hafren fel y mae'r cynllun hwn yn cynnig.
- Hyd yn hyn, cafwyd y rhan fwyaf o weithgareddau olew a nwy ar y môr mewn ardaloedd oddi ar lannau Canolbarth a Gogledd Cymru, lle mae'n hysbys bod ceblau'n bresennol. Bydd angen ystyried lleoliadau ceblau a'u clustogfeydd wrth benderfynu ar drwyddedu gweithgareddau olew a nwy yn y dyfodol.

842. Un math arall o ryngweithio ac effeithiau dichonol yw ymyrraeth gan weithrediadau ceblau â safleoedd archeolegol hysbys a rhai sydd heb eu darganfod. Fel arfer, bydd effeithiau o'r fath yn lleol iawn a bydd archwiliad priodol o lwybr y cebl, ymgysylltu priodol â rhanddeiliaid a gweithrediadau peirianyddol digonol ar y llwybr yn gallu osgoi, lleihau neu liniaru'r risgiau hyn.

DRAFT

843. Yn y sector telathrebu, ceir buddion i fusnesau ac aelwydydd o gyfathrebu digidol gwell a mwy cyflym, yn ogystal â chysylltedd mwy dibynadwy â'r rhyngrwyd[71]. Mae buddion o'r fath yn gwneud busnesau'n fwy effeithlon ac yn rhoi mwy o allu i reoli pobl a phrosesau, a gwell cyfleoedd i roi gwybod am arloesi mewn cynhyrchion a phrosesau i gynulleidfa ryngwladol. Yn y sector trydan, mae defnyddio ceblau o dan y môr yn hanfodol i fewnforio ac allforio trydan, a hefyd i gysylltu dulliau cynhyrchu trydan alltraeth â system grid trydan y tir mawr. Felly mae ceblau o dan y môr yn sicrhau bod cyflenwadau trydan yn fwy diogel a dibynadwy ac yn gwella mynediad i farchnadoedd mewn gwledydd tramor gan hyrwyddo llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

844. Mae gweithgareddau gosod a chynnal ceblau, a gweithgarwch cysylltiedig gan longau, yn gallu cynyddu'r perygl o wrthdaro â mordwywyr presennol. Credir bod y risg hon yn un dros dro a bod modd ei lliniaru drwy gynllunio gofalus a hysbysu awdurdodau Gwylwyr y Glannau neu unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill. Yn aml bydd Asesiad Risg Mordwyo wedi'i gwblhau ar gyfer prosiectau ceblau o dan y môr a fydd yn pennu arferion da a rheolaethau a phrotocolau risg.

## Rhyngweithio ag ecosystemau

845. Gellir cael effeithiau dichonol ar ecosystemau islanw a rhynglanw wrth osod, gweithredu a datgomisiynu ceblau. Mae gosod, atgyweirio a/neu symud ceblau o dan y môr yn gallu aflonyddu'n ffisegol ar wely'r môr ac effeithio ar gydnerthedd ecosystemau drwy ddifrodi, dadleoli a symud cymunedau biolegol ar raddfa leol.

846. Bydd effeithiau ar gymunedau môr-waelodol yn dibynnu ar y rhywogaethau a'r cynefin. Gall aflonyddu arwain at leihau amrywiaeth, amlder a biomas rhywogaethau yn lleol o fewn ôl troed yr effaith. Byddai hyn yn gallu arwain at effeithiau ehangach ar ecosystemau mewn cynefinoedd rhynglanw, cynefinoedd môr-waelodol alltraeth ac ar ecoleg pysgod cregyn, ac effaith anuniongyrchol ar adar drwy beri nad yw ysglyfaeth ar gael. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion bydd yr effeithiau'n rhai dros dro ac yn gyfyngedig i lain gul ar wely'r môr, o fewn 2-3 m i ddwy ochr y cebl fel arfer, neu o fewn rhychwant o tua 10m os yw'r cebl wedi'i gladdu yng ngwely'r môr. Mae cynefinoedd llai sefydlog (tywod bras, glân) yn debygol o ymadfer yn gyflymach na chynefinoedd mwy sefydlog (gwaddodion cymysg, tywod lleidiog a llaid), er bod yr ôl troed cyfan ar wely'r môr yn y ddau achos yn debygol o fod yn fach a bydd gwely'r môr yn dychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol fel arfer.

847. Bydd gweithrediadau gosod ac adfer yn codi rhywfaint o waddodion o wely'r môr i'w dal mewn dŵr, gan wneud y dŵr yn fwy lleidiog a chreu colofnau o waddodion. Bydd natur yr effaith yn dibynnu ar y math o waddod a lefel yr aflonyddu ond bydd yr effeithiau'n llai fel arfer na'r rheini sy'n gysylltiedig â gweithgareddau morol eraill fel echdynnu agregau a charthu a gwaredu.

---

[71] Prifysgol Huddersfield ar werthusiad Economaidd a Chymdeithasol o ddiwydiant ceblau o dan y môr y DU (Rhagfyr 2016).



DRAFT

848. Mae llif cerrynt trydanol mewn ceblau o dan y môr yn creu pelydriad electromagnetig (EM). Credir ei bod yn bosibl bod meysydd EM yn effeithio ar rywogaethau morol sensitif, fel siarcod a morgathod, a gallant effeithio ar gyfeiriadedd gofodol rhai mamaliaid morol, gan arwain at newidiadau mewn symudiadau a phatrymau ymfudo.

849. Bydd y ceblau eu hunain, os na chânt eu claddu, hefyd yn darparu swbstrad solet ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau cytrefol manteisgar. Er bod hyn yn gallu creu cynefinoedd mwy amrywiol a chyfrannu at gyfnerthu ecosystemau, fe allai arwain at newid yn y gymuned fôr-waelodol naturiol, er y bydd yr effeithiau'n rhai lleol gan amlaf.

850. Gellir delio â pheryglon dichonol i rywogaethau sensitif fel arfer drwy gynllunio amseriad y gweithrediadau a llwybr penodol y cebl. Drwy gynllunio llwybrau'n ofalus, gellir helpu i leihau'r effaith o osod ceblau ar gydnerthedd ecosystemau drwy osgoi cynefinoedd sensitif fel riffiau biogenig, gwelyau morwellt a morfeydd heli. Os bydd llwybr ceblau a'r rheolaeth arnynt yn addas, fel arfer gellir osgoi effeithiau arwyddocaol ar adnoddau naturiol o ganlyniad i osod ceblau a'u presenoldeb a'u gweithrediad. Credir bod y cyfraniad gan weithgareddau gosod, cynnal neu ddatgomisiynu ceblau o dan y môr at effeithiau cronnol neu ar y cyd yn fach ar y cyfan.

## Y dyfodol

851. Mae ceblau o dan y môr yn elfen annatod yn seilwaith pŵer, gwybodaeth a thelathrebu rhyngwladol y byd a byddant yn parhau'n hanfodol i lesiant cymdeithasol ac economaidd. Disgwylir y bydd twf y sector yn adlewyrchu twf yn economi'r DU yn gyffredinol.

852. Bydd ehangu'r defnydd o dechnolegau ynni adnewyddadwy alltraeth yn arwain at gynnydd yn nifer y ceblau pŵer o dan y môr. Er bod nifer y ceblau telathrebu o dan y môr yn ardal y cynllun yn gymharol fach ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y nifer yn cynyddu er mwyn diwallu'r angen am dwf mewn trosglwyddo data. Cafwyd buddsoddi sylweddol yn ddiweddar i sicrhau coridor ffeibr optig sy'n cysylltu Dulyn â Chaergybi ac yn ymestyn i'r DU ac Ewrop. Gan mai 15 i 25 mlynedd yw oes yr asedau hyn, mae'n annhebygol y bydd angen rhagor o ddatblygiadau telathrebu yn yr ardal hon yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, os bydd y rhagolwg o'r galw am gapasiti a lled band ar gyfer y rhyngrwyd a throsglwyddo data yn parhau i gynyddu, mae'n bosibl y bydd angen ceblau ychwanegol.

853. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â darparwyr cysylltedd rhyngwladol i amrywiaethu ffynonellau'r cyflenwad trydan a lleihau gwahaniaethau rhwng y cyflenwad a'r galw, yn enwedig yr hyn sydd wedi'i achosi gan amrywiadau yn y cyflenwadau o ynni adnewyddadwy. Mae nifer y rhyng-gysylltwyr a chyfanswm capasiti'r rhyng-gysylltwyr yn y DU hefyd yn debygol o gynyddu (ee rhwng Cymru ac Iwerddon).

## Y newid yn yr hinsawdd

854. Mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar y sector yn fach ond gallent gynnwys risgiau o ddifrod i lanfeydd ceblau o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, llifogydd a



DRAFT

mwy o stormusrwydd, a risgiau i geblau ac i'w glanfeydd o ganlyniad i fwy o erydu a gwaddodi. Gellir ymateb i'r risgiau hyn drwy gynllunio a pheiriannu systemau ceblau yn ofalus .

## Anghenion allweddol am dystiolaeth

855. Mae anghenion allweddol am dystiolaeth mewn perthynas â chynllunio morol yn cynnwys:
- deall sensitifrwydd rhywogaethau i geblau trosglwyddo pŵer trydanol;
- ymchwil i welliannau technolegol ar gyfer ceblau telathrebu ffeibr optig er mwyn cynyddu capasiti fel y bydd y diwydiant yn gallu cadw'n wastad â'r galw heb gynyddu nifer y ceblau.

## Llywodraethu

856. Mae rheoleiddio'r sector ceblau o dan y môr yn fater a ddatganolwyd yn rhanbarth y glannau yn ardal y cynllun.

857. Mae'r prif awdurdodau penderfynu a chynghori yn cynnwys: Gwasanaeth Caniatáu CNC, Llywodraeth Cymru, Ystad y Goron, yr Awdurdod Lleol (caniatâd cynllunio ar dir), perchenogion tir preifat a BEIS, MMO (>12mf).

858. Mae gwahanol fathau o geblau o dan y môr yn ddarostyngedig i wahanol reolaethau deddfwriaethol yn ôl eu pwrpas a'u lleoliad:
- Er mwyn gosod ceblau o bob math yn nyfroedd tiriogaethol y DU, mae'n ofynnol cael trwydded forol gan yr awdurdod trwyddedu perthnasol (Gwasanaeth Caniatáu CNC <12mf). Os yw'r cebl yn gebl rhyngwladol, bydd yr awdurdod trwyddedu perthnasol yn gorfod rhoi trwydded forol, ond gall osod amodau rhesymol.
- Nid yw'n ofynnol cael trwydded forol i osod ceblau rhyngwladol y tu allan i ddyfroedd tiriogaethol y DU, gan y bydd hyn yn cael ei ystyried o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS).
- Er mwyn gosod ceblau sy'n gysylltiedig â thechnolegau cynhyrchu ynni'r môr yn nyfroedd y Parth Economaidd Cyfyngol, mae'n ofynnol cael trwydded forol ar gyfer y ceblau ar eu hyd.
- Er mwyn gosod ceblau drwy fwy nag un awdurdodaeth genedlaethol, bydd angen cynnal trafodaeth drawsffiniol i bennu eu llwybr a'u caniatáu.

859. Mae Ystad y Goron, fel perchennog tir, yn rhoi caniatâd ar gyfer ceblau telathrebu a lesoedd ar gyfer ceblau pŵer er mwyn rhoi'r hawl i osod ceblau ar eiddo Ystad y Goron. Rhaid cael caniatâd gan Ystad y Goron i osod a defnyddio unrhyw gyfarpar telathrebu ar wely môr a blaendraeth Ystad y Goron. Wrth roi caniatâd, bydd Ystad y Goron a gwasanaeth caniatáu CNC yn arfer rhywfaint o reolaeth ac yn ystyried goblygiadau trawsffiniol lle mae ceblau'n croesi ffiniau rhwng gwledydd a lle maent yn dod i'r lan. Ni all CNC roi trwydded forol ar gyfer gwaith ar wely môr llanwol nad yw'n eiddo i'r Goron oni bai ei fod wedi'i fodloni bod trefniadau digonol wedi'u gwneud i ddigolledu perchenogion buddiannau yn y dyfroedd llanw neu diroedd y mae'n effeithio arnynt am unrhyw golled neu ddifrod.

860. Gan fod hawliau gan Ystad y Goron i drwyddedu gweithgareddau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar sgafell gyfandirol y DU, mae angen cael caniatâd gan Ystad y Goron ar gyfer hyd cyfan ceblau trydan (ceblau allforio) sy'n cysylltu ffermydd gwynt ar y môr â'r lan a rhoddir yr hawliau hyn un ai i ddatblygwr y fferm wynt gysylltiedig neu i Berchennog yr Ased.

861. Mae'r sector yn dilyn nifer o arferion da gan gynnwys: cydgysylltu â physgodfeydd ac UKHO; ymwybyddiaeth o geblau; gosod ceblau; diogelu ceblau; pellteroedd gweithio diogel; digwyddiadau clymu a datgomisiynu[72]. Er enghraifft, lluniwyd canllawiau ar gyfyngiadau ar osod a chynnal ceblau tanfor a chyfyngiadau ar weithrediadau echdynnu agregau morol lle mae'r ddau fuddiant yn meddiannu arwynebeddau cyfagos o wely'r môr.

## Amcan y

| | |
|---|---|
| Helpu i ddosbarthu trydan yn y ffordd orau posibl ac i sicrhau gwell cyfathrebu rhyngwladol drwy dyfu rhwydweithiau cyfathrebu digidol. | |

## Polisi'r sector ceblau o dan y môr a chanllawiau ar weithredu

862. Mae polisi'r sector ceblau o dan y môr yn gymwys i ranbarth y glannau a'r rhanbarth môr mawr yn ardal y cynllun.

863. Mae'r DPM yn cydnabod mai ceblau o dan y môr yw asgwrn cefn seilwaith pŵer, gwybodaeth a thelathrebu rhyngwladol y byd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod mynediad eang at seilwaith telathrebu diogel a fforddiadwy yn bwysig i ddinasyddion a busnesau ledled Cymru a bod cysylltedd telathrebu rhyngwladol yn dibynnu'n gyfan gwbl bron ar y rhwydweithiau o dan y môr yn nyfroedd y DU sydd felly'n seilwaith hanfodol a strategol bwysig. Er mwyn cyflawni targedau ar ynni, mae angen cael seilwaith digonol i drosglwyddo trydan o gyfleusterau alltraeth a rhannu ynni rhwng gwledydd er mwyn hwyluso gwell llinellau amser ar gyfer y cyflenwad a'r galw.

864. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi datblygu seilwaith telathrebu band eang uwch ledled Cymru ac yn hyrwyddo dull integredig o ddarparu ac adnewyddu seilwaith ynni a thelathrebu. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol alluogi'r twf sydd ei angen o ran ceblau telathrebu a throsglwyddo trydan er mwyn cyflawni amcanion polisi.

865. Mae hawliau gan berchenogion ceblau tanfor i atgyweirio seilwaith sydd wedi'i ddifrodi (ceblau neu eu gorchuddion). Dylid trafod gwaith arfaethedig â'r awdurdod trwyddedu perthnasol ond, yn ôl natur y gwaith atgyweirio, gall rhai mathau ohono fod wedi'u hesemptio o'r broses trwyddedu. Lle mae ceblau wedi torri neu mewn argyfwng, bydd angen eu hatgyweirio mor gyflym â phosibl ac nid oedd angen cael trwydded ar gyfer hyn yn hanesyddol: dylai perchennog y cebl

DRAFT

---

[72] (http://www.subseacablesuk.org.uk/ a http://www.kis-orca.eu/)

hysbysu'r rheoleiddiwr am y bwriad i atgyweirio'r cebl.

866. Mae rhagdybiaeth gyffredinol y dylai pob seilwaith nas defnyddir gael ei dynnu a'i gludo i'r tir wedyn i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu, ei losgi gan adennill ynni ohono neu ei waredu ar safle trwyddedig. Wrth ddatgomisiynu ceblau tanfor, dilynir canllawiau BEIS / IMO ar gyfer gweithfeydd alltraeth ac mae'r rhain hefyd wedi'u mabwysiadu ar gyfer ceblau o dan y môr gan Ystad y Goron yn niffyg canllawiau statudol. Dim ond os oes rhesymau da iawn yr ystyrir eithrio o'r gofyniad cyffredinol hwn. Mae'r dull hwn o weithredu yn cydnabod bod tynnu seilwaith yn caniatáu i'r amgylchedd morol gael ei ddefnyddio eto at ddibenion eraill. Mae'n cydnabod y gall rhai mathau o seilwaith beri risg i fordwyo yn yr ardal os na chânt eu tynnu. Lle bydd ceblau'n aros wedi'u claddu ar ddyfnder diogel o dan wely'r môr, mae'n bosibl y bydd lle i ddadlau o blaid eu gadael yn eu lle: bydd effeithiau amgylcheddol a'r costau ariannol am eu tynnu yn ystyriaethau allweddol.

867. Gallai pryderon godi pe byddai'r ceblau'n cael eu datguddio gan ddynameg gwaddodion naturiol, oherwydd byddai ceblau datguddiedig yn gallu peri risg i ddefnyddwyr eraill y môr, a'i bod yn bosibl y byddai offer pysgota neu angor yn gallu mynd ynghlwm mewn cebl. Gallai'r dewis o adael ceblau yn eu lle fod yn briodol lle maent wedi'u claddu ar ddyfnder diogel o dan wely'r môr fel nad ydynt yn peri risg i ddefnyddwyr eraill y môr. Bydd y dyfnder sy'n briodol yn dibynnu ar y cerhyntau a'r amodau cyffredinol ar wely'r môr. Lle cynigir gadael ceblau yn eu lle, dylid monitro dyfnder claddu'r ceblau yn ystod oes y weithfa ac wedyn, i asesu'r risg o ddatguddio'r ceblau. Dylid cynnwys cynlluniau wrth gefn yn y rhaglen datgomisiynu sy'n disgrifio'r camau a gymerir os bydd y ceblau'n cael eu datguddio. Dylid dilyn canllawiau perthnasol wrth ystyried unrhyw ddatblygiad neu weithgarwch sy'n gysylltiedig â cheblau.

868. **Mae'r [Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau] yn gymwys.**

869. Dylid ystyried y polisïau ar sectorau yn y cynllun hwn ochr yn ochr â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol sydd yn y cynllun hwn, nodau llesiant Cymru ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn bwysig bod y broses ymgeisio am awdurdodiad yn cymhwyso'r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy'n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau eraill lle maent wedi'u pennu). Dylid darparu tystiolaeth sy'n ymwneud â pholisïau perthnasol i hwyluso penderfyniadau. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn gosod canllawiau ar gyfer cynigion a phenderfyniadau (ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill); nid ydynt yn dileu'r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol.

DRAFT

## Polisi cefnogi

| |
|---|
| **CAB_01: Ceblau o dan y môr (cefnogi)**<br>Anogir cyflwyno cynigion sy'n hwyluso twf rhwydweithiau cyfathrebu digidol a/neu'r ffyrdd gorau posibl o ddosbarthu trydan. |

## Canllawiau ar weithredu polisi cefnogi

870. Mae nifer cynyddol o fusnesau'n dibynnu ar y gallu i gael cysylltedd rhyngwladol er mwyn gweithredu a chan fod y duedd at e-fasnach yn parhau i gynyddu mae'n bwysig bod awdurdodau perthnasol yn darparu ar gyfer ehangu amserol a chymorth i'r sector telathrebu (yn cynnwys ceblau o dan y môr). Mae ceblau rhyng-gysylltu a cheblau pŵer trydan yn hanfodol ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy ar y glannau ac ar y môr yn llwyddiannus. Y dull o weithredu a fydd yn darparu'r cysylltiadau mwyaf effeithlon yw datblygu gridiau ar sail cynllun gan ystyried ffactorau amgylcheddol ac economaidd a defnyddwyr eraill.

871. Mae'n bwysig bod perchenogion ceblau a rhwydweithiau yn ymgysylltu â'r awdurdodau perthnasol a phartïon cysylltiedig eraill ar ddechrau'r cyfnod cynllunio er mwyn eu hysbysu am unrhyw fwriad i osod neu amnewid ceblau cyn cynnig llwybrau ar eu cyfer.

872. Gall awdurdodau cyhoeddus ei gwneud yn ofynnol bod Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gwblhau er mwyn pennu'r effeithiau amgylcheddol dichonol o osod a chynnal ceblau. Os yw cynlluniau'n ymwneud ag integreiddio gridiau alltraeth ar draws gwledydd / mewn gwledydd unigol, dylent drafod ystyriaethau trawsffiniol.

873. Mewn cynigion ar gyfer gosod ceblau o dan y môr, dylid ceisio lleihau'r effeithiau niweidiol o hynny ar asedau hanesyddol morol a'r amgylchedd naturiol, ar seilwaith, ac ar ddefnyddwyr eraill y môr lle mae hynny'n bosibl wrth weithredu ac yn unol ag arferion da perthnasol. Dylid pennu llwybrau addas ar gyfer ceblau er mwyn osgoi cynefinoedd sensitif a nodweddion eraill gan gynnwys asedau hanesyddol.

874. Dylai cynigion hefyd geisio osgoi ardaloedd sy'n bwysig i sectorau eraill, ee llwybrau mordwyo a sianeli dŵr dwfn (er mwyn darparu ar gyfer carthu cynnal), ardaloedd sy'n bwysig ar gyfer pysgota ar wely'r môr a'r diwydiant agregau. Dylid rhoi ystyriaeth yn gynnar i'r polisïau diogelu ar gyfer y sectorau eraill sy'n dod o dan y cynllun hwn.

875. Dylid rhoi ystyriaeth briodol a chymesur i agweddau amgylcheddol a darparu asesiad o risg a all gynnwys mesurau i ddiogelu ceblau a chynlluniau lliniaru. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol ystyried gosod amodau cymesur ar awdurdodiadau i osod neu ddiogelu ceblau o dan y môr mewn perthynas ag adfer gwely'r môr, monitro a chymryd camau adfer.

DRAFT

876. Credir yn aml y bydd gosod unrhyw geblau newydd yn agos i geblau presennol yn lleihau effeithiau a risg (drwy leihau'r arwynebedd lle gwaherddir gweithgareddau yn ogystal â lleihau'r risg o ddifrodi ceblau). Fodd bynnag, fe allai hyn gynyddu risgiau i'r ceblau os byddant yn rhy agos i'w gilydd oherwydd byddai un digwyddiad (ee difrod wedi'i achosi gan angor llong) yn gallu difrodi'r seilwaith ceblau cyfan. Dylid cefnogi arfer y sector o wahanu llwybrau ceblau er mwyn lleihau'r perygl o fethiant.

877. Gall y sector ceblau o dan y môr leihau'r posibilrwydd o wrthdaro, a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer cydleoli a chydfodoli, drwy gladdu ceblau. Dylid ffafrio'r dull hwn o osod ceblau lle mae posibilrwydd o gael effaith arwyddocaol oddi wrth weithgareddau eraill a lle mae'r amodau ar wely'r môr yn addas, hy lle mae rhediadau graddol a gwaddodion mwy meddal hyd at ddyfnder dŵr o 1500m neu fwy. Mae claddu ceblau'n lleihau'r risg o dorri gwasanaeth ac yn gwella diogelwch. Lle nad yw claddu'n bosibl neu'n ddymunol, gall mesurau diogelu eraill fod yn briodol (yn unol â gofynion mewn rheoliadau ac arferion da y diwydiant). Mae'r rhain yn cynnwys gosod pibellau hollt, bagiau growt, gosod cerrig, gosod matresi neu amddiffynfeydd. Gall gwahanol ffactorau yn y prosiect bennu pa fesurau diogelu fydd yn briodol, er enghraifft: pwrpas y cebl, ei fath, ei hyd, a chostau rhedeg ar gyfer ei osod a'i gynnal.

878. Mae glanfeydd a'r mynediad atynt yn fater allweddol i'r sector ceblau o dan y môr. Wrth ddewis lleoliadau ar gyfer glanfeydd ceblau pŵer a thelathrebu, mae'n bwysig bod datblygwyr ac awdurdodau perthnasol yn sicrhau bod cynigion yn gyson â pholisïau cynllunio ar dir (a pholisïau'r cynllun hwn) er mwyn cadarnhau eu bod yn cydweddu ag adnoddau naturiol a mathau o ddefnydd presennol neu arfaethedig, ee mesurau i amddiffyn rhag llifogydd a diogelu'r arfordir.

879. Anogir datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i ymdrin â bylchau allweddol mewn tystiolaeth a chael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy'r sector.

880. **Wrth baratoi cynigion sy'n gysylltiedig â cheblau o dan y môr, dylai datblygwyr gymhwyso'r polisïau diogelu perthnasol ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn**.

DRAFT

## Polisi diogelu

881. Ym mhob cynnig (yn cynnwys cynigion newydd gan y sector ceblau o dan y môr) a all effeithio ar weithgareddau presennol neu arfaethedig sy'n gysylltiedig â cheblau o dan y môr neu rai dichonol yn y dyfodol, dylid cymhwyso'r polisïau canlynol ar gyfer diogelu ceblau o dan y môr.

**CAB_02: Ceblau o dan y môr (diogelu)**

Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar geblau presennol ac arfaethedig o dan y môr a'u glanfeydd lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad neu les oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â'r gweithgarwch ceblau dan y môr sy'n bod eisoes, sydd wedi'i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir eu cydweddu'n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

## Canllawiau ar weithredu polisi diogelu

882. Mae'r polisi diogelu hwn yn helpu i reoli'r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol neu arfaethedig y sector ceblau o dan y môr. Mae'r polisi'n cydnabod y pwysigrwydd o ddiogelu ceblau o dan y môr, eu glanfeydd, a'r seilwaith cysylltiedig ar dir y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi caniatâd cynllunio ar ei gyfer.

883. Mae'r cynllun hwn yn cydnabod bod y twf mewn sectorau eraill (er enghraifft, cystadlu am ofod â phiblinellau olew a nwy, y diwydiant agregau, pysgota a morgludo), yn ogystal â chystadlu o fewn y diwydiant ceblau, yn creu mwy o berygl dichonol o ddifrod i geblau o dan y môr o bob math. Bydd dull cynlluniedig o weithredu ar y cyd yn hyrwyddo cydfodolaeth ac yn lleihau risg . Yn aml, bydd hyblygrwydd wrth bennu llwybr y cebl yn ddigon i ddelio â rhyngweithio niweidiol dichonol.


884. Gellir rheoli cydfodolaeth rhwng ceblau a gweithgareddau eraill. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau bydd cydleoli â gweithgareddau eraill yn annerbyniol, ee ar ôl gosod cebl (ar wyneb gwely'r môr neu o dano) bydd yn cael ei ddiogelu gan y gyfraith a rhaid atal gweithgareddau fel pysgota neu angori uwch ei ben. Mae pysgota uwchben ceblau wedi'i nodi'n arfer i'w osgoi yn llawlyfr i forwyr a gyhoeddwyd gan UKHO.

885. Mae darparu gwybodaeth gywir a chyfredol yn ofyniad allweddol i'r sector ceblau o dan y môr er mwyn gallu cynllunio gweithgareddau a lleihau'r perygl o effeithiau damweiniol. Bydd defnyddwyr mewn sectorau, yn enwedig y rheini yn y sector pysgota, yn gallu cael gafael ar wybodaeth gywir a chynhwysfawr sy'n cael ei dal gan Kingfisher o dan brosiect KIS-ORCA154 (Kingfisher Information Service – Offshore Renewable & Cable Awareness) am y rhan fwyaf o'r ceblau tanfor yn nyfroedd y DU. Mae prosiect KIS-ORCA yn darparu siartiau ymwybyddiaeth o geblau, rhestrau electronig o leoliadau llwybrau ceblau a gwybodaeth ddigidol ar gyfer plotwyr siartiau am ddim i weithredwyr cychod a llongau pysgota a rhanddeiliaid morol perthnasol. Mae sefydliadau a rhanddeiliaid pysgota allweddol yn cydweithio â'r sector i hyrwyddo'r prosiect hwn ac i helpu i ddosbarthu'r data yn lleol. Mae llwybrau ceblau wedi'u nodi hefyd ar siartiau UKHO, gan Ystad y Goron ac ar borth morol Llywodraeth Cymru, ac mae pob un o'r rhain yn helpu i leihau'r perygl o ddifrodi ceblau'n ddamweiniol gan weithgareddau sectorau eraill.

886. Drwy'r broses cynllunio morol a thrwy ddarparu gwybodaeth gywir am leoliad ceblau o dan y môr, dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol helpu i hwyluso'r gwaith o gydgysylltu gweithgareddau morol, gwella dealltwriaeth ymysg diwydiannau perthnasol a rhoi gwybod am ganllawiau er mwyn sicrhau diogelwch y gweithfeydd hyn a mynediad diogel atynt ar gyfer cyflawni gwaith cynnal.

DRAFT

## Ffigur 22: Map polisi – Ceblau o dan y môr



## Trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff

### Cyflwyniad

887. Mae rheoli dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff yn cynnwys ei gasglu, ei gludo, ei drin a'i waredu. Mae'n cwmpasu carthffosydd, gweithfeydd trin carthion, elifion diwydiannol a gorlifoedd carthffosiaeth cyfunol.

888. Mae dwy elfen mewn dŵr wyneb ffo:
- dŵr glaw sy'n treiddio i'r ddaear ac wedyn yn diferu i ddyfrffyrdd sy'n llifo i'r môr,
- dŵr glaw sy'n rhedeg oddi ar doeau, priffyrdd a phalmentydd i systemau carthffosiaeth cyhoeddus sydd hefyd yn cyrraedd y môr yn y pen draw.

889. Dim ond y gweithgarwch olaf, a gaiff ei reoli drwy seilwaith ar yr arfordir ac yn y môr, sy'n cael ei ystyried yn y cynllun hwn. Y diffiniad o ddŵr gwastraff yw gwastraff mewn dŵr o gymuned: mae hyn yn cwmpasu elfennau domestig, masnachol, diwydiannol, ac amaethyddol sy'n mynd i'r system garthffosiaeth.

890. Mewn ardaloedd gwledig, mae cyfran fawr o lif afonydd yn dod o ymdreiddiad glaw a phrosesau naturiol. Fodd bynnag, mewn ardaloedd trefol lle gall maint y mannau gwyrdd agored fod yn fach, mae'r arwynebedd sydd ar gael i amsugno glaw yn llai o lawer. Yma bydd dŵr ffo yn cael ei sianelu lle bo modd drwy rwydweithiau draenio i ddyfrffyrdd neu'n cyrraedd y system garthffosiaeth lle bydd yn cael ei drin a'i waredu.

891. Am nifer o resymau gwahanol, gan gynnwys amlder cynyddol y stormydd garw a chynnydd yn arwynebedd yr arwynebau anhydraidd mewn ardaloedd adeiledig, mae'r rhwydwaith carthffosydd yn gorfod delio â llifau cynyddol o ddŵr wyneb. Lle mae meintiau mawr o ddŵr wyneb yn llifo i'r rhwydwaith carthffosydd, gall hwnnw gael ei orlwytho gan beri perygl o lifogydd i gartrefi a busnesau. Er mwyn helpu i atal hyn, cyflwynwyd Gorlifoedd Carthffosiaeth Cyfunol sy'n gweithredu fel falfiau gollwng yn y system garthffosiaeth drwy ryddhau dŵr stormydd gwastraff i ddyfrffyrdd pan fydd y garthffos yn llawn. Ar y pwynt hwn, bydd y dŵr gwastraff yn wanedig iawn fel arfer (llai na 0.1% yn ddeunydd solet gan amlaf). Mae gollyngiadau o'r fath yn anorfod, ac maent yn cael eu rheoleiddio'n dda, eu monitro a'u heffeithiau'n cael eu lliniaru.

892. Mae angen seilwaith i gasglu, trin a gwaredu dŵr gwastraff o dai a diwydiant. Mae darparu'r seilwaith hwn (drwy gynllunio ar dir a môr) a'i reoli a'i gynnal yn effeithiol yn weithgareddau sy'n allweddol ar gyfer cynnal llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol gan gynnwys diogelu cydnerthedd ecosystemau a gwarchod adnoddau naturiol.

893. Mae gweithrediadau'r sector hwn yn ymwneud yn agos â sectorau eraill ac yn hanfodol iddynt (ee twristiaeth a hamdden, pysgodfeydd, dyframaethu) gan eu bod yn dibynnu ar ddŵr croyw a dŵr arfordirol glân ac iach i gynnal eu

DRAFT

gweithgareddau eu hunain. Yn benodol, mae rheoli dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff, ac amlder gorlifoedd sy'n arwain at ryddhau dŵr gwastraff sydd heb ei drin, yn bwysig o ran pennu ansawdd dŵr a chadw ein hadnoddau naturiol mewn cyflwr iach [gweler **Ansawdd dŵr**].

### Cyfraniad trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff i'r economi

Nid yw'n hawdd pennu gwerth economaidd asedau a gweithrediadau morol i Gymru ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r sector carthffosiaeth yn cynnal cyflogaeth uniongyrchol drwy adeiladu seilwaith newydd, cynnal seilwaith presennol a rheoli gwasanaethau trin ledled Cymru. Mae Dŵr Cymru yn cyflogi tua 3,000. Mae hefyd yn darparu seilwaith allweddol y mae nifer mawr o fusnesau yng Nghymru'n dibynnu arno.

Mae Dŵr Cymru yn ymgymryd â rhaglen gwariant cyfalaf bum mlynedd o tua £1.5bn. O dan y rhaglen hon, mae Dŵr Cymru wedi gwario oddeutu £329 miliwn ar brosiectau cyfalaf yn ystod 2012-13. Yn ogystal â hyn, gwariwyd £290 miliwn ychwanegol ar gostau gweithredu. Yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol (hy drwy effeithiau ar y gadwyn gyflenwi ac aelwydydd), mae Dŵr Cymru yn cynnal bron £1.1bn o weithgarwch economaidd ac yn darparu £360 miliwn o werth ychwanegol gros yn economi Cymru (mae pob £1 y mae Dŵr Cymru yn ei gwario yn cynhyrchu mwy na 56c yng ngweddill economi Cymru).

Ymysg y gweithwyr y mae Dŵr Cymru yn eu cyflogi'n uniongyrchol mae mwy na 100 o beirianwyr a mwy na 40 o wyddonwyr. Yn ogystal â hyn, mae tua 30 o gyflogeion mewn lleoliadau i raddedigion a 25 o gyflogeion yn dilyn prentisiaethau. Mae'r incymau cyfartalog cymharol uchel a gynhelir yn uniongyrchol gan Dŵr Cymru yn helpu i greu effeithiau arwyddocaol yn yr economi ehangach drwy wariant gan aelwydydd yng Nghymru.

## Y rhyngweithio presennol a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol â sectorau eraill

894. Mae effeithiau'r sector carthffosiaeth a rheoli dŵr gwastraff ar ansawdd dŵr lleol, sydd wedi'u disgrifio uchod, yn gallu creu goblygiadau sylweddol i sectorau eraill. Mae'r amgylchedd naturiol, pysgodfeydd a busnesau dyframaethu yn dibynnu ar ddŵr sydd o ansawdd cyson uchel. Mae effeithiau'r sector hwn ar ansawdd dŵr lleol (gweler yr adran ar LWEL) yn gallu creu goblygiadau i sectorau eraill fel twristiaeth, hamdden, pysgodfeydd, a dyframaethu. Os bydd gollyngiadau'n cael eu trin yn annigonol neu'n digwydd yn ddamweiniol:

- bydd sylweddau gwenwynig a phathogenau mewn dŵr a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau hamdden cyswllt, fel nofio a chanwio, yn gallu peri risgiau i iechyd defnyddwyr y môr;
- mae solidau carthion yn annymunol o safbwynt esthetig a gallant beri i gyrchfannau fod yn anatyniadol i ymwelwyr, yn yr un modd ag algâu sy'n gysylltiedig â gorfaethu; a/neu
- mae halogi pysgod cregyn (gan algâu, bacteria neu feirysau) yn eu gwneud yn anniogel i'w bwyta.



DRAFT

895. Mae seilwaith sy'n gysylltiedig â'r sector hwn (ee piblinellau) yn gallu effeithio ar amddiffynfeydd arfordirol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd, hamdden ac amwynder.

### Rhyngweithio ag ecosystemau

896. Cymhathu dŵr gwastraff yw un o'r gwasanaethau pwysicaf a ddarperir gan yr amgylchedd morol. Fodd bynnag, mae terfyn ar allu ein moroedd i wasgaru gwastraff ac os bydd y gallu hwn yn cael ei orymestyn bydd hynny'n effeithio ar gydnerthedd ecosystemau. Bydd y gallu hwn yn amrywio yn ôl nodweddion pob safle ac yn ôl math a nifer y gollyngiadau neu weithgareddau neu'r adnoddau a mathau o ddefnydd yr effeithir arnynt ac mae prosesau ffisegol fel gwanedu, gwasgaru a gwaddodi yn dylanwadu ar hyn. Gwanedu yw un o'r prif brosesau ar gyfer lleihau crynodiadau o sylweddau oddi wrth y pwynt gollwng. Mae ffactorau ffisegol yn dylanwadu ar allu dyfroedd i wanedu elifion sy'n llifo iddynt a bydd y gallu hwn yn llai mewn ardaloedd lle nad oes llawer o gymysgu neu lle mae'r amser ymsefydlu yn hirach.

897. O ganlyniad i weithgarwch pobl, gall dŵr gwastraff gael ei halogi gan lawer o wahanol fathau o gydrannau niweidiol o nifer o ffynonellau gwahanol sy'n gallu effeithio ar gydnerthedd ecosystemau.  Mae carthion sydd heb eu trin neu sydd wedi'u trin yn annigonol neu elifion eraill yn gallu effeithio ar weithrediadau ecosystemau drwy wenwyno, dihysbyddu ocsigen neu achosi ewtroffigedd (gorfaethu) yn y dyfroedd y maent yn llifo iddynt. Yn ogystal â hyn, gellir cael sbwriel carthion a solidau carthion eraill mewn elifion sy'n gallu effeithio ar yr amgylchedd, er enghraifft, drwy orchuddio ffisegol, gorfaethu neu halogi (ychwanegu pathogenau yn cynnwys bacteria a feirysau). Gall llygryddion fod â nodweddion biogronnol, parhaus a synergeddol a fydd yn effeithio ar iechyd a gweithrediadau ecosystemau, cynhyrchu bwyd, ac iechyd a llesiant pobl.

898. Mae gollyngiadau o ddŵr gwastraff yn cael eu rheoleiddio'n gaeth. Mae gollyngiadau sydd â chrynodiadau uwch na'r terfynau mewn rheoliadau yn gallu creu goblygiadau pellgyrhaeddol i ecosystemau morol a'r gwasanaethau ecosystem rydym yn dibynnu arnynt am ein llesiant a'n cynhyrchiant economaidd. Mae'r gallu i barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn galw am reoli dŵr ym mhob rhan o'r dalgylch drwy ddull cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn cefnogi'r dull hwn o weithredu ac yn helpu i sicrhau bod rheolaeth ar ddŵr gwastraff yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol sy'n cynnal ein llesiant gan gadw cydnerthedd ecosystemau morol.

### Y dyfodol

899. Mae'n bosibl y bydd y galw am reoli dŵr gwastraff a'r heriau sy'n codi o hynny yn cynyddu yn y dyfodol o ganlyniad i'r canlynol:

- twf mewn poblogaeth yn rhoi pwysau ar y rhwydwaith carthffosydd a dulliau o drin dŵr gwastraff ar gyfer ei waredu;

DRAFT

- cynnydd mewn twristiaeth a hamdden yn creu mwy o alw tymhorol ar y rhwydwaith carthffosydd a dulliau o drin a gwaredu dŵr gwastraff;
- ymlediad trefol yn cynyddu'r gyfran o'r dalgylch sy'n anhydraidd gan arwain at fwy o lifau mawr o ddŵr ffo;
- y perygl o fwy o lygredd gwasgaredig mewn ardaloedd trefol a gwledig o ddalfeydd ehangach;
- effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

900. Disgwylir y bydd cymhellion mewn deddfwriaeth yn parhau i ddatblygu (fel y maent wedi gwneud dros y degawdau diwethaf) er mwyn atal dirywiad pellach a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol a lleihau'r perygl i iechyd dynol (ee drwy wella ansawdd dyfroedd ymdrochi neu ddyfroedd cynaeafu pysgod dwygragennog). Mae'r diwydiant a'r rheoleiddiwr yn adolygu rhaglenni gwaith yn gyson er mwyn datblygu a rheoli asedau dŵr gwastraff (ar ffurf Cynlluniau Rheoli Asedau) er mwyn cyflawni hyn.

901. Gellir ystyried defnyddio systemau dyframaethu amldroffig integredig yn y dyfodol fel modd i reoli lefelau maethynnau yn nyfroedd y glannau. Yn y systemau hyn, defnyddir llifau maethynnau cyfun i feithrin nifer o organeddau ar wahanol lefelau troffig, gan sicrhau'r cynhyrchiant mwyaf posibl o'r maethynnau sydd ar gael.

## Y newid yn yr hinsawdd

902. Mae'r prif effeithiau o'r newid yn yr hinsawdd yn gysylltiedig â'r perygl o dywydd mwy eithafol, yn cynnwys mynychder stormydd a sychder. Bydd stormydd mwy aml a / neu ddwys yn achosi llifau mwy o ddŵr ffo i systemau carthffosydd dros gyfnodau byrrach. Gellir cael gorlifoedd amlach o ganlyniad i stormydd oherwydd hyn [gweler **SOC_06**]. Mae risgiau eraill yn cynnwys:

- tymereddau uwch a all effeithio ar farwoldeb pathogenau a hybu twf algâu ac ewtroffigedd;
- gall cynnydd yn lefel y môr arwain at effeithiau niweidiol ar seilwaith dŵr ar yr arfordir, ee cloi'r llanw, ymwthiad halwynog a'r angen am bwmpio ychwanegol. Mae llifogydd arfordirol yn gallu bygwth gweithfeydd trin dŵr gwastraff mewn ardaloedd isel ar yr arfordir;
- byddai erydu arfordirol, oherwydd y newid yn yr hinsawdd, yn gallu tanseilio neu gladdu gollyngfeydd a pheryglu asedau arfordirol eraill drwy erydu'r traethlin. Felly mae'n bosibl y bydd angen amddiffynfeydd môr i ddiogelu seilwaith presennol ar yr arfordir.

903. Mae gwaith peirianyddol a chynlluniau rheoli eraill (ee cynlluniau draenio trefol cynaliadwy) wedi'u bwriadu i ddarparu'n well ar gyfer dŵr stormydd ac i wasgaru'r llifau mwyaf.

## Anghenion allweddol am dystiolaeth

904. Bydd yn bwysig parhau i samplu organeddau dangosol penodol mewn carthion a modelu parthau perthnasol o gwmpas y morlin er mwyn darparu data dibynadwy gan fonitro'r effeithiau o ollwng dŵr gwastraff a ffynonellau llygredd gwasgaredig ar ansawdd dŵr ar yr arfordir. Hefyd:

- monitro dyfroedd ymdrochi ac ardaloedd eraill ar yr arfordir yn rheolaidd gan CNC;



DRAFT

- rhaglen ymchwilio Dŵr Cymru sy'n samplu organeddau dangosol penodol mewn carthion ac yn modelu parthau perthnasol o gwmpas y morlin er mwyn darparu data dibynadwy gan ddangos pa effaith, os oes un, y mae gollyngiadau Dŵr Cymru a ffynonellau llygredd gwasgaredig yn ei chael ar ansawdd dŵr yr arfordir;
- deall effaith sbwriel (yn cynnwys plastigion micro) o bob ffynhonnell a sut i leihau mewnbynnau ohono;
- ymchwil i ffyrdd o reoli halogion eraill, yn cynnwys cyfansoddion cemegol newydd a'u hymddygiad yn yr amgylchedd morol.

## Llywodraethu

905. Mae rheoli a rheoleiddio trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff yn fater a ddatganolwyd yn rhanbarth y glannau yn ardal y cynllun.

906. Mae'r prif awdurdodau penderfynu a chynghori yn cynnwys: CNC, Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW), yr Awdurdod Lleol (cynllunio), Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ac OFWAT.

907. Mae'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith dŵr gwastraff yng Nghymru o dan berchenogaeth a rheolaeth Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW). Mae ei ardal darparu carthffosydd yn cynnwys y cyfan o forlin Cymru. CNC yw rheoleiddiwr amgylcheddol y diwydiant dŵr yng Nghymru ac mae'n gorfodi rheoliadau amgylcheddol ac yn pennu lle mae angen gwelliannau i gwrdd â gofynion penodol ar gyfer ansawdd dŵr a chyrraedd nodau tymor hir ar gyfer ansawdd dŵr. Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn gyfrifol am reoleiddio economaidd ac mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI) yn gyfrifol am reoleiddio ansawdd dŵr yfed.

908. Mae carthion domestig a gwastraff masnachol yn cael eu trin mewn gweithfeydd cyhoeddus neu breifat ac mae hyn yn ddarostyngedig i gyfundrefn ganiatáu o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 a weinyddir gan CNC cyn eu gollwng i'r system garthffosydd.

909. Mae'r dogfennau strategaeth perthnasol yn cynnwys:
- Y Strategaeth Ddŵr i Gymru sy'n darparu canllawiau cyffredinol ar faterion sy'n ymwneud â dŵr
- Dŵr Cymru – *Strategaeth Rheoli Dŵr Wyneb* sy'n ymdrin â'r problemau sy'n gysylltiedig â llifau cynyddol o ddŵr wyneb
- Dogfennau canllaw Dŵr Cymru i ddatblygwyr, gweler[73]

910. Mae'n ofynnol o dan Polisi Cynllunio Cymru[74] na fydd datblygiadau newydd yn cael effaith niweidiol ar gyflenwadau dŵr, ansawdd dŵr neu garthffosydd ac felly mae'n ystyried effeithiau dichonol ar draws ffiniau arfordirol. Mewn ardaloedd lle mae rhwydwaith carthffosydd, bydd yn ofynnol bod datblygiadau a gynigir yn cael eu cysylltu â'r brif garthffos, a bydd angen i ddatblygwyr ddangos i awdurdodau

[73] http://www.dwrcymru.com/en/Developer-Services.aspx.

[74] http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy



DRAFT

cynllunio lleol fod modd cysylltu safle'r cais â'r brif garthffos agosaf. Ni fydd cynnig ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys cynllun draenio sydd heb ei gysylltu â'r brif garthffos yn cael ei ystyried yn dderbyniol oni bai ei bod yn anymarferol ei gysylltu â'r brif garthffos.

911. Mae'n bosibl y bydd gollyngiadau i amgylchedd morol y glannau yn cael eu gwasgaru'n eang, yn ôl eu maint, eu cynnwys, eu hymddygiad a'u cyfradd diraddio. Yn yr un modd, mae trwyddedau tynnu dŵr yn gallu cael effaith ar gryn bellter o'r pwynt tynnu cychwynnol. Wrth roi trwyddedau perthnasol, bydd penderfynwyr yn ystyried natur y cwrs dŵr a'r amgylchedd derbyn gan gynnwys rhai sy'n croesi ffiniau gweinyddol a bydd yn cydgysylltu ag awdurdodau cyhoeddus eraill i sicrhau na fydd goblygiadau trawsffiniol niweidiol.

## Amcan y sector

| | |
|---|---|
| Diogelu'r gallu i drin a gwaredu dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff yn ddiogel ac effeithiol. | |

## Polisi'r sector trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff a chanllawiau ar weithredu

912. Mae polisi'r sector trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff yn gymwys i ranbarth y glannau yn ardal y cynllun yn unig.

913. Mae'r DPM yn datgan bod y DU yn ceisio cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys iechyd a llesiant y gymuned a diogelu'r amgylchedd, drwy gynnal a datblygu polisi a system rheoleiddio sy'n darparu dulliau o reoli a thrin dŵr wyneb a dŵr gwastraff sy'n fodern ac o ansawdd da.

914. Bydd systemau trin dŵr yn cael eu datblygu'n bennaf er mwyn ymateb i anghenion rheoleiddio (ee newidiadau mewn safonau ansawdd dŵr, ystyriaethau o ran iechyd cyhoeddus), newidiadau yn niferoedd neu ddosbarthiad pobl, neu lifau cynyddol yn y rhwydwaith (ee oherwydd cynnydd mewn dŵr wyneb ffo, neu gynnwys gollyngiadau, neu gyfansoddion cemegol newydd). Mae rhan helaeth o'r seilwaith wedi'i gosod yn oes Victoria, yn enwedig mewn ardaloedd trefol.

915. Mae bron y cyfan o'r sbardunau hyn yn codi mewn ymateb i bwysau ar dir ac mae'r rhan fwyaf o seilwaith y sector trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff hefyd ar dir. Fel arfer, bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â'r sector trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff yn cael eu gwneud drwy gynllunio ar dir. Er hynny, mae goblygiadau clir yn y dull o reoli'r sector i'r amgylchedd morol a defnyddwyr y môr, ac mae prosesau a gweithgareddau morol yn gallu effeithio ar ollyngfeydd dŵr gwastraff. Felly mae'n bwysig bod cynllunwyr tir a môr yn cydweithio'n agos i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar y sector trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff. Deddfwriaeth genedlaethol a / neu Ewropeaidd i ddiogelu'r amgylchedd naturiol neu iechyd dynol yw'r prif sbardunau i ddatblygu seilwaith trin dŵr gwastraff. Bydd lleoliad a dyluniad y seilwaith hwn yn adlewyrchu gallu'r amgylchedd i wasgaru neu wanedu, argaeledd tir addas a

DRAFT

chanlyniadau o’r system cynllunio ar dir. I’r graddau hynny, mae’r opsiynau o ran cynllunio morol yn gyfyngedig, gan fod angen cydnabod nodweddion y sector trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff a diogelu ei allu i weithredu’n effeithiol drwy ystyried sectorau eraill. O dan yr amgylchiadau hyn, anodd yw rhag-weld ym mha ardaloedd y ceir datblygu yn y dyfodol a rhaid cynllunio ar gyfer y sector mewn ffordd ymatebol gan mwyaf.

916. **Mae’r [Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau] yn gymwys.**

917. Dylid ystyried y polisïau ar sectorau yn y cynllun hwn ochr yn ochr â’r polisïau trawsbynciol cyffredinol sydd yn y cynllun hwn, nodau llesiant Cymru ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn bwysig bod y broses ymgeisio am awdurdodiad yn cymhwyso’r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy’n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau eraill lle maent wedi’u pennu). Dylid darparu tystiolaeth sy’n ymwneud â pholisïau perthnasol i hwyluso penderfyniadau. Mae’r polisïau yn y cynllun hwn yn gosod canllawiau ar gyfer cynigion a phenderfyniadau (ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill); nid ydynt yn dileu’r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol.

918. **Wrth baratoi cynigion sy’n gysylltiedig â thrin a gwaredu dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff, dylai datblygwyr gymhwyso’r polisïau diogelu perthnasol ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn.**

## Polisi diogelu

919. Ym mhob cynnig (yn cynnwys cynigion newydd gan y sector trin a gwaredu dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff) a all effeithio ar weithgareddau presennol neu arfaethedig ar gyfer trin a gwaredu dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff neu rai dichonol yn y dyfodol, dylid cymhwyso’r polisïau canlynol ar gyfer diogelu gweithgareddau trin a gwaredu dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff.

**SWW_01: Trin a gwaredu dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff (diogelu)**

Ni ddylid awdurdodi cynigion a all effeithio ar seilwaith presennol ac arfaethedig ar gyfer rheoli a thrin dŵr gwastraff lle rhoddwyd neu lle gwnaed cais ffurfiol am ganiatâd neu awdurdodiad neu les oni bai fod modd dangos yn foddhaol eu bod yn cydweddu â’r gweithgarwch sy’n bod eisoes, sydd wedi’i awdurdodi neu ei gynnig neu fod amgylchiadau eithriadol. Dylid sicrhau eu bod yn cydweddu, yn nhrefn blaenoriaeth, drwy:

a) osgoi effeithiau niweidiol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir eu cydweddu’n ddigonol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.

### Canllawiau ar weithredu polisi diogelu

920. Mae'r polisi diogelu hwn yn helpu i reoli'r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol ac arfaethedig y sector trin a gwaredu dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff.

921. Mae dulliau effeithiol o reoli dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff yn dod â buddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y dylid eu diogelu drwy amddiffyn y sector rhag effeithiau niweidiol oddi wrth ddefnyddwyr eraill yr amgylchedd morol. Nod polisi **SWW_01** yw diogelu systemau presennol ac arfaethedig ar gyfer rheoli dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff. Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau arfaethedig wedi'u nodi mewn ceisiadau cynllunio i'r awdurdod lleol, yng nghynlluniau DCWW neu mewn Cynlluniau Rheoli Asedau y cytunwyd arnynt â CNC, Llywodraeth ac OFWAT.

922. Mae capasiti yn seilwaith y presennol a'r dyfodol ar gyfer cyfleusterau cyflenwi dŵr a thrin dŵr gwastraff yn elfen mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r buddsoddi gan DCWW mewn seilwaith dŵr a charthffosiaeth yn cael ei seilio ar Gynlluniau Datblygu Lleol a'i reoli drwy Gynlluniau Rheoli Asedau treigl pum mlynedd sy'n ceisio sicrhau bod gwaith priodol ar raddfa fawr ar seilwaith dŵr a charthffosiaeth yn cael ei gyflawni i ddarparu capasiti ar gyfer twf.

923. Mae'r polisi yn cydnabod y pwysigrwydd o gael seilwaith trin dŵr gwastraff a'r gwaith a'r buddsoddi sydd eu hangen i ddatblygu safleoedd priodol. Mae'n bosibl y bydd yr opsiynau ar gyfer lleoli yn gyfyngedig ac y bydd angen dilyn proses ragarweiniol hir rhwng pennu'r opsiynau a chyflwyno cais am ganiatâd ar gyfer tir er mwyn gallu mynd ymlaen i adeiladu, trwyddedu a gweithredu safleoedd. Bydd angen cyflwyno ceisiadau am drwydded forol ochr yn ochr â cheisiadau am ganiatâd ar gyfer tir.

924. Mewn cynigion newydd, dylid ystyried eu heffaith ddichonol ar seilwaith presennol ac arfaethedig ar gyfer rheoli a thrin dŵr gwastraff. Effeithiau niweidiol a all godi o ganlyniad i gynigion newydd yw newid yn y perygl o orlifo yn ystod stormydd; yn y mynediad ar gyfer cynnal seilwaith a/neu yn y perygl o lifogydd mewn gweithfeydd ar yr arfordir. Bydd newidiadau o'r fath yn gallu peri bod systemau trin yn llai cost-effeithiol a byddant yn gallu arwain at gynnydd mewn prisiau neu amrywiadau yn y ffioedd dŵr a godir ar gwsmeriaid.

925. Enghreifftiau eraill o effeithiau dichonol yw:
- mae datblygiadau ar y morlin, ee marinâu a gorsafoedd pŵer, yn gallu ychwanegu at y llif drwy rwydweithiau neu at y gwaith trin sydd ei angen mewn gweithfeydd trin presennol;
- mae tynnu dŵr wyneb o'r gollyngiadau o safleoedd a chynlluniau cydbwyso lleol eraill yn gallu lliniaru'r effeithiau hyn yn sylweddol drwy ryddhau capasiti yn y rhwydwaith / proses trin;
- mae gwastraff o brosesu pysgod a physgod cregyn yn gallu effeithio ar yr amgylchedd morol, neu gael effaith ar y broses trin dŵr os caiff gwastraff ei ollwng i garthffosydd. Gellir lleihau'r effaith hon drwy drin gwastraff yn y

DRAFT

weithfa brosesu, drwy ailgylchu a lleihau gwastraff a thrwy fabwysiadu'r arferion gorau;

- Mae rhai gweithgareddau morol, ee gollyngiadau mawr o ddiwydiannau eraill, môr-lynnoedd / cronfeydd llanw, datblygu porthladdoedd a harbyrau, adeiladu amddiffynfeydd môr a gwaith carthu, yn gallu rhwystro, difrodi neu effeithio ar weithrediad gollyngfeydd a newid cylchrediad a gwasgariad morol gan ostwng ansawdd dŵr. Gellir lleihau'r effeithiau hyn yn rhannol drwy ddylunio da ond yn aml bydd angen gwaith trin ychwanegol neu newid lleoliad gollyngfeydd er mwyn cynnal ansawdd presennol dŵr y môr; a / neu
- bydd gweithgareddau morol eraill hefyd yn gallu galw am wella cyfleusterau trin dŵr er mwyn cwrdd â gofynion lleol am ansawdd dŵr gwell, ee dynodi ardaloedd ar gyfer ymdrochi neu gasglu pysgod cregyn ar sail fasnachol neu ardaloedd gwarchodedig eraill (ee Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu Ardaloedd Gwarchod Arbennig).

926. Un ffordd bosibl o leihau effeithiau yw adfer a chynnal y capasiti a gollwyd yn y system garthffosiaeth y mae'r cynnig yn effeithio arni. Un ffordd bosibl o liniaru effeithiau yw talu'r costau ychwanegol roedd y cwmni dŵr a chwsmeriaid dŵr wedi'u hysgwyddo tra oedd yr effeithiau'n para. Un enghraifft o amgylchiadau eithriadol yw amgylchiadau lle mae'r budd economaidd neu gymdeithasol a geir o'r gweithgarwch arfaethedig yn fwy o lawer na'r hyn a gollir. Os gwneir cais am ganiatâd ar sail amgylchiadau eithriadol, dylid cyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol wedi'i seilio ar dystiolaeth dros fwrw ymlaen, gan gynnwys cynllun ar gyfer parhau â gweithrediadau sy'n gysylltiedig â'r seilwaith hwnnw yn y dyfodol, neu ar gyfer trefniadau eraill os yw'r gweithrediadau i gael eu terfynu.

927. Gan nad yw arian yn cael ei ddarparu i Dŵr Cymru fel arfer i gyflawni'r gweithgareddau eraill hyn, byddai angen darparu ffrwd gyllido briodol ar gyfer unrhyw seilwaith neu waith trin ychwanegol sydd eu hangen.

928. Os cyflwynir achos dros fwrw ymlaen yn y lleoliad hwnnw, gellir cynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â'r canlynol hefyd:

- na ddisgwylir cynigion i ymgymryd â gweithgarwch trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff, er enghraifft, bod ceisiadau blaenorol am drwydded wedi'u gwrthod ac nad yw'n debygol y bydd datblygu yn y lleoliad;
- na fyddai cais am weithgarwch trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff yn debygol o lwyddo beth bynnag;
- na fyddai'r datblygiad yn peri rhwystr difrifol; a/neu,
- wrth gyflwyno'r ddadl bod y datblygiad yn bwysicach na diogelu'r gallu i ddatblygu gweithgarwch trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff.

929. Wrth fantoli unrhyw effeithiau niweidiol dichonol yn erbyn y buddion o gynnig o'r fath, dylai penderfynwyr ystyried:

- pwysigrwydd strategol y cynnig ee ei fod yn ymwneud â'r amcanion mewn Datganiad Polisi Cenedlaethol sy'n berthnasol, y DPM neu ei fod yn ategu datblygiad cysylltiedig mewn sector sydd wedi'i ddynodi'n bwysig iawn yn y Cynllun hwn;
- y graddau y byddai'r cynnig, o'i dderbyn, yn helpu'r sector hwnnw i gwrdd â'i amcanion sector yn y cynllun hwn;

DRAFT


- y graddau y byddai effaith niweidiol ar weithgarwch y sector trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff;
- yr effaith net ar yr amgylchedd neu ar ddefnyddwyr eraill.

930. Mae'n debygol y bydd nifer y ceisiadau ar sail amgylchiadau eithriadol yn fach oherwydd natur y datblygu ar seilwaith trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff sydd wedi'i disgrifio. Byddai'n fwy arferol bod cynigydd datblygiad graddfa fawr yn dod i gytundeb â DCWW / CNC ynghylch gweithrediadau yn y dyfodol a lleoliad unrhyw weithrediadau eraill. Byddai dadleuon dros ystyried amgylchiadau eithriadol yn cael eu cyflwyno i Wasanaeth Caniatáu CNC i'w hystyried ganddo cyn rhoi neu wrthod caniatâd datblygu.

931. Wrth roi trwydded forol ar gyfer datblygiad a all effeithio ar seilwaith trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff, rhaid i'r penderfynydd ystyried y graddau y bydd yr effeithiau'n cael eu lleihau neu eu lliniaru'n effeithiol. Gellir bwrw ymlaen â chynigion nad ydynt yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar seilwaith trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff.

DRAFT

## Ffigur 23: Map polisi – Dŵr wyneb a dŵr gwastraff



## Twristiaeth a hamdden

### Cyflwyniad

932. Mae arfordir Cymru yn hanfodol i sector twristiaeth a hamdden Cymru ac mae'n cynnig rhai o'r cyfleoedd gorau yn y byd ar gyfer twristiaeth a hamdden, i bobl sy'n mwynhau eu hamgylchedd lleol yn ogystal â'r rheini sy'n ymweld am ddiwrnod neu'n aros am gyfnod hirach. Mae gweithgareddau twristiaeth a hamdden yn elwa o'r amgylchedd naturiol amrywiol o ansawdd uchel a nodweddion diwylliannol unigryw arfordir Cymru. Mae 70% o'r morlin wedi'i ddynodi ar sail ei ansawdd amgylcheddol ac, yn y blynyddoedd diwethaf, mae rhai gweithgareddau fel gwylio bywyd gwyllt ac ymweld â thraethau wedi cynyddu'n sylweddol[75], a hynny'n pwysleisio'r pwysigrwydd o gael amgylchedd morol iach a chydnerth i hybu twf ychwanegol yn y sector hwn.

933. Ymysg y prif atyniadau y mae traethau Cymru, ei bywyd gwyllt, tirweddau arfordirol a morweddau, trefi a phentrefi â chymeriad neilltuol a diwylliant a threftadaeth unigryw[76], [77]. Maent yn cynnwys Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Llwybr Arfordir Cymru, sy'n 870 o filltiroedd o hyd ac yn unigryw drwy'r byd am ei fod yn dilyn morlin y wlad ar ei hyd. Mae llawer o'r gweithgarwch twristiaeth a hamdden yn ardal y cynllun yn digwydd ar y glannau neu'n agos iddynt, o fewn 3 mf i'r arfordir gan amlaf.

934. Yn y cynllun hwn, mae hamdden yn golygu gweithgareddau hamdden yn ystod amser rhydd yn yr amgylchedd lleol yn bennaf. Mae twristiaeth yn golygu gweithgareddau, gwasanaethau a seilwaith sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr a phobl ar wyliau. Gall gweithgareddau twristiaeth fod yn rhai sy'n ymwneud â hamdden hefyd. Mae twristiaeth yn ddiwydiant cymhleth sy'n cynnwys nifer o fusnesau gwahanol gan gynnwys lletygarwch (bwyd, diod a llety); trafnidiaeth (rheilffyrdd, ffyrdd, rhwydweithiau dŵr ac awyr); gwasanaethau teithio; gwasanaethau diwylliannol (ee amgueddfeydd, atyniadau); chwaraeon a gweithgareddau hamdden; a gwasanaethau manwerthu.

935. Mae gweithgareddau hamdden yn amrywio o rai ffurfiol i rai anffurfiol. Mae gweithgareddau anffurfiol yn hygyrch iawn ac nid ydynt yn galw am ddim neu nemor ddim profiad blaenorol, ee cerdded a chael picnic. Bydd gweithgareddau hamdden ffurfiol, fel nofio ag offer anadlu tanddwr neu hwylio, yn galw am ddefnyddio cyfarpar arbenigol a/neu gyfleusterau sydd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol[78], sydd weithiau ar gael drwy glybiau lleol. Rhwng y categorïau hyn ceir gweithgareddau fel genweirio môr hamdden, syrffio, a hwylio cychod bach sy'n bwysig o'u cymryd gyda'i gilydd ac yn dibynnu ar amgylchedd morol naturiol o ansawdd uchel.

---

[75] Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, CNC, 2015

[76] Croeso Cymru – Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2013

[77] Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, 2011

[78] (mae rhagor o wybodaeth yn RPA et al., 2013)



DRAFT

936. Mae twristiaeth a hamdden yn sectorau ar wahân ac mae rhai gwahaniaethau pendant yn y ffordd o ddeall, rheoli a chefnogi'r sectorau hyn. Er hynny, mae cryn orgyffwrdd rhyngddynt ac mae manteision clir mewn cysylltu'r agendâu ar eu cyfer, yn cynnwys sicrhau bod pobl leol yn gallu cael budd o gyfleusterau y mae ymwelwyr yn dod i'w mwynhau. Felly mae'r cynllun hwn yn ystyried y sectorau hyn gyda'i gilydd.

937. Mae twristiaeth yn bwysig i economi Cymru; bydd twristiaid yn gwario tua £14 miliwn y diwrnod tra byddant yng Nghymru, sef cyfanswm o tua £5.1 biliwn y flwyddyn. Yn 2015, roedd y nifer sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol ym maes twristiaeth yng Nghymru wedi codi i 132,400, sef 10% o weithlu Cymru, ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod twristiaeth yn cyfrannu 6% o'r Gwerth Ychwanegol Gros i economi Cymru. Mae twristiaeth yn hanfodol i economi nifer o'n hardaloedd arfordirol; yn 2013 amcangyfrifwyd bod twristiaeth ar y glannau yn werth £602 miliwn, a'i bod yn creu 3.6 miliwn o deithiau[79].

938. Mae ychydig llai na hanner y swyddi amser llawn sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd morol ac arfordirol yn rhai mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth[80]. Mae economi'r môr a'r glannau yng Ngogledd Cymru wedi'i seilio'n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, ar dwristiaeth. Yng Ngorllewin Cymru, mae mwy nag un rhan o dair o'r gyflogaeth uniongyrchol ar y môr a'r glannau yn ymwneud â thwristiaeth ac yn ne-ddwyrain Cymru mae mwy na hanner y swyddi a gynhelir yn uniongyrchol gan sector y môr a'r glannau yn gysylltiedig â thwristiaeth.

939. Mae sefydlu Llwybr Arfordir Cymru, yn ogystal â llwybrau beicio a marchogaeth gwledig, wedi bod o gymorth i gynnal a datblygu gweithgareddau twristiaeth presennol. Amcangyfrifwyd bod 43.447 miliwn o ymweliadau ag arfordir Cymru ar gyfer cerdded yn 2014[81]. Roedd y gwariant mewn cysylltiad â'r teithiau hyn oddeutu £31 miliwn ac roedd wedi creu 12,230 blwyddyn y person o gyflogaeth.

940. Mae cynlluniau gwobrwyo'r Faner Las a Resort Seaside yn gosod safonau ar gyfer traethau a ddefnyddir gan y cyhoedd gan gynnwys meini prawf sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr, diogelwch a chyfleusterau, yn ogystal â rheoli hamdden ar y tir a'r môr er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng gweithgareddau anghydweddol. Mae cyfran fawr o draethau trefi gwyliau wedi ennill y gwobrau hyn. Yn ogystal â hyn, ceir tri marina arfordirol Angor Aur yng Nghymru sy'n cyrraedd safonau uchaf y diwydiant ar sail meini prawf am ansawdd eu cyfleusterau a gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae cynlluniau tebyg ar waith ar gyfer marinâu[82].

[79] Great Britain Visitor Survey http://www.visitbritain.org/statistics-insights

[80] Valuing our Environment Partnership, 2006

[81] http://www.walescoastpath.gov.uk/media/1545/wcp-visitor-survey-2014-2015-final-report-for-publication.pdf

[82] http://www.which-marina.com/GoldAnchors.asp; http://www.which-marina.com/UK.asp?UK_ID=23&SAS=UK&SLS=2&ga1=One&ga2=Two&ga3=Three&ga4=Four&ga5=Five&MappingOption



DRAFT

941. O ganlyniad i ragor o weithio mewn partneriaeth, cafwyd buddsoddi sylweddol gan y sector cyhoeddus/preifat mewn seilwaith twristiaeth ar y glannau er mwyn gwella arlwy Cymru i ymwelwyr.

### Cyfraniad twristiaeth a hamdden i'r economi

Mae twristiaeth wedi bod yn sbardun pwysig i dwf yn economi Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Yn 2015, roedd diwydiant twristiaeth Cymru wedi cynhyrchu gwariant uniongyrchol o £5.1 biliwn gan ymwelwyr, y swm mwyaf erioed. Cafwyd cynnydd mawr hefyd yn nifer yr ymweliadau gan rai o'r DU a gwledydd tramor. Mae oddeutu 132,400 wedi'u cyflogi yn y sector twristiaeth, tua 10% o'r gyflogaeth yng Nghymru. Er 2006, mae'r nifer a gyflogir mewn twristiaeth wedi cynyddu 34%, y cynnydd absoliwt ail uchaf mewn cyflogaeth o'r holl sectorau sydd â blaenoriaeth. Twristiaeth yw'r ffynhonnell gyflogaeth fwyaf i rai 16-24 mlwydd oed ac mae ei chyrhaeddiad daearyddol o ran cyflogaeth yn gryf, sy'n dangos ei bod yn bwysig ym mhob rhan o Gymru. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r twf mewn cyflogaeth ym maes twristiaeth yng Nghymru wedi bod yn gryfach ar lefel rheolwyr a gweithwyr proffesiynol yn hytrach na swyddi lefel ganolig ac is.

## Y rhyngweithio presennol a rhyngweithio dichonol yn y dyfodol â sectorau eraill

942. Mae nifer o fathau o ddatblygu yn yr ardal forol yn gallu cynnal twf ychwanegol mewn cysylltiad â thwristiaeth a hamdden neu wella gweithgareddau sydd wedi'u sefydlu eisoes a hybu proffidioldeb drwy wella, ehangu ac amrywiaethu'r arlwy twristiaeth. Er enghraifft, gellir ffurfio cysylltiadau cadarnhaol rhwng twristiaeth a darparu bwyd môr yng Nghymru, neu rhwng genweirio môr hamdden ac iechyd stociau pysgod[83]. Gall cyfleoedd godi i seilio rhagor o weithgareddau cynaliadwy mewn twristiaeth arfordirol ar adnoddau morol, bywyd gwyllt a morweddau o arwyddocâd rhyngwladol yn nyfroedd Cymru. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gydleoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig a gweithgareddau hamdden penodol, os cânt eu rheoli'n ofalus.

943. Gellir cael effeithiau o weithgareddau morol ar dwristiaeth a hamdden sy'n uniongyrchol (ee adeiladu porthladd sy'n dod â mwy o ymwelwyr i'r ardal) neu'n anuniongyrchol (ee drwy effeithiau ar yr amgylchedd morol ac arfordirol). Gellir cael effeithiau niweidiol dichonol eang o weithgareddau ar dwristiaeth a hamdden drwy'r canlynol:
- peri bod safle yn llai diogel neu heb fod ar gael i'w ddefnyddio i'r un graddau;
- lleihau atyniad esthetig y dirwedd;
- colli bioamrywiaeth (yn cynnwys pysgod);
- ansawdd dŵr is;

[83] https://www.cefas.co.uk/cefas-data-hub/dois/sea-angling-2012-economic-value-and-social-benefits-of-angling/



DRAFT

944. Mewn astudiaeth ranbarthol, Wales Activity Mapping, wrth drafod meysydd lle'r oedd gwrthdaro, cafwyd yn aml fod hynny'n digwydd ar amser ac mewn gofod penodol a bod addysg a chynlluniau arfer gorau yn ddefnyddiol yn aml i reoli gwrthdaro.

945. Gellir cael tyndra rhwng twristiaeth a chymunedau lleol lle mae mewnlifiad mawr o ymwelwyr yn her i seilwaith neu ddiwylliant lleol. Yn aml, gellir delio â materion o'r fath drwy gynllunio da, ymgysylltu a rheoli.

946. Mae twristiaeth a hamdden yn dibynnu ar y gallu i gael mynediad diogel i'r amgylchedd morol ac arfordirol felly mae cysylltiad agos rhwng hynny a sectorau sy'n hyrwyddo hyn (neu'n ei gyfyngu). Mae gwrthrychau sefydlog ar y dŵr ac o dano ac ar wely'r môr yn gallu peri risg i gychod a llongau a chyfyngu llwybrau mordwyo ar gyfer hwylio cychod hamdden. Mae'n bosibl y bydd angen i awdurdodau cyhoeddus gyflwyno cynigion i gynnal mordwyo diogel, yn unol â'u dyletswyddau statudol.

## Rhyngweithio ag ecosystemau

947. Mae twristiaeth a hamdden hefyd yn dibynnu ar amgylchedd o ansawdd uchel sy'n cynnwys ecosystemau iach a chydnerth. Mae ansawdd amgylcheddol morlin Cymru wedi'i adlewyrchu yn nifer ac amrywiaeth y dynodiadau a safleoedd gwarchodedig ar hyd morlin Cymru. Mae'n bwysig sicrhau bod y nodweddion hyn yn cael eu cadw a'u gwella wrth ystyried yr effaith o ddatblygiadau a gweithgareddau.

948. Er bod nifer mawr o weithgareddau twristiaeth a hamdden yn gymharol ddieffaith ac o'u hanfod yn ffordd fwy cynaliadwy o ddefnyddio adnoddau naturiol na gweithgareddau echdynnu, os bydd y sector hwn yn parhau i dyfu o ran ei raddfa (dwysedd defnydd) a'i ddosbarthiad, bydd hynny'n rhoi mwy o bwysau ar adnoddau naturiol ac yn effeithio ar gydnerthedd yr ecosystemau y mae'r sector yn dibynnu arnynt.

949. Gellir cael effeithiau ar yr amgylchedd o dwristiaeth a hamdden a byddant yn amrywio o ran eu natur a'u maint. Mae enghreifftiau o arferion da ar gael mewn perthynas â chydfodoli a rheoli effeithiau o angori ac angorfeydd a dylid cymhwyso'r rhain lle bo'n briodol i helpu i reoli gweithgareddau. Mae Cymru wedi arwain y ffordd ar ymgysylltu â'r sectorau twristiaeth a hamdden wrth reoli a lliniaru effeithiau dichonol. Ymhlith yr enghreifftiau perthnasol mae prosiectau fel Cod Morol a Siarter Awyr Agored Sir Benfro sy'n bodoli ers mwy na 10 mlynedd, Eryri Bywiol, Darparwyr Gweithgareddau De Cymru a Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru.

950. Lle bo'n briodol, bydd awdurdodau penderfynu yn cefnogi cynigion sy'n cydymffurfio ag arferion da cydnabyddedig mewn perthynas â lleihau aflonyddu ar fywyd gwyllt a chynefinoedd morol, rhywogaethau estron goresgynnol a rheoli twristiaeth a hamdden yn gynaliadwy.

DRAFT

## Y dyfodol

951. Nodwyd yn y cynllun hwn fod potensial sylweddol am dwf cynaliadwy yn y sector twristiaeth a hamdden yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Mae amrywiaethu mewn twristiaeth wedi'i nodi'n faes pwysig ar gyfer twf. Fodd bynnag, yn y dyfodol ceir newidiadau na ellir eu rhag-weld mewn patrymau tywydd wrth ymateb i newid hinsawdd a fydd yn creu goblygiadau i'r sector, ond credir mai ar ôl cyfnod y cynllun hwn y bydd y rhain yn codi gan mwyaf.

952. Mae llygredd gwasgaredig yn parhau i effeithio ar nifer o draethau yng Nghymru. Bydd y twf parhaus mewn twristiaeth arfordirol yn cynyddu'r pwysau ar yr amgylchedd ac ar gyfleusterau ar y glannau. Bydd yn bwysig deall y graddau y bydd cymunedau'r arfordir ac adnoddau naturiol morol ac arfordirol yn gallu cynnal twf pellach mewn twristiaeth a hamdden er mwyn sicrhau bod y twf yn gynaliadwy. Bydd hefyd yn bwysig rheoli'r effeithiau dichonol ar y sectorau twristiaeth a hamdden o dwf mewn sectorau eraill.

## Y newid yn yr hinsawdd

953. Bydd y newid yn yr hinsawdd yn gallu arwain at effeithiau cadarnhaol a negyddol ar dwristiaeth a hamdden, er nad yw'n glir a welir y rhain yn ystod cyfnod y cynllun hwn a beth fydd eu maint.

954. Mae'r effeithiau niweidiol yn cynnwys:
- Colli/effeithiau ar seilwaith o ganlyniad i newidiadau yn lefel y môr, stormydd, erydu[84] a llifogydd;
- Difrodi/effeithiau ar seilwaith morol ategol, ee marinâu, a diogelwch dŵr;
- Gostwng ansawdd dŵr ymdrochi o ganlyniad i lif mwy o ddŵr ffo oddi ar dir, gollyngiadau mwy o orlifoedd carthffosiaeth cyfunol a'r posibilrwydd o fod yn fwy agored i effaith bacteria niweidiol (MCCIP, 2013);
- Gostwng ansawdd tirweddau arfordirol drwy wasgfa arfordirol;
- Y posibilrwydd o ostwng ansawdd/lleihau argaeledd bywyd gwyllt at ddibenion hamdden penodol (ee gwylio bywyd gwyllt, genweirio hamdden).

955. Mae'r effeithiau cadarnhaol yn cynnwys:
- Y posibilrwydd o ymestyn y tymor ymwelwyr o ganlyniad i hafau hirach a chynhesach (er bod senario arall sy'n llai atyniadol i ymwelwyr, sef hinsawdd wlypach neu fwy ansefydlog). Mae newidiadau o'r fath yn debygol o ddigwydd ar ôl cyfnod y cynllun hwn.
- Bydd mwy o gyfleoedd i ddarparu cyflogaeth a buddsoddi mewn seilwaith o dan y senario cadarnhaol uchod.

## Anghenion allweddol am dystiolaeth

956. Mae Croeso Cymru yn cynnal rhaglen ymchwil sy'n gysylltiedig â thwristiaeth drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, nid oes data penodol am weithgareddau

[84] (ee EUROSION 2004)



DRAFT

hamdden morol. Er hynny, mae prosiect Wales Activity Mapping[85] wedi rhoi sylw rhanbarthol i dde-orllewin Cymru ac wedi mapio a phrisio nifer o weithgareddau hamdden morol. Cwblhawyd archwiliad o'r data presennol gan Land Use Consultants[86] ac argymhellwyd bod angen diweddaru a dilysu data ac ychwanegu data er mwyn cael darlun cywir o hamdden morol ac arfordirol ledled Cymru. Mae RYA wedi buddsoddi mewn gwaith i gasglu data o ansawdd da am weithgareddau cychod hamdden yn nyfroedd Cymru a fydd o gymorth wrth lunio cynigion ar gyfer datblygu a gwneud penderfyniadau.

957. Mae anghenion allweddol am dystiolaeth mewn perthynas â chynllunio morol yn cynnwys:
- data gofodol da ar gyfer gweithgareddau twristiaeth a hamdden;
- dosbarthiad a dwysedd gweithgareddau twristiaeth a hamdden ar yr arfordir a'r hyn sy'n debygol yn y dyfodol er mwyn pennu ardaloedd defnydd allweddol a chael dealltwriaeth o ddefnydd dichonol yn y dyfodol;
- canllawiau i sectorau eraill ar ddelio ag effeithiau dichonol ar weithgareddau twristiaeth a hamdden, sy'n trafod y gwahanol ystyriaethau sy'n berthnasol i dwristiaeth a hamdden, gan gwmpasu mynediad at seilwaith yn ogystal ag ansawdd yr amgylchedd naturiol (tirwedd/morwedd; bywyd gwyllt; ansawdd dŵr);
- tystiolaeth well am y gwerth economaidd a'r buddion cymdeithasol a geir o weithgareddau twristiaeth a hamdden.

## Llywodraethu

958. Mae cyfrifoldeb dros reoleiddio'r sector twristiaeth a hamdden wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru.

959. Mae'r awdurdodau penderfynu a chynghori perthnasol yn cynnwys: Llywodraeth Cymru (Croeso Cymru), Cynghrair Twristiaeth Cymru, Awdurdodau Lleol / Awdurdodau Parc Cenedlaethol, y sector preifat, Grwpiau Awdurdodau Perthnasol ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI), y Gymdeithas Hwylio Frenhinol (RYA), yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ffederasiwn Morol Prydain a chlybiau lleol.

960. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau twristiaeth a hamdden yn digwydd yn rhanbarthau'r glannau a'r arfordir ledled Cymru, ac mae nifer y gweithgareddau yn y môr mawr yn fach. Fel arfer, bydd y datblygiadau cysylltiedig ar raddfa fach ac yn cael eu rheoli'n lleol, gan awdurdodau cynllunio arfordirol yn aml, a phrin yw eu goblygiadau i ystyriaethau trawsffiniol rhwng awdurdodaethau gwledydd gwahanol. Er hynny, gellir cael rhai effeithiau arwyddocaol yn Aberoedd Dyfrdwy a Hafren a bydd angen i'r rhain gael eu hystyried ar y cyd gan yr awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng nghyd-destun yr aber cyfan, ar draws ffiniau gweinyddol

[85] http://www.walesactivitymapping.org.uk/

[86] www.landuse.co.uk/project/marine-and-coastal-recreation-audit-wales#.VcNWHvlVhBc



DRAFT

## Amcan y sector

| | |
|---|---|
| Cyfrannu at dwf cynaliadwy, gan helpu i gyrraedd y targed yn “Strategaeth Twristiaeth” Cymru ar gyfer cynyddu enillion o dwristiaeth 10% neu fwy erbyn 2020, drwy ddiogelu a hyrwyddo mynediad i’r arfordir a gwella ansawdd profiad yr ymwelydd gan ledaenu’r enw da sydd gan Gymru fel cyrchfan cynaliadwy o’r radd flaenaf ar gyfer twristiaeth a hamdden morol | |

## Polisi’r sector twristiaeth a hamdden a chanllawiau ar weithredu

961. Mae polisi’r sector twristiaeth a hamdden yn gymwys i ranbarth y glannau a’r rhanbarth môr mawr yn ardal y cynllun.

962. Mae’r DPM yn cydnabod bod twristiaeth a hamdden yn chwarae rhan bwysig yn yr economi genedlaethol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan bod twristiaeth yn hanfodol i ffyniant economaidd ac i greu swyddi mewn nifer o rannau o Gymru. Mae’n ffynhonnell bwysig a chynyddol ar gyfer cyflogaeth a buddsoddi, wedi’i seilio ar amrywiaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol y wlad. [87]

963. Yn y cynllun hwn, mae’r sector twristiaeth a hamdden wedi’i nodi’n faes lle mae potensial sylweddol am dwf felly mae’n cael ei ystyried yn flaenoriaeth strategol ar gyfer cynllunio morol. Fodd bynnag, derbynnir mai dim ond effaith fach a gaiff y cynllun hwn o ran cefnogi twf yn y sector twristiaeth a hamdden a bod cynllunio ar dir a mesurau eraill yn allweddol i gefnogi twf mewn gweithgareddau twristiaeth a hamdden ar yr arfordir sy’n elwa o ecosystemau morol cydnerth.

964. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dwf cynaliadwy yn y sector twristiaeth a hamdden sy’n manteisio i’r eithaf ar botensial yr arfordir a’r moroedd sydd wedi’i nodi yn y Strategaeth Partneriaeth ar gyfer Twf[88]. Y targed yw cynyddu enillion o dwristiaeth o leiaf 10% erbyn 2020 mewn ffordd gynaliadwy, gan gyfrannu fwyfwy at lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru. Mae Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru yn ailddatgan y pwyslais hwn ac yn ceisio cefnogi camau sy’n helpu i hyrwyddo mynediad diogel ac iechyd a’r buddion y mae ein moroedd a’n glannau yn eu darparu i gymunedau lleol ac i ymwelwyr.

DRAFT

[87] Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 11, 2014

[88] Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020

965. Ochr yn ochr â buddion economaidd, mae mwynhad o hamdden yn hanfodol i iechyd, datblygiad ac ansawdd bywyd pobl; mae'n adeiladu cymunedau ac yn lleihau costau gofal iechyd[89]. Rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y bobl sy'n ymarfer yn rheolaidd, yn cymryd rhan mewn chwaraeon ac yn mwynhau'r awyr agored; mae'r ardal forol yn chwarae rhan allweddol mewn hybu llesiant. Gan gydnabod bod chwaraeon yn trawsnewid bywydau pobl, ein cymunedau a'u llesiant, mae Chwaraeon Cymru wedi gosod targed i ddenu 75% o bobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon, i gau'r bwlch anghydraddoldeb mewn cyfranogi ac i ddatblygu llwybr chwaraeon i'n gwneud yn genedl o bencampwyr erbyn 2026. Wrth wneud penderfyniadau, mae'n bwysig ystyried yr effeithiau ehangach hyn ar gymdeithas yn ogystal â'r sbardunau economaidd amlwg ar gyfer tyfu twristiaeth a hamdden.

966. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Cyrchfan Twristiaeth[90] lleol sy'n amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu cyrchfannau twristiaeth ledled Cymru.

967. Yn aml, bydd twristiaeth yn gyfrwng i hybu gweithgareddau economaidd ac adfywio lleol ehangach. Mae gwariant gan ymwelwyr yn gallu helpu i gynnal gwasanaethau lleol, siopau ac amwynderau cymunedol na fyddent yn hyfyw fel arall gan wella ansawdd bywyd a chreu cyfleoedd mwy amrywiol ar gyfer pob sector yn y gymuned. Gall y diwydiant twristiaeth ddarparu swyddi lefel mynediad ac mae'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth i bobl economaidd anweithgar ac eraill sy'n ailddechrau gweithio, gyda chefnogaeth a hyfforddiant priodol. Mae mentrau yn y gymuned sy'n hybu twristiaeth hefyd yn gallu bod yn bwynt mynediad i bobl i'r gweithlu cyflogedig.

968. Mae twristiaeth gweithgareddau eisoes yn chwarae rhan bwysig drwy ddenu cyfran fawr o'r ymwelwyr i Gymru. Mae diddordeb cynyddol y cyhoedd mewn chwaraeon dŵr, fel genweirio môr hamdden, hwylio cychod, cystadlaethau rasio, syrffio a nofio tanddwr, yn creu potensial ac yn gallu helpu i ddelio â materion sy'n ymwneud â thymoroldeb.

969. Mae bwyd yn dylanwadu'n gynyddol ar benderfyniadau gan bobl i ymweld â Chymru. Yn Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth, disgrifir dull marchnata wedi'i seilio ar gynhyrchion, ac mae bwyd yn cael ei weld yn elfen hanfodol ym mhrofiad yr ymwelydd. Mae'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd a gyhoeddwyd yn 2014 yn targedu camau gweithredu allweddol i hybu ymwybyddiaeth a threfnu i wybodaeth fod ar gael yn rhwydd i ymwelwyr ac i helpu cynhyrchwyr bwyd a busnesau twristiaeth i gydweithio.

970. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau twristiaeth a hamdden yn digwydd ar y traethlin neu o fewn 3 milltir forol i'r arfordir. Felly mae integreiddio priodol rhwng cynllunio ar dir a môr yn allweddol i gefnogi cyfleusterau ar dir sy'n hanfodol ar gyfer hamdden morol, fel toiledau, meysydd parcio, pwyntiau mynediad, cysylltiadau

---

[89] www.pembrokeshirecoast.org.uk/?PID=526

[90] http://business.wales.gov.uk/dmwales/destination-management/wales-destination-management-plans



DRAFT

trafnidiaeth, cyfleusterau clybiau a gwasanaethau eraill. Mae'r cynllun hwn yn ceisio diogelu gweithgareddau sy'n bwysig ar gyfer twristiaeth a hamdden rhag effeithiau niweidiol arwyddocaol o sectorau eraill ac mae'n annog cyflwyno cynigion sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at dwf y sector.

971. **Mae'r [Canllawiau generig ar weithredu polisi ar sectorau] yn gymwys.**

972. Dylid ystyried y polisïau ar sectorau yn y cynllun hwn ochr yn ochr â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol sydd yn y cynllun hwn, nodau llesiant Cymru ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn bwysig bod y broses ymgeisio am awdurdodiad yn cymhwyso'r holl bolisïau ac ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys y polisïau diogelu sy'n gysylltiedig â sectorau eraill (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau eraill lle maent wedi'u pennu). Dylid darparu tystiolaeth sy'n ymwneud â pholisïau perthnasol i hwyluso penderfyniadau. Mae'r polisïau yn y cynllun hwn yn gosod canllawiau ar gyfer cynigion a phenderfyniadau (ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill); nid ydynt yn dileu'r angen am awdurdodi o dan gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol.

## Polisi cefnogi

**T&R_01: Twristiaeth a hamdden (cefnogi)**

Anogir cyflwyno cynigion sy'n dangos cyfraniad cadarnhaol at gyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden ac at gyflawni amcanion polisi (ar gyfer y sector) o gwmpas arfordir Cymru.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, drwy gydgysylltu â'r sector a phartïon cysylltiedig eraill, gydweithio er mwyn:

a) datblygu sylfaen dystiolaeth strategol i gael gwell dealltwriaeth o weithgareddau twristiaeth a hamdden presennol a dichonol, yn cynnwys ecodwristiaeth a gweithgareddau eraill isel eu heffaith;
b) cefnogi camau i ddatblygu a mireinio Ardaloedd Adnoddau Strategol;

er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector twristiaeth a hamdden drwy gynllunio morol

## Canllawiau ar weithredu polisi cefnogi

973. Mae'r polisi hwn yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru drwy fanteisio i'r eithaf ar botensial i ddatblygu'r sector mewn ffordd gynaliadwy. Dylid rhoi cefnogaeth gadarn i gamau sy'n helpu i hyrwyddo mynediad diogel ac iechyd a'r buddion y mae ein moroedd a'n glannau yn eu darparu i gymunedau lleol ac i ymwelwyr.

974. Ceir cyfleoedd a chapasiti o gwmpas Cymru i ddatblygu a manteisio ar gyfleoedd o bob math ar gyfer twristiaeth a hamdden ar y môr ac ar y glannau . Yn benodol, mae angen canolbwyntio ar ddatblygu twristiaeth a chyfleoedd hamdden o werth

uchel drwy'r flwyddyn ar yr arfordir. Mae'r diwydiant ymwelwyr mewn lle da i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth pwysig ledled Cymru, hyd yn oed yn y rhanbarthau mwyaf ymylol a thenau eu poblogaeth. Cefnogir mentrau sy'n cynyddu proffidioldeb a chynhyrchiant ac yn hybu enillion uwch a swyddi o ansawdd gwell.

975. Dylai gweithgareddau twristiaeth a hamdden ar y môr a'r glannau fod yn fodd i helpu i hybu economïau'r arfordir a chyfrannu at ansawdd bywyd gwell i gymunedau lleol. Mae'n bwysig bod cynigion yn ceisio cynnal a hyrwyddo amgylchedd o ansawdd da a nodweddion diwylliannol neilltuol. Gall twristiaeth a hamdden fod yn sbardun i gadw a hyrwyddo'r nodweddion hyn.

976. Anogir cyflwyno cynigion sy'n gwella ansawdd profiad yr ymwelydd drwy ehangu amrediad, amrywiaeth ac ansawdd ei brofiadau (atyniadau, hygyrchedd, bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol, cyfleusterau a seilwaith; harddwch, croesawgarwch a gwerth am arian). Gall hyn gynnwys:

- hyrwyddo mynediad (llwybrau troed, llithrfeydd, marinâu, arwyddion, trafnidiaeth gyhoeddus, ffioedd mynediad rhad/am ddim);
- darparu cyfleusterau (meysydd parcio, llithrfeydd, angorleoedd, toiledau cyhoeddus, cyfleusterau i bobl ag anableddau, iardiau cychod, siopau gêr môr, seilwaith clybiau);
- hybu ymwybyddiaeth o ardaloedd neu atyniadau, eu gwerth, y bygythiadau iddynt a ffyrdd o'u diogelu a'u datblygu (arwyddion, swyddfeydd twristiaeth, gwybodaeth electronig ac ar bapur);
- hyrwyddo stiwardiaeth (annog y cyhoedd i gymryd rhan yn rhagweithiol mewn diogelu a chadw, ee rhoi gwybod am broblemau / diffyg atgyweirio, gwirfoddoli, codi sbwriel, datblygu codau ymddygiad â chydymffurfio â nhw etc)
- ystyried cyfleoedd ar gyfer cydfodoli ac arallgyfeirio er mwyn cynyddu'r dewis o weithgareddau sydd ar gael mewn ardal benodol.

977. Gellir datblygu ardaloedd sydd heb ddenu llawer o weithgarwch twristiaeth a hamdden yn y gorffennol er mwyn hybu economïau lleol a dylid cefnogi cyfleoedd o'r fath lle maent yn gydnaws â chymeriad yr ardal neu'n cael eu croesawu gan gymunedau lleol. Er enghraifft, ceir cyfleoedd drwy ddatblygu adnoddau ar yr arfordir fel Datblygiad Harbwr Porth Tywyn, Pen-bre, Parciau Arfordirol y Mileniwm a'r Academi Hwylio Genedlaethol i ddenu mwy o ymwelwyr am ddiwrnod yn ogystal ag ymwelwyr sy'n aros yn yr ardal.

978. Nodwyd bod y farchnad llongau mordeithio yn faes ar gyfer twf yn y dyfodol drwy ddarparu pwyntiau byrddio a glanio. Rhoddir blaenoriaeth i gynyddu nifer a gwerth yr ymweliadau â Chymru gan longau mordeithio. Gellir cynyddu nifer a gwerth yr ymweliadau gan longau mordeithio â Chymru drwy hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer mordeithiau, gwella ei brand penodol, hyrwyddo ei phorthladdoedd a hybu buddsoddi yn seilwaith a chyfleusterau porthladdoedd, gan gynnwys eu galluogi i dderbyn llongau mwy, a datblygu teithiau ar y lan.

979. Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol gefnogi gwelliannau cynaliadwy yn seilwaith porthladdoedd i'w galluogi i dderbyn llongau mordeithio mwy a niferoedd mwy o deithwyr. Mae chwe phorthladd yng Nghymru yn cael eu marchnata gan

DRAFT

Croeso Cymru: Casnewydd, Caerdydd, Abertawe, Aberdaugleddau, Abergwaun a Chaergybi. Mae Caergybi ac Abergwaun wedi'u nodi'n safleoedd ar gyfer datblygu porthladdoedd. Rhoddir anogaeth i ddatblygu seilwaith a chyfleusterau perthnasol mewn porthladdoedd yn y cyd-destun hwn. Mae Caergybi, Abertawe, Penfro ac Abergwaun yn darparu pwyntiau mynediad i ymwelwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau llongau fferi o Iwerddon, yn ogystal â darparu ar gyfer ymwelwyr ag Iwerddon o'r DU. Ar wahân i wasanaethau llongau fferi rheolaidd, mae potensial ar gyfer datblygu cyfleusterau i longau mordeithio yn enwedig yng Nghaergybi ac Abertawe er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol am dwristiaeth o'r math hwn. Mae Aberdaugleddau hefyd yn cynnig potensial mewn perthynas â'r farchnad llongau mordeithio.

980. Nodwyd bod genweirio hamdden yn weithgarwch pwysig a'i fod yn dibynnu ar faint a nifer y pysgod sy'n debygol o fod ar gael ac ansawdd yr amgylchedd (gweler Pysgodfeydd). Mae hwylio cychod hamdden yn weithgarwch pwysig arall sydd â photensial ar gyfer twf a dylid ei gefnogi lle bynnag y bo modd. Mae nifer o ddatblygiadau marina llai (yn cynnwys Harbwr Saundersfoot, Aberystwyth a Harbwr Porthcawl) lle mae cyfleoedd dichonol i ddatblygu seilwaith ar gyfer hwylio wedi'u nodi'n flaenoriaethau ar gyfer y cylch nesaf o gyllid Ewropeaidd a dylid cefnogi'r cyfleoedd hyn lle bo modd. Mae'r rhain yn cynnwys:

981. Dylai awdurdodau perthnasol gydweithio a chydweithredu ar brosiectau er mwyn sicrhau'n budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf posibl o weithgareddau twristiaeth a hamdden sy'n gysylltiedig â'r môr.

982. Anogir datblygu mentrau newydd i bennu cyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy mewn gweithgareddau twristiaeth a hamdden ac i gynyddu'r sylfaen dystiolaeth. Gall hyn gynnwys gwaith i bennu lleoliadau dichonol ar gyfer gweithgareddau twristiaeth a hamdden; deall marchnadoedd a chyfyngiadau; a/neu ddeall ym mha leoedd y mae'r sector o bwysigrwydd strategol. Ymhlith yr awdurdodau penderfynu a chynghori perthnasol y mae Llywodraeth a chyrff a sefydlwyd o dan ddeddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol, rheoleiddwyr, cyrff llywodraethu, sefydliadau aelodaeth / ffederasiynau cynrychiadol, gweithgorau, grwpiau academaidd ac ymgynghorwyr.

983. Anogir datblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau ymchwil a chyrff diwydiant, i ddatblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd i ymdrin â bylchau allweddol mewn tystiolaeth a chael gwell dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy'r sector.

984. **Wrth baratoi cynigion sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a hamdden, dylai datblygwyr gymhwyso'r polisïau diogelu perthnasol ar gyfer sectorau eraill yn y cynllun hwn.**

DRAFT

## Polisi diogelu

985. Ym mhob cynnig (yn cynnwys cynigion newydd gan y sector twristiaeth a hamdden) a all effeithio ar weithgareddau twristiaeth a hamdden presennol neu arfaethedig neu rai dichonol yn y dyfodol, dylid cymhwyso’r polisïau canlynol ar gyfer diogelu twristiaeth a hamdden.

> **T&R_02: Twristiaeth a hamdden (diogelu)**
>
> Dylai cynigion ddangos eu bod wedi cymryd mesurau priodol i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol ar weithgareddau twristiaeth a hamdden presennol ac arfaethedig hysbys.
>
> Ni ddylid awdurdodi cynigion a fyddai’n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar amcanion Llywodraeth Cymru ar hamdden, chwaraeon a thwristiaeth oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

## Canllawiau ar weithredu polisi diogelu

986. Mae’r polisi diogelu hwn yn helpu i reoli’r effeithiau niweidiol dichonol o weithgareddau sectorau eraill ar weithgareddau presennol a gweithgareddau arfaethedig dichonol y sector twristiaeth a hamdden. Mae’n gwneud hyn drwy ddiogelu ardaloedd sydd wedi’u cydnabod am eu gwerth o ran twristiaeth neu amwynder neu eu gwerth dichonol yn y dyfodol.

987. Gellir cael effeithiau niweidiol eang o nifer o wahanol weithgareddau ar dwristiaeth a hamdden drwy nifer o amgylchiadau gwahanol, fel:

- Colli bioamrywiaeth sy’n bwysig ar gyfer twristiaeth a hamdden
- Gostwng ansawdd aer neu ddŵr
- Lleihau atyniad esthetig y dirwedd a’r forwedd
- Llai o fynediad i safleoedd er mwyn eu defnyddio a llai o ddiogelwch ynddynt
- Mwy o berygl o wrthdaro rhwng cychod ac adeiladweithiau sefydlog
- Pwysau ar adnoddau a rennir a chystadlu amdanynt ee pysgota

988. Mae asesiad o’r effaith ar dwristiaeth a hamdden yn offeryn ar gyfer deall y canlyniadau cadarnhaol a negyddol (costau, buddion a risgiau) i weithgareddau morol y gellir eu trwyddedu ar dwristiaeth a hamdden. Gellir ei ddefnyddio i bwyso a mesur gwahanol opsiynau ac ar gyfer datblygu cynllun, polisi, prosiect neu ddatblygiad.

DRAFT

989. Mae canllawiau anstatudol ar gael am yr effeithiau o weithfeydd ynni adnewyddadwy ar syrffio hamdden[91] a hwylio cychod[92]. Gall teipoleg cymunedau arfordirol ddangos pa faterion a all fod yn berthnasol ar gyfer asesu'r effaith ar dwristiaeth a hamdden. Bydd angen i sectorau eraill gael tystiolaeth gadarn am ddefnydd ac arwyddocâd a gwerth cymharol y gweithgareddau presennol neu ddichonol er mwyn deall sut i osgoi effeithiau ar weithgareddau twristiaeth a hamdden.

990. Wrth asesu'r effeithiau tebygol o weithgarwch morol arfaethedig ar dwristiaeth a hamdden, dylid ystyried:

- y mathau o weithgareddau twristiaeth a hamdden a geir yn yr ardal;
- nifer a dosbarthiad tymhorol a daearyddol y cyfranogwyr yn yr ardal;
- cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol yn y sector twristiaeth a hamdden (yn cynnwys unrhyw newid yn nifer y swyddi tymhorol, a allai arwain at ansefydlogrwydd economaidd) ac unrhyw effeithiau lluosydd ar yr economi;
- gwariant twristiaeth a hamdden ac unrhyw effeithiau lluosydd ar yr economi;
- y rhyngweithio rhwng ymwelwyr a chymunedau lleol; yn cynnwys dadleoli'r naill gan y llall a'r posibilrwydd o wrthdaro;
- yr effaith ar ansawdd a dynodiadau amgylcheddol, yn cynnwys ansawdd dyfroedd ymdrochi a statws y Faner Las;
- diogelwch mordwyo, llwybrau mordwyo a ddefnyddir yn rheolaidd (yn enwedig y rheini mewn sianeli neu ddynesfeydd cyfyng), ardaloedd cyffredinol ar gyfer hwylio cychod, ardaloedd a ddefnyddir yn rheolaidd ar gyfer cystadlu, mynediad, mannau angori ac angorleoedd;
- y posibilrwydd o gydfodoli â sectorau eraill;
- gweithgareddau arfaethedig hysbys (ee wedi'u nodi mewn Cynllun Datblygu Lleol neu mewn cynllun neu raglen berthnasol arall).


991. Bydd asesu a phrisio trwyadl o weithgareddau, buddion a chyfleoedd yn y sector twristiaeth a hamdden yn helpu i ddisgrifio twristiaeth a hamdden yn well mewn cynlluniau yn y dyfodol.

DRAFT


[91] Surfers Against Sewage, 2009

[92] RYA - http://www.rya.org.uk/KNOWLEDGE-ADVICE/OFFSHORE-RENEWABLES/Pages/hub.aspx

## Ffigur 24 (a): Map polisi – Safleoedd twristiaeth a hamdden ar yr arfordir



## Ffigur 24 (b): Map polisi – Ardaloedd o Harddwch Naturiol neu Fwynhad



## Atodiad 1 – Y dull o ymdrin â chynllunio morol ar gyfer Cymru

DMMA sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer datblygu cynlluniau morol a DPM y DU sy'n darparu'r fframwaith polisi ar gyfer cynlluniau morol. Mae'r atodiad hwn yn rhoi crynodeb o agweddau ar y dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu CMCC.

### Proses cynllunio morol Cymru

Mae'r broses gylchol ar gyfer cynllunio morol wedi'i hamlinellu yn Ffigur 5.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae amrywiaeth fawr o randdeiliaid sydd â buddiant neu ran bwysig mewn rheoli ein moroedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltu mewn ffordd effeithiol ac ystyrlon er mwyn datblygu a gweithredu cynlluniau a pholisïau. Mae cydweithio agos mewn partneriaeth, drwy ddull cydweithredol a chynhwysol, yn hanfodol i ddarparu a gweithredu cynllunio morol i Gymru.

Yn unol â DMMA, roeddem wedi cyhoeddi Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn 2014. Roedd y datganiad hwn yn amlinellu ein bwriad i ymgysylltu mewn ffordd gynhwysfawr wrth ddatblygu'r cynllun hwn. Rydym wedi cynnwys amrywiaeth fawr o randdeiliaid ar bob cam yn y broses cynllunio; mae hyn wedi bod yn hanfodol ar gyfer ffurfio'r cynllun.

Bydd yn hollbwysig parhau i ymgysylltu a chydweithio wrth weithredu'r cynllun. Mae rhagor o wybodaeth a manylion am gyfleoedd i gymryd rhan mewn rheoli ein moroedd ar wefan Llywodraeth Cymru.

### Casglu a rhannu tystiolaeth (cynllunio seiliedig ar dystiolaeth)

Mae'r broses cynllunio morol yn galw am gasglu, dehongli a rhannu tystiolaeth a sicrhau ein bod yn ei defnyddio yn y ffordd orau wrth wneud penderfyniadau am ddatblygu cynaliadwy yn ein moroedd. Yn unol â'r DPM, mae'r cynllun hwn wedi'i seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a'i bwrpas yw helpu i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

DRAFT

Drwy Ymarfer Cwmpasu Strategol, casglwyd gwybodaeth sy'n berthnasol i'n hadnoddau naturiol morol a'n defnydd presennol ohonynt yng nghyd-destun cynllunio morol. Defnyddiwyd dwy brif ffynhonnell wrth gynnal yr Ymarfer Cwmpasu Strategol: Charting Progress 2 (2010), adroddiad cynhwysfawr am ymchwil a monitro ym moroedd y DU, ac UK Marine Strategy Part One sy'n cynnwys asesiad o statws moroedd y DU, dadansoddiad economaidd a chymdeithasol o'r defnydd ohonynt a'r prif bwysau ac effeithiau sy'n gysylltiedig â nhw.

Mae sylfaen dystiolaeth forol Cymru wedi'i hamlinellu yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru ac mae data gofodol ar gael ar y porth Cynllunio Morol (sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru). Yn ogystal â hyn, o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), mae CNC wedi cyhoeddi'r Adroddiad cyntaf ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR). Mae'r SoNaRR yn gwneud defnydd o dystiolaeth yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru ac yn disgrifio sefyllfa bresennol adnoddau naturiol yng Nghymru a'r graddau y maent yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Mae'r dystiolaeth hon, ynghyd â'r cyd-destun polisi perthnasol, wedi'i defnyddio i helpu i bennu ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru ac i ffurfio'r polisïau sydd yn y cynllun hwn.

### Integreiddio datblygu cynaliadwy

Mae nifer o ofynion ac egwyddorion polisi wedi'u cymhwyso wrth ddatblygu'r cynllun hwn er mwyn cyflawni'r diben o ddatblygu ein moroedd mewn ffordd gynaliadwy. Yn ogystal â sicrhau bod y cynllun yn gyson â'r DPM, mae'r broses cynllunio:

- wedi dilyn y ffyrdd o weithio sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);
- yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru;
- yn ymgorffori'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem;
- yn dilyn egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy;
- yn adlewyrchu ac yn cynnal egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM).

DRAFT

## Cymhwyso'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy

Mae'r broses cynllunio wedi cymhwyso ffyrdd o weithio sy'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'u pennu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n ceisio cyfrannu at gyflawni holl Nodau Llesiant Cymru, er enghraifft:

| **Egwyddor datblygu cynaliadwy** | **Cyd-destun cynllunio morol** |
|---|---|
| Meddwl am y **tymor hir** fel na fyddwn yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion | Mae CMCC yn edrych ymlaen dros 20 mlynedd a bydd yn ystyried y tueddiadau presennol a rhai posibl yn y dyfodol gan gydnabod goblygiadau'r newid yn yr hinsawdd. Drwy hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd morol, bydd yn canolbwyntio ar reoli gweithgareddau dros y tymor hir. |
| Gweithredu mewn **ffordd integredig** drwy ystyried holl nodau llesiant Cymru | Mae cynllunio morol yn rhoi sylw i amrywiaeth fawr o bolisïau morol a meysydd cyflawni. Mae cynllunio'n hyrwyddo dull integredig o weithredu drwy gyflwyno set o bolisïau cydlynol sy'n berthnasol i'r holl benderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus a all effeithio ar ardal y cynllun. Mae'r cynllun yn cynnwys set integredig o bolisïau sy'n ymdrin â phob agwedd ar reoli adnoddau naturiol a phob math o ddefnydd o amgylchedd morol Cymru. |
| **Cynnwys** gwahanol rannau o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt | Mae'r broses cynllunio yn gynhwysol ac mae wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid. Mae'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn disgrifio'r cyfleoedd i gymryd rhan. Roedd drafft cychwynnol o CMCC wedi'i rannu ar-lein er mwyn cael adborth cynnar i'w fireinio. |
| Gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir | Mae cynllunio morol yn galw am weithio mewn ffordd gydweithredol â llawer o fathau o feysydd polisi a rhanddeiliaid. Mae hyn yn cael ei wneud drwy broses gynhwysfawr ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid gyda mewnbwn gan lawer o fathau o feysydd polisi yn ogystal â rhanddeiliaid. Er mwyn hwyluso'r gwaith o gynhyrchu CMCC, mae Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol wedi'i sefydlu. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Deall yr achosion sylfaenol i broblemau er mwyn eu **hatal** rhag digwydd ac ystyried a ddylem newid ein ffordd bresennol o drefnu ein hadnoddau | Mae cynllunio a datblygu polisi ar sail tystiolaeth yn hanfodol i lwyddiant CMCC. Mae hyn yn rhoi'r gallu i roi ystyriaeth well i gymhlethdod yr amgylchedd morol ac i ddarparu ymyriadau priodol er mwyn ei reoli'n well yn y dyfodol. Drwy ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid, nodwyd nifer o heriau a chyfleoedd gwahanol yn ogystal ag ymchwil sydd ar y gweill ac anghenion am dystiolaeth ar gyfer y dyfodol. |

| Nod llesiant | Sut mae cynllunio morol yn cyfrannu | Polisïau allweddol ac agweddau ar gynllunio morol |
|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cefnogi twf glas, datblygu sgiliau, cyfleoedd cyflogaeth a chreu cyfoeth. Hybu camau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau, yn cynnwys y newid i economi carbon isel | GEN_01; GOV_02;<br>Yr holl bolisïau ar Sectorau sy'n cefnogi twf cynaliadwy<br>ECON_01 a 02<br>SOC_08, 09, 10, 11 a 12<br>ELC_01, 02, 03 a 04 |
| Cymru gydnerth | Cefnogi camau i warchod ac adfer bioamrywiaeth forol ac ecosystemau'r môr.<br>Cydnabod bod ecosystemau iach yn cynnal cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd. | ENV_01, 02, 03, 05 a 06<br>ECON_01 a 02<br>SOC-09 |
| Cymru iachach | Cydnabod bod moroedd glân, iach yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol pobl.<br>Cefnogi mynediad a chyfleoedd i wella'r ardal forol er mwyn creu nifer mawr o fuddion<br>Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden | SOC_01, 02, 05, 07, 09<br>T&R_01, 01 |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cydbwyso anghenion a buddiannau ein holl ddiwydiannau a chymunedau<br>Cynllunio mewn ffordd agored, dryloyw a rhannu data | Yr holl bolisïau Cyffredinol a pholisïau ar Sectorau<br>SCI_01<br>Adroddiad tystiolaeth morol Cymru<br>Y porth cynllunio morol |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cydnabod pwysigrwydd cymunedau'r arfordir a'r cyfraniad gan yr ardaloedd morol i gymdeithas | SOC_02, 04, 05 a 07. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Diogelu a hyrwyddo ein diwylliant a threftadaeth forol<br>Cefnogi cyfleoedd i gyfrannu i ffyniant y Gymraeg a'i diwylliant | SOC_01, 02, 04, 05, 06, 07<br>ECON_01 |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol berthnasol<br>Integreiddio â systemau cynllunio perthnasol eraill ar dir a môr<br>Cefnogi camau i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd | Polisïau Cyffredinol<br>GOV_02<br>SOC_08, 09, 10, 11 a 12 |

DRAFT

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi sefydlu fframwaith deddfwriaethol i hyrwyddo dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Y diffiniad o'r dull hwn yw "defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu ac, wrth wneud hynny, cwrdd ag anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion". Mae hyn yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly mae'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn darparu fframwaith ar gyfer cryfhau ecosystemau gan gyfrannu drwy hynny at gyflawni nodau llesiant Cymru.

Mae egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wedi cael eu cymhwyso drwy'r broses cynllunio, er enghraifft:

- rheoli mewn ffordd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu ac, os yw'n briodol, newid camau gweithredu;

Mae cynllunio morol yn broses ymaddasol; bydd monitro ac adrodd ar effaith y cynllun yn hybu dull ymaddasol

- ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu;

Mae cynllunio morol yn bolisi gofodol (ac amserol): caiff polisïau unigol eu teilwra at y raddfa briodol gan adlewyrchu'r defnydd presennol a defnydd dichonol yn y dyfodol a dosbarthiad adnoddau naturiol.

- hyrwyddo a chyfrannu at gydweithio a chydweithredu;

Mae cynllunio morol wedi'i seilio ar ddull cydweithredol. Mae polisïau'r cynllun yn hyrwyddo ymgysylltu rhwng sectorau wrth ddechrau datblygu prosiectau, ac yn sicrhau ystyriaeth i gynlluniau a pholisïau perthnasol eraill wrth wneud penderfyniadau.

- gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan mewn penderfyniadau;

DRAFT

Mae'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn pennu sut a pha bryd mae'r cyhoedd yn gallu cymryd rhan yn y broses cynllunio.

- ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion ansicr;

Mae'r holl dystiolaeth berthnasol wedi cael ei chasglu a'i rhannu drwy Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru; mae materion ansicr allweddol a bylchau mewn tystiolaeth yn cael eu nodi yn ystod y broses cynllunio.

- ystyried y buddion a'r gwerth cynhenid mewn adnoddau naturiol ac ecosystemau;

Mae polisïau'r cynllun yn cydnabod y gwerth cynhenid sydd mewn adnoddau naturiol ac ecosystemau.

- ystyried y canlyniadau tymor byr, canolig a hir i gamau gweithredu;

Mae cynllunio morol yn ystyried canlyniadau dros y tymor byr, canolig a hir. Mae Arfarniad Cynaliadwyedd y cynllun yn disgrifio'r canlyniadau i bolisïau'r cynllun. Caiff effeithiolrwydd y cynllun ei fesur drwy fonitro a gwerthuso.

- cymryd camau i atal difrod arwyddocaol i ecosystemau;

Mae cynllunio morol yn ategu'r angen i gymryd camau i atal difrod i ecosystemau. Mae'r cynllun yn nodi rhyngweithio allweddol ag ecosystemau a materion sy'n gysylltiedig â phob sector. Yn ogystal â hyn, mae'n cynnwys polisïau penodol i ddiogelu ecosystemau morol.

- ystyried cydnerthedd ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol:
  (i) amrywiaeth rhwng ac oddi mewn i ecosystemau
  (ii) y cysylltiadau rhwng ac oddi mewn i ecosystemau;
  (iii) graddfa ecosystemau;
  (iv) cyflwr yr ecosystemau (yn cynnwys eu strwythur a'u gweithrediadau);
  (v) gallu ecosystemau i ymaddasu.

Mae'r cynllun morol yn ymdrin â chydnerthedd ecosystemau mewn perthynas â phob sector.

DRAFT

## Dull rheoli ar lefel yr ecosystem

Dilynwyd dull rheoli ar lefel yr ecosystem wrth ddatblygu'r cynllun hwn. Nod dull rheoli ar lefel yr ecosystem yw hyrwyddo cydbwysedd iach rhwng gweithgarwch economaidd a chymdeithasol a chydnerthedd amgylcheddol er mwyn cefnogi datblygu cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Y prif fanteision o fabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem yw:

- Integreiddio ystyriaethau ecolegol, economaidd a chymdeithasol mewn un fframwaith i helpu i nodi gwrthdaro, rhyngweithio a mesurau cydbwyso dichonol o'r dechrau;
- Cydnabod bod pobl, gyda'u hamrywiaeth ddiwylliannol, yn gydran annatod mewn ecosystemau, ac y dylid eu cynnwys wrth ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem;
- Pwyslais ar ddulliau hyblyg ac integredig, a rheoli ymaddasol.

Mae dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn cael ei hyrwyddo gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ac mae'n ofynnol o dan y DPM wrth ddatblygu cynlluniau morol. Mae hefyd yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r dull strategol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae egwyddorion y Ddeddf o ran datblygu cynaliadwy yn cyfateb yn agos i egwyddorion y dull rheoli ar lefel yr ecosystem ac egwyddorion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:

Drwy ddilyn dull rheoli ar lefel yr ecosystem, mae'r cynllun hwn yn gyson ag ymrwymiadau i hyrwyddo dull mwy integredig o reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

Mae cynllunio morol yn cynnwys prosesau ffurfiol o lawer math sy'n hyrwyddo camau i gyflawni nifer o egwyddorion y dull rheoli ar lefel yr ecosystem sydd wedi'u nodi yn y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol[93]. Yn y tabl sy'n dilyn, mae set o'r egwyddorion hyn sydd wedi'i haddasu ychydig (i'w chysylltu â'r broses cynllunio morol[94] ) i ddangos sut mae'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem wedi'i ystyried wrth baratoi'r cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu datblygu'r dull hwn yn y dyfodol.

---

[93] http://www.cbd.int/ecosystem/principles.shtml

[94] MMO (2014) *Practical framework for outlining the integration of the ecosystem approach into marine planning in England*. Report to the Marine Management Organisation. MMO Project No: 1048.

DRAFT

| **Egwyddor Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem** | **Sut mae cynllunio morol wedi cymhwyso'r egwyddor?** | **Pa gamau pellach a gymerir drwy gynllunio?** |
|---|---|---|
| Mae amcanion ar gyfer rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw yn fater o ddewis i gymdeithas | Ymgysylltu drwy gydol y broses cynllunio; ymgynghori ffurfiol ar weledigaeth ac amcanion y cynllun. Integreiddio â nodau llesiant Cymru. | Cynnal a diweddaru'r porth i ddangos polisïau gofodol y cynllun. Ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid. |
| Dylai rheoli gael ei ddatganoli i'r lefel briodol isaf | Er y bydd y cynllun morol yn gosod y fframwaith cyffredinol, mae'r amgylchedd morol eisoes yn cael ei reoli ar nifer o lefelau gwahanol yn nyfroedd Cymru. Mae'r cynllun morol wedi'i ddatblygu ar lefel Moroedd Cymru ond caiff polisïau eu cymhwyso ar y raddfa ofodol briodol (e.e. Ardaloedd Adnoddau Strategol). | Ystyried yr angen am gynllunio is-genedlaethol.<br><br>Integreiddio â'r Datganiad(au) Ardal a gynhyrchwyd gan CNC o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). |
| Dylai rheolwyr ecosystemau ystyried effeithiau (gwirioneddol neu ddichonol) eu gweithgareddau ar ecosystemau cyfagos ac ecosystemau eraill | Mae'r DPM a'r Amcanion Lefel Uchel yn gosod fframwaith cyson ar gyfer rheoli ecosystemau morol yn holl foroedd y DU. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn ymdrin ag effeithiau cadarnhaol a negyddol dichonol o bolisïau'r cynllun ar ecosystemau cyfagos ac ecosystemau eraill. Mae'r broses cynllunio yn cynnwys ymgysylltu trawsffiniol.<br>Mae'n ofynnol bod yr holl gyrff penderfynu (yn cynnwys y rheini yng nghyd-destun tir) yn gwneud penderfyniadau sy'n gyson â chynlluniau morol a rhaid i'r penderfyniadau ar drwyddedu morol hefyd fod yn gyson â chynlluniau perthnasol ar gyfer y tir. Mae hyn yn hyrwyddo ystyriaeth i'r effeithiau o gynlluniau'r tir a'r môr ar ardaloedd cyfagos. | Ymgysylltu'n barhaus ag awdurdodau cynllunio cyfagos. |
| Cydnabod yr enillion dichonol o reoli: fel arfer, bydd angen deall a rheoli'r ecosystem mewn cyd-destun economaidd. | Optimeiddio twf economaidd yw un o brif amcanion y DPM a CMCC. Mae'r broses cynllunio yn ceisio optimeiddio buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae polisïau'r cynllun ar sectorau yn | Mae ymrwymiadau yn y cynllun i ddeall yr economi forol a'r buddion y mae cymdeithas yn eu cael o'r ardal forol. |

| | | |
|---|---|---|
| | tynnu sylw at gyfleoedd yn y dyfodol gan ystyried nodweddion a statws ecosystemau | |
| Gwarchod strwythur a gweithrediadau ecosystemau er mwyn cynnal gwasanaethau ecosystemau fydd un o'r blaenoriaethau wrth ddilyn dull rheoli ar lefel yr ecosystem | Mae Arfarniad Cynaliadwyedd CMCC yn ymdrin ag effeithiau ar strwythur a gweithrediadau, ac ar ddarparu gwasanaethau ecosystemau.<br>Mae hyn yn rhan annatod o Amcanion Morol Lefel Uchel, gweledigaeth ac amcanion y cynllun a'r polisïau Cyffredinol.<br>Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu mewn ffordd sy'n cymell ystyriaeth i ddeall y rhyngweithio rhwng gwahanol fathau o ddefnydd o'r adnoddau morol a'r effeithiau ehangach o hynny ar strwythur a gweithrediadau.<br>Mae'r broses cynllunio yn ceisio nodi bylchau mewn tystiolaeth i'w hystyried wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol a bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau penderfyniadau gwell yn y dyfodol. | Bydd gwaith yn cael ei hyrwyddo i ddeall cyfleoedd lleol a chyfyngiadau ar ddatblygu mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol. Bydd strwythur a gweithrediadau ecosystemau yn cael eu hystyried wrth roi sylw i unrhyw faterion sensitif mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol. |
| Rhaid rheoli ecosystemau o fewn terfynau eu gweithrediadau | Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn ymdrin ag effeithiau cadarnhaol a negyddol dichonol ar y gallu i ddarparu gwasanaethau ecosystemau, yn cynnwys effeithiau cronnol. Mae hyn yn cynnwys terfynau penodol lle bo modd ond os nad oes data neu derfynau diffiniedig, bydd yr asesiad yn ansoddol.<br>Mae datblygu cynlluniau morol, a chasglu data gofodol ar gyfer cynllunio, yn gyfle pwysig i ystyried effeithiau cronnol er mwyn cyfrannu at benderfynu mwy effeithiol ar lefelau'r defnydd sy'n cydweddu â defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. | Ymrwymiad i gynnal a datblygu'r sylfaen dystiolaeth, yn cynnwys dealltwriaeth o derfynau sy'n gysylltiedig â strwythur a gweithrediadau ecosystemau, yn enwedig mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.<br>Cynnal a datblygu porth i hyrwyddo ystyriaeth i effeithiau cronnol dichonol. |
| Dylid dilyn y dull rheoli ar lefel yr ecosystem ar lefelau priodol o ran gofod ac amser | Wrth ddatblygu cynlluniau morol, rhoddir sylw i holl Foroedd Cymru gyda gweledigaeth o'r hyn a gyflawnir o fewn 20 mlynedd. Mae hyn yn briodol yng nghyd-destun datblygu a chyflawni cynllun cenedlaethol o'r math hwn. | Ystyried yr angen am gynllunio is-genedlaethol. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r cynllun morol yn canolbwyntio ar sicrhau defnydd cynaliadwy o Foroedd Cymru a chaiff ei ddatblygu ar raddfa briodol o ran gofod ac amser. Mae'r gwahanol bolisïau yn y cynllun yn ymdrin â'r raddfa ofodol sy'n briodol, yn ôl y mater sydd dan sylw. | |
| Gan gydnabod y gwahanol gyfnodau ac effeithiau oedi sy'n nodweddiadol o brosesau ecosystem, dylai amcanion ar gyfer rheoli ecosystemau gael eu gosod ar gyfer y tymor hir | Yr amserlen ar gyfer gwireddu gweledigaeth CMCC fydd 20 mlynedd. Caiff y cynllun ei adolygu ar sail cylch tair blynedd a'i ddiwygio os bydd angen.<br>Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn pennu Amcanion Ecosystem mewn perthynas â chyrraedd Statws Amgylcheddol Da ar sail set o ddisgrifyddion. Cyflawni'r amcanion hyn yw un o ddibenion y cynllun morol. | Mae'n bosibl y bydd modd pennu polisïau penodol a fydd yn cael eu cyflawni dros gyfnod hirach na chyfnod penodedig y cynllun. |
| Wrth reoli, rhaid cydnabod bod newid yn anochel | Mae'r angen i fonitro ac adrodd ar CMCC (a'i ddiwygio os bydd angen) yn ofyniad deddfwriaethol. | Wrth fonitro, gellir ystyried pob agwedd ar y cynllun, a gall hyn arwain at newidiadau mewn polisi lle nad yw amcanion yn cael eu cyflawni. |
| Wrth ddilyn dull rheoli ar lefel yr ecosystem, dylid ceisio cydbwysedd priodol rhwng diogelu a defnyddio amrywiaeth fiolegol, a'u hintegreiddio. | Mae'r cynllun yn ceisio sicrhau bod adnoddau naturiol morol yn cael eu rheoli mewn ffordd integredig a'u defnyddio'n gynaliadwy, a thrwy hynny sicrhau cydbwysedd priodol rhwng defnyddio a diogelu amrywiaeth fiolegol.<br>Mae'r cynllun morol hefyd yn ceisio optimeiddio canlyniadau amgylcheddol yn ardal forol Cymru. Yn ogystal â hyn, mae strwythur y cynllun yn sicrhau bod rhyngweithio amgylcheddol yn cael ei ystyried wrth ddatblygu polisïau mewn perthynas â phob math gwahanol o ddefnydd o'r môr.<br>Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol dichonol ar amrywiaeth fiolegol. | Sicrhau cysylltiadau cryf rhwng cynllunio morol a gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru), yn enwedig Datganiad(au) Ardal sy'n ymwneud ag ardal y cynllun morol. |
| Wrth ddilyn dull rheoli ar lefel yr ecosystem, dylid ystyried pob | Drwy'r Ymarfer Cwmpasu Strategol, mae amrywiaeth o wybodaeth wedi'i chanfod a'i chasglu sy'n berthnasol i'r | Un mater y dylid rhoi sylw iddo wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy'r broses cynllunio morol |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| math o wybodaeth berthnasol, yn cynnwys gwybodaeth wyddonol a lleol, datblygiadau newydd ac arferion | amgylchedd morol. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi ym Mhorth Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru a CMCC. | parhaus yw pennu ffynonellau o ddata perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o waith ar ddatblygu'r porth cynllunio morol. |
| Wrth ddilyn dull rheoli ar lefel yr ecosystem, dylid cynnwys yr holl sectorau mewn cymdeithas a'r holl ddisgyblaethau gwyddonol sy'n berthnasol | Cynhyrchwyd Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn rhan o'r broses cynllunio morol. | Disgwylir y bydd y broses cynllunio morol parhaus yn rhoi'r gallu i gynnal deialog ystyrlon â'r holl sectorau mewn cymdeithas ar gyfer datblygu'r cynllun morol. |

## Integreiddio â systemau cynllunio eraill

Mae penderfyniadau sy'n ymwneud ag ardaloedd o'r tir a'r môr yn gallu cael effaith dros bellter mawr, ac mae'r rhan fwyaf o weithgareddau yn yr amgylchedd morol hefyd yn cynnwys cydran ar y tir neu'n creu goblygiadau ar y tir. Felly, er mwyn rheoli ardaloedd morol yn effeithiol, mae angen integreiddio cynlluniau morol â chynlluniau ar gyfer ardaloedd morol cyfagos yn ogystal â chynlluniau ar gyfer ardaloedd cyfagos ar dir, er mwyn lleihau'r perygl i benderfyniadau mewn un ardal gael effeithiau niweidiol mewn ardal arall.

O dan CMCC, mae'n ofynnol i awdurdodau'r cynllun morol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cynllun morol yn cydweddu â chynlluniau yn y system cynllunio defnydd tir. Mae hefyd yn ofynnol, wrth baratoi cynllun morol, fod sylw'n cael ei roi i unrhyw gynllun arall sydd wedi'i baratoi gan awdurdod cyhoeddus neu leol. Mae hyn yn gysylltiedig â rheoli neu ddefnyddio'r môr neu'r arfordir, neu adnoddau morol neu arfordirol yn yr ardal, pa un a ydynt yn cydffinio ag ardal y cynllun morol neu'n gyfagos iddi.

Rhai enghreifftiau o gynlluniau statudol a luniwyd gan gyrff cyhoeddus sy'n berthnasol i'r cynllun hwn yw:

- Cynlluniau Rheoli Basn Afon (RBMPs) o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;
- Cynlluniau Rheoli AHNE;
- Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol;
- Cynlluniau rheoli ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd;
- Cynlluniau i gyfrannu at lesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

DRAFT

Mae cynlluniau a strategaethau anstatudol hefyd yn cael eu llunio gan awdurdodau cyhoeddus a all fod yn berthnasol, yn cynnwys:

- Cynlluniau Rheoli Traethlin;
- Cynlluniau Rheoli Aber (e.e. Cynllun Rheoli Aber Afon Hafren);
- Cynlluniau Rheoli Cynefinoedd Arfordirol;
- Cynlluniau Arfordir Treftadaeth;
- Cynlluniau rheoli ar gyfer sectorau penodol (e.e. cynlluniau ynni ar y môr ac SEA, cynlluniau awdurdod porthladd);
- Strategaethau adfywio arfordirol.

Mae ardal y cynllun hwn yn ymestyn at lefel cymedr penllanw'r gorllanw tra bydd ffiniau ardaloedd cynllunio defnydd tir yn ymestyn fel arfer at lefel cymedr distyll y gorllanw. Felly mae ardal y cynllun hwn yn gorgyffwrdd yn ffisegol â chynlluniau ar gyfer tir, gan hwyluso integreiddio rhwng tir a môr.

Rydym wedi gwerthuso cynlluniau statudol ac anstatudol allweddol a luniwyd gan awdurdodau cyhoeddus a lleol sy'n berthnasol i'r cynllun hwn er mwyn nodi pa bolisïau sy'n berthnasol i'r môr yn benodol. Gall rhai cynlluniau fod yn ystyriaethau perthnasol y bydd yn rhaid i gyrff penderfynu roi sylw iddynt. Mae dogfennau anstatudol eraill sydd heb yr un grym, ond sy'n bwysig er hynny. Mae'r dogfennau a aseswyd yn cynnwys:

- Cynlluniau datblygu ar dir (wedi'u mabwysiadu neu'n cael eu llunio) ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol ar arfordir Cymru ac ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Lloegr sy'n cydffinio ag ardal CMCC;
- Cynlluniau Rheoli Traethlin (4 yn effeithio ar Gymru; ynghyd ag SMP2 Gogledd Dyfnaint a Gwlad yr Haf);
- Cynlluniau rheoli basn afon (3);
- Cynlluniau parc cenedlaethol (Eryri; Arfordir Sir Benfro) ac AHNE (Gŵyr; Ynys Môn).

Cafodd y polisïau yn y dogfennau hyn eu gwerthuso ar sail:

- eu perthnasedd clir neu oblygedig i amgylchedd y môr/yr arfordir;
- a ydynt yn hyrwyddo/cyfyngu sectorau morol/arfordirol neu beidio;
- cyrhaeddiad gofodol y polisïau, lle mae'n bosibl gwerthuso hynny.

Ystyriwyd cynlluniau a pholisïau perthnasol wrth ddatblygu'r polisi ar gyfer y cynllun hwn.

DRAFT

Mae'n bwysig bod y cynllun hwn yn cyfrannu at benderfynu sy'n fwy cyson a chydgysylltiedig. Felly mae'n bwysig bod cynllunio ar gyfer y tir a'r môr yn cael ei gysoni a bod hynny'n cael ei gyflawni drwy'r canlynol:

- cysoni dogfennau a chanllawiau polisi ar gyfer y tir a'r môr, yn enwedig y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sydd ar y gweill a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 14;
- cydgysylltu rhwng awdurdodau cynllunio fel y bo'n briodol;
- rhannu'r sylfaen dystiolaeth a data er mwyn hybu cysondeb wrth ffurfio cynlluniau a gwneud penderfyniadau.

Yn unol â'r DPM, rydym wedi ymrwymo i reoli ardaloedd arfordirol a'r gweithgareddau sy'n digwydd ynddynt mewn ffordd integredig a chyfannol gan ddilyn egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM)[95]. Mae'r gofyniad i ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem mewn cynllunio morol yn ategu hyn, gan fod y ddau ddull yn cydnabod bod ecosystemau'n ddynamig o'u hanfod. Mae hyn yn hyrwyddo dull hirdymor, cyfannol, ymaddasol a hyblyg o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut mae'r cynllun hwn wedi cael ei ddatblygu gan ddilyn a gweithredu egwyddorion ICZM. Fodd bynnag, nid cynllunio morol yw'r unig fecanwaith i gyflawni ICZM. Mae cynlluniau a rhaglenni eraill ar gyfer parthau arfordirol (e.e. Cynlluniau rheoli basn afon, Cynlluniau Rheoli Traethlin, Datganiadau Ardal etc.) yn cynnwys polisïau a thystiolaeth sy'n ymwneud ag ICZM. Er hynny, mae cynllunio morol yn gallu hybu integreiddio drwy ddarparu mecanwaith ar gyfer cydgysylltu'n well drwy weithio mewn partneriaeth.

### Egwyddorion ICZM sydd wedi'u cymhwyso drwy'r broses cynllunio morol

| Proses cynllunio morol | Egwyddorion ICZM sydd wedi'u cymhwyso | Cyd-destun |
|---|---|---|
| **Dewis ardal y cynllun** | 2, 4 | Wrth gynllunio ar gyfer y cyfan o ardal forol Cymru, mae CMCC yn cymryd persbectif eang a chyfannol yn ogystal â dilyn dull rheoli ar lefel yr ecosystem. Mae ffiniau'r cynllun morol yn gorgyffwrdd â ffiniau cynlluniau ar gyfer y tir. |
| **Datganiad o Gyfranogiad y** | 5, 6, 8 | Mae hyn yn rhoi'r gallu i gynnwys rhanddeiliaid yn y broses cynllunio ac i ymgysylltu â |

[95] ICZM recommendation (2002)

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **Cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid** | | chynulleidfaoedd allweddol. Ymgysylltir â rhanddeiliaid drwy gydol y broses cynllunio. Mae ICZM yn galw am gyfranogi gan gymunedau lleol; mae gweithdai lleol yn hwyluso ymgysylltu o'r fath. |
| **Pennu materion** | 1, 6, 8 | Mae hyn yn galw am gasglu tystiolaeth oddi wrth wahanol randdeiliaid er mwyn pennu materion i'w cynnwys mewn cynllunio morol. Mae tystiolaeth a data a gasglwyd i gwrdd â gofynion yr Ymarfer Cwmpasu Strategol wedi cyfrannu i'r broses cynllunio a threfnwyd iddynt fod ar gael yn eang. Gall gwybodaeth leol fod yn ddefnyddiol wrth bennu anghenion am dystiolaeth ychwanegol. |
| **Casglu tystiolaeth** | 2, 5, 6, 8 | Wrth gasglu tystiolaeth, rhoddir sylw i'r gyd-ddibyniaeth rhwng systemau naturiol a gweithgareddau gan bobl a'r gwahaniaethau rhyngddynt a'r effaith ar ardaloedd arfordirol ac mae partïon perthnasol yn cael eu cynnwys. Mae'r dull o gasglu tystiolaeth yn adlewyrchu nodweddion lleol. |
| **Gweledigaeth ac amcanion** | 1, 2, 4, 5, 6, 8 | Mae cynllunio morol yn ategu ein hymrwymiad i reoli gweithgareddau morol ac arfordirol mewn ffordd gynaliadwy gan ystyried materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r cynllun wedi'i ddiffinio gan amcanion clir, sydd wedi'u seilio ar bersbectifau hirdymor ac yn deillio yn y pen draw o flaenoriaethau gwleidyddol. Mae'r weledigaeth a'r amcanion yn pennu polisïau'r cynllun a fydd yn llywio penderfyniadau. |
| **Datblygu opsiynau** | 1, 2, 4, 5, 6, 8 | Mae opsiynau'r cynllun wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid gan ystyried yr holl wybodaeth a oedd ar gael ar sail dull integredig. Rhoddwyd sylw i'r Arfarniad Cynaliadwyedd wrth ddatblygu opsiynau polisi'r cynllun. |
| **Datblygu polisi'r cynllun** | 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8 | Mae polisïau'n cael eu datblygu i helpu i gyflawni amcanion y cynllun morol. Wrth ddatblygu'r polisïau, rhoddir sylw i ddeddfwriaeth a rhwymedigaethau presennol, yn ogystal â'r angen am integreiddio polisïau ac am gynllunio a phenderfynu integredig. Lle mae gweithgareddau neu ddatblygiadau'n cystadlu am ddefnydd o'r un ardal, rhoddir sylw i'r ffordd y mae pob cynnig yn cyfrannu at wireddu gweledigaeth, amcanion a pholisïau'r cynllun. Ceir polisïau o wahanol gryfder sy'n rhoi sylw i wahanol sectorau neu faterion lle bo'n briodol, ond bydd integreiddio'n digwydd hefyd wrth ddod i benderfyniad. Bydd hyn yn galw am asesu unrhyw wybodaeth sydd gyda'r cynnig ac unrhyw fuddion amgylcheddol, economaidd neu gymdeithasol ac unrhyw effeithiau niweidiol. Y disgwyl yw y bydd rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys yn y polisïau dros amser fel y bo'n briodol, wrth i'r sylfaen dystiolaeth gynyddu. |
| **Cyfleoedd i wneud sylwadau am gynlluniau drafft** | 5, 6 | Gellir hwyluso ymgynghori â'r cyhoedd ar gynlluniau drafft drwy'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd er mwyn casglu tystiolaeth a barn oddi wrth randdeiliaid. Rhoddir yr Adroddiad ar yr |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | Arfarniad Cynaliadwyedd gyda chynlluniau drafft. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ymdrin â materion cymdeithasol ac economaidd yn ogystal ag effeithiau dichonol ar yr amgylchedd. Bydd hyn yn sicrhau bod ystod eang o faterion cynaliadwyedd yn cael ei thrafod. |
| **Adolygu cynigion y cynllun** | 5, 6 | Bydd cynigion y cynllun yn cael eu hadolygu gan ystyried yr ymatebion a gasglwyd o'r sylwadau am y cynlluniau drafft drwy broses y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd. Cafodd drafftiau cynharach eu mireinio ar ôl cael cyngor a mewnbwn gan randdeiliaid. |
| **Ymchwilio annibynnol** | 5, 6 | Mae ymgysylltu priodol â rhanddeiliaid drwy gydol y broses datblygu drwy drefniadau'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ac ymgynghori â'r cyhoedd yn gallu helpu i osgoi'r angen am ymchwiliad annibynnol. |
| **Mabwysiadu a chyhoeddi'r cynllun** | 6 | Gellir diwygio'r cynllun ar ôl ystyried y canlyniadau i ymchwiliad annibynnol. O dan DMMA, mae'n ofynnol i awdurdod y cynllun morol gyhoeddi datganiad yn amlinellu unrhyw addasiadau neu newidiadau sydd wedi'u gwneud yn y cynllun morol a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori, gan egluro'r rhesymau am y newidiadau hyn. Bydd yr adroddiad ar addasiadau yn rhoi crynodeb o'r newidiadau a wnaed a bydd cofnod gydag ef o'r holl sylwadau a gafwyd yn yr ymgynghoriad a'r ymatebion iddynt. |
| **Gweithredu, monitro ac adolygu** | 3, 6 | Mae Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod cynllunio morol yn gyfrifol am fonitro'r cynlluniau morol a'u heffeithiolrwydd ac am adrodd ar y cynlluniau a'u hadolygu bob 3 blynedd. Mae monitro'n hanfodol i fesur effeithiolrwydd polisïau'r cynllun ac i gyfrannu at benderfyniadau ar yr angen am newidiadau ym mholisïau'r cynllun (rheoli ymaddasol).<br>Rhaid i gynllunwyr a rhanddeiliaid gymryd rhan yn y broses monitro ac adolygu er mwyn gwella cynlluniau ar gyfer y dyfodol. |

Yr egwyddorion ICZM sydd wedi'u cymhwyso a'u crybwyll yn y tabl uchod yw:

| | |
|---|---|
| Egwyddor 1 | Persbectif eang cyffredinol (thematig a daearyddol) a fydd yn rhoi sylw i'r gyd-ddibyniaeth rhwng systemau naturiol a gweithgareddau gan bobl a'r gwahaniaethau rhyngddynt ac i'w heffaith ar ardaloedd arfordirol |
| Egwyddor 2 | Persbectif hirdymor a fydd yn ystyried yr egwyddor ragofalus ac anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol |
| Egwyddor 3 | Rheoli ymaddasol yn ystod proses raddol a fydd yn hwyluso ymaddasu wrth i broblemau a gwybodaeth ddatblygu. Mae hyn yn galw am ddealltwriaeth wyddonol gadarn o esblygiad y parth arfordirol |
| Egwyddor 4 | Penodoldeb lleol a'r amrywiaeth fawr o barthau arfordirol Ewropeaidd, a fydd yn ei gwneud yn bosibl ymateb i'w |

| | |
|---|---|
| | hanghenion ymarferol drwy atebion penodol a mesurau hyblyg |
| Egwyddor 5 | Gweithio gyda phrosesau naturiol a pharchu cynhwysedd cludo ecosystemau, a fydd yn peri i weithgareddau gan bobl fod yn fwy ecogyfeillgar, cymdeithasol gyfrifol ac economaidd gadarn |
| Egwyddor 6 | Cynnwys yr holl bartïon cysylltiedig (partneriaid economaidd a chymdeithasol, y sefydliadau sy'n cynrychioli preswylwyr parthau arfordirol, sefydliadau anllywodraethol a'r sector busnes) yn y broses rheoli, er enghraifft drwy gytundebau a thrwy rannu cyfrifoldeb |
| Egwyddor 7 | Cynorthwyo a chynnwys cyrff gweinyddol perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gan sefydlu neu gynnal cysylltiadau priodol rhyngddynt gyda'r bwriad o gydgysylltu'r gwahanol bolisïau presennol yn well. Dylid defnyddio partneriaethau ag awdurdodau lleol a rhanbarthol a phartneriaethau rhyngddynt lle bo'n briodol |
| Egwyddor 8 | Defnyddio cyfuniad o offerynnau sydd â'r bwriad o hwyluso cydlyniaeth rhwng amcanion polisi sectoraidd a chydlyniaeth rhwng cynllunio a rheoli |

## Monitro, adolygu ac adrodd ar gynlluniau

Mae monitro a gwerthuso yn gam hollbwysig yn y broses cynllunio i sicrhau bod y cynllun a'i bolisïau'n cyfrannu'n effeithiol at gyflawni amcanion y cynllun a nodau llesiant Cymru.

Ceir llawer o fonitro ac adrodd eisoes ar faterion morol ledled y DU, er enghraifft, o dan Marine Strategy Part Two: UK marine monitoring programmes.

O dan DMMA, mae'n ofynnol bod awdurdodau cynllunio morol yn adolygu ac yn adrodd bob 3 blynedd ar effeithiau polisïau yn eu cynllun ac ar eu heffeithiolrwydd o ran cyflawni amcanion y cynllun.

Yn unol â DMMA, byddwn yn cyhoeddi adroddiad bob 6 blynedd (tan 1 Ionawr 2030) ar baratoi, mabwysiadu a diwygio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Bob 3 blynedd ar y lleiaf, cynhyrchir adroddiad am effeithiau'r polisïau yn y cynllun morol ac effeithiolrwydd y polisïau hynny o ran cyflawni amcanion y cynllun.

Mae'r broses cynllunio yn ailadroddus; yn unol â DMMA, bydd cynlluniau'n cael eu datblygu yn y dyfodol gan elwa o'r profiad a'r ddealltwriaeth a gafwyd o brosesau cynllunio blaenorol.

Bydd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllunio morol hefyd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd drwy'r broses ehangach ar gyfer cynllunio morol.

DRAFT

# Atodiad 2- Acronymau a Byrfoddau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

| | |
|---|---|
| AGG | Polisi Agregau |
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| AHS | Awdurdod Harbwr Statudol |
| ALl | Awdurdod lleol |
| AMLU | Amcan Morol Lefel Uchel |
| AMP | Cynllun Rheoli Asedau |
| AQMA | Ardal Rheoli Ansawdd Aer |
| AQU | Polisi Dyframaethu |
| BAP | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| BEIS | Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol |
| BMAPA | Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain |
| CAB | Polisi Ceblau o dan y môr |
| CBHC | Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru |
| CCGT | Tyrbinau nwy cylch cyfun |
| CCRA | Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd |
| CCS | Dal a storio carbon |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| CEBR | Centre for Economics and Business Research |
| CEFAS | Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu |
| CFP | Polisi Pysgodfeydd Cyffredin |
| CMCC | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| COLREGS | Rheoliadau IMO ar Wrthdaro |
| CSO | Gorlif Carthffosiaeth Cyfunol |
| D & D | Polisi Carthu a gwaredu |
| DEF | Polisi Amddiffyn |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DfT | Yr Adran Drafnidiaeth |
| DIO | Sefydliad Seilwaith Amddiffyn |
| DMMA | Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 |
| DPM | Datganiad Polisi Morol |
| DWI | Arolygiaeth Dŵr Yfed |
| EA | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| ECON | Polisi Economaidd |
| EEA | Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop |
| EEZ | Parth Economaidd Cyfyngol |
| EIA | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| ELC | Ynni carbon isel |
| ENV | Polisi'r Amgylchedd |
| EPS | Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop |

DRAFT

| | |
|---|---|
| FET | Future Environmental Technologies |
| FHI | Arolygiaeth Iechyd Pysgod |
| FIS | Polisi Pysgodfeydd |
| FPSO | Dadlwytho, storio a chynhyrchu arnofiol |
| FSA | Asiantaeth Safonau Bwyd |
| FfDC | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol |
| GEN | Polisi trawsbynciol cyffredinol |
| GES | Statws Amgylcheddol Da |
| GDP | Cynnyrch Domestig Gros |
| GVA | Gwerth Ychwanegol Gros |
| GOV | Polisi Llywodraethu |
| GRh | Gorchymyn Rheoleiddio |
| HEO | Gorchymyn Grymuso Harbwr |
| HGV | Cerbyd nwyddau trwm |
| HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| HRO | Gorchymyn Diwygio Harbwr |
| HSE | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| HVDC | Cerrynt uniongyrchol foltedd uchel |
| ICZM | Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol |
| IFCA | Awdurdod Gwarchod Pysgodfeydd y Glannau |
| iMADP | Polisi dros dro ar garthu agregau morol |
| INNS | Rhywogaethau estron goresgynnol |
| IMO | Y Sefydliad Morol Rhyngwladol |
| IPCC | Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd |
| IROPI | Am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig. |
| IUCN | Undeb Cadwraeth y Byd |
| JNCC | Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |
| KIS-ORCA | Kingfisher Information Service - Offshore Renewable & Cable Awareness |
| LCRU | Uned Ymchwil Carbon Isel |
| LNG | Nwy Naturiol Hylifedig |
| LRF | Fforwm Lleol Cymru Gydnerth |
| LWEL | Byw o fewn terfynau amgylcheddol |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| MAREA | Asesiad Amgylcheddol Rhanbarthol Agregau Morol |
| MARPOL | Confensiwn Rhyngwladol er Atal Llygredd o Longau |
| MCA | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau |
| MCCIP | Partneriaeth Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd ar y Môr |
| MCRS | Maint cyfeirio cadwraethol lleiaf |
| MCZ | Parth Cadwraeth Morol |
| MER | Y rheidrwydd economaidd i adfer cymaint â phosibl o adnoddau |
| MHPA | Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |
| MHWS | Cymedr penllanw'r gorllanw |
| MLWS | Cymedr distyll y gorllanw |
| MMMU | Uned Rheoli Mamaliaid Môr |
| MOD | Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| MPA | Ardal Forol Warchodedig |

DRAFT

| | |
|---|---|
| MSC | Y Cyngor Stiwardiaeth Forol |
| MSY | Cynnyrch cynaliadwy mwyaf |
| NATURA | Rhwydwaith o ardaloedd gwarchod natur yn yr UE |
| NCP | Cynllun Wrth Gefn Cenedlaethol |
| NE | Natural England |
| NRP | Polisi Adnoddau naturiol |
| NSIP | Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| O & G | Polisi Olew a Nwy |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| OESEA | Asesiad Amgylcheddol Strategol y DU ar gyfer Ynni Alltraeth |
| OFWAT | Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr |
| OGA | Yr Awdurdod Olew a Nwy |
| OPRED | Y Rheoleiddiwr Petrolewm Alltraeth ar gyfer yr Amgylchedd a Datgomisiynu |
| ORJIP | Cyd-raglen y Diwydiant Ynni Adnewyddadwy Alltraeth |
| OSPAR | Confensiwn Oslo-Paris ar warchod yr amgylchedd morol yn rhan Ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd |
| PCC | Polisi Cynllunio Cymru |
| PEXA | Ardal ymarfer y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| PID | Dogfen Cychwyn Prosiect |
| P & S | Polisi Porthladdoedd a morgludo |
| RA | Ardal Adnoddau |
| RAS | Systemau Dyframaethu Ailgylchredeg |
| RAMSAR | Fframwaith ar gyfer Gweithredu Cenedlaethol a Chydweithredu Rhyngwladol er mwyn gwarchod a defnyddio gwlyptiroedd |
| RBMP | Cynllun rheoli basn afon |
| RIGS | Safle Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol |
| RNLI | Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub |
| RPA | Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig |
| RSA | Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau |
| SA | Arfarniad o gynaliadwyedd |
| SBTL | Morlyn Llanw Bae Abertawe |
| SCI | Polisi Gwyddoniaeth |
| SD | Datblygu cynaliadwy |
| SDP | Cynllun Datblygu Strategol |
| SEA | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| SEP | Partneriaeth Aber Hafren |
| SIC | Dosbarthiad Diwydiannol Safonol |
| SMNR | Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |
| SMP | Cynllun Rheoli Traethlin |
| SO | Gorchymyn Pysgodfa Unigol |
| SOC | Polisi Cymdeithasol |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SOLAS | Y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Diogelwch Bywyd ar y Môr |
| SoNaRR | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| SRA | Ardal Adnoddau Strategol |
| SUDS | Cynllun draenio trefol cynaliadwy |

DRAFT
DRAFT

| | |
|---|---|
| SWW | Polisi Trin a gwaredu dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff |
| T & R | Polisi Twristiaeth a hamdden |
| TAN | Nodyn Cyngor Technegol |
| TCE | Ystad y Goron |
| TEN-E | Trans-European Network - Energy |
| TSS | Cynllun gwahanu trafnidiaeth |
| UAS | Systemau awyrennau di-griw |
| UKHO | Swyddfa Hydrograffeg y Deyrnas Unedig |
| UKMMAS | Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU |
| UNCLOS | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr |
| USUV | Cerbydau di-griw ar wyneb y dŵr ac o dan ddŵr |
| WelTAG | Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru |
| WFD | Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| WFGA | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| WMFAG | Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru |
| WORS | Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru |

DRAFT